

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

### 22/10/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol](#)  
[Questions to the Minister for Natural Resources](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi](#)  
[Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty](#)

[Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei Ymchwiliad i Gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd](#)  
[The Environment and Sustainability Committee's Report on its Inquiry into Welsh Government Proposals for the M4 around Newport](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Prentisiaethau](#)  
[Welsh Conservatives Debate: Apprenticeships](#)

[Dadl Plaid Cymru: Amaethyddiaeth](#)  
[Plaid Cymru Debate: Agriculture](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Porthladdoedd](#)  
[Welsh Conservatives Debate: Ports](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)  
[Voting Time](#)

[Dadl Fer: Ffrindiau Dementia—Gweithio tuag at Gymunedau sy'n Ystyriol o Dementia ledled Cymru](#)  
[Short Debate: Dementia Friends—Working towards Dementia-friendly Communities across Wales](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi](#)  
[Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

## Questions to the Minister for Natural Resources

### Triniaeth Thermol Uwch

### Advanced Thermal Treatment

13:30 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

*1. A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhyrchu ynni drwy driniaeth thermol uwch (pyrolysis)? OAQ(4)0211(NR)*

*1. Will the Minister outline the Welsh Government's policy on Advanced Thermal Treatment (pyrolysis) energy generation? OAQ(4)0211(NR)*

13:30 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

I thank the Member for his question. The Welsh Government regards pyrolysis as a developing technology to recover energy from waste. Other common technologies used to recover energy from waste are conventional incineration and gasification. The Welsh Government is technology-neutral on the development of energy recovery capacity, provided from all these methods.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried pyrolysis fel technoleg ddatblygol sy'n adfer ynni o wastraff. Technolegau cyffredin eraill a ddefnyddir i adfer ynni o wastraff yw llosgi confensiynol a nwyeddio. Mae Llywodraeth Cymru yn dechnoleg-niwtral ynghylch datblygu capasiti adfer ynni, sy'n cael ei ddarparu gan yr holl ddulliau hyn.

13:31	<b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Diolch yn fawr, Weinidog. O ystyried yr hyn yr ydych wedi ei ddweud ynglŷn â'r sefyllfa bresennol gyda'r math hwn o gynhyrchu ynni, ydy hi'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn diogelu cymunedau, ac yn diogelu'r hawl i ofyn cwestiynau sylfaenol? Mae grŵp gweithredol wedi ei sefydlu yng Nghwmgwili, lle mae argymhelliad i sefydlu uned i gynhyrchu ynni drwy'r dull hwn. Mae'r grŵp wedi codi nifer o gwestiynau eithriadol o bwysig o ran diogelwch cymunedol, ond mae'n methu â chael atebion gan y cwmni. A oes rôl yn y fan hon i Lywodraeth Cymru sicrhau ei fod yn cael yr atebion hynny, a bod y cwmni yn dod i gyfarfod cyhoeddus i ateb y cwestiynau hyn?</p>	<p>Thank you, Minister. Given what you have said about the current situation with this sort of energy production, is it important that the Welsh Government safeguards communities, and safeguards the right to ask fundamental questions? An action group has been established in Cwmgwili, where it has been recommended that a unit be set up to produce energy using this method. The group has raised a number of exceptionally important questions about community safety, but it is unable to get responses from the company involved. Is there a role here for the Welsh Government to ensure that it gets those answers, and that the company attends a public meeting to respond to these questions?</p>
13:32	<b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Of course, Presiding Officer, as you would expect, I cannot comment on any application, pre or post, in terms of my determination as Minister for planning. However, the Member raises an important point in general about the procedure where companies should engage with communities on all aspects of energy generation, and I would encourage that, wherever that is in Wales.</p>	<p>Wrth gwrs, Lywydd, fel y byddech yn disgwyl, ni allaf roi sylwadau ar unrhyw gais, cyn neu ar ôl fy mhenderfyniad fel y Gweinidog Cynllunio. Fodd bynnag, mae'r Aelod yn codi pwynt pwysig yn gyffredinol am y drefn lle y dylai cwmnïau ymgysylltu â chymunedau ar bob agwedd ar gynhyrchu ynni, a byddwn yn annog hynny, lle bynnag y bo hynny'n berthnasol yng Nghymru.</p>
13:32	<b>Antoinette Sandbach</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Minister, one of the by-products of pyrolysis is syngas, which can be condensed to produce oils, wax and tar. Will you outline whether or not you will be requiring facilities to be in place to effectively capture and make use of syngas if planning permission is granted for such plants to be built in Wales?</p>	<p>Weinidog, un o sgîl-gynhyrchion pyrolysis yw syngas, y gellir ei gyddwyo i gynhyrchu olew, cwyr a thar. A wnewch chi amlinellu a fyddwch yn mynnu bod cyfleusterau'n cael eu codi i gasglu a gwneud defnydd o syngas os rhoddir caniatâd cynllunio i weithfeydd o'r fath gael eu hadeiladu yng Nghymru?</p>
13:32	<b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Well, of course, we need to understand the whole impact of energy development, from start to finish, and what the implications are on communities and by-products from that generation. It would be something that I will seek further advice on in my department, to see whether we would issue guidance, or whether there is guidance already in circulation for this method of energy production.</p>	<p>Wel, wrth gwrs, mae angen inni ddeall holl effaith datblygiad ynni, o'r dechrau i'r diwedd, a goblygiadau'r gwaith cynhyrchu hwnnw ar gymunedau ac o ran sgîl-gynhyrchion. Byddai'n rhywbeth y byddaf yn gofyn am gyngor pellach i'm hadran, er mwyn gweld a fyddem yn cyhoeddi canllawiau, neu a oes canllawiau eisoes ar gael ar gyfer y dull hwn o gynhyrchu ynni.</p>
	<b>Parciau Cenedlaethol</b>	<b>National Parks</b>
13:33	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol parciau cenedlaethol Cymru? OAQ(4)0202(NR)</p>	<p>2. Will the Minister make a statement on national parks in Wales? OAQ(4)0202(NR)</p>
	<b>Paul Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	
	<p>10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i barciau cenedlaethol? OAQ(4)0205(NR)</p>	<p>10. Will the Minister make a statement on how the Welsh Government is supporting national parks? OAQ(4)0205(NR)</p>
13:33	<b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Presiding Officer, I understand that you have agreed to the grouping of questions 2 and 10.</p>	<p>Lywydd, deallaf eich bod wedi cytuno i grwpio cwestiynau 2 a 10.</p>

I want the national parks in Wales to become international exemplars of sustainability: living landscapes with vibrant, resilient communities, and extensive outdoor recreation opportunities, as well as being rich in biodiversity. That is something that I aspire to deliver.

Rwyf am i'r parciau cenedlaethol yng Nghymru ddod yn esiamplau rhyngwladol o gynaliadwyedd: tirweddau byw gyda chymunedau bywiog, cadarn, a chyfleoedd hamdden awyr agored helaeth, yn ogystal â bod yn gyfoethog mewn bioamrywiaeth. Mae hynny'n rhywbeth rwy'n awyddus i'w wireddu.

13:33 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that it is fairly clear that national parks bring an awful lot to Wales, and the special landscapes that they conserve are very important in terms of tourism and quality of life in Wales. Moving forward, Minister, I know that there is a review under way of national parks, in terms of governance, and, indeed, purposes, and I wonder whether you might consider looking at national parks and areas of outstanding natural beauty together, possibly with a joint purpose, very much in line with the sustainable development principles that we have developed here in Wales?

Rwy'n meddwl ei bod yn weddol amlwg bod parciau cenedlaethol yn cyfrannu llawer iawn i Gymru, ac mae'r tirweddau arbennig y maent yn eu cadw yn bwysig iawn o ran twristiaeth ac ansawdd bywyd yng Nghymru. Gan symud ymlaen, Weinidog, gwn fod adolygiad ar y gweill o barciau cenedlaethol, o ran eu llywodraethu, ac, yn wir, o ran eu dibenion, a hoffwn wybod a fydddech efallai'n ystyried edrych ar barciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol gyda'i gilydd, gyda diben cyffredin o bosibl, yn debyg iawn i'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a ddatblygwyd gennym yma yng Nghymru?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:34 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is a very important question that the Member raises this afternoon. Can I start by paying tribute to the work that the Member did in his previous role, in terms of national parks? He was a very good advocate for the parks, and, indeed, continues to be.

Dyma gwestiwn pwysig iawn a godwyd gan yr Aelod y prynhawn yma. A gaf fi ddechrau drwy dalu teyrnged i'r gwaith a wnaeth yr Aelod yn ei rôl flaenorol, o ran y parciau cenedlaethol? Bu'n eiriolwr da iawn o blaid y parciau, ac, yn wir, mae'n parhau i fod.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I would not want to prejudge any consultation process, but I am sympathetic to the principles that the Member raises today, about the aspects of national parks and AONBs, and the purpose of them. It is something that I will give further consideration to when the consultation comes back in.

Fyddwn i ddim am ragfarnu unrhyw broses ymgynghori, ond cydymdeimlaf â'r egwyddorion y mae'r Aelod yn eu codi heddiw, ynghylch yr agweddau ar barciau cenedlaethol ac AHNE, a'u pwrpas. Mae'n rhywbeth y byddaf yn ei ystyried ymhellach pan ddaw'r ymgynghoriad i ben.

13:34 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, your statement last month, on the review of designated landscapes in Wales made it clear that stage 1 will examine the designations themselves, looking at the purposes of these landscapes and the merits of classifying Wales's designated landscapes under one type of designation. Can you tell us when the outcomes of stage 1 will be made public?

Weinidog, mae eich datganiad y mis diwethaf, ar yr adolygiad o dirweddau dynodedig yng Nghymru yn ei gwneud yn glir y bydd cam 1 yn edrych ar y dynodiadau eu hunain, gan edrych ar ddibenion y tirweddau hyn a rhinwedd dosbarthu tirweddau dynodedig Cymru o dan un math o ddynodiad. A allwch ddweud wrthym pryd y cyhoeddir canlyniadau cam 1?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:35 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Early next year.

Yn gynnar y flwyddyn nesaf.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:35 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

O ystyried yr ateb yr ydych newydd ei roi i John Griffiths, rydym eisoes yn gwybod bod y parciau cenedlaethol yn cyfrannu rhywbeth fel £500 miliwn y flwyddyn i economi Cymru. Sut y mae modd cyfuno'r cyfraniad arbennig hwnnw gyda'r dynesiad newydd sy'n trin y parciau a'r bobl sy'n byw yn y parciau ar yr un lefel â safleoedd dynodedig eraill, rhywbeth yr wyf yn gydymdeimladol iawn yn ei gylch?

Given the answer that you have just given to John Griffiths, we already know that the national parks contribute around £500 million a year to the Welsh economy. How can that special contribution be reconciled with the new approach that treats the parks and people living in the parks as being at the same level as other designated area, something which I feel sympathetic towards?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:35	<b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Of course, and I think that the Member raises a very interesting point, as did John Griffiths. The national park status and AONBs, while very similar in surroundings, have two different designations. The evidence that has been called for in the review of designated landscapes will consider this, and I look forward to the responses. I would encourage everybody to get involved in that call for evidence, which is being called as we speak.</p>	<p>Wrth gwrs, a chredaf fod yr Aelod yn codi pwynt diddorol iawn, fel y gwnaeth John Griffiths. Er eu bod yn debyg iawn o ran amgylcheddau, mae statws parciau cenedlaethol ac AHNE yn ddau ddynodiad gwahanol. Bydd y dystiolaeth y galwyd amdani ar gyfer yr adolygiad o dirweddau dynodedig yn ystyried hyn, ac edrychaf ymlaen at weld yr ymatebion. Anogaf bawb i gymryd rhan yn yr alwad hon am dystiolaeth, sydd ar waith ar hyn o bryd.</p>
	<b>Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau</b>	<b>Questions Without Notice from Party Spokespeople</b>
13:36	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>First this afternoon is the opposition's spokesperson, Russell George.</p>	<p>Yn gyntaf y prynhawn yma y mae llefarydd yr wrthblaid, Russell George.</p>
13:36	<b>Russell George</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Deputy Minister, do you believe that you would be best able to serve and stand up for farming communities across Wales if you had a seat around the Cabinet table?</p>	<p>Ddirprwy Weinidog, a ydych o'r farn mai'r ffordd orau i chi allu gwasanaethu a chodi llais dros gymunedau ffermio ledled Cymru yw trwy gael sedd ar fwrdd y Cabinet?</p>
13:36	<b>Rebecca Evans</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p><i>Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food</i></p> <p>I thank the Member for his question and for his vote of confidence in me, in my undertaking of my role. Farming does have a seat around the Cabinet table: the Minister for Natural Resources holds the Cabinet position for farming and food among other things. I am the Deputy Minister with responsibility for the day-to-day management of farming and food issues, and I work very closely with the Minister. Were Cabinet to need to approve an issue relating to farming and food, then I would attend Cabinet to seek that approval. You will be aware that the Conservative and Liberal Democrat UK Government does not have a Secretary of State for farming. Liz Truss is the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs. There are a further 10 Ministers who attend UK Cabinet, and the Minister for farming is not one of them.</p>	<p>Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn ac am ei bleidlais o hyder ynof fi, wrth i mi ymgymryd â'm rôl. Mae ffermio yn cael lle ar fwrdd y Cabinet: y Gweinidog Adnoddau Naturiol sydd â swydd y Cabinet ar gyfer ffermio a bwyd ymysg pethau eraill. Fi yw'r Dirprwy Weinidog sy'n gyfrifol am reoli materion ffermio a bwyd o ddydd i ddydd, a chydweithiaf yn agos iawn â'r Gweinidog. Pe bai'r Cabinet angen cymeradwyo mater sy'n ymwneud â ffermio a bwyd, yna byddwn yn mynd i gyfarfod y Cabinet i ofyn am y gymeradwyaeth honno. Byddwch yn ymwybodol nad oes gan y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llywodraeth y DU Ysgrifennydd Gwladol dros ffermio. Liz Truss yw Ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Mae 10 o Weinidogion pellach sy'n mynychu Cabinet y DU, ac nid yw'r Gweinidog dros ffermio yn un ohonynt.</p>
13:37	<b>Russell George</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Thank you for your answer, Deputy Minister, but what is disappointing is that the Minister to whom you refer has not levered a better deal for Welsh farmers. You must surely be disappointed, Deputy Minister, that 17.8% has been cut from the agriculture and food budget and that over 20% has been cut from the animal health budget, which are some of the largest cuts this Government has seen in this budget. We know that the tough market conditions in the lamb, beef and dairy industries on top of the fall in farm incomes of around 30% have made 2014 an extremely difficult year for our farming communities. Do you think that such a large budget cut and the demotion of agriculture to a Deputy Minister's role is the best way to show that Welsh Government is serious about helping farmers?</p>	<p>Diolch i chi am eich ateb, Ddirprwy Weinidog, ond yr hyn sy'n siomedig yw nad yw'r Gweinidog y bu i chi gyfeirio ato wedi sicrhau gwell bargaen i ffermwyr Cymru. Mae'n rhaid eich bod yn hynod siomedig, Ddirprwy Weinidog, fod 17.8% wedi ei dorri o'r gyllideb amaethyddiaeth a bwyd, a bod dros 20% wedi ei dorri o'r gyllideb iechyd anifeiliaid, sy'n rhai o'r toriadau mwyaf i'r Llywodraeth hon eu gweld yn y gyllideb hon. Gwyddom fod amodau anodd y farchnad yn y diwydiannau cig oen, cig eidion a llaeth yn ogystal â'r gostyngiad mewn incwm ffermydd o tua 30% wedi gwneud 2014 yn flwyddyn anodd iawn i'n cymunedau ffermio. A ydych yn meddwl mai torri'r gyllideb yn y fath fodd ac israddio amaethyddiaeth i rôl Dirprwy Weinidog yw'r ffordd gorau o ddangos bod Llywodraeth Cymru o ddifrif am helpu ffermwyr?</p>

- 13:38 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- If the Member wants to talk about large cuts, we can talk about the £1.5 billion lower settlement that the Welsh Government gets from your UK Government, since 2010. It is not true to suggest that we—[Interruption.]
- Os yw'r Aelod am siarad am doriadau mawr, gallwn siarad am y setliad isaf o £1.5 biliwn a gafodd Llywodraeth Cymru gan eich Llywodraeth chi yn Llundain, ers 2010. Nid yw'n wir i chi awgrymu ein bod—[Torri ar draws.]
- 13:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Order. Would you listen to the Deputy Minister when she is replying, please?
- Trefn. A fydddech cystal â gwrando ar y Dirprwy Weinidog pan fydd yn ateb, os gwelwch yn dda?
- 13:38 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. It is not true to say that we are not meeting the needs of our rural communities. You will be aware that our use of the rural development plan so far has brought skills to people, vibrancy to local communities and stability to the economy in rural Wales. You mentioned beef in particular, and I have taken a specific interest in beef prices and the challenges there. I have organised a beef summit, which is bringing together people from right across the supply chain to see what we can do to support and bolster, improve and enhance the beef industry in Wales. That will be taking place next month.
- Diolch. Nid yw'n wir dweud nad ydym yn diwallu anghenion ein cymunedau gwledig. Byddwch yn ymwybodol bod ein defnydd o'r cynllun datblygu gwledig hyd yn hyn wedi dod â sgiliau i bobl, bywiogrwydd i gymunedau lleol a sefydlogrwydd i'r economi yn y Gymru wledig. Soniasoch yn arbennig am gig eidion, a bu i mi gymryd diddordeb penodol ym mhrisiau cig eidion a'r heriau sy'n ymwneud â hynny. Rwyf wedi trefnu uwchgynhadledd cig eidion, sy'n dwyn ynghyd bobl o bob rhan o'r gadwyn gyflenwi i weld beth y gallwn ei wneud i gefnogi a hybu, gwella a datblygu'r diwydiant cig eidion yng Nghymru. Cynhelir y digwyddiad y mis nesaf.
- 13:39 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for your answer, Deputy Minister, but I do find it difficult to see that Welsh farmers and communities are served by policies when £2.3 million has been cut from the budget that rural-proofs Welsh Government policy. Furthermore, it is deeply concerning to me that £7.3 million has been cut from the animal health budget. A large part of that budget is used to tackle bovine TB, which has proved devastating for farmers' livelihoods. Farms have lost 3,500 cattle this year and 1,000 herds are under TB restrictions. How does the Welsh Government think that such a severe budget cut will help farmers and rural communities tackle this devastating disease?
- Diolch i chi am eich ateb, Ddirprwy Weinidog, ond rwy'n ei chael yn anodd gweld bod ffermwyr a chymunedau Cymru yn cael eu gwasanaethu gan bolisiau pan fo £2.3 miliwn wedi'i dorri o'r gyllideb sy'n prawf-fesur polisiau Llywodraeth Cymru o ran anghenion gwledig. Ar ben hynny, mae'n bryder dirfawr i mi bod £7.3 miliwn wedi'i dorri o gyllideb iechyd anifeiliaid. Mae rhan fawr o'r gyllideb honno yn cael ei defnyddio i fynd i'r afael â TB mewn gwartheg, sydd wedi bod yn ddinistriol i fywoliaeth ffermwyr. Mae ffermydd wedi colli 3,500 o wartheg eleni ac mae 1,000 o fuchesi o dan gyfyngiadau TB. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd torri'r gyllideb mewn modd mor ddifrifol yn helpu ffermwyr a chymunedau gwledig i fynd i'r afael â'r clefyd dinistriol hwn?
- 13:40 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- With regard to the budget for bovine TB, you will be aware that much of that is a demand-led budget, and I am satisfied that we have the money within the pot to meet those demands for the next year. With regard to the RDP, we are still in our final negotiations with the European Commission at the moment. We are working alongside industry to create the kind of schemes and interventions under the RDP that the industry is telling us it wants for a sustainable, resilient and vibrant future.
- O ran y gyllideb ar gyfer TB mewn gwartheg, byddwch yn ymwybodol bod llawer o hynny yn gyllideb sy'n ymateb i'r galw, ac rwy'n fodlon bod gennym yr arian wrth gefn i ateb y galw hwnnw ar gyfer y flyddyn nesaf. O ran y Cynllun Datblygu Gwledig, rydym yn dal i gynnal ein trafodaethau terfynol gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ar hyn o bryd. Rydym yn gweithio law yn llaw â'r diwydiant i greu'r math o gynlluniau ac ymyriadau o dan y Cynllun Datblygu Gwledig y mae'r diwydiant yn gofyn i ni amdanynt er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy, cadarn a ffyniannus.
- 13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Llyr Gruffydd.
- Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Llyr Gruffydd.
- 13:40 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch, Llywydd. Ddirprwy Weinidog, beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau gwell pris i ffermwyr Cymru am eu llaeth?
- Thank you, Presiding Officer. Deputy Minister, what is the Government doing to ensure farmers get a better price for their milk?

- 13:40 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The Member will be aware that I attended the Welsh dairy show just last week, where I announced a review into the dairy sector in Wales. I have asked the Wales dairy taskforce to provide me with the name of the person best suited to undertake that independent inquiry. I expect to have that name early next week and to be able to make an announcement on the next steps during next week, and that should include the terms of reference for that independent inquiry.
- Fel y gŵyr yr Aelod, roeddwn yn bresennol yn sioe laeth Cymru yr wythnos diwethaf, lle y bu i mi gyhoeddi adolygiad o'r sector laeth yng Nghymru. Rwyf wedi gofyn i dasglu laeth Cymru roi enw'r person mwyaf addas i ymgymryd â'r ymchwiliad annibynnol hwnnw. Rwy'n disgwyl cael yr enw yn gynnar yr wythnos nesaf a gallaf wneud cyhoeddiad ar y camau nesaf yn ystod yr wythnos nesaf, a dylai hynny gynnwys y cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad annibynnol hwnnw.
- 13:41 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch i chi am eich ateb. Yn anffodus, nid wyf yn meddwl mai adolygiad y mae ar ffermwyr Cymru ei eisiau ar hyn o bryd ond gweithredu. Mae nifer o bobl yn gwybod am rai pethau y gellid eu gwneud. Rwy'n cydnabod efallai yn y tymor hirach fod gwerth cael adolygiad, wrth gwrs, ond mae pwysau uniongyrchol ar hyn o bryd ar y sector laeth yng Nghymru, a byddai amaethwyr, yn fy marn i, yn chwilio am weithredu yn y cyd-destun hwnnw. Yn y gorffennol, rwyf wedi codi mater y cod laeth gwirfoddol gyda chi a'r angen i gryfhau y cod, ac o bosibl, symud at god gorfodol. Rydych chi, wrth ateb, wedi dweud eich bod yn aros i weld canlyniad adolygiad Alex Ferguson i mewn i sut mae'r cod hwnnw wedi gweithredu yn y ddwy flynedd ddiwethaf. 'Nawr bod yr adroddiad hwnnw wedi'i gyhoeddi—ac rwy'n siŵr eich bod wedi cael cyfle i edrych arno—a allwch chi ddweud wrthym a ydych chi o blaid cryfhau'r cod, ac yn fwy penodol, a fydddech chi o blaid cod gorfodol?
- Thank you for your response. Unfortunately, I do not think that a review is what Welsh farmers want at this point, but action. Many people know of some things that could be done. I acknowledge in the longer term that there might be value in having a review, of course, but there is direct pressure on the dairy sector in Wales now, and farmers, in my opinion, would be looking for action in that context. In the past, I have raised the issue of the voluntary milk code with you, and the need to strengthen the code, with possibly a move towards a compulsory code. You, in response, have said that you are waiting for the outcome of the Alex Ferguson review into how the code has worked over the past two years. Now that that report has been published—and I am sure that you have had an opportunity to read it—can you tell us whether you are in favour of strengthening the code, and more specifically, whether you would be in favour of a compulsory code?
- 13:42 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The key recommendation of that review was better engagement by farmers and processors within the voluntary code as it stands. I would support that recommendation. However, I would expect the forthcoming review to consider the way forward for the voluntary code to also be part of that piece of work.
- Argymhelliad allweddol yr adolygiad hwnnw oedd cael gwell ymgysylltiad gan ffermwyr a phroseswyr yn y cod gwirfoddol fel y mae. Byddwn yn cefnogi'r argymhelliad hwnnw. Fodd bynnag, byddwn yn disgwyl i'r adolygiad arfaethedig ystyried y ffordd ymlaen ar gyfer gwneud y cod gwirfoddol yn rhan o'r darn hwnnw o waith hefyd.
- 13:42 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- lawn. Felly, arhoswn ni am y 'review' eto yn y cyd-destun yna. Yn olaf, mae eich rhagflaenydd wedi sôn yn y gorffennol am y posibilrwydd o greu corff ar fodel Hybu Cig Cymru er mwyn hyrwyddo laeth yng Nghymru. Yn sicr, mae angen edrych ar y modd mae laeth Cymru yn cael ei farchnata, yn fy marn i. A gaf ofyn pa ystyriaeth yr ydych wedi ei rhoi i greu corff o'r fath? Pa ymchwil o bosibl mae'r Llywodraeth wedi ei wneud, a beth yw eich bwriad chi yn y cyd-destun yna?
- Right. So, we will again await the review in that context. Finally, your predecessor mentioned in the past the possibility of creating an organisation to promote milk in Wales along the lines of the Hybu Cig Cymru model. We certainly need to look at how Welsh milk is marketed, in my view. May I ask what consideration you have given to the creation of such a body? What research might the Government have done, and what is your intention in that context?



- 13:42 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I have been aware of your call for a Hybu Cig Cymru-style body for dairy in Wales, and I have given it some consideration. Unfortunately, I do not think that the moneys that would be available for such a board would be substantial enough to make a great impact in Wales. We have to remember also that 50% of our milk is liquid milk, and that the other 50% goes into value-added products. It would be very difficult to advertise each of those value-added products through that very small levy payment as well. However, this might be something that the review looks at. I am sorry that you do not welcome this review. I have said that it is going to be a short, sharp review, and I think that perhaps you are out of step, because the farming industry has certainly welcomed the review and welcomed the opportunity to engage on the issues.
- Rwyf wedi bod yn ymwybodol ac wedi ystyried eich galwad am gorff ar ffurf Hybu Cig Cymru ar gyfer llaeth yng Nghymru. Yn anffodus, ni chredaf y byddai'r arian a fyddai ar gael ar gyfer bwrdd o'r fath yn ddigon sylweddol i gael effaith fawr yng Nghymru. Mae'n rhaid i ni gofio hefyd fod 50% o'n llaeth yn llaeth hylif, a bod y 50% arall yn mynd i mewn i gynnyrch gwerth ychwanegol. Byddai'n anodd iawn hysbysebu pob un o'r cynhyrchion gwerth ychwanegol hynny trwy'r taliad ardoll bach iawn hwnnw hefyd. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn rhywbeth i'r adolygiad ei ystyried. Mae'n ddrwg gennyf nad ydych yn croesawu'r adolygiad hwn. Rwyf wedi dweud y bydd yn adolygiad byr a sydyn, a chredaf eich bod yn cyfeiliorni, gan fod y diwydiant ffermio yn sicr wedi croesawu'r adolygiad ac yn croesawu'r cyfle i fynd i'r afael â'r materion.
- 13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to the Liberal Democrats' spokesperson, William Powell.
- Symudwn yn awr at lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, William Powell.
- 13:43 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, a briefing note from Natural Resources Wales to your predecessor, Alun Davies, revealed that, at that time, it was anticipating having a £14.6 million deficit for 2015-16. Minister, can you tell me please if that is still anticipated to be the case, and if not, what is the current state of NRW's projected deficit?
- Weinidog, mewn nodyn briffio gan Cyfoeth Naturiol Cymru at eich rhagflaenydd, Alun Davies, rhagwelwyd ar y pryd fod diffyg o £14.6 miliwn ar gyfer 2015-16. Weinidog, a allwch ddweud wrthyf os gwelwch yn dda ai hynny sy'n ddisgwyliedig o hyd, ac os nad hynny, beth yw cyflwr presennol diffyg a ragwelir CNC?
- 13:44 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am unable to provide the Member with a definitive figure today, but I will write to the Member with that. However, I can give assurances to the Chamber, and to the Member that the arm's-length body, NRW, is very capable of managing its budgets and delivering on the aspects of the remit letter provided by the previous Minister, and an updated version from me.
- Ni allaf ddarparu ffigur pendant i'r Aelod heddiw, ond byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod i'w hysbysu. Fodd bynnag, gallaf roi sicrwydd i'r Siambwr, ac i'r Aelod bod y corff hyd braich, CNC, yn gwbl alluog i reoli ei gyllidebau a chyflawni ar agweddau'r llythyr cylch gwaith a ddarparwyd gan y Gweinidog blaenorol, ac ar fersiwn wedi'i diweddarau oddi wrthyf finnow.
- 13:44 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I am very grateful for that response. One reason for the establishment of Natural Resources Wales, of course, was to save money. In that context, ICT costs are currently escalating to almost £21 million in the first two years. With that money therefore not going to the front line, in addition to 177 staff already laid off and a further 100 expected to leave the organisation in the time to come, things are looking, I would argue, rather bleak. Can you explain how NRW will be able to carry out its key duties if its budget is to be so desperately squeezed?
- Weinidog, rwy'n ddiolchgar iawn am yr ymateb hwnnw. Un rheswm dros sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru, wrth gwrs, oedd er mwyn arbed arian. Yn y cyd-destun hwnnw, mae costau TGCh ar hyn o bryd wedi cynyddu i bron £21 miliwn yn y ddwy flynedd gyntaf. Gan nad yw'r arian hwnnw felly'n mynd i'r rheng flaen, yn ogystal â'r 177 o staff sydd eisoes wedi'u gwneud yn ddi-waith a'r 100 pellach sy'n disgwyl gadael y sefydliad maes o law, byddwn i'n dadlau bod pethau'n edrych braidd yn llwm. A allwch chi egluro sut y gall CNC gyflawni ei ddyletswyddau allweddol os yw ei gyllideb dan wasgfa mor ddifrifol?
- 13:45 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Let me say, I absolutely do not agree with the Member in terms of the times looking bleak for NRW. It is doing a fantastic job. The workforce was out last year dealing with flooding issues right across Wales. Yesterday, it was dealing with flooding issues in the situation in which we find ourselves in Wales.
- Hoffwn ddweud, fy mod yn anghytuno'n llwyr â'r Aelod pan ddywed bod pethau'n edrych yn llwm i CNC. Maent yn gwneud gwaith gwych. Y llynedd, roedd y gweithlu yn ymdrin â phroblemau'r llifogydd ledled Cymru. Ddoe, roedd yn ymdrin â materion llifogydd yn y sefyllfa y cawn ein hunain ynddi yng Nghymru.

Two thousand miles of flood defences were delivered by NRW in the last two years and 100,000 homes were protected and mitigated from flooding issues across Wales. That is what NRW is delivering. I am very confident about the body and there is a cost-saving exercise that is planned and projected by NRW, which it is on target to deliver.

Darparwyd dwy fil o filltiroedd o amddiffynfeydd rhag llifogydd gan CNC yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda 100,000 o gartrefi yn cael eu diogelu a phroblemau llifogydd yn cael eu lliniaru ledled Cymru. Dyna beth y mae CNC yn ei gyflawni. Rwy'n hyderus iawn ynglŷn â'r sefydliad ac mae gan CNC ymarfer arbed costau wedi'i gynllunio a'i ragfynegi sydd yn ôl y targedau'n mynd i gael ei wireddu.

13:45 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I would associate myself with your remarks in terms of supporting NRW and the valuable work that it has done on flooding. That is not an issue that I would choose to take up.

Diolch i chi, Weinidog. Byddwn yn ategu eich sylwadau o ran cefnogi CNC a'r gwaith gwerthfawr y mae wedi'i wneud ar lifogydd. Nid yw hynny'n fater y byddwn yn dewis ei drafod.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

However, according to a freedom of information request to NRW, one of the ways in which it is planning to address the anticipated deficit is through the sale of so-called non-essential woodland estate and through increasing commercial income of forestry. This drive to raise funds is perhaps understandable in the current circumstances, but could it not be leading to Welsh forestry being depleted too quickly and that precious forestry resource being sold at too low a price—a price that is already artificially lower because of the impact of Phytophthora and other tree disease issues? Is there not a danger that NRW is repeating the mistakes that we saw under Gordon Brown's regime of flogging our gold for a quick fix, rather than playing a more prudent long-term game with that precious natural resource of Wales's timber?

Fodd bynnag, yn ôl cais rhyddid gwybodaeth i CNC, un o'r ffyrdd y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r diffyg a ragwelir yw drwy werthu'r hyn a elwir yn ystadau coed dianghenraid a chynyddu incwm masnachol coedwigaeth. Mae'r ymgyrch i godi arian efallai'n ddealladwy yn yr hinsawdd bresennol, ond oni all hyn arwain at ddisbyddu coedwigaeth Cymru yn rhy gyflym a gwerthu adnoddau coedwigaeth gwerthfawr am bris rhy isel—pris sydd eisoes yn artiffisial o isel oherwydd effaith Phytophthora a chlefydau coed eraill? Onid oes perygl i CNC ailadrodd y camgymeriadau a welsom o dan drefn Gordon Brown o werthu ein haur er mwyn cael ateb cyflym, yn hytrach na chwarae gêm hirdymor, fwy darbodus gydag adnoddau coed naturiol gwerthfawr Cymru?

13:47 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You kill me with the irony of your questions. [Interruption.]

Mae eironi eich cwestiynau yn gwneud i mi chwerthin. [Torri ar draws.]

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The Member raises an interesting point. He will not be surprised that I do not agree with him. I will take no lessons from the fact that we are very clear on our policy objectives. NRW is delivering them. I am very pleased with the work that committed staff members are doing towards a transitional programme for a new body.

Mae'r Aelod yn codi pwynt diddorol. Ni fydd ef yn synnu nad wyf yn cytuno ag ef. Nid oes gwers i mi yn y ffaith ein bod yn glir iawn ynglŷn â'n hamcanion polisi. Mae CNC yn eu cyflawni. Rwy'n falch iawn o'r gwaith y mae aelodau staff cydwybodol yn ei wneud ar gyfer rhaglen drosiannol i'r corff newydd.

The principle of the three organisations that were brought together was about creating sustainable development at the heart of delivery: the environment, social and economic impact, on which NRW is delivering. I am confident that it can do its job progressively in a way that will deliver for Wales.

Roedd yr egwyddor o ddod â'r tri sefydliad at ei gilydd yn ymwneud â rhoi datblygu cynaliadwy wrth wraidd y gwaith cyflawni: yr amgylchedd, effaith gymdeithasol ac effaith economaidd, sy'n bethau y mae CNC yn eu cyflawni. Rwy'n hyderus y gall barhau i wneud ei waith mewn ffordd a fydd yn cyflawni dros Gymru.

13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Question 3, OAQ(4)0212(NR), has been withdrawn.

Tynnwyd cwestiwn 3, OAQ(4)0212(NR), yn ôl.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

### Cronfa Natur

### Nature Fund

13:47 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyraniad cyllid y Gronfa Natur? OAQ(4)0215(NR)

4. Will the Minister make a statement on funding allocated to the Nature Fund? OAQ(4)0215(NR)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



- 13:48 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We have announced previously £1.3 million of funding for two nature fund projects and I will be making a further announcement shortly.
- Bu i ni eisoes gyhoeddi cyllid o £1.3 miliwn ar gyfer dau brosiect cronfa natur a byddaf yn gwneud cyhoeddiad pellach yn fuan.
- 13:48 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Rwy'n deall bod y Llywodraeth wedi penderfynu peidio â chael ffurflen gais ffurfiol na chanllawiau ffurfiol ar gyfer y gronfa natur. O ganlyniad, mae rhai sefydliadau nad oedd yn llwyddiannus mewn cael arian hyd yma, yn cynnwys Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru, sydd wedi gwneud gwaith rhagorol yn fy etholaeth i, wedi ei chael hi'n anodd cael adborth ar le aethant o'i le, ac eglurhad o pam na dderbyniion nhw arian. A all y Gweinidog rhoi diweddariad i ni o unrhyw ffordd y mae am allu helpu efo gwaith cadwraeth y wiwer goch yn y dyfodol? A yw'n cytuno ei bod yn bwysig i'r Llywodraeth gael strategaeth glir iawn wrth ddyrannu arian fel hyn, fel bod y trethdalwr a sefydliadau megis Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru, yn gwybod bod y Llywodraeth yn mynd ar ôl y pethau iawn?
- I understand that the Government has decided to not have a formal application form or formal guidance for the nature fund. As a result, some organisations that have to date been unsuccessful in securing funding, including the Red Squirrels Trust Wales, which has undertaken excellent work in my constituency, have found it difficult to gain feedback on where they went wrong and to have an explanation of why they did not secure funding. Can the Minister provide us with an update on any ways in which he can help with conservation work in relation to the red squirrel in future? Does he agree that it is important for the Government to have a clear strategy in allocating funds such as these, so that the taxpayer and organisations such as the Red Squirrels Trust Wales know that the Government is going after the right things?
- 13:49 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am more than happy, Presiding Officer, to write to the Member in respect of the specific programme that he questioned me on. However, I do not accept that we do not have a view and a vision in terms of what we are trying to do to sustain biodiversity across Wales. The nature fund opened for grant proposals in June 2014. We received over 60 submissions and we are working through them to ensure that we get value for money. The something-for-something agenda is something that I am clear that we must have in the very tight financial settlement in which we find ourselves.
- Rwy'n fwy na pharod, Lywydd, i ysgrifennu at yr Aelod mewn perthynas â'r rhaglen benodol y gofynnodd i mi amdani. Fodd bynnag, nid wyf yn derbyn nad oes gennym farn a gweledigaeth o ran yr hyn y ceisiwn ei wneud i gynnal bioamrywiaeth ar draws Cymru. Agorodd y gronfa natur ar gyfer cynigion grant ym mis Mehefin 2014. Cawsom dros 60 o geisiadau ac rydym yn edrych arnynt er mwyn sicrhau ein bod yn cael gwerth am arian. Mae'r agenda 'rhywbeth am rywbeth' yn agwedd y credaf yn glir y mae'n rhaid i ni ei chael o ystyried y setliad ariannol tynn iawn yr ydym yn ei wynebu.
- 13:49 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I welcome the something-for-something agenda, and perhaps you could tell me how it is that you plan to measure the success of the investment through the nature fund, which is something I have always supported. I think it will certainly bring some valuable developments in north Wales. The two previous projects that received support are in north Wales, but how will you measure the success of the projects?
- Weinidog, croesawaf yr agenda 'rhywbeth am rywbeth', ac efallai y gallech ddweud wrthyf sut yr ydych yn bwriadu mesur llwyddiant y buddsoddiad drwy'r gronfa natur, sy'n rhywbeth a gefnogais ar hyd yr amser. Credaf y bydd yn siŵr o ddod â rhai datblygiadau gwerthfawr yn y gogledd. Roedd y ddau brosiect blaenorol a gafodd gefnogaeth yn y gogledd, ond sut y byddwch yn mesur llwyddiant y prosiectau?
- 13:50 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Of course, the success is part of the business model that has been grant funded. There is a pathway of intervention, support and outcomes that will be expected from that, and we will test those proposals as we work through them. It is very early days; as the Member recognises, only two projects have been funded to date. I will be issuing further outcomes in terms of the nature fund shortly, and I look forward to the progressive nature of change in our countryside, right across the length and breadth of Wales.
- Wrth gwrs, mae'r llwyddiant yn rhan o'r model busnes a dderbyniodd gyllid grant. Yn sgîl hynny, mae llwybr o ymyrraeth, cymorth a chanlyniadau, a byddwn yn profi'r cynigion hynny wrth i ni weithio drwyddynt. Mae'n ddyddiau cynnar iawn; fel y noda'r Aelod, dim ond dau brosiect sydd wedi'u hariannu hyd yn hyn. Byddaf yn cyhoeddi canlyniadau pellach o ran y gronfa natur cyn bo hir, ac edrychaf ymlaen at natur gynyddol newidiadau yn ein cefn gwlad, ar hyd a lled Cymru gyfan.

13:50	<p><b>Aled Roberts</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Weinidog, rwyf hefyd wedi derbyn cwynion ynglŷn â natur y broses ceisio am y grant hwn, ond, wrth ystyried cynifer oedd wedi ymgeisio am grantiau, mae datganiad gwreiddiol y Gweinidog a oedd yn eich blaenori chi yn sôn am saith ardal sy'n cael blaenoriaeth. Felly, a ydych chi'n mynd i gyfyngu'r grant yn y lle cyntaf i'r ardaloedd hynny neu a ydych chi'n mynd i edrych ar gynlluniau ar draws Cymru?</p>	<p>Minister, I have also received complaints about the nature of the application process for this grant, but given the numbers of applicants for grants and the fact that the original statement by your predecessor mentioned seven areas that are to be prioritised, will you limit the grant initially to those areas or are you going to look at plans across Wales?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:51	<p><b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>We have received 62 proposals for the fund. The fund is now oversubscribed. We will not be taking any more applications on that basis. I will be considering the applications in detail now as to what the allocation will be. We may be looking at proportionality in terms of the applications, and a bid may not receive the full amount in order to make that go further, but the decision will be based on the priorities that were set very clearly in the grant letter and application process through which the agencies applied to the Welsh Government.</p>	<p>Rydym wedi derbyn 62 o gynigion ar gyfer y gronfa. Mae'r gronfa bellach dan ei sang. Felly, ni fyddwn yn derbyn rhagor o geisiadau. Byddaf yn ystyried y ceisiadau yn fanwl yn awr wrth benderfynu ar y dyraniad. Efallai y byddwn yn edrych ar gymesuredd o ran y ceisiadau, ac efallai na fydd cais yn derbyn y swm llawn er mwyn gwneud i'r gronfa fynd ymhellach, ond bydd y penderfyniad yn seiliedig ar y blaenoriaethau a nodwyd yn glir iawn yn y llythyr grant a'r broses ymgeisio a ddefnyddiodd yr asiantaethau wrth wneud cais i Lywodraeth Cymru.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Plannu Coetir</b>		<b>Woodland Planting</b>	
13:51	<p><b>Alun Ffred Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar darged Cyfoeth Naturiol Cymru i blannu 100,000 hectar o goetir erbyn 2030? OAQ(4)0206(NR)</i></p>	<p><i>5. Will the Minister make a statement on Natural Resources Wales's target to plant 100,000 hectares of woodland by 2030? OAQ(4)0206(NR)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:51	<p><b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I thank the Member for his question. The Welsh Government, together with Natural Resources Wales, is committed to planting more trees in Wales. Future delivery of the Welsh Government's 100,000 ha target for woodland creation is being considered as part of a review of the land use and climate change report.</p>	<p>Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â Chyfoeth Naturiol Cymru, wedi ymrwymo i blannu rhagor o goed yng Nghymru. Bydd y gwaith arfaethedig o gyrraedd targed 100,000 ha Llywodraeth Cymru i greu coetiroedd yn cael ei ystyried fel rhan o adolygiad o'r adroddiad ar ddefnydd tir a newid yn yr hinsawdd.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:52	<p><b>Alun Ffred Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Mae hwnnw'n swnio i mi fel nad ydy'r targed hwnnw yn mynd i aros yn hir iawn, ac nid oes rhyfedd, achos, yn y tair neu bedair blynedd diwethaf, dim ond 1,200 ha o goetir sydd wedi cael ei blannu. A dweud y gwir, ailblannu ar dir sydd yn goetir yn barod ydy hynny, a rhyw 200 ha o goetir newydd sydd wedi cael ei blannu. Felly, a ydy'r targed hwn yn un rydych chi'n glynu ato neu a ydyw, mewn gwirionedd, yn un targed arall a fydd yn cael ei ollwng?</p>	<p>That sounds to me as though that target is not going to last very long, and that is no surprise, because, in the last three or four years, only 1,200 ha of woodland has been planted. To be honest, this is replanting on land that is already woodland, and about 200 ha of new woodland has been planted. Therefore, is this a target that you are sticking to or is it, really, another target that will be dropped?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:52	<p><b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>In my response to the Member, I said that we will be reviewing the issue around woodland creation. I did not say anything about dropping targets or otherwise. What I am really keen to understand better—and I am new in post, Presiding Officer—is why we issue a target of hectares of trees when, actually, what is more appropriate, I believe, is the type of trees and where we place them in terms of biodiversity. That is more important to me and that is something that I will be asking the landscape teams to demonstrate in submissions to me in the near future.</p>	<p>Yn fy ymateb i'r Aelod, dywedais y byddwn yn adolygu'r mater ynglŷn â chreu coetiroedd. Ni ddywedais air am ostwng targedau neu fel arall. Yr hyn yr wyf yn wirioneddol awyddus i'w ddeall yn well—Lywydd, â minnau'n newydd yn y swydd—yw, pam ein bod yn cyhoeddi targed o hectarau o goed, tra yr hyn sy'n fwy priodol, mewn gwirionedd, yn fy marn i, yw'r math o goed a lleoliad y coed o ran bioamrywiaeth. Mae hynny'n bwysicach i mi ac mae hynny'n rhywbeth y byddaf yn gofyn i'r timau tirwedd ei ddangos mewn cyflwyniadau i mi yn y dyfodol agos.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

- 13:53 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, is the target going to remain in place? What types of trees are planted is really neither here nor there. If you have a target of 100,000 ha of trees, are you keeping that target in place and are you satisfied that you can achieve it, given, for example, that Natural Resources Wales has already said that the funds allocated to it to deal with *Phytophthora ramorum* do not include replanting costs and, for all the reasons that we have heard earlier, it is unlikely to be able to replant felled forestry on the Welsh Government's own estate, let alone create new forestry?
- Weinidog, a yw'r targed yn mynd i aros fel y mae? Nid yw'r math o goed a gaiff eu plannu mewn gwirionedd nac yma nac acw. Os oes gennych darged o 100,000 ha o goed, a ydych yn cadw'r targed hwnnw yn ei le ac a ydych yn fodlon y gallwch ei gyrraedd, o ystyried, er enghraifft, fod Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes wedi dweud nad yw'r arian a ddyrannwyd iddo i fynd i'r afael â *Phytophthora* yn cynnwys costau ailblannu ac, am yr holl resymau a glywsom cynt, mae'n annhebygol o allu ailblannu'r coed a gafodd eu cwmpo ar ystâd Llywodraeth Cymru ei hun, heb sôn am greu coedwigoedd newydd?
- 13:53 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I refer the Member to my previous response. The point being that if we continue with this target of planting hectares, in terms of scale—. What I think is more important, and I still subscribe to this, is the fact that where we plant and what we plant are really important, depending on the climate and the biodiversity of the area. I will give an example to the Member. In flooded areas, we should be planning much more willow, with the approach of taking advantage of its huge usage of water. Therefore, we should not be considering planting any old trees anywhere. Actually, this is about being prescriptive about what is best for biodiversity in an area.
- Cyfeiriaf yr Aelod at fy ateb blaenorol. Y pwynt yw, os byddwn yn parhau â'r targed hwn o hectarau plannu, o ran graddfa—. Yr hyn y credaf sy'n bwysicach, ac rwy'n dal i gefnogi hyn, sef bod lle rydym yn plannu a beth rydym yn plannu yn bwysig iawn, yn dibynnu ar hinsawdd a bioamrywiaeth yr ardal. Rhoddaf enghraifft i'r Aelod. Mewn ardaloedd dan ddŵr, dylem fod yn plannu llawer mwy o goed helyg, gan fynd ati i fanteisio ar eu defnydd enfawr o ddŵr. Felly, ni ddylem fod yn mynd ati i blannu pob math o goed ym mhobman. Mewn gwirionedd, mae hyn ynglŷn â rhagnodi'r hyn sydd orau ar gyfer bioamrywiaeth mewn ardal.
- Llyisiau'r Dial** **Japanese Knotweed**
- 13:54 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â llyisiau'r dial? OAQ(4)0203(NR)*
- 6. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's policy on tackling Japanese knotweed? OAQ(4)0203(NR)*
- 13:54 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for your question. The Welsh Government's policy has not changed. Numerous statements regarding Japanese knotweed have been made in this Chamber.
- Diolch i chi am eich cwestiwn. Nid yw polisi Llywodraeth Cymru wedi newid. Mae nifer o ddatganiadau ynglŷn â Chlymog Japan wedi'u gwneud yn y Siambr hon.
- 13:55 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. You will know, of course, that there is a huge problem on private land throughout Wales of Japanese knotweed intruding on other people's land and that local councils have very little powers in which to tackle that. Will you be considering, over the next 18 months or so, the legislative opportunities to try to give councils more powers to tackle the problem of Japanese knotweed on that private land?
- Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Gwyddoch, wrth gwrs, fod yna broblem enfawr ar dir preifat ledled Cymru lle mae Clymog Japan yn lledu i dir pobl eraill ac nad oes gan gynghorau lleol fawr ddim pwerau i fynd i'r afael â hynny. A fyddwch yn ystyried, yn ystod y 18 mis nesaf, y cyfleoedd deddfwriaethol i geisio rhoi mwy o bwerau i gynghorau fynd i'r afael â phroblem Clymog Japan ar y tir preifat hwnnw?
- 13:55 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- There is legislation in place regarding invasive species. It is something that I have asked my team to look at in more detail because of questioning. I know that it seems to be very prevalent in the Swansea region and the Swansea area. Mike Hedges is constantly asking me about this issue, as does the Member himself. It is something that we will be taking very seriously, to see whether we can work on supporting the two-year trial project with Swansea University further in terms of the chemical control of knotweed in the Swansea area.
- Mae deddfwriaeth yn ei lle ynghylch rhywogaethau ymledol. Mae'n rhywbeth y gofynnais i'm tîm ei ystyried yn fanylach oherwydd y cwestiynau. Gwn yr ymddengys ei fod yn gyffredin iawn yn rhanbarth Abertawe ac ardal Abertawe. Mae Mike Hedges yn fy holi'n gyson ynglŷn â'r mater hwn, fel y mae'r Aelod ei hun. Mae'n rhywbeth y byddwn yn ei gymryd o ddifrif, er mwyn gweld a allwn weithio ymhellach ar gefnogi'r prosiect prawf dwy flynedd gyda Phrifysgol Abertawe o ran defnyddio cemegau i reoli Clymog Japan yn ardal Abertawe.

13:55 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)

Minister, I am going to add to the Swansea issue by saying that Swansea is suffering under the strain of an estimated 62,000 tonnes of Japanese knotweed. It is having a very real knock-on effect for the local housing market. I understand that the council has spent £200,000 in recent years, that it is estimated to have cost £9.5 million in chemical treatment, and that it will take approximately 50 years to eradicate. I have heard your answer to Peter Black, but what additional measures do you think you can take to assist in this march on our properties, particularly in the Swansea area, where it is very evident?

Weinidog, hoffwn ychwanegu ynglŷn â sefyllfa Abertawe trwy ddweud bod Abertawe yn dioddef o dan straen y 62,000 tonnall a amcangyfrifwyd o Glymog Japan. Mae'n cael sgîl-effaith wirioneddol ar y farchnad dai leol. Deallaf fod y cyngor wedi gwario £200,000 yn y blynyddoedd diwethaf, yr amcangyfrifwyd iddynt wario £9.5 miliwn ar driniaeth gemegol, ac y bydd yn cymryd tua 50 mlynedd i gael gwared arno. Clywais eich ateb i Peter Black, ond pa fesurau ychwanegol ydych chi'n meddwl y gallwch eu cymryd i helpu i atal y cyrch hwn ar ein heiddo, yn enwedig yn ardal Abertawe, lle mae'n lluosog iawn?

13:56 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)

I recognise the issue that the Members have raised in the Chamber with me regarding this one issue of Japanese knotweed. At present, there is no mechanism to compel an owner or occupier of premises or land to control invasive non-native species, or to control measures without an owner or occupier's consent. This is something that we could consider in a legislative profile for this Government, or perhaps it is something a future government may wish to consider.

Rwy'n cydnabod y mater a gododd yr Aelodau yn y Siambur gyda mi ynglŷn â Chlymog Japan. Ar hyn o bryd, nid oes mecanwaith i orfodi perchennog neu feddiannydd mangre neu dir i reoli rhywogaethau anffrodorol goresgynnol, neu i reoli mesurau heb ganiatâd y perchennog neu'r deiliad. Mae hyn yn rhywbeth y gallem ei ystyried mewn proffil deddfwriaethol ar gyfer y Llywodraeth hon, neu efallai ei fod yn rhywbeth y bydd llywodraeth yn y dyfodol am eu hystyried.

13:57 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)

Minister, I see from your website that the invasive non-native species working group provides support and advice for the control of Japanese knotweed, and that it states that significant progress has been made since 2008. I wonder whether you would publish the details of that significant progress. Would you also ask Natural Resources Wales to routinely publish its prosecution rates in relation to this problem? I think that people having to submit freedom of information requests makes it seem as if there is something to hide. Of course, we know that, in this issue, as there have been no prosecutions, there is nothing to hide.

Weinidog, gwelaf ar eich gwefan fod gweithgor y rhywogaethau anffrodorol goresgynnol yn darparu cymorth a chyngor ar gyfer rheoli Clymog Japan, a'i fod yn nodi bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ers 2008. Tybed a fydddech yn cyhoeddi manylion y cynnydd sylweddol. A fydddech hefyd yn gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru gyhoeddi ei gyfraddau erlyn fel mater o drefn mewn perthynas â'r broblem hon? Credaf fod yr angen i bobl gyflwyno ceisiadau rhyddid gwybodaeth yn creu'r argraff bod yna rywbeth i'w guddio. Wrth gwrs, gwyddom, yn y mater hwn, gan na fu unrhyw erlyniadau, nad oes dim i'w guddio.

13:57 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)

I am grateful for the Member's question, as always. I will look in detail to see what I can provide and what NRW can provide to the Member to give her confidence that the system is working effectively.

Diolch am gwestiwn yr Aelod, fel bob amser. Edrychaf yn fanwl i weld beth y gallaf ei gynnig a beth y gall CNC ei ddarparu i'r Aelod er mwyn rhoi hyder iddi fod y system yn gweithio'n effeithiol.

## Ailgylchu Gwastraff Organig

13:58 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ailgylchu gwastraff organig yng Nghymru? OAQ(4)0207(NR)*

*7. Will the Minister make a statement on the recycling of organic waste in Wales? OAQ(4)0207(NR)*

13:58 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)

I thank the Member for Caerphilly for his question. 'Towards Zero Waste' prioritises the recycling of food waste via anaerobic digestion. Support has been provided for local authorities to introduce separate household food waste collection services—now available to 99% of households.

Diolch i'r Aelod dros Gaerffili am ei gwestiwn. Mae 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' yn blaenoriaethu ailgylchu gwastraff bwyd drwy dreulio anaerobig. Darparwyd cefnogaeth i awdurdodau lleol gyflwyno gwasanaethau casglu gwastraff bwyd cartref ar wahân—ac mae bellach ar gael i 99% o gartrefi.

- 13:58 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that response, Minister. For many years now, my constituents in Gelligaer, Nelson and Pen-y-bryn have had to put up with powerful and unpleasant odours emanating from the nearby Bryn Compost food recycling operation. This problem persists despite assurances from Natural Resources Wales that it monitors the site closely, including the terms of the operating permit. The recycling of organic waste, such as food, is a good thing, of course, but do you agree with me about the importance of good management on site, particularly where the operation takes place near residential areas, and about the importance of strict monitoring by NRW, which must be willing to act if the nuisance persists?
- Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Am nifer o flynyddoedd bellach, mae fy etholwyr yng Ngelligaer, Nelson a Phen-y-bryn wedi gorfod dygymod ag arogleuon pwerus ac annymunol sy'n deillio o weithfeydd ailgylchu bwyd Bryn Compost gerllaw. Mae'r broblem yn parhau er gwaethaf sicrwydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ei fod yn monitro'r safle yn ofalus, gan gynnwys telerau'r drwydded weithredu. Mae ailgylchu gwastraff organig, megis bwyd, yn beth da, wrth gwrs, ond a ydych yn cytuno â mi ei bod yn bwysig cael rheolaeth dda ar y safle, yn enwedig pan fo'r gwaith wedi'i leoli gerllaw ardaloedd preswyl, ac am bwysigrwydd monitro llym gan CNC, a ddylai fod yn barod i weithredu os yw'r broblem yn parhau?
- 13:59 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am very aware of the Member's concern and that, which he raises, of his constituents. It was a regular occurrence in this Chamber when the Member would ask questions to previous Ministers and to me. I have looked back at the casework surrounding this, and I am aware of your concerns and the long-standing complaints. I will write to the Chair of NRW this week to seek his assurances, as the Member would seek to ensure that full consideration of the management of the plant is considered seriously by NRW.
- Rwy'n ymwybodol iawn o bryder yr Aelod, ac o'r pryderon y mae'n eu codi ar ran ei etholwyr. Roedd yn ddigwyddiad rheolaidd yn y Siambr hon pan fyddai'r Aelod yn gofyn cwestiynau i Weinidogion blaenorol ac i mi. Rwyf wedi edrych yn ôl ar y gwaith achos sy'n berthnasol i hyn, ac rwy'n ymwybodol o'ch pryderon a'r cwynion hirsefydlog. Byddaf yn ysgrifennu at Gadeirydd CNC yr wythnos hon i ofyn am ei gadarnhad, gan y byddai'r Aelod yn awyddus i sicrhau bod ystyriaeth lawn o reolaeth y gwaith yn cael ystyriaeth ddifrifol gan CNC.
- 13:59 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Anaerobic digestion of organic waste offers huge benefits by producing a biogas that can be used to generate electricity and heat, and by reducing the amount of waste sent to landfill. What is the Welsh Government doing to encourage the development of suitably sized facilities close to the source of the waste, in order to minimise the carbon footprint of this process?
- Mae treulio gwastraff organig yn anaerobig yn cynnig manteision enfawr drwy gynhyrchu bio-nwy y gellir ei ddefnyddio i gynhyrchu trydan a gwres, a thrwy leihau'r gwastraff a gaiff ei anfon i safleoedd tirlenwi. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo datblygu cyfleusterau o faint addas yn agos at fynhonnell y gwastraff, er mwyn lleihau ôl-troed carbon y broses hon?
- 14:00 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- As I said, we are supportive of many different types of recycling activity. This is generally a process that the private sector will be involved in, and I would not like to prejudge any application that comes in. However, it is something for which we do have facilities, the length and breadth of Wales, and we would encourage their use, as it is a more progressive way of removing waste than landfill.
- Fel y dywedais, rydym yn gefnogol i lawer o wahanol fathau o weithgarwch ailgylchu. Mae hyn yn gyffredinol yn broses y bydd y sector preifat yn cymryd rhan ynddi, ac ni fyddwn yn hoffi rhagfarnu unrhyw gais sy'n dod i mewn. Fodd bynnag, mae'n rhywbeth y mae gennym gyfleusterau ar ei gyfer, ar hyd a lled Cymru, a byddem yn annog eu defnyddio, gan ei fod yn ffordd fwy blaengar o ddileu gwastraff na thirlenwi.
- 14:00 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, in the food waste treatment programme strategy that was on the website of the Welsh Government last year, there is mention of the fact that procurement hubs were being set up across Wales. Obviously, there is one in my area as well. I wonder whether you have a progress report for us on those services. I cannot see an update on the Welsh Government website as to what is happening on the ground, or whether you just leave it to the local authorities in question to do the work. It would be useful to have an update.
- Weinidog, yn y strategaeth rhaglen trin gwastraff bwyd a oedd ar wefan Llywodraeth Cymru y llynedd, mae sôn am y ffaith bod canolfannau caffael yn cael eu sefydlu ar draws Cymru. Yn amlwg, mae un yn fy ardal i hefyd. Tybed a oes gennych adroddiad cynnydd i ni ar y gwasanaethau hynny. Ni allaf weld y wybodaeth ddiweddaraf ar wefan Llywodraeth Cymru o ran yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad, neu a ydych yn ei adael i'r awdurdodau lleol dan sylw i wneud y gwaith? Byddai'n ddefnyddiol cael y wybodaeth ddiweddaraf.

- 14:01 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Of course, and I would be happy to write to Members as a collective, and I will place a letter in the Library regarding the update on that. I can tell the Member that two anaerobic digestion plants have been built and are fully operational in north Wales. A third is being built near Aberdare; it is on target to be operational in July. Other procurements are under way for the Cardiff and Vale and Heads of the Valleys authorities.
- Wrth gwrs, a byddwn yn barod i ysgrifennu at yr Aelodau ar y cyd, a rhoddaf lythyr yn y Llyfrgell ynghylch y wybodaeth ddiweddaraf am hynny. Gallaf ddweud wrth yr Aelod bod dau gynllun treulio anaerobig wedi cael eu hadeiladu ac yn gwbl weithredol yn y gogledd. Mae'r trydydd yn cael ei adeiladu ger Aberdâr; mae ar y trywydd iawn i fod yn weithredol ym mis Gorffennaf. Mae caffaeliadau eraill ar y gweill ar gyfer awdurdodau Caerdydd a'r Fro a Blaenau'r Cymoedd.
- 14:01 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I am concerned that recycling rates in Cardiff overall have fallen over the last two years, and even more concerned that the local authority has chosen to cut collections of garden waste in the autumn of this year, perhaps when it is needed most by householders. This has presented particular difficulties for some residents who do not have access to a car in order to dispose of this kind of waste responsibly. The dumping of green waste is becoming an increasing problem around the outskirts of the city.
- Weinidog, rwy'n poeni bod cyfraddau ailgylchu yng Nghaerdydd yn gyffredinol wedi gostwng dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a hyd yn oed yn fwy pryderus bod yr awdurdod lleol wedi dewis lleihau'r casgliadau gwastraff gardd yn yr hydref eleni, efallai pan mae ei angen fwyaf ar ddeiliaid tai. Mae hyn wedi cyflwyno anawsterau arbennig i rai o drigolion nad oes ganddynt fynediad at gar er mwyn cael gwared ar y math hwn o wastraff mewn modd cyfrifol. Mae dympio gwastraff gwyrdd yn dod yn broblem gynyddol o gwmpas cyrion y ddinas.
- You spoke of support for local authorities in terms of food waste management. What assistance have you provided to local authorities in terms of organic garden waste?
- Roeddech chi'n siarad am gefnogi awdurdodau lleol o ran rheoli gwastraff bwyd. Pa gymorth ydych wedi'i ddarparu i awdurdodau lleol o ran gwastraff gardd organig?
- 14:02 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am really impressed with the recycling rates for Wales. If Wales was deemed a European nation on its own, we would be fourth in the whole of Europe in terms of our recycling rates. I think that that is something to be incredibly proud of.
- Mae'r cyfraddau ailgylchu yng Nghymru yn wir wedi fy syfrdanu. Ped ystyrid Cymru yn genedl Ewropeaidd yn ei hawl ei hun, ni fyddai'r bedwaredd yn Ewrop gyfan o ran ein cyfraddau ailgylchu. Credaf fod hynny'n rhywbeth i fod yn hynod falch ohono.
- Now, there will be pressures in the system, and I do not doubt that local authorities find different times of the year challenging because of pressures, such as the pressures of autumn and garden waste. I would be happy to look at the issue with Cardiff specifically. May I say that local authorities are, in general, doing a very good job in terms of how they are contributing to the climate change agenda in terms of waste?
- Diau y bydd pwysau yn y system, ac nid wyf yn amau bod awdurdodau lleol yn cael gwahanol adegau o'r flwyddyn yn heriol oherwydd pwysau, megis pwysau'r hydref a gwastraff gardd. Byddwn yn barod i ystyried mater Caerdydd yn benodol. A gaf fi ddweud bod awdurdodau lleol, yn gyffredinol, yn gwneud gwaith da iawn o ran sut y maent yn cyfrannu at yr agenda newid yn yr hinsawdd o ran gwastraff?
- Clefyd Llarwydd**
- Larch Disease**
- 14:02 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 8. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau sy'n cael eu cymryd i atal y clefyd llarwydd rhag lledaenu? OAQ(4)0201(NR)*
- 8. Will the Minister provide an update on measures being taken to prevent the spread of larch disease? OAQ(4)0201(NR)*
- 14:02 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for his question. I am targeting resources at sites on the leading edge of the infections in south Wales, together with the isolated sites in mid and north Wales. This is a part of the tree disease management strategy.
- Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Rwy'n targedu adnoddau at y prif safleoedd lle mae'r haint yn ne Cymru, ynghyd â'r safleoedd ynysig yn y canolbarth a'r gogledd. Mae hyn yn rhan o'r strategaeth ar gyfer rheoli clefydau ar goed.



14:03 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for the reply, Minister. More than 3,000 people have joined a campaign to stop Natural Resources Wales closing down Cwmcarn forest drive in order to chop down thousands of disease-ridden larch trees. They claim that the NRW approach to this problem has shown a number of inconsistencies and that there are alternative roads that could be used to remove the trees, rather than having to close this major tourist attraction. What assurances can the Minister provide that the closure of Cwmcarn forest drive is necessary or essential to prevent the spread of larch disease?

Diolch yn fawr iawn am yr ateb, Weinidog. Mae mwy na 3,000 o bobl wedi ymuno ag ymgyrch i atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau gyrfa goedwig Cwmcarn er mwyn cwmpo miloedd o goed llarwydd llygredig. Maent yn honni bod dull CNC o drin y broblem hon wedi dangos nifer o anghysondebau a bod ffyrdd eraill y gellid eu defnyddio i gael gwarded ar y coed, yn hytrach na gorfod cau'r atyniad twristiaid mawr hwn. Pa sicrwydd y gall y Gweinidog ei roi ei bod yn angenrheidiol neu'n hanfodol cau goedwig Cwmcarn er mwyn atal y clefyd llarwydd?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:03 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May we take this by priority, Presiding Officer? I met with Gwyn Price—indeed, I know that he was at a public meeting only last week regarding the Cwmcarn road network and the issues surrounding this. What we have to do is deal with the issue of larch disease. If we do not do that, there will be no larch in Britain in the long term. We have to deal with this issue. I am more than happy to look at the issue regarding the network provided to secure this process, but it is a matter for NRW. This is something that we have to consider, and I am very aware of the case, as presented to me by Gwyn Price and, indeed, the Member most recently.

Beth am gymryd hyn yn ôl blaenoriaeth, Lywydd? Bu i mi gyfarfod â Gwyn Price—yn wir, gwn iddo fod mewn cyfarfod cyhoeddus yr wythnos diwethaf ynghylch rhwydwaith ffyrdd Cwmcarn a'r materion sy'n ymwneud â hyn. Yr hyn sy'n rhaid i ni ei wneud yw mynd i'r afael â phroblem y clefyd llarwydd. Os na wnawn ni hynny, ni fydd dim coed llarwydd ym Mhrydain yn yr hirdymor. Mae'n rhaid i ni ddatrys y mater hwn. Rwy'n fwy na pharod i ystyried y rhwydwaith a ddarperir er mwyn cyflawni'r broses hon, ond mater i CNC ydyw. Mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid i ni ei ystyried, ac rwy'n ymwybodol iawn o'r achos, fel y cyflwynwyd i mi gan Gwyn Price ac, yn wir, gan yr Aelod yn fwy diweddar.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:04 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, this is a devastating disease and I have raised it with your predecessors in the post. The Afan valley has been devastated because of the felling as a result of the disease hitting the area. I will offer you the opportunity to come to visit the area to see the impact and the actions being taken.

Weinidog, mae'r clefyd hwn yn un dinistriol ac rwyf wedi codi'r mater gyda'ch rhagflaenwyr yn y swydd. Anrheithiwyd cwm Afan oherwydd cwmpo coed ar ôl i'r clefyd daro'r ardal. A gaf fi eich gwahodd i ddod i ymweld â'r ardal i weld yr effaith a'r camau sy'n cael eu cymryd.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

What lessons have been learned? In that scenario, we saw large numbers of trees being felled in one go, which left areas devastated and, actually, some of the businesses struggling in that short period of time. What lessons have been learned from that exercise and how will we ensure that—contrary to the other comments made—replanting takes place to return the forestry back to where it was so that we can get the tourism business back into our valleys?

Pa wersi a ddysgwyd? Yn y sefyllfa honno, gwelsom nifer fawr o goed yn cael eu cwmpo ar yr un pryd, gan adael ardaloedd wedi'u hannrheithio a rhai o'r busnesau, mewn gwirionedd, yn fain eu byd yn y cyfnod byr hwnnw. Pa wersi a ddysgwyd o'r ymarfer hwnnw a sut y byddwn yn sicrhau—yn groes i'r sylwadau eraill a wnaed—bod ailblannu yn digwydd er mwyn adfer y goedwigoedd ac adennill y busnes twristiaeth yn ôl i'n cymoedd?

14:05 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Indeed. As I said to the other Member, I would be happy to join the Member on a visit to see exactly what he relates to in his constituency. What we must do is address diseased trees and their felling in a managed way to ensure that we have biodiversity security across Wales. This is a devastating disease for the larch population and something that we have to take very seriously. There are dangers of mutation and possibly entering other ecological streams that we have to be very careful about. Therefore, I recognise the points that Members have raised in the Chamber about diversity and the opportunities it may present in the future, and the challenges it brings. However, we must address the disease in situ as quickly as possible.

Yn wir. Fel y dywedais wrth yr Aelod arall, byddwn yn falch i ymuno â'r Aelod ar ymweliad i weld yn union yr hyn y mae'n sôn amdano yn ei etholaeth. Yr hyn sy'n rhaid i ni ei wneud yw mynd i'r afael â'r coed afiach a'u cwmpo mewn ffordd reoledig i sicrhau bod gennym ddiogelwch o ran bioamrywiaeth ar draws Cymru. Mae'r clefyd hwn yn ddinistriol i goed llarwydd ac yn rhywbeth y mae'n rhaid inni ei gymryd o ddirif. Gallai'r clefyd newid a mynd i mewn i ffrydiau ecolegol eraill sy'n rhaid i ni eu gwarchod yn ofalus iawn. Felly, rwy'n cydnabod y pwyntiau y mae Aelodau wedi'u codi yn y Siambr am amrywiaeth a'r cyfleoedd a ddaw yn ei sgil yn ogystal â'r heriau. Fodd bynnag, rhaid i ni fynd i'r afael â'r clefyd yn y fan a'r lle cyn gynted â phosibl.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:05 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you will be aware of the expensive replanting schemes at the Wentwood forest in my region, which is the largest ancient woodland in Wales, and, as has been mentioned, the devastation occurring now at Cwmcarn. Last year, the forestry commission said that this disease has been worse due to the mild, wetter weather. Are you making contingencies in case of a repeat of this pattern of weather? What assessments have you made of the actions that you need to take regarding future threats to our woodlands due to global warming?
- Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r cynlluniau ailblannu drud yng nghoedwig Coed Gwent yn fy rhanbarth i, sef y coetir hynafol mwyaf yng Nghymru, ac, fel y crybwyllwyd, y dinistr sy'n digwydd nawr yng Nghwm-carn. Y llynedd, dywedodd y comisiwn coedwigaeth fod y defyd hwn wedi bod yn waeth o ganlyniad i'r tywydd ysgafn, gwlypach. A ydych yn gwneud cynlluniau wrth gefn rhag ofn y gwelir ailadrodd ar y patrwm hwn o dywydd? Pa asesiadau ydych wedi'u gwneud o'r camau y mae angen i chi eu cymryd ynghylch bygythiadau i'n coetiroedd yn y dyfodol yn sgîl cynhesu byd-eang?
- 14:06 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I have many powers, but controlling the weather is one that I am limited on. [Laughter.] Mild, wetter weather is something that you might want to talk to Leighton Andrews about. [Interruption.] However, on a serious note, the Member raises a very important point. We had a debate yesterday on climate change. It is a really important issue, to ensure that we look at our activities, particularly through the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, and how we relate to the circumstances that we find ourselves in. Challenging climate change is something that we have to take very seriously. It has an impact on the climate that the Member talks of, regarding the mild and wetter winters that we may expect in the future. Dealing with this smaller, but significant, issue of diseased trees is just one part of the effects of climate change that we see.
- Mae gennyf lawer o bwerau, ond nid oes gennyf ddigon i allu rheoli'r tywydd. [Chwerthin.] Efallai fod tywydd ysgafn, gwlypach yn rhywbeth yr hoffech siarad â Leighton Andrews amdano. [Torri ar draws.] Fodd bynnag, ar nodyn difrifol, mae'r Aelod yn codi pwynt pwysig iawn. Cawsom ddadl ddoe ar newid yn yr hinsawdd. Mae'n fater pwysig iawn, ein bod yn sicrhau ein bod yn edrych ar ein gweithgareddau, yn enwedig drwy Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a sut rydym yn cysylltu â'r amgylchiadau y cawn ein hunain ynddynt. Mae herio newid yn yr hinsawdd yn rhywbeth y mae'n rhaid i ni ei gymryd o ddifrif. Mae'n cael effaith ar yr hinsawdd y bu i'r Aelod sôn amdano, o ran y gaeafau mwyn a gwlypach y gallwn eu disgwyl yn y dyfodol. Dim ond un rhan o effeithiau'r newidiadau yn yr hinsawdd a welwn yw'r gwaith o fynd i'r afael â'r mater bach, er arwyddocaol, o gael gwared ar goed afiach.
- 14:07 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, mae ymddiriedolaeth Coed Cadw wrthi'n cynllunio i greu pedair ardal gofio coedwigaeth. Bydd y rhain ar draws y Deyrnas Unedig i gofio cychwyn y rhyfel byd cyntaf. Bydd 90,000 o'r coed hyn yn sir Gâr. A ydych yn cytuno bod hyn nid yn unig yn creu etifeddiaeth barhaol, ond, i ateb beth roedd Alun Ffred yn ei ofyn yn gynharach, yn mynd yn bell tuag at gyrraedd targed coedwigaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, yn enwedig yn sgîl stormydd llynedd a ddifethodd lawer o goed dros Gymru?
- Minister, the Woodland Trust is planning to create four woodland remembrance areas. These will be across the United Kingdom to remember the start of the first world war. A total of 90,000 of these trees will be in Carmarthenshire. Do you agree that this not only creates a lasting legacy, but, to answer what Alun Ffred was asking earlier, will go a long way to achieving NRW's forestry target, particularly in the wake of last year's storms, which devastated many trees across Wales?
- 14:08 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for raising that in the Chamber this afternoon. I am delighted that the Woodland Trust is supporting this with a fitting tribute and one that will be appreciated for generations to come. Indeed, it will help towards the 100,000 ha referred to by Members, which is the Welsh Government's proposal.
- Diolch i'r Aelod am godi hynny yn y Siambr y prynhawn yma. Rwyf wrth fy modd fod Coed Cadw yn cefnogi hyn gyda theyrnged addas ac un a fydd yn cael ei gwerthfawrogi am genedlaethau i ddod. Yn wir, bydd yn helpu tuag at y 100,000 ha y cyfeiriwyd atynt gan Aelodau, sy'n un o gynigion Llywodraeth Cymru.

## Llwybrau Cyhoeddus

## Public Footpaths

- 14:08 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
9. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i adolygu'r gofynion ynghylch ailgyfeirio llwybrau cyhoeddus lle maent yn rhwystro arallgyfeirio ar ffermydd?  
OAQ(4)0217(NR)
9. What plans does the Minister have to review the requirements regarding the redirection of public footpaths where they are preventing farm diversification?  
OAQ(4)0217(NR)

- 14:08 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for his question. The ongoing review of access is looking at ways to improve and modernise the legislative framework on public rights of way. The intention is to improve opportunities for reasonable recreation while easing some of the existing burdens placed on local authorities and landowners.
- Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae'r adolygiad parhaus o fynediad yn edrych ar ffyrdd o wella a moderneiddio'r fframwaith deddfwriaethol ar hawliau tramwy cyhoeddus. Y bwriad yw gwella cyfleoedd ar gyfer hamdden rhesymol gan leddfu rhai o'r beichiau presennol sydd ar awdurdodau lleol a thirfeddianwyr.
- 14:08 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Rwy'n croesawu hynny. Yn ddiweddar, bu'r Dirprwy Weinidog yn ymweld â fferm yn ardal Rhosllannerchrugog. Mae'r fferm honno'n bwriadu arallgyfeirio, ond yn anffodus, oherwydd nifer y llwybrau cyhoeddus sy'n croesi'r tir, nid oes unrhyw gwmni sy'n ymwneud ag ynni solar yn barod i ystyried ffermydd felly. A gaf ofyn ichi sicrhau bod gofynion y ffermwyr hyn, wrth ystyried y pwysau arnynt rydym eisoes wedi'i grybwyll y prynhawn yma, yn cael eu hystyried?
- I welcome that. Recently, the Deputy Minister visited a farm in the Rhosllannerchrugog area. The farm is looking to diversify, but unfortunately, because of the number of public footpaths that cross the land, no solar energy company is prepared to consider such a farm. May I ask you to ensure that the needs of these farmers are taken into account, given the pressure on them that we have already mentioned this afternoon?
- 14:09 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- This is an issue of balance. I look forward to receiving the Member's letter with the details of what he raises in the Chamber today. What we have done, in terms of the programme for government, is made a commitment to improve access to land and water and improve public rights of way. This will be about opportunities and looking at how that can operate, although I do understand that diversification for farming is really important too. We have to try to strike that right balance.
- Mae hyn yn fater o gydbwysedd. Edrychaf ymlaen at dderbyn llythyr yr Aelod gyda manylion yr hyn y mae'n codi yn y Siambr heddiw. Yr hyn a wnaethom, o ran y rhaglen lywodraethu, yw gwneud ymrwymiad i wella mynediad i dir a dŵr a gwella hawliau tramwy cyhoeddus. Bydd hyn ynglŷn â chyfleoedd a bydd yn ystyried sut y gall hynny weithredu, er fy mod yn deall bod arallgyfeirio ar gyfer ffermio yn bwysig iawn hefyd. Mae'n rhaid i ni geisio taro'r cydbwysedd hwnnw'n iawn.
- 14:09 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, one of my constituents has contacted me asking whether the Welsh Government offers any funding for the redirection of a small-class road that runs through the centre of his farm. Would you outline whether the Welsh Government offers any financial assistance in this regard, as there is a clear example here of the farm not being able to diversify because of this small-class road?
- Weinidog, cysylltodd un o'm hetholwyr â mi i ofyn a yw Llywodraeth Cymru yn cynnig unrhyw gyllid ar gyfer ailgyfeirio isffordd fach sy'n rhedeg drwy ganol ei fferm. A fydddech yn amlinellu a yw Llywodraeth Cymru yn cynnig unrhyw gymorth ariannol yn hyn o beth, gan fod hon yn enghraifft glir o'r fferm yn methu ag arallgyfeirio oherwydd yr isffordd fach hon?
- 14:10 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- No, we do not.
- Nac ydym.
- 14:10 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Onid yw'n ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru ac, yn wir, ar barciau cenedlaethol a llywodraeth leol i hyrwyddo mwy o ddefnydd o lwybrau o safbwynt ymarfer a rhedeg, ac o safbwynt cerdded a mwynhau'r wlad, ar yr amod fod pobl sy'n defnyddio llwybrau yn gofalu nad yw cŵn, er enghraifft, yn tarfu ar stoc ac anifeiliaid eraill ar ffermydd? Pa gamau y mae Gweinidogion Cymru yn eu cymryd er mwyn sicrhau dealltwriaeth pobl sy'n ymweld â chefn gwlad o'r hyn sy'n mynd ymlaen yno?
- Is it not the duty of the Welsh Government and, indeed, national parks and local authorities to promote greater use of paths from the point of view of physical activity and running, and in terms of walking and enjoying the countryside, provided that people using these paths take care that dogs, for example, do not disrupt stock and other animals on farms? What steps are Welsh Ministers taking to ensure that people who visit the countryside understand what goes on there?

- 14:11 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that the Member is absolutely right. We would encourage active travel. Access to the countryside is a positive step, but it is all about respect, and I think that we have to work on that principle. This slightly straddles my portfolio and that of the Deputy Minister, in terms of animal welfare et cetera. However, liability for landowners in relation to walkers using access land comes under the Countryside and Rights of Way Act 2000, and some of the provisions could apply to land access should that be extended. We need to consider the liabilities on these issues very carefully when people access the countryside.
- Credaf fod yr Aelod yn llygad ei le. Byddem yn annog teithio llesol. Mae mynediad i gefn gwlad yn gam positif, ond mae hyn ynglŷn â pharch, a chredaf fod yn rhaid inni weithio ar yr egwyddor honno. Mae hyn i raddau'n pontio fy mhorthfolio a gwaith y Dirprwy Weinidog, o ran lles anifeiliaid ac ati. Fodd bynnag, mae atebolrwydd tirfeddianwyr o ran cerddwyr sy'n defnyddio tir mynediad yn dod o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, a gallai rhai o'r darpariaethau fod yn berthnasol i fynediad i dir y dylid ei ymestyn. Mae angen i ni ystyried y rhwymedigaethau ar y materion hyn yn ofalus iawn wrth i bobl gael mynediad i gefn gwlad.
- 14:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Question 10 was grouped with question 2, so we now move to question 11 from Simon Thomas.
- Gwrpiwyd Cwestiwn 10 gyda chwestiwn 2, felly symudwn yn awr i gwestiwn 11 gan Simon Thomas.
- Arbed Ynni** **Saving Energy**
- 14:11 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar arbed ynni yn y sector cyhoeddus? OAQ(4)0213(NR)*
- 11. Will the Minister make a statement regarding saving energy in the public sector? OAQ(4)0213(NR)*
- 14:11 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Saving energy in the public sector is important for reducing carbon emissions, reducing costs and reducing energy security risks.
- Mae arbed ynni yn y sector cyhoeddus yn bwysig ar gyfer lleihau allyriadau carbon, gan leihau costau a lleihau risgiau diogelwch ynni.
- 14:12 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yn ganolog i hynny, wrth gwrs, mae caffael cyhoeddus yn y sector. Rwy'n deall bod yr Undeb Ewropeaidd wedi cymeradwyo rheolau newydd ar gyfer caffael cyhoeddus er mwyn troi caffael cyhoeddus yn fwy gwyrdd, a bod dwy flynedd, yn awr, i drosglwyddo'r rheolau hynny i mewn i'r gwledydd—yr aelod-wladwriaethau. Mewn ymweliad diweddar â'r fforwm Ewropeaidd ar gyfer ynni adnewyddadwy, clywais sawl enghraifft o gaffael cyhoeddus da yn y cyd-destun hwn a oedd yn creu swyddi lleol gyda sgiliau lleol, prentisiaethau ac ati, a hefyd yn arbed ynni. Beth ydych yn ei wneud, fel Llywodraeth, i fanteisio ar y rheolau Ewropeaidd newydd hyn i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y gorau a allwn yng Nghymru?
- Central to this, of course, is public procurement in the sector. I understand that the European Union has approved new rules for public procurement in order to greenify public procurement, and that there are two years, now, to transpose those rules in member states. During a recent visit to the European forum for renewable energy, I heard several examples of good public procurement in this context, which created local jobs with local skills, apprenticeships et cetera, and also saved energy. What are you doing, as a Government, to take advantage of these new European rules to make sure that we do the best we can in Wales?
- 14:12 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The Member raises a really important question with me. The green growth fund is something that we are proactively pursuing. We put in an initial £5 million of Welsh Government funding, which was announced on 9 October. This will help to develop projects, particularly in the public sector, and help us to set up funding mechanisms to bring new investment to Wales. Procurement is something on which I and the Minister for Finance and Government Business work very closely; it is something that we consider to be of great benefit and potential for Wales.
- Mae'r Aelod yn codi cwestiwn pwysig iawn gyda mi. Mae'r gronfa twf gwyrdd yn rhywbeth yr ydym yn ei ddilyn yn rhagweithiol. Rhoesom gyllid o £5 miliwn i ddechrau gan Lywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ar 9 Hydref. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu prosiectau, yn enwedig yn y sector cyhoeddus, ac yn ein helpu i sefydlu mecanweithiau cyllido i ddod â buddsoddiad newydd i Gymru. Mae caffael yn rhywbeth yr wyf fi'n cydweithio'n agos iawn gyda Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yn ei gylch; mae'n rhywbeth yr ydym yn ystyried sydd o fudd a photensial mawr i Gymru.

14:13 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
Minister, given the importance that the Welsh Government has placed on insulating homes across Wales, will you outline what audits you have undertaken to establish what insulation of public sector buildings has taken place across Wales?  
Weinidog, o ystyried y pwysigrwydd a roddodd Llywodraeth Cymru ar insiwleiddio cartrefi ledled Cymru, a fyddechystal ag amlinellu pa archwiliadau yr ydych wedi'u cyflawni i sefydlu faint o inswleiddio ar adeiladau yn y sector cyhoeddus a wnaed ar draws Cymru?

14:13 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
I recently met with Ministers right across Welsh Government to try to understand the details of how they are measuring success in terms of tackling the issues of climate change. This is just one of the issues that, I think, the Member is quite right to raise in terms of outcomes from investment. I have recently met the Minister with responsibility for housing to discuss these issues, and we will continue to report on them on a regular basis.  
Bu i mi gyfarfod yn ddiweddar â Gweinidogion ar draws Llywodraeth Cymru i geisio deall y manylion ar gyfer mesur llwyddiant o ran mynd i'r afael â materion newid yn yr hinsawdd. Dyma ddim ond un o'r materion, y credaf y mae'r Aelod yn llygad ei le i'w godi o ran canlyniadau yn sgîl buddsoddi. Yn ddiweddar, bu i mi gyfarfod â'r Gweinidog sy'n gyfrifol am dai i drafod y materion hyn, a byddwn yn parhau i adrodd arnynt yn rheolaidd.

14:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
Question 12, OAQ(4)0209(NR), has been withdrawn. Tynnwyd cwestiwn 12, OAQ(4)0209(NR), yn ôl.

## Fframwaith Statudol

## Statutory Framework

14:14 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
*13. A yw'r Gweinidog yn bwriadu adolygu'r fframwaith statudol ar gyfer mynediad i gefn gwlad?*  
OAQ(4)0216(NR)  
*13. Does the Minister have any intention of reviewing the statutory framework regarding access to the countryside?*  
OAQ(4)0216(NR)

14:14 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
As part of the ongoing review of access, I intend to issue a Green Paper for consultation. I will look at improving the opportunities for responsible outdoor recreation together with reducing the burdens placed on local authorities and landowners.  
Fel rhan o'r adolygiad parhaus o fynediad, bwriadaf gyhoeddi Papur Gwyrdd ar gyfer ymgynghori. Byddaf yn gobeithio gwella'r cyfleoedd ar gyfer hamddena cyfrifol yn yr awyr agored ynghyd â lleihau'r baich sydd ar awdurdodau lleol a thirfeddianwyr.

14:14 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
Diolch am yr ymateb hwnnw. Mae nifer o gyfarfodydd wedi eu cynnal yn ardal Dyffryn Ceiriog a Llangollen, lle'r oedd Ken Skates ac eraill yn bresennol, lle mae yna broblemau ynglŷn â ffyrdd hanesyddol sy'n cael eu rhwystro, i ryw raddau, gan gerbydau 4x4. A fyddech yn barod i ystyried pa mor gymhleth yw'r sefyllfa, achos mae lot o broblemau ynglŷn â chynghorau ddim yn gwybod yn union I ba lwybr neu I ba ffordd y mae'r gwahanol ffyrdd yma'n perthyn.  
Thank you for that response. A number of meetings have been held in the Ceiriog Valley and Llangollen areas, with Ken Skates and others in attendance, where there are problems with historic roads being blocked, to some extent, by 4x4 vehicles. Would you be willing to consider the complexity of the situation, because there are a lot of problems with councils not knowing exactly which routes these different roads should take.

14:15 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
Yes, indeed; aside from the Green Paper with regard to seeking views on the network, that is something that I will ask colleagues across Government and my department to look at specifically. If there is a void of guidance, perhaps we should review that consideration.  
Byddwn, yn wir; ar wahân i'r Papur Gwyrdd o ran gofyn am farn ar y rhwydwaith, dyma rywbeth y byddaf yn gofyn i'm cydweithwyr ar draws y Llywodraeth ac yn fy adran i'w ystyried yn benodol. Os oes diffyg o ran canllawiau, efallai y dylem adolygu'r ystyriaeth honno.

## Atal Llifogydd

## Flood Prevention

14:15 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
*14. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar atal llifogydd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?* OAQ(4)0210(NR)  
*14. Will the Minister make a statement on flood prevention in Mid and West Wales?* OAQ(4)0210(NR)

14:15 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Over the term of this Government, we are investing over £240 million in flood-risk management across Wales. Following this year's winter storms, over £1.3 million was provided to local authorities in Mid and West Wales to make urgent repairs to defend damages and defences and to rebuild the resilience of coastal communities.

Dros dymor y Llywodraeth hon, rydym yn buddsoddi mwy na £240 miliwn yn y gwaith o reoli perygl llifogydd ar draws Cymru. Yn dilyn stormydd y gaeaf eleni, darparwyd dros £1.3 miliwn i awdurdodau lleol yn y Canolbarth a'r Gorllewin i wneud gwaith atgyweirio brys i amddiffyn difrod ac amddiffynfeydd ac i ailsefydlu gwytnwch cymunedau arfordirol.

14:15 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I am grateful to the Minister for that comprehensive answer.

Sustainable drainage systems for both rain and waste water must surely play a central role in tackling flood risks across the whole region. In the spring, your predecessor announced that the Government would,

'consult on national standards for sustainable drainage systems for new developments, as well as seeking ways to encourage the use of these systems to deal with capacity problems in developed areas.'

Will the Minister please update us on the progress of that review to improve sustainable drainage solutions across the whole of Mid and West Wales?

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb cynhwysfawr.

Mae'n rhaid i systemau draenio cynaliadwy ar gyfer glaw a dŵr gwastraff fel ei gilydd chwarae rôl ganolog wrth fynd i'r afael â pherygl o lifogydd ar draws y rhanbarth cyfan. Yn y gwanwyn, cyhoeddodd eich rhagflaenydd y byddai'r Llywodraeth,

'yn ymgynghori ar y safonau cenedlaethol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy (SDCau) ar gyfer datblygiadau newydd, yn ogystal â chwilio am ffordd i annog y defnydd o'r systemau hyn i ymdrin â phroblemau capasiti mewn ardaloedd datblygedig.'

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am gynnydd yr adolygiad hwnnw i wella atebion draenio cynaliadwy ar draws y Canolbarth a'r Gorllewin?

14:16 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I think that is an important point, in the whole process of SuDS, ensuring that we have sustainable management of our water courses. I am awaiting further briefing from my team to understand the next stage to go with this, with regard to how we implement any changes or potential changes.

Credaf fod hwn yn bwynt pwysig, yn y broses gyfan o SDCau, sef sicrhau bod gennym reolaeth gynaliadwy o'n cyrsiau dŵr. Rwy'n disgwyl briffio pellach gan fy nhîm er mwyn deall y cam nesaf ar gyfer datblygu hyn, o ran sut rydym yn gweithredu unrhyw newidiadau neu newidiadau posibl.

## Polisi Cynllunio

## Planning Policy

14:16 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*15. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddyfodol polisi cynllunio yng Nghymru? OAQ(4)0204(NR)*

*15. Will the Minister make a statement on the future of planning policy in Wales? OAQ(4)0204(NR)*

14:16 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

'Planning Policy Wales' and its supplementary technical advice note provide, and will continue to provide, a robust policy framework to inform land-use planning decisions in Wales.

Mae 'Polisi Cynllunio Cymru' ynghyd â'i nodyn cyngor technegol atodol yn darparu, a bydd yn parhau i ddarparu, fframwaith polisi cadarn i lywio penderfyniadau cynllunio defnydd tir yng Nghymru.



14:16

**Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, as you already know, planning applications that are rejected are currently subject to appeal, whereas planning applications that are approved are not. Therefore, communities have no opportunity to oppose any approved applications, despite how controversial they may or may not be. Given the circumstances, can you tell us what the Welsh Government is doing to address this inequality in the planning system, and to create a fairer balance in the system, where people can appeal applications that have been both approved and rejected?

Weinidog, fel y gwyddoch eisoes, mae ceisiadau cynllunio sy'n cael eu gwrthod yn agored ar hyn o bryd i fynd i apêl, ond nid yw hynny'n wir am geisiadau cynllunio a gymeradwyir. Felly, nid oes yr un cyfle i gymunedau wrthwynebu'r un cais a gymeradwywyd, er gwaethaf pa mor ddadleuol ydyw ai peidio. O ystyried yr amgylchiadau, a allwch ddweud wrthym beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn yn y system gynllunio, a chreu cydbwysedd tecach yn y system, fel y gall pobl apelio ynghylch ceisiadau a gymeradwywyd a cheisiadau a wrthodwyd hefyd?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:17

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that there has to be an end point to any application of where that process comes. I need to ensure—and I am confident that it happens—that we have a planning system that enables people on either side, for or against, to have an open and transparent opportunity to be involved in the planning decision-making process. At the end of any process—and I have learnt this very quickly as Minister for planning—you seem to upset half, and the fact is that what we have to try to do is ensure that the people who are involved in that process, on either side, feel that they have been listened to. They may not like the final decision, but it is about making sure that they are comfortable with the outcome.

Credaf fod yn rhaid cael pen draw i unrhyw gais wrth ddefnyddio'r broses honno. Mae angen i mi sicrhau—ac rwy'n hyderus fod hynny'n digwydd—fod gennym system gynllunio sy'n galluogi pobl ar y naill ochr a'r llall, o blaid neu yn erbyn, i gael cyfle agored a thryloyw i gael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau cynllunio. Ar ddiwedd unrhyw broses—a dysgais hyn yn gyflym iawn fel y Gweinidog cynllunio—ymddengys eich bod yn siomi hanner ohonynt, ac yn wir yr hyn sy'n rhaid i ni geisio ei wneud yw sicrhau bod y bobl sy'n cymryd rhan yn y broses honno, ar y naill law a'r llall, yn teimlo bod eu llais wedi ei glywed. Efallai nad ydynt yn hoffi'r penderfyniad terfynol, ond rhaid ceisio sicrhau eu bod yn gyfforddus gyda'r canlyniad.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

### Cymunedau yn Gyntaf

## Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty

### Communities First

14:18

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar amcanion cyllid Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(4)0228(CTP)*

*1. Will the Minister make a statement on the objectives and aims of Communities First funding? OAQ(4)0228(CTP)*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:18

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

The programme aims to narrow the economic, health and education and skills gaps between our least and most affluent citizens, by working with all of the most deprived communities across Wales. Over £75 million has been committed to the programme up to March 2015, which directly provides over 900 jobs and supports the valuable work in our most deprived communities.

Nod y rhaglen yw cau'r bylchau addysg a sgiliau a'r bylchau economaidd ac iechyd a welir rhwng ein dinasyddion lleiaf a mwyaf cyfoethog, trwy gydweithio â phob un o'r cymunedau mwyaf difreintiedig ledled Cymru. Mae dros £75 miliwn wedi'i neilltuo i'r rhaglen hyd at fis Mawrth 2015, sy'n darparu mwy na 900 o swyddi yn uniongyrchol ac yn cefnogi gwaith gwerthfawr yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

- 14:18 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. You have given the Communities First areas a list of performance indicators against which they are to measure their impact on individuals within the communities. Those performance indicators do not address the wider economic, educational and health issues that you as a Welsh Government would want to influence in a more strategic way. Are the performance indicators that you are working to, as a Minister, related to how you can raise those Communities First areas to the level of other areas nearby?
- Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rydych wedi rhoi rhestr o ddangosyddion perfformiad i'r ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf iddynt fesur eu heffaith ar unigolion o fewn y cymunedau. Nid yw'r dangosyddion perfformiad hynny'n mynd i'r afael â'r materion economaidd, addysgol ac iechyd ehangach y byddech chi fel Llywodraeth Cymru am ddylanwadu arnynt mewn ffordd fwy strategol. A yw'r dangosyddion perfformiad yr ydych yn gweithio yn eu herbyn, fel Gweinidog, yn ymwneud â sut y gallwch godi'r ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf hynny i lefel ardaloedd eraill cyfagos?
- 14:19 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The key performance indicators measure the main outcome or contribution that the programme aims to make in the priority areas, such as someone entering employment, for instance, improving school attendance or increasing their physical activity. So, yes, we can use those indicators to measure the main outcomes.
- Mae'r dangosyddion perfformiad allweddol yn mesur y prif ganlyniad neu gyfraniad y mae'r rhaglen yn ceisio ei wneud yn y meysydd blaenoriaeth, megis rhywun sy'n dechrau gweithio, er enghraifft, gwella presenoldeb yn yr ysgol neu gynyddu eu gweithgarwch corfforol. Felly, ydyn. Gallwn ddefnyddio'r dangosyddion hynny i fesur y prif ganlyniadau.
- 14:19 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- As you are aware, in a previous Assembly, the Wales Audit Office identified the then failings of Communities First as the absence of effective financial and human resource controls, when the scheme was first rolled out. The Welsh Government responded by primarily diverting funding via local authorities as grant recipient bodies. What specific measures are you taking to ensure that those local authorities ensure that the funding is used to empower communities, to bring local people up to the same levels of power and control, rather than to direct the programmes that are being delivered to, rather than with, the people?
- Fel y gwyddoch, mewn Cynulliad blaenorol, nododd Swyddfa Archwilio Cymru ar y pryd fethiannau Cymunedau yn Gyntaf am nad oedd rheolaethau adnoddau dynol ac ariannol effeithiol yn bodoli, pan gyflwynwyd y cynllun gyntaf. Ymatebodd Llywodraeth Cymru trwy ddargyfeirio cyllid yn bennaf drwy awdurdodau lleol fel cyrff sy'n derbyn grantiau. Pa fesurau penodol ydych yn eu cymryd i sicrhau bod yr awdurdodau lleol hynny yn sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio i roi grym i gymunedau, i ddod â phobl leol i fyny at yr un lefel o rym a rheolaeth, yn hytrach nag i gyfarwyddo rhaglenni sy'n cael eu cyflwyno i, yn hytrach na gyda'r bobl?
- 14:20 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- A great deal of work has been done in the 15 years of this programme. Those 15 years have shown how committed we are as a Welsh Government to tackling inequalities. We have brought in different outcome frameworks, different levels of monitoring; we require a cluster to have a community involvement plan, which is monitored; we have annual reports, which provide key information relating to the work of a particular cluster; there are key performance measures, which have been altered; and there are new reporting systems in place. So, there is a great deal of very close monitoring going on.
- Mae llawer iawn o waith wedi ei wneud yn ystod 15 mlynedd y rhaglen hon. Mae'r 15 mlynedd hynny wedi dangos pa mor ymrwymedig ydym ni fel Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Rydym wedi cyflwyno gwahanol fframweithiau canlyniadau, gwahanol lefelau o fonitro; mae'n ofynnol i glwstwr gael cynllun cynnwys y gymuned, sy'n cael ei fonitro; mae gennym adroddiadau blynyddol, sy'n rhoi gwybodaeth allweddol yn ymwneud â gwaith clwstwr penodol; mae mesurau perfformiad allweddol, sydd wedi cael eu newid; ac mae systemau adrodd newydd ar waith. Felly, mae llawer iawn o fonitro agos iawn yn digwydd.
- 14:21 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae Cymunedau yn Gyntaf yn gwneud gwaith da, rwy'n gwybod, yng Nghaergybi, ac rwy'n deall bod canolbwyntio ar flaenoriaethu yn dod yn bwysicach pan fydd arian yn brin. Fodd bynnag, mae ardaloedd eraill yn Ynys Môn sydd yr un mor dlawd—ardaloedd gwledig, er enghraifft. Sut mae sicrhau nad yw'r rheini'n colli allan o beidio â chael statws Cymunedau yn Gyntaf?
- Communities First does very good work, I know, in Holyhead, and I understand that concentrating on prioritisation becomes more important when funding is tight. However, there are other areas on Anglesey that are just as poor—rural areas, for example. How can we ensure that they do not lose out by not having Communities First status?

14:21	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Obviously, there is only a certain pot of money. We have 52 Communities First clusters right across Wales—and you mentioned the one in Holyhead. These areas have been identified through a variety of measurements to ensure that we are targeting the most deprived areas.</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>Yn amlwg, dim ond swm penodol o arian sydd ar gael. Mae gennym 52 o glystyrau Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru—a soniasoch am yr un yng Nghaerdybi. Mae'r ardaloedd hyn wedi cael eu nodi drwy amrywiaeth o fesuriadau er mwyn sicrhau ein bod yn targedu'r ardaloedd mwyaf difreintiedig.</p>
<b>Y Trydydd Sector yng Ngorllewin Cymru</b>		<b>The Third Sector in West Wales</b>
14:21	<p><b>Paul Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>2. <i>A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i'r trydydd sector yng ngorllewin Cymru?</i> OAQ(4)0229(CTP)</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>2. <i>Will the Minister make a statement on what support the Welsh Government is giving to the third sector in west Wales?</i> OAQ(4)0229(CTP)</p>
14:21	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>The Welsh Government is committed to supporting communities and volunteers across Wales. In 2014-15, £7.192 million is committed to support an integrated third sector infrastructure to encourage volunteering, to support grass-roots organisations and to foster community wellbeing across west Wales. Infrastructure fund support for west Wales counties this year totals £1.4 million.</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi cymunedau a gwirfoddolwyr ledled Cymru. Yn 2014-15, neilltuwyd £7.192 miliwn i gefnogi seilwaith integredig y trydydd sector i annog gwirfoddoli, i gefnogi sefydliadau ar lawr gwlad ac i feithrin lles cymunedol ledled y gorllewin. Mae cefnogaeth cronfa seilwaith i siroedd y gorllewin eleni yn £1.4 miliwn.</p>
14:22	<p><b>Paul Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, I recently visited my local Age Cymru branch, which has been working with fire support officers from Mid and West Wales Fire and Rescue Service to encourage people to have their electric blankets checked for safety before the winter. It was, of course, great to see Age Cymru and the fire service working in partnership on this matter. In light of this, can you tell us what the Welsh Government is specifically doing to help and encourage the third sector to forge partnerships with statutory bodies, such as the fire and rescue services?</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>Weinidog, ymwelais yn ddiweddar â'm cangen leol o Age Cymru, sydd wedi bod yn cydweithio â swyddogion cymorth tân o Wasanaeth Tân ac Achub Gorllewin Cymru a'r Canolbarth i annog pobl i fynd â'u blancedi trydan i gael archwiliad diogelwch cyn y gaeaf. Yr oedd, wrth gwrs, yn wych gweld Age Cymru a'r gwasanaeth tân yn gweithio mewn partneriaeth ar y mater hwn. Yng ngoleuni hyn, a allwch ddweud wrthym beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn benodol i helpu ac annog y trydydd sector i ffurfio partneriaethau gyda chyrrff statudol, megis y gwasanaethau tân ac achub?</p>
14:22	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I am very aware of this particular partnership from my previous portfolio, in which I worked very closely with the fire and rescue authorities and the third sector, and we provided funding, for instance, for new electric blankets if someone was deemed to have a faulty one. There is a great deal of work going on to build up partnership capacity, if you like. We, in fact, have the partnership capacity building fund, which supports engagement in the third sector partnership council to go out and look for these partnerships.</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>Rwy'n ymwybodol iawn o'r bartneriaeth arbennig hon o'm portffolio blaenorol, ble bu i mi gydweithio'n agos iawn â'r awdurdodau tân ac achub a'r trydydd sector, ac rydym yn darparu cyllid, er enghraifft, ar gyfer blancedi trydan newydd os bernir bod gan rywun flanked ddiffygiol. Mae llawer iawn o waith yn mynd ymlaen i ddatblygu capasiti ar gyfer partneriaethau. Mewn gwirionedd, mae gennym y gronfa datblygu capasiti partneriaeth, sy'n cefnogi ymgysylltiad yng nghyngor partneriaeth y trydydd sector i fynd allan a chwilio am y partneriaethau hyn.</p>
<b>Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau</b>		<b>Questions Without Notice from Party Spokespeople</b>
14:23	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>First this afternoon is the Plaid Cymru spokesperson, Rhodri Glyn Thomas.</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>Y cyntaf y prynhawn yma yw llefarydd Plaid Cymru, Rhodri Glyn Thomas.</p>

- 14:23 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, mae arferion caffael, o'u gweithredu'n gywir, yn gallu cael effaith ar ddiweithdra—gostwng y nifer sydd yn ddi-waith—a gallant hefyd gael effaith ar ddiwylliant ac ymddygiad o fewn y sector breifat. Weinidog, pa newidiadau sydd wedi eu cyflwyno yn yr adran hon ers ei sefydlu 18 mis yn ôl? Derbyniaf mai ychydig wythnosau rydych wedi bod yn y swydd, ond mae'r adran wedi bod mewn bodolaeth ers 18 mis. Nid ein bai ni yw e fod newid wedi bod o ran y Gweinidog. Pa newidiadau sydd wedi eu cyflwyno gan yr adran o ran caffael yn y 18 mis diwethaf?
- Minister, procurement practices, when used correctly, can have an impact on unemployment—they can reduce the number of unemployed—and they can also have an impact on the culture and behaviour in the private sector. Minister, what changes have been introduced in this department since its establishment 18 months ago? I accept that you have been in post for only a few weeks, but the department has been in place for 18 months. It is not our fault that the Minister has changed. What changes have been introduced by the department in terms of procurement over the last 18 months?
- 14:24 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- As you said, I have only been in post a month. I will have to write to the Member, I am afraid, about the specific changes that have been brought in over the past 18 months. Obviously, in my previous portfolio, I worked with the Minister for finance to bring procurement policies very much to the fore, because we do see it as a very important area.
- Fel y dywedaso, dim ond ers mis y bu i mi gael y swydd hon. Bydd yn rhaid imi ysgrifennu at yr Aelod, mae arnaf ofn, ynglŷn â'r newidiadau penodol sydd wedi cael eu cyflwyno yn ystod y 18 mis diwethaf. Yn amlwg, yn fy mhortffolio blaenorol, roeddwn i'n cydweithio â'r Gweinidog cyllid er mwyn rhoi cryn amlygrwydd i bolisiau caffael, gan ein bod yn ei ystyried yn faes pwysig iawn.
- 14:24 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Felly, a gaf eich cyfeirio at un agwedd, o bosibl, o arferion caffael, sef cytundebau dim oriau—'zero-hours contracts'? Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno â mi fod y math hwn o gytundebau yn creu problemau o ran tlodi yn ein cymunedau. Beth ydych yn credu y gallwch chi, fel Gweinidog, a'ch adran chi ei wneud i fynd i'r afael â'r cynnydd yn y math hwn o gytundebau?
- If that is the case, Minister, may I refer you to one aspect of procurement, which is zero-hours contracts? I am sure that you would agree with me that these kinds of contracts create problems in terms of poverty within our communities. What do you think that you, as Minister, and your department can do to tackle the increase in the use of these kinds of contracts?
- 14:25 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- This is an area that we, as a Government, are very concerned about. My colleague Leighton Andrews, the Minister for Public Services, leads in this policy area, and I will be having discussions with him as we go forward, to have a look at what we can do, particularly in relation to the tackling poverty agenda. Certainly, we have seen some practices that are not what we would want to see across our public sector in Wales.
- Dyma faes yr ydym ni, fel Llywodraeth, yn bryderus iawn amdano. Mae fy nghyd-aelod, Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, yn arwain yn y maes polisi hwn, a byddaf yn cael trafodaethau gydag ef wrth inni symud ymlaen, i gael golwg ar yr hyn y gallwn ei wneud, yn enwedig mewn perthynas ag agenda trechu tlodi. Yn sicr, gwelsom rai arferion na fyddem yn dymuno eu gweld ar draws ein sector cyhoeddus yng Nghymru.
- 14:25 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- You have only had two questions, Rhodri Glyn Thomas.
- Dim ond dau gwestiwn a gawsoch, Rhodri Glyn Thomas.
- 14:25 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch yn fawr iawn, Lywydd. [Chwerthin.] Rwy'n gwerthfawrogi'r cyfle i ofyn cwestiwn ychwanegol. Yng nghyd-destun y cytundebau dim oriau hyn, mae llawer iawn o arferion o ran caffael lle gall Llywodraeth Cymru ymyrryd yn y broses. A ydych yn hapus i wneud hynny a cheisio annog y sector breifat i ymddwyn mewn ffordd sydd yn diogelu hawliau pobl sy'n cael eu cyflogi ganddo?
- Thank you very much, Presiding Officer. [Laughter.] I do appreciate the opportunity to ask an additional question. In the context of zero-hours contracts, of course there are a number of procurement practices where the Welsh Government has the power to intervene in the process. Are you happy to do that and to encourage the private sector to behave in a way that safeguards the rights of the people that it employs?
- 14:26 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes. Again, we have had discussions across Government regarding procurement practices and zero-hours contracts within the public sector and the private sector. I want to assure the Member that it is something that I will look at now that I am in this portfolio.
- Ydym. Unwaith eto, cawsom drafodaethau ar draws y Llywodraeth ynghylch arferion caffael a chontractau oriau sero yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Rwyf am sicrhau'r Aelod fod hyn yn rhywbeth y byddaf yn ei ystyried bellach gan fod gennyf y portffolio hwn.

- 14:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I call the Welsh Conservatives' spokesperson, Mohammad Asghar. Galwaf ar lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Mohammad Asghar.
- 14:26 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, the British social attitudes survey recently revealed that the number of people in Wales admitting to being very prejudiced or a little prejudiced is 14% higher than it was in the year 2000. What action will the Minister take to reduce tension and suspicion between communities in Wales in the light of this result? Weinidog, yn ddiweddar dangosodd arolwg ar agweddau cymdeithasol Prydeinig fod nifer y bobl yng Nghymru sy'n cyfaddef eu bod yn rhagfarnllyd iawn neu ychydig yn rhagfarnllyd 14% yn uwch nag ydoedd yn y flwyddyn 2000. Pa gamau fydd y Gweinidog yn eu cymryd i leihau tensiwn a drwgdybiaeth rhwng cymunedau yng Nghymru yng ngoleuni'r canlyniad hwn?
- 14:27 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- It is very worrying to hear those figures that the Member has just mentioned. Last week was Hate Crime Awareness Week, and I was very encouraged as I did several visits around Wales. Each day we focused on a different protected characteristic, and it was very encouraging to hear of the work being done locally. I was in Wrexham on Saturday, where a great deal of work has gone on around community cohesion with particular communities in Wrexham. Earlier in the week, I visited a synagogue in Cardiff to hear what work the community was undertaking with the Jewish community. So, I think that a great deal of work is going on. We have a very good faith forum in Wales, which the First Minister chairs, and of which I am vice-chair. That forum also met last week, and it was very good to hear about the mutual respect and work undertaken by everyone on that faith forum. Mae clywed y ffigurau hynny y mae'r Aelod newydd eu crybwyll yn peri cryn bryder. Cynhaliwyd Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb yr wythnos diwethaf, a chefais fy nghalonogi'n fawr wrth wneud sawl ymweliad o amgylch Cymru. Bob dydd bu i ni ganolbwyntio ar nodwedd warchoddedig wahanol, ac yr oedd yn galonogol iawn clywed am y gwaith sy'n cael ei wneud yn lleol. Roeddwn i yn Wrecsam ddydd Sadwrn, lle mae llawer iawn o waith wedi mynd ymlaen ar gyfer cydlyniant cymunedol gyda chymunedau penodol yn Wrecsam. Yn gynharach yn yr wythnos, ymwelais â synagog yng Nghaerdydd i glywed pa waith yr oedd y gymuned yn ei wneud gyda'r gymuned Iddewig. Felly, credaf fod llawer iawn o waith yn mynd ymlaen. Mae gennym fforwm ffydd da iawn yng Nghymru, sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Weinidog, a minnau'n is-gadeirydd. Cyfarfu'r fforwm hwnnw hefyd yr wythnos diwethaf, ac yr oedd yn dda iawn clywed am y cyd-barch a'r gwaith a wneir gan bawb ar y fforwm ffydd.
- 14:27 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- As you mentioned partly, last week, the Deputy Police and Crime Commissioner for Gwent, Paul Harris, and the Gwent Police superintendent, Mark Warrender, met with Muslim community leaders in Newport central mosque to promote Hate Crime Awareness Week, which you have just mentioned. Given that 15% of religious hate crime victims have attempted to conceal their religion to reduce the risk of further victimisation, will you join me in welcoming this move to encourage people to report incidents so that they can be dealt with properly in this part of the world? Fel y crybwyllwyd yn rhannol, yr wythnos diwethaf, cyfarfu Paul Harris, Dirprwy Gomisinydd yr Heddlu a Throseddau Gwent a Mark Warrender, uwch-arolygydd Heddlu Gwent ag arweinwyr cymunedol Mwslimaidd yn y mosg yng nghanol Casnewydd i hyrwyddo Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb, a grybwyllwyd gennych yn awr. O ystyried bod 15% o ddiodefwrwr trosedd casineb crefyddol wedi ceisio cuddio eu crefydd er mwyn lleihau'r risg o erledigaeth bellach, a wnewch chi ymuno â mi i groesawu'r ymgyrch hon sy'n annog pobl i roi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath fel y gellir ymdrin â hwy yn briodol yn y rhan hon o'r byd?
- 14:28 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, absolutely. One of the purposes of Hate Crime Awareness Week is to ensure that we see a rise in the number of people reporting these incidents. When I came into portfolio last month, one of the very stark figures that I saw was that only 38 people had reported such crime. Clearly, that is just the tip of the iceberg, and what we want to see is more people reporting if they are victims of this dreadful behaviour. There is no place in Wales for it. Gwnaf yn llwyr. Un o ddibenion Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb yw sicrhau ein bod yn gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n rhoi gwybod am y digwyddiadau hyn. Pan gychwynnais y portffolio y mis diwethaf, un o'r ffigurau amlwg iawn a welais oedd mai dim ond 38 o bobl a oedd wedi rhoi gwybod am droseddau o'r fath. Yn amlwg, dim ond crafu'r wyneb yw hyn, a'r hyn rydym am ei weld yw rhagor yn cysylltu â'r heddlu os ydynt yn dioddef ymddygiad ofnadwy o'r fath. Nid oes lle i'r fath beth yng Nghymru.

- 14:29 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for the reply, Minister. The former Prime Minister, Tony Blair, said recently that teaching respect for other religions is needed to tackle the roots of extremism. Does the Minister agree with Mr Blair, and what recent discussions has she had with ministerial colleagues about introducing measures to tackle the threat of Muslim radicalisation in Wales?
- Diolch i chi am yr ateb, Weinidog. Y cyn Brif Weinidog, Tony Blair ddywedodd, yn ddiweddar bod angen addysgu parch at grefyddau eraill er mwyn mynd i'r afael â gwreiddiau eithafiaeth. A yw'r Gweinidog yn cytuno â Mr Blair, a pha drafodaethau diweddar y mae wedi'u cael gyda chyd-Weinidogion ynghylch cyflwyno mesurau i fynd i'r afael â'r bygythiad o radicleiddio Mwslimaidd yng Nghymru?
- 14:29 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I have not had specific discussions about the Muslim faith. As I say, we have had Hate Crime Awareness Week last week, and I discussed that with ministerial colleagues. We had the faith forum on Monday, which the First Minister chaired, and we had very good discussions across all faiths about what we could do to raise awareness among the communities. I mentioned my visit last Thursday to a synagogue in Cyncoed in Cardiff. Alun Michael, the Police and Crime Commissioner for South Wales, and Sophie Howe, the deputy, came with me to that meeting, because I think that it is very important that the police hear what is going on in that community, although I have to say that the police were very well aware of many of the issues that members of the synagogue brought up during those discussions.
- Ni chefais drafodaethau penodol am y ffydd Fwslimaidd. Fel y dywedais, yr wythnos diwethaf oedd Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb, a thrafodais hynny gyda'm cyd-aelodau gweinidogol. Ddydd Llun, cawsom y fforwm ffydd, dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog, a chawsom drafodaethau da iawn ar draws bob ffydd am yr hyn y gallem ei wneud i godi ymwybyddiaeth ymysg y cymunedau. Soniais am fy ymweliad ddydd lau diwethaf â synagog yng Nghyncoed yng Nghaerdydd. Daeth Alun Michael, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru, a Sophie Howe, y dirprwy, gyda mi i'r cyfarfod hwnnw, gan fy mod yn credu ei bod yn bwysig iawn bod yr heddlu'n clywed beth sy'n digwydd yn y gymuned honno, er bod yn rhaid i mi ddweud bod yr heddlu'n dra ymwybodol o lawer o'r materion y bu i aelodau o'r synagog eu cyflwyno yn ystod y trafodaethau hynny.
- 14:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Finally, I call the Welsh Liberal Democrats spokesperson, Peter Black.
- Yn olaf, galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.
- 14:30 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Presiding Officer. Minister, in your previous answer to me, you said that you had spent, so far, up to £75 million targeting the most deprived areas through Communities First; I very much support that. However, in terms of the performance indicators that assess how effectively that money is spent, a large number of them are subjective and deal with lifestyle changes, such as, for example, eating fruit or vegetables daily, and being more confident about cooking a fresh meal. That is a lot of money to spend on teaching someone how to eat more healthily, as important as that is. Can you explain what indicators you are using to actually determine how effective this expenditure is in terms of raising the economic, health and education aspects of those communities?
- Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, yn eich ateb blaenorol i mi, dywedasoch eich bod wedi gwario hyd at £75 miliwn hyd yn hyn yn targedu'r ardaloedd mwyaf difreintiedig drwy Cymunedau yn Gyntaf, rwy'n cefnogi hynny'n fawr iawn. Fodd bynnag, o ran y dangosyddion perfformiad sy'n asesu pa mor effeithiol y caiff arian ei wario, mae nifer fawr ohonynt yn oddrychol ac yn delio â newidiadau mewn ffordd o fyw, megis, er enghraifft, bwyta ffrwythau neu lysiau bob dydd, a bod yn fwy hyderus ynglŷn â choginio pryd o fwyd ffres. Mae hynny'n llawer o arian i'w wario ar ddysgu rhywun sut i fwyta'n iachach, er pwysicedd hynny. A allwch chi egluro pa ddangosyddion yr ydych yn eu defnyddio i benderfynu mewn gwirionedd pa mor effeithiol yw'r gwariant hwn o ran codi agweddau economaidd, iechyd ac addysg y cymunedau hynny?
- 14:31 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I did not say that we had spent £75 million just on teaching people to eat healthily. That is the whole sum of funding committed to the programme up to next March. I mentioned before that there are several projects and initiatives that we have embedded within Communities First. It is really important—the economic aspects that you mentioned are really important. We have several projects, for instance, with Jobs Growth Wales, with Jobcentre Plus, and with Street Games, which are all projects that encourage that strong community involvement, and help to get people into work.
- Wel, doeddwn i ddim yn dweud ein bod wedi gwario £75 miliwn ar addysgu pobl i fwyta'n iach yn unig. Dyna gyfanswm y cyllid a neilltuwyd i'r rhaglen hyd at fis Mawrth nesaf. Soniais cynt fod nifer o brosiectau a mentrau y bu i ni eu hymgorffori yn Cymunedau yn Gyntaf. Mae'n wirioneddol bwysig—mae'r agweddau economaidd a grybwyllwyd gennych yn bwysig iawn. Mae gennym nifer o brosiectau, er enghraifft, gyda Twf Swyddi Cymru, gyda'r Ganolfan Byd Gwaith, a chyda Gemau Stryd, sydd i gyd yn brosiectau sy'n annog cyfranogiad cymunedol cryf, ac yn helpu i gael pobl i mewn i waith.



14:31 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Absolutely, and I am very much in support of those projects, which certainly do provide anecdotal evidence in terms of the effectiveness of the money. However, if you actually look at the statistics in terms of Communities First areas, in terms of the economy, in terms of health, or in terms of education, they are not performing any better than other communities nearby in terms of those outcomes. So, may I ask you again: how are you measuring that, and, more importantly, what is the baseline assessment that you are using in terms of measuring the success of Communities First, given that it has been in operation now for well over 10 years?

Yn hollol, ac rwy'n llwyr gefnogi'r prosiectau hynny, sy'n sicr yn darparu tystiolaeth anecdotaidd o ran effeithiolrwydd yr arian. Fodd bynnag, os ydych yn edrych ar yr ystadegau o ran ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, o ran yr economi, yn nhermau iechyd, neu o ran addysg, nid ydynt yn perfformio'n well na chymunedau eraill cyfagos o ran y canlyniadau hynny. Felly, a gaf fi ofyn ichi eto: sut yr ydych yn mesur hynny, ac, yn bwysicach fyth, beth yw'r asesiad sylfaenol rydych yn ei ddefnyddio o ran mesur llwyddiant Cymunedau yn Gyntaf, o ystyried ei fod wedi bod ar waith yn awr am 10 mlynedd a mwy?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

14:32 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, you might say that they are not performing any better than the next community, but, if we did not have the targeted funding, and if we did not have this targeted approach, then maybe they would be performing much worse. I think that it is very important that we recognise that these communities are some of our most deprived. We have the outcomes framework, which I think you will be aware was updated to include key measures for the reporting period that we are now in, and I am expecting clusters to begin reporting against these next month, with their current data. I will be able to see then where they fit in to the whole performance of the Communities First programme.

Wel, hwyrach y dywedwch nad ydynt yn perfformio'n well na'r gymuned gyfagos, ond, os nad oedd gennym gyllid wedi'i dargedu, ac os nad oedd gennym y dull targedol hwn, efallai y byddai eu perfformiad lawer gwaeth. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cydnabod bod y cymunedau hyn ymhlith y mwyaf difreintiedig. Mae gennym y fframwaith canlyniadau, y credaf y byddwch yn deall iddo gael ei ddiweddarau i gynnwys mesurau allweddol ar gyfer y cyfnod adrodd presennol, a disgwyliaf glystyrau i ddechrau adrodd yn erbyn y rhain y mis nesaf, gyda'u data cyfredol. Byddaf yn gallu gweld, bryd hynny, eu safle o fewn perfformiad cyfan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

14:33 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that, Minister. You say that they would be performing worse if you were not spending this money, but you have not actually produced the objective statistics to back that up, certainly not in terms of the baseline data. May I ask you, therefore, in terms of measurable targets, why are you not adopting targets such as healthy life expectancy at birth, for males and females, and the numbers of those not in education, employment or training and of households that do not meet minimum income standards? In fact, why are you not looking at the statistics produced by Sir Michael Marmot's team as part of the 'Fair Society Healthy Lives' project, as a more objective assessment of how this money is being spent, so that we can see that you will spend that money more effectively?

Diolch i chi am hynny, Weinidog. Rydych yn dweud y byddent yn perfformio yn waeth pe na baech yn gwario'r arian hwn, ond nid ydych mewn gwirionedd wedi cynhyrchu'r ystadegau gwrthrychol i gefnogi hynny, yn sicr nid o ran y data sylfaenol. A gaf fi ofyn i chi, felly, o ran targedau mesuradwy, pam nad ydych yn mabwysiadu targedau megis disgwyliad oes iach adeg genedigaeth, ar gyfer dynion a menywod, a niferoedd y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac ar aelwydydd nad ydynt yn bodloni safonau isafswm incwm? A dweud y gwir, pam nad ydych yn edrych ar yr ystadegau a gynhyrchwyd gan dîm Syr Michael Marmot fel rhan o brosiect 'Fair Society Healthy Lives', fel asesiad mwy gwrthrychol o sut y mae'r arian hwn yn cael ei wario, fel y gallwn weld eich bod yn gwario'r arian yn fwy effeithiol?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

14:33 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That is something that, obviously, I need to look at quite early on in the portfolio. I think that the number of key measures were actually reduced—they were a very large number, a bit of an unwieldy number, if you like, and they have been brought down to a much more manageable number. However, it could be that we need to look at bringing other performance indicators or other data measurements into play to see how the programme is performing. You may be aware that an evaluation of the programme has been commissioned, and will be undertaken by Ipsos MORI. I think that that will work on how well programme arrangements are working. However, I think that, at the moment, it perhaps is a bit too soon to judge the longer-term impacts of the programme.

Mae hynny'n rhywbeth, yn amlwg, y mae angen imi edrych arno'n eithaf cynnar yn y portffolio. Credaf fod nifer y mesurau allweddol wedi lleihau—roedd nifer fawr iawn ohonynt, rhif anhylaw, os mynnwch chi, ac maent wedi cael eu cwtogi i nifer llawer mwy ymarferol. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod angen i ni ystyried cyflwyno dangosyddion perfformiad eraill neu fesuriadau data arall er mwyn gweld sut y mae'r rhaglen yn perfformio. Efallai y gwyddoch fod gwerthusiad o'r rhaglen wedi ei gomisiynu, a bydd yn cael ei gynnal gan Ipsos MORI. Credaf y bydd hynny'n ystyried pa mor dda y mae trefniadau'r rhaglen yn gweithio. Fodd bynnag, credaf, ar hyn o bryd, efallai ei bod ychydig yn rhy gynnar i farnu effeithiau tymor hwy y rhaglen.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

**Tai Addasol i Bobl Anabl**

**Adaptive Housing for the Disabled**

14:34	<p><b>Eluned Parrott</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar argaeledd tai addasol i bobl anabl? OAQ(4)0227(CTP)</p>	<p>3. Will the Minister make a statement on the availability of adaptive housing for the disabled? OAQ(4)0227(CTP)</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:34	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you. Adapted housing plays an important role in meeting the housing needs of disabled people. The Welsh Government encourages the use of accessible housing registers and cross-boundary work to make best use of existing resources with consistency, efficiency and cost-effectiveness. All local authorities have an accessible housing register matching process.</p>	<p>Diolch. Mae tai wedi'u haddasu yn chwarae rhan bwysig wrth ddiwallu anghenion tai pobl anabl. Mae Llywodraeth Cymru yn annog defnyddio cofrestrau tai hygyrch a gwaith traws-ffiniol i wneud y defnydd gorau o adnoddau presennol gyda chysondeb, effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd. Mae gan bob awdurdod lleol broses baru ar gyfer cofrestr tai hygyrch.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:34	<p><b>Eluned Parrott</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you, Minister. I have been contacted by a constituent in the Vale of Glamorgan who is waiting for a suitably adapted home for her son, who has Duchenne muscular dystrophy. Her current home cannot be made suitable and, as his condition progresses, that will mean that he will become a prisoner in his own home. She has gold-priority status, but so do around 20 other families in the Vale, and, although the local authority has agreed to build 10 homes, that clearly leaves another 10 families still facing an indefinite wait. How long do you think it is reasonable for a family with a disabled child to have to wait for a suitable home, and what is the Welsh Government doing to encourage local authorities to speed up the process by which these homes are allocated?</p>	<p>Diolch i chi, Weinidog. Cysylltodd etholwr â mi o Fro Morgannwg, sy'n aros am gartref wedi'i addasu'n briodol ar gyfer ei mab, sydd â nychdod cyhyrol Duchenne. Ni ellir addasu ei chartref presennol, ac wrth i'w gyflwr raddol waethygu, bydd hynny'n golygu y bydd yn mynd yn garcharor yn ei gartref ei hun. Mae ganddi statws blaenoriaeth aur, ond felly y mae tua 20 o deuluoedd eraill yn y Fro, ac, er bod yr awdurdod lleol wedi cytuno i adeiladu 10 o gartrefi, mae hynny'n amlwg yn gadael 10 teulu arall i wynebu cyfnod amhenodol yn aros. Pa mor hir ydych chi'n meddwl y mae'n rhesymol i deulu â phlentyn anabl orfod aros am gartref addas, a beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog awdurdodau lleol i gyflymu'r broses ar gyfer dyrannu'r cartrefi hyn?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:35	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>The Vale of Glamorgan is due to meet the Welsh housing quality standard in all of its stock by 2017 and I would expect that to include homes for those families who are also waiting for adaptations to properties. If you would like to write to me about the specific constituent, I would be very happy to take this up with the Vale of Glamorgan Council. I would hope that there would be very good reasons why the authority would have not been able to carry out the works needed, particularly if they have been told that they are a priority. So, if you would like to write to me, I will look into it.</p>	<p>Mae Bro Morgannwg i fod i gyrraedd safon ansawdd tai Cymru ar gyfer ei holl stoc erbyn 2017 a byddwn yn disgwyl i hynny gynnwys cartrefi ar gyfer y teuluoedd hynny sydd hefyd yn aros am addasiadau i eiddo. Os hoffech ysgrifennu ataf am yr etholwr penodol, byddwn yn barod iawn i fynd i'r afael â hyn gyda Chyngor Bro Morgannwg. Byddwn yn gobeithio y byddai yna resymau da iawn pam y byddai'r awdurdod wedi methu â chwblhau'r gwaith sydd ei angen, yn enwedig os ydynt wedi cael gwybod eu bod yn flaenoriaeth. Felly, os hoffech ysgrifennu ataf, byddaf yn rhoi sylw i'r mater.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:36	<p><b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, as a member of the Communities, Equality and Local Government Committee, we conducted another inquiry—our third inquiry—into home adaptations and I am quite keen to ensure that we do not write these reports and then just pay lip service to them. Two of the recommendations, actually, were as follows:</p> <p>'The Welsh Government should encourage Local Authority scrutiny committees to scrutinise the performance of adaptation services in their areas at least once in a council term'</p> <p>and also that:</p>	<p>Weinidog, fel aelod o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, cynhaliwyd ymchwiliad arall—ein trydydd ymchwiliad—i addasiadau yn y cartref arall ac rwy'n eithaf awyddus i sicrhau nad ydym yn ysgrifennu'r adroddiadau hyn, ac yna dim ond yn esgus eu cefnogi nhw. Roedd dau o'r argymhellion, mewn gwirionedd, fel a ganlyn:</p> <p>'Dylai Llywodraeth Cymru annog pwyllgorau craffu awdurdodau lleol i graffu ar berfformiad gwasanaethau addasu yn eu hardaloedd o leiaf unwaith yn ystod tymor y cyngor'</p> <p>a hefyd:</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

'Welsh Government should work with the various agencies involved in the adaptations process to ensure that opportunities to recycle equipment are maximised.'

On those two points alone, what action is your department actually taking to ensure that actions have been taken forward since the publication of that report?

'Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r gwahanol asiantaethau sy'n ymwneud â'r broses addasiadau i sicrhau bod cyfleoedd i ailgylchu cyfarpar yn cael eu huchafu.'

O ran y ddau bwynt hyn yn unig, pa gamau y mae eich adran mewn gwirionedd yn eu cymryd i sicrhau bod camau wedi cael eu cymryd ers cyhoeddi'r adroddiad hwnnw?

14:37

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You are quite right—reports should not just sit on a shelf and gather dust; they need to be looked at and, obviously, we need to look at any recommendations that come forward from Christine Chapman's committee very seriously. There is a great deal of work going on between Welsh Government and local authorities in this area. My department itself has a needs and adaptations review going on, which I expect to report to me by the end of the month. I think to try to share equipment and move equipment over is very good. I mentioned, in relation to adaptive housing, that we have encouraged and given funding to local authorities to ensure that they can have a register so that there could be that cross-boundary working, if necessary. We fund the disabled facilities grant and, while there has been an increase in the number of days that people are waiting—a decrease, by 32 days, rather than an increase, I should say—I still think that that is not good enough. I have already written to the Welsh Local Government Association and told it that. Authorities really have to up their game. Some local authorities are much quicker than others, but it is still taking an average of 239 days to deliver some disabled facilities grants, which is completely unacceptable.

Rydych yn llygad eich lle—ni ddylai adroddiadau hel llwch ar sillf, mae angen edrych arnynt ac, yn amlwg, mae angen inni edrych ar unrhyw argymhellion a gyflwynir gan bwyllgor Christine Chapman yn ddifrifol iawn. Mae llawer iawn o waith yn mynd ymlaen rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn y maes hwn. Mae gan fy adran i adolygiad anghenion ac addasiadau ar waith, a disgwyliaf adroddiad amdano erbyn diwedd y mis. Credaf fod ceisio rhannu offer a symud offer yn dda iawn. Bu i mi sôn, mewn perthynas â thai wedi'u haddasu, ein bod wedi annog a rhoi cyllid i awdurdodau lleol i sicrhau y gallant gael cofrestr fel bod modd gweithio ar draws ffiniau, os oes angen. Rydym yn ariannu grant cyfleusterau i'r anabl ac, er bod cynnydd yn nifer y dyddiau y mae pobl yn aros—gostyngiad, o 32 diwrnod, yn hytrach na chynnydd, dylwn ddweud—rwy'n dal i feddwl nad yw hynny'n ddigon da. Rwyf eisoes wedi ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gan adrodd yr hanes hynny. Mewn gwirionedd, rhaid i Awdurdodau dorchi eu llawes. Mae rhai awdurdodau lleol yn llawer cynt nag eraill, ond mae'n dal i gymryd 239 diwrnod ar gyfartaledd i gyflwyno rhai grantiau cyfleusterau i'r anabl, sy'n gwbl annerbyniol.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

14:38

**Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, what assistance is the Welsh Government giving to disabled people and their families to find suitably adapted housing as a result of the bedroom tax, which is inflicted upon us by the London Government, forcing people to move from their homes and communities where they enjoy neighbourhood and family support?

Weinidog, pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i bobl anabl a'u teuluoedd ddod o hyd i dai a addaswyd yn briodol o ganlyniad i'r dreth ystafell wely, a orfodwyd arnom gan y Llywodraeth yn Llundain, sy'n gorfodi pobl i symud o'u cartrefi a'u cymunedau lle maent yn mwynhau cymdogaeth a chymorth eu teulu?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

14:38

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Absolutely. We all agree—well, I do not think that we all agree; I think that some of our colleagues in the Chamber think that it is quite a good tax, but we certainly do not agree with that. Again, I go back to what I was saying about the accessible housing register matching process. We have given funding to local authorities to have these accessible housing registers to encourage cross-boundary work, and, at the moment, I think there are either 14 or 15 local authorities that have those registers and it is really important that they make progress on that. We have encouraged other local authorities to develop them. I think that there are three in the process of doing so. I have given funding to two local authorities in north Wales to develop a north-east Wales common housing register, because I think that it is really important that local authorities work closely together.

Yn hollol. Mae pawb ohonom yn cytuno—wel, nid wyf yn meddwl ein bod i gyd yn cytuno; credaf fod rhai o'n cyd-aelodau yn y Siambr yn credu ei bod yn dreth eithaf da, ond yn sicr nid wyf fi'n cytuno â hynny. Unwaith eto, af yn ôl at yr hyn a ddywedais am y broses baru ar gyfer y gofrestr tai hygyrch. Rydym wedi rhoi cyllid i awdurdodau lleol i gael cofrestrau tai hygyrch er mwyn annog gwaith traws-ffiniol, ac, ar hyn o bryd, credaf fod naill ai 14 neu 15 o awdurdodau lleol â'r cofrestrau hynny ac mae'n bwysig iawn eu bod yn gwneud cynnydd ar hynny. Rydym wedi annog awdurdodau lleol eraill i'w datblygu. Credaf fod tri yn y broses o wneud hynny. Rhoddais gyllid i ddau awdurdod lleol yn y gogledd i ddatblygu cofrestr tai cyffredin yn y gogledd-ddwyrain, gan y credaf ei bod yn wirioneddol bwysig bod awdurdodau lleol yn cydweithio'n agos â'i gilydd.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

## Diwygio Lles

## Welfare Reform

- 14:39 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 4. Pa gyfarfodydd y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidogion cyfatebol yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch diwygio lles ers ei phenodiad? OAQ(4)0241(CTP)*
- 4. What meetings has the Minister had with Ministerial counterparts in the UK Government regarding welfare reform since her appointment? OAQ(4)0241(CTP)*
- 14:39 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I have not met with UK Ministers on welfare reform since my appointment last month. However, like my predecessors, I expect to have regular contact with UK Ministers on the welfare agenda. My officials, of course, also work closely with officials in the Department for Work and Pensions.
- Nid wyf wedi cwrrd â Gweinidogion y DU ar ddiwygio lles ers i mi gael fy mhenodi y mis diwethaf. Fodd bynnag, fel fy rhagflaenwyr, rwy'n disgwyl cael cysylltiad rheolaidd â Gweinidogion y DU ar yr agenda les. Mae fy swyddogion, wrth gwrs, hefyd yn cydweithio'n agos â swyddogion yn yr Adran Gwaith a Phensiynau.
- 14:39 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch yn fawr i'r Gweinidog, ond, o ystyried fod y swm a denir allan o economi Cymru yn cael ei amcangyfrif i fod bron yn £1 biliwn, o Ogledd Iwerddon yn £750 miliwn ac wedi achosi gwrthdaro gwleidyddol drwy'r haf, ac yn £1.6 biliwn yn yr Alban, a yw'r Gweinidog yn gobeithio y bydd trafodaethau ynglŷn â diwygio a datganoli agweddau ar ddiwygio lles, yn enwedig lwfansau gofal a thai?
- Thank you, Minister, but, given that the sum withdrawn from the Welsh economy is estimated to be almost £1 billion, from Northern Ireland £750 million and has caused political conflict through the summer, and £1.6 billion in Scotland, does the Minister hope that there will be discussions on reforming and devolving aspects of welfare reform, particularly care and housing allowances?
- 14:40 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Certainly, that is something that, as a Welsh Government, we are having a look at. I fully intend to engage with the UK Ministers on this agenda. I have had a letter from one of them today and it was addressed to my predecessor, so I think that that shows how on the ball they are in that department.
- Yn sicr, mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid i ni fel Llywodraeth Cymru ei ystyried. Rwy'n llwyr fwriadu ymgysylltu â Gweinidogion y DU ar yr agenda hon. Cefais lythyr oddi wrth un ohonynt heddiw ac yr oedd wedi'i gyfeirio at fy rhagflaenydd, felly credaf fod hynny'n dangos pa mor gyfoes yw'r adran honno.
- 14:40 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I have received a letter from my local branch of Jobcentre Plus, reminding me of the announcement by the Chancellor in May that, barring certain exceptions, the waiting days at the start of any claim for jobseeker's allowance, or indeed, employment and support allowance, will be extended from three to seven. This will come into force next week. Will you tell me what consideration you have given to the effect that this will have on working people who are already living in poverty and who may have to claim these benefits?
- Weinidog, cefais lythyr gan gangen leol fy Nghanolfan Byd Gwaith, i'm hatgoffa o gyhoeddiad y Canghellor ym mis Mai, ac eithrio rhai eithriadau, y bydd y diwrnodau aros ar ddechrau unrhyw gais am lwfans ceisio gwaith, neu yn wir, lwfans a chymorth cyflogaeth, yn cael eu hymestyn o dri i saith. Bydd hyn yn dod i rym yr wythnos nesaf. A wnewch chi ddweud wrthyf ba ystyriaeth a roesoch i effaith hyn ar bobl sy'n gweithio sydd eisoes yn byw mewn tlodi ac a allai fod yn gorfod hawlio'r budd-daliadau hyn?
- 14:41 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Certainly, Welsh Government policy officials and analysts have had a look at this; it is something that does concern us and I do not think that it will do anything to help people who are in poverty for them to have to wait even longer. We are going to have to look at what funding we are able to provide, certainly through the discretionary assistance fund, to help these families.
- Yn sicr, mae swyddogion a dadansoddwyr polisi Llywodraeth Cymru wedi cael golwg ar hyn; mae'n rhywbeth sydd yn peri pryder i ni, ac nid wyf yn credu y bydd yn gwneud unrhyw beth i helpu pobl sydd mewn tlodi eu bod yn gorfod aros hyd yn oed yn hirach. Rydym yn mynd i orfod edrych ar y cyllid y byddwn yn gallu ei ddarparu, yn sicr drwy'r gronfa cymorth dewisol, i helpu'r teuluoedd hyn.

- 14:41 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I trust that your department is in dialogue with the Department for Work and Pensions over the devolution of the independent living fund. Given the unanimous view expressed to Disability Wales by independent living fund recipients and carers that they fear that they are at risk of losing the quality of service currently being provided by an independent body, how do you respond to Disability Wales's strong support for setting up a national independent living scheme in Wales?
- Hyderaf fod eich adran mewn deialog gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ynghylch datganoli'r gronfa byw'n annibynnol. O ystyried y farn unfrydol a fynegwyd wrth Anabledd Cymru gan dderbynwyr y gronfa byw'n annibynnol a gofawyr eu bod yn ofni eu bod mewn perygl o golli ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd gan gorff annibynnol, sut yr ydych yn ymateb i'r gefnogaeth gref a roddodd Anabledd Cymru i sefydlu cynllun byw'n annibynnol cenedlaethol yng Nghymru?
- 14:42 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- That issue falls within the Minister for Health and Social Services' portfolio.
- Mae'r mater hwnnw yn perthyn i bortffolio'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- 14:42 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, when you do meet with the Ministers in the UK Government, will you express the concerns of many of us here about the putrid comments made by Lord Freud last week—well, he made them at a fringe event at the Tory party conference, but they were exposed last week—when he said that some disabled people are not worth the full national minimum wage? Minister, will you, like me, condemn those comments, but also, do you take from the fact that David Cameron has not sacked Lord Freud that David Cameron's welfare agenda is pushing down that same route? Will you also confirm that the Welsh Government will oppose any of those employers who seek to take up this almost—. Well, I cannot say what I want to say. Will you confirm that we should support disabled people and that we should pay them the wage for the job that they are doing?
- Weinidog, pan fyddwch yn cyfarfod â Gweinidogion yn Llywodraeth y DU, byddwch yn mynegi pryderon llawer ohonom yma am y sylwadau gwael a wnaed gan yr Arglwydd Freud yr wythnos diwethaf—wel, bu iddo eu dweud mewn digwyddiad ymylol yng nghynhadledd y blaid Doriaidd, ond cawsant eu datgelu yr wythnos diwethaf—pan ddywedodd nad yw rhai pobl anabl yn werth yr isafswm cyflog cenedlaethol llawn? Weinidog, a wnewch chi, fel fi, gondemnio'r sylwadau hynny, ond hefyd, a ydych yn deall yn sgîl y ffaith nad yw David Cameron wedi diswyddo'r Arglwydd Freud fod agenda lles David Cameron yn bwriadu dilyn yr un llwybr? A wnewch chi hefyd gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu unrhyw un o'r cyflogwyr hynny sy'n ceisio manteisio ar y dull yma sy'n ymylu—. Wel, ni allaf ddweud yr hyn rwyf am ei ddweud. A wnewch chi gadarnhau y dylem gefnogi pobl anabl ac y dylem dalu'r cyflog iddynt am y gwaith maent yn ei wneud?
- 14:43 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Absolutely. Like the Member, I think that most of us found the language used very offensive. I can absolutely confirm that this Government supports the minimum wage, which, as you say, applies equally to disabled people and it is absolutely right that it does. You will be pleased to know that this Government is not focused on cutting the minimum wage for disabled people to £2 an hour. Rather, what we are focused on is positive action to help disabled people to get into work. In the first week of my appointment to this portfolio, I attended a People First conference where the theme was employment, and I heard from many young disabled people who were very worried about what the future holds for them. I do not think the comments from Lord Freud will have given them much hope.
- Yn hollol. Fel yr Aelod, credaf fod y mwyafrif ohonom wedi cael yr iaith a ddefnyddiwyd yn atgas iawn. Gallaf gadarnhau'n llwyr fod y Llywodraeth hon yn cefnogi'r isafswm cyflog, sydd, fel y dywedwch, yr un mor berthnasol i bobl anabl ac mae'n gwbl gywir ei bod yn gwneud hynny. Byddwch yn falch o wybod nad yw'r Llywodraeth hon yn canolbwyntio ar dorri'r isafswm cyflog i bobl anabl i £2 yr awr. Yn hytrach, mae ein ffocws ar weithredu cadarnhaol i helpu pobl anabl i gael gwaith. Yn yr wythnos gyntaf i mi gael fy mhenodi i'r portffolio hwn, bûm mewn cynhadledd Pobl yn Gyntaf â'r thema oedd cyflogaeth, a chlywais oddi wrth lawer o bobl ifanc anabl a oedd yn bryderus iawn ynghylch beth yw'r dyfodol ar eu cyfer. Nid chredaf y bydd y sylwadau gan Arglwydd Freud wedi rhoi llawer o obaith iddynt.

14:44

**Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Capita, one of DWP's contractors, undertakes face-to-face, personal independent payment assessments on the fifth floor of Capita Towers, on Greyfriars Road in Cardiff, which is a busy traffic route and poses serious parking problems. This results in disabled clients having to be dropped off; they have to go up the stairs to the fifth floor and they have long corridors to negotiate. When you meet the Ministers in the DWP, will you make representations on trying to get a disabled-friendly place to carry out these interviews? It is just not fair on disabled people and people under stress to have such difficulty in reaching the place for the interviews. In the meantime, would they consider doing more home visits?

Mae Capita, un o gontractwyr yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn cynnal asesiadau taliadau annibynnol personol wyneb yn wyneb ar bumed llawr Capita Towers, ar Heol y Brodyr Llwydion yng Nghaerdydd, sy'n llwybr traffig prysur ac yn peri problemau parcio difrifol. Mae hyn yn arwain at gleientiaid anabl yn gorfod cael eu gollwng; rhaid iddynt fynd i fyny'r grisiau i'r pumed llawr ac mae ganddynt goridorau hir i'w teithio. Pan fyddwch yn cyfarfod Gweinidogion yn yr Adran Gwaith a Phensiynau, a fydddech cystal â chyflwyno achos o blaid cael lle sy'n fwy hygyrch i bobl anabl gael y cyfweiliadau hyn? Nid yw'n deg o gwbl ar bobl anabl ac mae'n rhoi pobl dan straen i wynebu'r fath anhawster i gyrraedd y lle ar gyfer y cyfweiliadau. Yn y cyfamser, a fyddent yn ystyried gwneud mwy o ymweliadau cartref?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:45

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, thank you for raising this with me. Certainly, it is important that disabled claimants have easily accessible premises to go to, particularly for personal independence payment assessments. I think that what I will do in the first instance is ask my officials to raise it with Department for Work and Pensions officials, because I think it is very important that we get that ball rolling. Certainly, if they cannot identify a satisfactory solution, I will write to Lord Freud.

Byddaf, diolch i chi am godi'r mater gyda mi. Yn sicr, mae'n bwysig bod gan hawlwyr anabl adeiladau hygyrch i fynd iddynt, yn enwedig ar gyfer asesiadau taliad annibyniaeth bersonol. Credaf mai'r hyn a wnaif yn y lle cyntaf yw gofyn i'm swyddogion godi hyn gyda swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau, gan y credaf ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cychwyn arni. Yn sicr, os na allant ddod o hyd i ateb boddhaol, ysgrifennaf at yr Arglwydd Freud.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Asedau o Werth Cymunedol

## Assets of Community Value

14:45

**Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am asedau o werth cymunedol? OAQ(4)0245(CTP)*

5. *Will the Minister make a statement on assets of community value? OAQ(4)0245(CTP)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:45

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch. I published a written statement on 14 October about the assets of community value measures contained in the Localism Act 2011. I want to ensure that any arrangements we make take full account of the Welsh context and learn from the experience in England over the past two years.

Diolch. Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ar 14 Hydref am fesurau asedau o werth cymunedol sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Lleoliaeth 2011. Rwyf am sicrhau bod unrhyw drefniadau a wnawn yn llwyr ystyried y cyd-destun Cymreig ac yn dysgu o'r profiad yn Lloegr yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:45

**Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch i chi am eich ateb. Y realiti yw, wrth gwrs, fod awdurdodau lleol yn amlach na pheidio, o ganlyniad i'r setliad ariannol anodd y maen nhw'n ei wynebu yn sgil toriadau i'r gyllideb gan eich Llywodraeth chi, yn wynebu'r 'prospect' o orfod cael gwared ar rai o'r asedau cymunedol hyn 'nawr, dros y misoedd nesaf. Felly, mae oedi yn y broses hon, mewn gwirionedd, yn mynd i greu trafferthion, ac yn mynd i fod yn colli cyfle i nifer o gymunedau feddiannu'r asedau hyn. A allwch chi roi syniad inni o ba bryd yr ydych chi'n gobeithio y byddwch chi mewn sefyllfa i ganiatáu i gymunedau gael yr hawl hon, ac onid ydych chi'n cydnabod bod pob mis neu wythnos sy'n mynd heibio yn colli cyfle i gymunedau ar hyd a lled Cymru?

Thank you for your response. The reality is, of course, that local authorities more often than not, as a result of the difficult financial settlement that they face as a result of cuts in the budget from your Government, faces the prospect of having to get rid of some of these community assets now, over the next few months. Therefore, any delay in this process, in reality, is going to create problems, and will be missed opportunity for a number of communities to take possession of these assets. Can you give us an idea of when you hope to be in a position to allow communities to have this right, and do you not acknowledge that each month or week that passes is a missed opportunity for communities across Wales?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



14:46

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I think that it is really important that we do not generate unrealistic expectations that public funding can be provided to enable community organisations to purchase assets, for instance. I think that there is an opportunity for us to have a very Welsh solution. I have already commissioned a dialogue between relevant stakeholders. I am going to consider the responses that come from them before I comment further on any potential implications of the enactment of the provisions of the Localism Act. There are some really good examples out there already, and I know that you visited Penmaenmawr library, for instance. I think that that is a really good example of Conwy public services engaging with residents. So, I want to applaud the principle of partnership, but I also want to make the best use of available funds.

Wel, credaf ei bod yn bwysig iawn nad ydym yn cynhyrchu disgwyliau afrealistig y gall arian cyhoeddus gael ei ddarparu er mwyn galluogi sefydliadau cymunedol i brynu asedau, er enghraifft. Credaf fod yna gyfle i ni gael ateb Cymreig iawn. Rwyf eisoes wedi comisiynu deialog rhwng rhanddeiliaid perthnasol. Rwy'n mynd i ystyried yr ymatebion a ddaw oddi wrthyt cyn i mi roi sylwadau pellach ar unrhyw oblygiadau posibl o ddeddfu darpariaethau'r Ddeddf Lleoliaeth. Mae rhai enghreifftiau da iawn ar gael yn barod, a gwn i chi ymweld â llyfrgell Penmaenmawr, er enghraifft. Credaf fod hynny yn enghraifft wirioneddol dda o wasanaethau cyhoeddus Conwy yn ymgysylltu â thrigolion. Felly, hoffwn gymeradwyo'r egwyddor o bartneriaeth, ond rwyf hefyd yn awyddus i wneud y defnydd gorau o'r arian sydd ar gael.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:47

**Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the Localism Act has been in place now for well over two years and, quite frankly, finding a Welsh solution really should not take that long. I echo the concerns made by Llyr Huws Gruffydd, to say that, every week that is going by, more community assets are being put at risk. I appreciate that you do not want to raise people's hopes about funding, but many people are prepared to fundraise in their own communities to try and ensure that these assets can remain as community assets. Will you look again at the timescale, because you have indicated that it is only after 2016 that we would be likely to see any action in this respect?

Weinidog, mae'r Ddeddf Lleoliaeth wedi bod ar waith yn awr ers ymhell dros ddwy flynedd ac, a dweud y gwir, ni ddylai dod o hyd i ateb Cymreig mewn gwirionedd gymryd cymaint o amser. Ategaf y pryderon a wnaed gan Llyr Huws Gruffydd, sef, wrth i bob wythnos fynd heibio, mae mwy o asedau cymunedol yn cael eu rhoi mewn perygl. Rwy'n sylweddoli nad ydych eisiau codi gobeithion pobl am arian, ond mae llawer o bobl yn barod i godi arian yn eu cymunedau eu hunain i geisio sicrhau y gall yr asedau hyn barhau yn asedau cymunedol. A wnech chi edrych eto ar yr amserlen, oherwydd eich bod wedi dweud mai dim ond ar ôl 2016 y byddem yn debygol o weld unrhyw weithredu yn y cyswllt hwn?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:48

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, what Antoinette Sandbach does not mention is that it has become very clear that the monitoring arrangements in England are inadequate, so we would need to consider what arrangements would be needed here to ensure that we can keep proper track of the impact of any action in this area, for instance. If we introduce the measures, that would require consultation and secondary legislation, and there just is not time, I do not think, for us to do that during this term. So, I think, let us get that dialogue started now with stakeholders, see what comes forward, and then we can go forward from there.

Wel, yr hyn nad yw Antoinette Sandbach yn sôn amdano yw y daeth yn amlwg iawn fod y trefniadau monitro yn Lloegr yn annigonol, felly byddai angen i ni ystyried pa drefniadau fyddai eu hangen yma i sicrhau y gallwn gadw golwg priodol ar effaith unrhyw gamau yn y maes hwn, er enghraifft. Os byddwn yn cyflwyno'r mesurau a fyddai'n galw am ymgynghori a deddfwriaeth eilaidd, a chredaf nad oes digon o amser i ni wneud hynny yn ystod y tymor hwn. Felly, yn fy marn i, gadewch i ni ddechrau'r ddeialog yn awr gyda rhanddeiliaid, a gweld beth a ddaw i'r golwg, ac yna gallwn symud ymlaen oddi yno.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Lesddeiliaid yn Nhorfaen

## Leaseholders in Torfaen

14:48

**Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n effeithio ar lesddeiliaid yn Nhorfaen?*  
OAQ(4)0233(CTP)

6. *Will the Minister provide an update on issues affecting leaseholders in Torfaen?* OAQ(4)0233(CTP)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:48

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. I have written to all social landlords in Wales to make them aware of the recent decision by the leasehold valuation tribunal, which found in favour of leaseholders in Torfaen facing large bills towards the upkeep of their block of flats.

Diolch. Rwyf wedi ysgrifennu at bob landlord cymdeithasol yng Nghymru i'w gwneud yn ymwybodol o'r penderfyniad diweddar gan y tribiwnlys priso lesddaliadau, a ddyfarnodd o blaid lesddeiliaid yn Nhorfaen a oedd yn wynebu biliau mawr tuag at gynnal a chadw eu bloc o fflatiau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:49

**Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, and thank you, too, for agreeing to meet with me and my constituent last week to discuss some of the issues that they face. I know that my constituent was very grateful for the opportunity to raise those issues directly with you, and was very pleased with your commitment to look at some of these very complex issues. Clearly, I do not expect you to have progressed things significantly in the space of just a week, but will you take the opportunity to restate the pledge to investigate the issues raised, and will you update me and, indeed, other Members in this Chamber, once you have had the opportunity to fully consider her concerns?

Diolch i chi, Weinidog, a diolch i chi, hefyd, am gytuno i gyfarfod â mi a'm hetholwr yr wythnos diwethaf i drafod rhai o'r materion sy'n eu hwynebu. Gwn fod fy etholwr yn ddiolchgar iawn am y cyfle i godi'r materion hynny yn uniongyrchol gyda chi, ac yn falch iawn o'ch ymrwymiad i edrych ar rai o'r materion cymhleth iawn. Yn amlwg, nid wyf yn disgwyl i chi symud pethau yn eu blaen yn sylweddol mewn bwlch o ddim ond wythnos, ond a wnewch chi fanteisio ar y cyfle i ailddatgan eich addewid i ymchwilio i'r materion a godwyd, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi ac, yn wir, i Aelodau eraill yn y Siambur hon, unwaith y byddwch wedi cael cyfle i ystyried yn llawn ei phryderon?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:49

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, absolutely, and I was very pleased to meet you and your constituent. It was very good for me to hear at first hand from her of the difficulties that she faced. As I say, I have already written, this morning, to the necessary colleagues regarding the information coming from the leasehold valuation tribunal judgment.

Gwnaf, yn hollol, ac roeddwn yn falch iawn i gwrdd â chi a'ch etholwr. Roedd yn dda iawn i mi glywed o lygad y ffynnon am yr anawsterau yr oedd yn eu hwynebu. Fel y dywedais, ysgrifennais eisoes, y bore yma, at fy nghydweithwyr perthnasol ynghylch cael gwybodaeth oddi wrth ddyfarniad y tribiwnlys prisio lesddaliadau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I am also aware that the problem might not just be in relation to Bron Afon, which is the one that you discussed with me, so I think it is really important that social landlords understand what has come out. However, obviously, there are other aspects that need to be investigated and, yes, of course I will keep you informed.

Rwyf hefyd yn ymwybodol nad dim ond problem i Bron Afon yw hon, sef yr un y bu i chi ei thrafod gyda mi, felly credaf ei bod yn wirioneddol bwysig bod landlordiaid cymdeithasol yn deall y canlyniad. Fodd bynnag, yn amlwg, mae yna agweddau eraill y mae angen eu hymchwilio ac, yn siŵr, wrth gwrs byddaf yn eich hysbysu.

14:50

**Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, along the same line as what my colleague just said, leaseholders of flats in Monmouth House, Cwmbran, recently won a tribunal against Bron Afon Community Housing, which had tried to impose hefty bills for repair to the property. What plan does the Welsh Government have to cap the amount that leaseholders can be charged for repairs to their homes, similar to those limits introduced to protect council tenants in England?

Weinidog, gan ddilyn llinell debyg i'r hyn a nodwyd gan fy nghydaelod, enillodd lesddeiliaid fflatiau yn Nhŷ Trefynwy, Cwmbrân, yn ddiweddar dribiwnlys yn erbyn Tai Cymunedol Bron Afon, a oedd wedi ceisio gosod biliau sylweddol am atgyweirio'r eiddo. Pa gynllun sydd gan Lywodraeth Cymru i gapio'r swm y gellir ei godi ar lesddeiliaid am atgyweiriadau i'w cartrefi, yn debyg i'r terfynau hynny a gyflwynwyd i amddiffyn tenantiaid cyngor yn Lloegr?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:50

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am aware of the capping of leasehold charges in England, and what I am doing is considering all the options. It was something that both Lynne Neagle and her constituent asked me to look at, to see whether we can address the issue of large bills for leaseholders from social housing providers in Wales, so I am looking at all the options.

Rwy'n ymwybodol o'r capio ar daliadau pryddles yn Lloegr, ac ar hyn o bryd rwy'n ystyried yr holl opsiynau. Roedd yn rhywbeth a ofynnodd Lynne Neagle a'm hetholwr i mi ei ystyried, er mwyn gweld a allwn ni fynd i'r afael â phroblemau biliau mawr i lesddeiliaid gan ddarparwyr tai cymdeithasol yng Nghymru, felly rwy'n edrych ar yr holl opsiynau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Tlodi Plant**

**Child Poverty**

14:51

**Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*7. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei chynlluniau i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru? OAQ(4)0230(CTP)*

*7. Will the Minister outline her plans to tackle child poverty in Wales? OAQ(4)0230(CTP)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:51 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- As a Government, we are committed to tackling child poverty. Next month, I will be consulting on a new child poverty strategy. This will renew our commitment to existing objectives of reducing worklessness, improving skills and reducing inequalities. It will also set out additional areas where we will do more.
- Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i drechu tlodi plant. Y mis nesaf, byddaf yn ymgynghori ar strategaeth newydd ar dlodi plant. Bydd hyn yn adnewyddu ein hymrwymiad i'r amcanion presennol o leihau diweithdra, gwella sgiliau a lleihau anghydraddoldebau. Bydd hefyd yn nodi meysydd ychwanegol lle y byddwn yn gwneud mwy.
- 14:51 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I am sure that you are aware that the Children's Commissioner for Wales last week highlighted what he saw as a lack of leadership and strategic direction from Welsh Government to help address child poverty. He suggested that a dedicated voice in Government may be able to address these concerns. What consideration has been given to this to help reduce the number of children in poverty in Wales?
- Weinidog, rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol yr wythnos diwethaf i Gomisinydd Plant Cymru dynnu sylw at yr hyn a welodd fel diffyg arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol gan Lywodraeth Cymru i helpu i drechu tlodi plant. Awgrymodd y gallai llais dynodedig yn y Llywodraeth o bosibl fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Pa ystyriaeth a roddwyd i hyn er mwyn helpu i leihau nifer y plant mewn tlodi yng Nghymru?
- 14:52 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, if you are asking about a dedicated Minister, that is a matter for the First Minister, but I am the dedicated Minister. I may not have 'children' in my title, but I am certainly the Minister with responsibility for children, which I take very seriously. I have already met with the children's commissioner, and I have to say that he went to great trouble to say how, in Wales, we are absolutely leading the way, in implementing children's rights for instance. We are a trailblazer, and I think that that is something to celebrate.
- Wel, os ydych yn gofyn am Weinidog dynodedig, mae hynny'n fater i'r Prif Weinidog, ond fi yw'r Gweinidog penodedig. Efallai nad yw'r gair 'plant' yn fy nheittl, ond yn sicr fi yw'r Gweinidog â chyfrifoldeb am blant, ac rwy'n cymryd y mater yn ddirifol iawn. Rwyf eisoes wedi cyfarfod â'r comisiynydd plant, ac mae'n rhaid i mi ddweud ei fod yn mynd i drafferth fawr i ddweud sut rydym ni yng Nghymru yn sicr yn arwain y ffordd, o ran gweithredu hawliau plant er enghraifft. Rydym ar flaen y gad, a chredaf fod hynny'n rhywbeth i'w ddathlu.
- 14:52 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, if we are to continue tackling child poverty in Wales, early intervention is vital to give all children the best possible start in life. For that reason, the fact that 33% more families with children under four years old have benefited from Flying Start over the last year alone is to be welcomed, as is the Welsh Government's ongoing commitment to not treating the programme as a quick fix. We know that this is in stark contrast to the actions of the coalition, the UK Government, which at the same time has closed hundreds of Sure Start centres across the UK since 2010. Minister, will you continue to target areas for expansion, and ensure that Flying Start remains embedded within early years services for many years to come?
- Weinidog, os ydym am barhau i drechu tlodi plant yng Nghymru, mae ymyrraeth gynnar yn hanfodol er mwyn rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn. Am y rheswm hwnnw, mae'r ffaith fod 33% mwy o deuluoedd sydd â phlant o dan bedair oed wedi elwa ar y rhaglen Dechrau'n Deg dros y flwyddyn ddiwethaf yn unig i'w chroesawu, fel y mae ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i beidio â thrin y rhaglen fel ateb cyflym. Gwyddom fod hyn yn dra gwahanol i weithredoedd y glymblaid, Llywodraeth y DU, a oedd ar yr un pryd wedi cau cannoedd o ganolfannau Cychwyn Cadarn ar draws y DU ers 2010. Weinidog, a fyddwch yn parhau i dargedu meysydd i'w hehangu, ac yn sicrhau bod Dechrau'n Deg yn parhau wedi'i sefydlu o fewn y gwasanaethau blynyddoedd cynnar am fflynyddoedd lawer i ddod?
- 14:53 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, absolutely. I think that it is really important that we continue to work with local authorities to ensure that we target new areas as part of the expansion programme. We are absolutely committed to ensuring that Flying Start remains embedded within the early years services in Wales, and even in this very difficult economic climate, we have protected funding for our Flying Start programme in our recent draft budget. I think that it is really important that we continue to build on the good practice that we have seen coming out of that programme.
- Byddwn, yn sicr. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn ein bod yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau ein bod yn targedu ardaloedd newydd fel rhan o'r rhaglen ehangu. Rydym yn gwbl ymrwymedig i sicrhau bod Dechrau'n Deg yn parhau'n sail i wasanaethau'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru, a hyd yn oed yn yr hinsawdd economaidd bresennol sydd mor anodd, rydym wedi diogelu cyllid ar gyfer ein rhaglen Dechrau'n Deg yn ein cyllideb ddrafft ddiweddar. Credaf ei bod yn bwysig iawn ein bod yn parhau i adeiladu ar yr arfer da a welsom yn deillio o'r rhaglen honno.

- 14:53 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae llawer iawn o'r mesurau gwrth-dlodi sydd wedi'u canolbwyntio ar blant, wedi'u canolbwyntio ar ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Gwyddom bod hanner y plant sy'n dioddef o dlodi oherwydd amgylchiadau teuluol yn byw y tu allan i'r ardaloedd hynny. Faint o'r plant hynny sydd yn gallu elwa o gynllun 'Flying Start'?
- Many of the measures to tackle poverty, which are concentrated on children, are concentrated on Communities First areas. We know that half the children who suffer poverty because of family circumstances live outside those areas. How many of those children can benefit from the Flying Start scheme?
- 14:54 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The two do work hand in hand. Obviously, it is up to local authorities to identify the Flying Start areas, although they do have a little bit of flexibility. Certainly, since I have been in this portfolio, a couple of people have raised with me their concerns, such as, 'This street is covered under Flying Start, and this one is not', but local authorities do have that Flying Start. I have certainly seen examples of areas where Flying Start and communities work very well together. I can think of the Cardiff east cluster in particular.
- Mae'r ddau yn gweithio law yn llaw. Yn amlwg, mater i'r awdurdodau lleol yw nodi'r ardaloedd Dechrau'n Deg, er bod ganddynt ychydig bach o hyblygrwydd. Yn sicr, ers i mi fod yn y portffolio hwn, mae un neu ddau o bobl wedi codi eu pryderon gyda mi, fel, 'Mae'r stryd hon wedi'i chynnwys dan Ddechrau'n Deg, ond nid y stryd hon', ond mae gan awdurdodau lleol y Dechrau Deg hwnnw. Rwyf yn sicr wedi gweld enghreifftiau o ardaloedd lle mae Dechrau'n Deg a chymunedau yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd. Gallaf feddwl am glwstwr dwyrain Caerdydd yn arbennig.
- 14:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I call Ann Jones to ask question 8.
- Galwaf ar Ann Jones i ofyn cwestiwn 8.
- 14:54 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am sorry, I have not got a computer.
- Mae'n ddrwg gennyf, nid oes gennyf gyfrifiadur.
- 14:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- It is question 8.
- Mae'n gwestiwn 8.
- 14:54 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Will you accept 'question 8'? Oh, it is on vibrant and sustainable communities.
- A wnech dderbyn 'cwestiwn 8'? O, mae'n ymwneud â chymunedau bywiog a chynaliadwy.

## Cymunedau Bywiog a Chynaliadwy (Dyffryn Clwyd)

## Vibrant and Sustainable Communities (the Vale of Clwyd)

### Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i greu cymunedau bywiog a chynaliadwy yn Nyffryn Clwyd?  
OAQ(4)0244(CTP)

8. What is the Minister doing to create vibrant and sustainable communities in the Vale of Clwyd?  
OAQ(4)0244(CTP)

- 14:54 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. The Vale of Clwyd has received support through Communities First and other Welsh Government programmes. These include strengthened credit unions, digital inclusion projects, town-centre partnerships and a wide range of Communities First activities. All this is supporting the regeneration of the area and the creation of sustainable and vibrant communities.
- Diolch. Mae Dyffryn Clwyd wedi derbyn cymorth drwy'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys cryfhau undebau credyd, prosiectau cynhwysiant digidol, partneriaethau canol tref ac amrywiaeth eang o weithgareddau Cymunedau yn Gyntaf. Mae hyn i gyd yn cefnogi'r gwaith o adfywio'r ardal a chreu cymunedau cynaliadwy a bywiog.

14:55

**Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much. On vibrant and sustainable communities, will you join me in congratulating North Wales Police on its initiative, led by chief inspector Davenport and the community beat officer, Les Jones from the west end of Rhyl? They have gone out and proactively sought the views of those hardest to reach in that community about how they can take ownership of their community again. It is around the issues of perception and how we all work together. Will you also look at whether that best practice can be spread across Wales, so that at least we can have some good practices coming out of the west end of Rhyl, unlike the very negative problems that we see when the national newspapers show boarded-up houses, as part of a Government initiative to pull down some of the worst areas? That has a very important part to play in perception, so that those people who are the hardest to reach feel that they are valued.

Diolch yn fawr iawn. O ran cymunedau bywiog a chynaliadwy, a wnewch ymuno â mi i longyfarch Heddlu Gogledd Cymru ar ei fenter, o dan arweiniad y prif arolygydd Davenport a'r swyddog rhawd gymunedol, Les Jones o orllewinol y Rhyl? Maent wedi mynd allan ac wedi mynd ati i ofyn am farn y rhai anoddaf eu cyrraedd yn y gymuned honno ynglŷn â sut y gallant gymryd perchnogaeth o'u cymuned eto. Mae'n ymwneud â'r materion o ganfyddiad a sut rydym i gyd yn gweithio gyda'n gilydd. A wnewch hefyd ystyried a ellir lledaenu'r arferion gorau hyn ledled Cymru, fel bod gennym rai arferion gorau o leiaf yn deillio o orllewin y Rhyl, yn wahanol i'r problemau negyddol iawn a welwn pan fydd y papurau newydd cenedlaethol yn dangos tai wedi'u byrddio, fel rhan o fenter y Llywodraeth i dynnu i lawr rhai o'r ardaloedd gwaethaf? Mae hynny'n gwneud cyfraniad pwysig iawn at ganfyddiad, fel bod y bobl hynny sydd fwyaf anodd eu cyrraedd yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:56

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, absolutely. Members will be aware of my delight in best practice and how important I think it is that it be rolled out. So, it is great to hear of such partnership and multi-agency working between the police and local communities. It is really important that my officials continue to work proactively with all sectors to make sure that we facilitate those partnerships across Wales.

Gwnaf, yn sicr. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r ffaith fy mod yn hoff iawn o arferion gorau a'r pwysigrwydd, yn fy marn i, o'u rhoi ar waith. Felly, mae'n braf clywed am waith partneriaeth ac amlasiantaethol o'r fath rhwng yr heddlu a chymunedau lleol. Mae'n wirioneddol bwysig bod fy swyddogion yn parhau i weithio'n rhagweithiol gyda phob sector i sicrhau ein bod yn hwyluso'r partneriaethau hynny ledled Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:56

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, not just big towns like Rhyl need support. There are also smaller towns and market towns like Ruthin in the Vale of Clwyd, which could benefit from some additional investment and management. What support are you making available as a Government to ensure that they can remain viable and sustainable in the future, particularly given the pressure on high streets at the moment?

Wrth gwrs, nid dim ond trefi mawr fel y Rhyl sydd angen cymorth. Gallai trefi llai a threfi marchnad fel Rhuthun yn Nyffryn Clwyd elwa ar rywfaint o fuddsoddiad a rheoli ychwanegol hefyd. Pa gymorth ydych yn ei ddarparu fel Llywodraeth i sicrhau eu bod yn gallu aros yn hyfyw ac yn gynaliadwy yn y dyfodol, yn enwedig o ystyried y pwysau sydd ar y stryd fawr ar hyn o bryd?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:57

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You will be aware of the Vibrant and Viable Places programme and, within that, we had funding for town-centre partnerships. I know that Prestatyn in the Vale of Clwyd was one area that was successful in being awarded funding. I am not sure whether Ruthin made a bid, as it was before my time, but we certainly have funding available for town-centre partnerships, which we encourage all small towns to bid for.

Byddwch yn ymwybodol o'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ac, fel rhan ohoni, cawsom arian ar gyfer partneriaethau canol tref. Rwy'n gwybod bod Prestatyn yn Nyffryn Clwyd yn un ardal a lwyddodd i sicrhau arian. Nid wyf yn siŵr a gyflwynwyd cais ar gyfer Rhuthun, gan ei bod cyn fy amser, ond yn sicr mae gennym gyllid ar gael ar gyfer partneriaethau canol tref, ac rydym yn annog pob tref fach i wneud cais amdano.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:57

**Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Active and sustainable communities, of course, are ones where people participate strongly in both local and national democracy. Some people might say that traditional politics is on the wane, but that does not necessarily mean that people do not care. Could I ask what you, as a Government, are doing to extend participatory democracy to complement representative democracy, so that we can move to support more active and empowered communities?

Mae cymunedau gweithgar a chynaliadwy, wrth gwrs, yn rhai lle mae pobl yn cymryd rhan yn gadarn mewn democratiaeth leol a chenedlaethol. Gall rhai pobl ddweud bod gwleidyddiaeth draddodiadol ar i lawr, ond nid yw hynny'n golygu o reidrydd nad yw pobl yn poeni. A gaf fi ofyn beth rydych, fel Llywodraeth, yn ei wneud i ymestyn democratiaeth gyfranogol i ategu democratiaeth gynrychioliadol, fel y gallwn symud i gefnogi cymunedau mwy gweithgar sydd wedi'u grymuso?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:57

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think it is very important that our communities feel empowered and certainly, in my previous portfolio and I very much hope in this portfolio, it is something that I can work with. I am thinking about victim support, where I have worked with groups that have gone out and made sure that the community has worked together in relation to safety in the neighbourhood. I think it is very important that the Welsh Government is seen to support such practice.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn bod ein cymunedau yn teimlo eu bod wedi'u grymuso ac yn sicr, yn fy mhortffolio blaenorol, ac rwy'n mawr obeithio yn y portffolio hwn, ei fod yn faes y gallaf gyfrannu ato. Rwy'n meddwl am gymorth i ddiodefwyr, lle rwyf wedi gweithio gyda grwpiau sydd wedi mynd allan a sicrhau bod y gymuned wedi gweithio gyda'i gilydd mewn perthynas â diogelwch yn y gymdogaeth. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn bod Llywodraeth Cymru yn cael ei gweld yn cefnogi arferion o'r math.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Hawliau Plant a Phobl Ifanc**

**The Rights of Children and Young People**

14:58

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hawliau plant a phobl ifanc yn sgil adroddiad blynyddol y Comisiynydd Plant? OAQ(4)0238(CTP)*

*9. Will the Minister make a statement regarding the rights of children and young people in light of the Children's Commissioner's annual report? OAQ(4)0238(CTP)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:58

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Government will respond fully to the children's commissioner's annual report before 30 November. In terms of children's rights, we remain as committed as ever, and our children's rights scheme clearly sets out this commitment.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb yn llawn i adroddiad blynyddol y comisiynydd plant cyn 30 Tachwedd. O ran hawliau plant, mae ein hymrwymiad mor gadarn ag erioed, ac mae ein cynllun hawliau plant yn nodi'r ymrwymiad hwn yn glir.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:58

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weinidog. Rwy'n siŵr eich bod yn cytuno â fi, er mor anghysurus y bo, weithiau, ei fod yn hynod bwysig bod gan bobl ifanc a phlant lais annibynnol i'r Llywodraeth, sy'n gallu adrodd, fel mae'r comisiynydd plant yn ei wneud o dro i dro, ar faterion sydd o ddiddordeb iddyn nhw.

Thank you, Minister. I am sure you will agree with me that, despite how uncomfortable it is, sometimes, it is extremely important that young people and children have an independent voice from the Government, who can report, as the children's commissioner does from time to time, on issues of interest to them.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Yn y cyd-destun hwnnw, a wnewch ymhelaethu heddiw ar eich datganiad yr wythnos diwethaf ynglŷn â phenodi comisiynydd plant newydd, gan ei fod wedi cymryd saith mis inni gyrraedd sefyllfa lle rydych chi wedi tynnu'r 'plug' ar y broses bresennol? Pam nad oedd y Llywodraeth yn ymwybodol o'r angen am gysondeb a pharhad yn y broses? A wnewch chi sicrhau'r Siambwr heddiw bydd comisiynydd plant newydd yn ei lle neu ei le erbyn diwedd contract y comisiynydd plant presennol?

In that context, will you expand today on your statement last week regarding the appointment of a new children's commissioner, as it has taken seven months to get to a position where you have pulled the plug on the current process? Why was the Government not aware of the need for consistency and continuity in the process? Will you assure the Chamber today that a new children's commissioner will be in his or her place by the end of the existing children's commissioner's contract?



14:59

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, as the Member states, I issued a written statement on 16 October, which set out the latest position and the next steps. I have also written to my colleagues who are on the ministerial panel, my Assembly Member colleagues, the young person's panel and the candidates. I explained in the written statement the decision why I chose to follow the principles for public appointments and start the appointment process afresh. In making the decision, I want to assure Members that I did take into consideration the candidates who have already progressed through the current appointment process and how that impacted on them, and I have written to the remaining candidates also to inform them of my decision. I hope that they will consider putting themselves forward again for consideration. I can assure the Member that there will be a new children's commissioner in place before the end of February.

le, fel y mae'r Aelod yn ei ddweud, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ar 16 Hydref, a oedd yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf a'r camau nesaf. Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at fy nghyd-Aelodau sydd ar y panel gweinidogol, fy nghyd-Aelodau Cynulliad, y panel pobl ifanc a'r ymgeiswyr. Eglurais yn y datganiad ysgrifenedig pam y dewisais ddilyn yr egwyddorion ar gyfer penodiadau cyhoeddus a dechrau'r broses benodi o'r newydd. Wrth wneud y penderfyniad, rwyf am sicrhau'r Aelodau fy mod yn ystyried yr ymgeiswyr sydd eisoes wedi symud ymlaen drwy'r broses benodi bresennol a sut yr effeithiodd hynny arnynt, ac rwyf wedi ysgrifennu at weddill yr ymgeiswyr hefyd i'w hysbysu am fy mhenderfyniad. Rwy'n gobeithio y byddant yn ystyried cynnig eu hunain unwaith eto i'w hystyried. Gallaf sicrhau'r Aelod y bydd comisiynydd plant newydd wedi'i benodi cyn diwedd mis Chwefror.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:00

**Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, following on from that response, given that there were misleading and inaccurate accounts in sections of the media last week about the process of appointing the new children's commissioner, will you confirm that the overriding reason for beginning the process afresh is because of the change of Minister? Will she confirm also that there was no particular problem with the original process or the suitability of the shortlisted candidates for the post?

Weinidog, yn dilyn yr ymateb hwnnw, o gofio bod adroddiadau camarweiniol ac anghywir wedi ymddangos mewn rhannau o'r cyfryngau'r wythnos diwethaf ynglŷn â'r broses o benodi comisiynydd plant newydd, a wneuch gadarnhau mai'r rheswm pennaf dros ddechrau'r broses o'r newydd yw oherwydd bod gennym Weinidog newydd? A wnaiff gadarnhau hefyd nad oedd unrhyw broblem benodol gyda'r broses wreiddiol neu addasrwydd yr ymgeiswyr ar y rhestr fer ar gyfer y swydd?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:01

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, and I thank the Member for the opportunity to do that. Claims that the panel failed to identify suitable candidates for the role of children's commissioner are incorrect. That is why I issued a written statement last week that set out the latest position. I gave the reasons why I decided to continue, as I said, to follow the principles for public appointments. It is such an important role, and I can say that there was absolutely nothing wrong with the process before I came into position.

Gwnaf, ac rwy'n diolch i'r Aelod am y cyfle i wneud hynny. Mae honiadau bod y panel wedi methu â dod o hyd i ymgeiswyr addas ar gyfer swydd comisiynydd plant yn anghywir. Dyna pam y cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig yr wythnos diwethaf a oedd yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf. Rhoddais y rhesymau pam y penderfynais barhau, fel y dywedais, i ddilyn yr egwyddorion ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Mae'n swydd mor bwysig, a gallaf ddweud nad oedd unrhyw beth o'i le o gwbl â'r broses cyn i mi ddechrau'r swydd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:01

**Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, do you share my concern about Swansea city council and its infringement to date of the United Nations Convention on the Rights of the Child, in particular article 12? Children from Pontarddulais Primary School, wrote to Swansea council some three months ago in respect of protection of their school playing fields and have still not received a response, as I said, three months on. Article 12 clearly states that governing parties shall ensure

Weinidog, a ydych yn rhannu fy mhryder ynglŷn â chyngor dinas Abertawe a'i drosedd hyd yn hyn yn erbyn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn enwedig erthygl 12? Ysgrifennodd plant o Ysgol Gynradd Pontarddulais i gyngor Abertawe tua thri mis yn ôl ynglŷn ag amddiffyn caeau chwarae eu hysgol ac nid ydynt wedi derbyn ymateb eto, fel y dywedais, dri mis ar ôl ysgrifennu. Mae Erthygl 12 yn datgan yn glir y bydd partion llywodraethu yn sicrhau

'to the child who is capable of forming his or her own views the right to express those views freely in all matters...the views of the child being given due weight in accordance with the age and maturity of the child'.

'i'r plentyn sy'n gallu ffurfio ei safbwyntiau ei hun yr hawl i fynegi'r safbwyntiau hynny'n rhydd ym mhob mater ... gan roi ystyriaeth briodol i safbwyntiau'r plentyn yn unol ag oedran ac aeddfedrwydd y plentyn'.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I will happily pass you supporting evidence of this, but will you use this opportunity to outline your commitment to uphold the United Nations Convention on the Rights of the Child, in particular article 12, and reassure the children of Pontarddulais that this practice of not responding is unacceptable?

Byddaf yn hapus i gyflwyno tystiolaeth ategol i chi ynglŷn â'r mater hwn, ond a fyddwch yn defnyddio'r cyfle hwn i amlinellu'ch ymrwymiad i gynnal Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn enwedig erthygl 12, gan sicrhau plant Pontarddulais bod yr arfer hwn o beidio ag ymateb yn annerbyniol?

15:02 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is completely unacceptable, and I do not think that anybody should wait three months for a response. Certainly, if you will pass on the correspondence, I will be very happy to take it up with Swansea council.

Mae'n gwbl annerbyniol, ac nid wyf yn credu y dylai unrhyw un aros am dri mis am ymateb. Yn sicr, os byddwch yn trosglwyddo'r ohebiaeth, byddaf yn barod iawn cysylltu â chyngor Abertawe.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:02 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A fyddwch chi'n defnyddio'r cyfnod ychwanegol hwn cyn apwyntio'r comisiynydd plant i ailagor trafodaethau efo Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â'r broblem sydd gennym ni ynglŷn â dim cyfrifoldeb dros faterion sydd ddim wedi cael eu datganoli, problem sydd wedi cael ei godi gan y comisiynydd mewn nifer o achosion ac ym mron pob adroddiad blynyddol ers ei apwyntiad?

Will you use this additional period prior to the appointment of the children's commissioner to reopen negotiations with the UK Government on the problem that we have in terms of not having responsibility over non-devolved matters, a problem that has been raised by the commissioner on a number of occasions and in virtually every annual report since his appointment?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:03 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That is something that I am considering. I mentioned that I will be responding to and leading a debate regarding the commissioner's annual report before 30 November. That is certainly something that I can look at within that.

Mae hynny'n rhywbeth rwy'n ei ystyried. Soniais y byddaf yn ymateb i ac yn arwain trafodaeth ynglŷn ag adroddiad blynyddol y comisiynydd cyn 30 Tachwedd. Mae hynny'n sicr yn rhywbeth y gallaf ei ystyried fel rhan o hynny.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## Tlodi Plant

## Child Poverty

15:03 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y bydd y toriadau arfaethedig i'r gyllideb yn effeithio ar dlodi plant yng Nghymru?* OAQ(4)0236(CTP)

*10. Will the Minister make a statement on how the draft budget cuts will impact on child poverty in Wales?* OAQ(4)0236(CTP)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:03 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The financial settlement for the Welsh Government has necessitated making difficult funding decisions. We have protected budgets seeking to reduce child poverty wherever possible. Investing in early years is an effective way to tackle poverty. We have protected funding for Flying Start, doubling the number of children benefiting by 2015-16.

Mae'r setliad ariannol ar gyfer Llywodraeth Cymru wedi golygu bod angen gwneud penderfyniadau ariannu anodd. Rydym wedi diogelu cyllidebau sy'n ceisio lleihau tlodi plant lle bynnag y bo modd. Mae buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â thlodi. Rydym wedi diogelu cyllid ar gyfer Dechrau'n Deg, gan ddyblu nifer y plant sy'n elwa erbyn 2015-16.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:03 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. There are now around 200,000 children living in poverty in Wales, and the Social Mobility and Child Poverty Commission annual report, published this week, states that only 26% of children in Wales who receive free school meals go on to get five good GCSEs compared with 38% over the border in England. Wales, of course, has the highest rate of child poverty in the UK, which has been rising since 2004. As the new Minister responsible, what actions are you taking now to address this blatant inequality?

Diolch i chi, Weinidog. Erbyn hyn mae tua 200,000 o blant yn byw mewn tlodi yng Nghymru, ac mae adroddiad blynyddol y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant, a gyhoeddwyd yr wythnos hon, yn nodi mai dim ond 26% o blant yng Nghymru sy'n derbyn prydau ysgol am ddim sy'n mynd ymlaen i gael pump TGAU da o gymharu â 38% dros y ffin yn Lloegr. Cymru, wrth gwrs, sydd â'r gyfradd uchaf o dlodi plant yn y DU, sydd wedi bod yn codi ers 2004. Fel y Gweinidog newydd â'r cyfrifoldeb perthnasol, pa gamau rydych yn eu rhoi ar waith yn awr i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb amlwg hwn?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:04

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I do not think that child poverty or any type of poverty is inevitable. I think that it is totally unacceptable. We have already done a great deal of work. We have not been helped by the welfare reform coming from your Government in London or by the significant budget cuts that we have to pass on. We have done our best to protect budgets—I referred to Flying Start particularly. Next month, I will be consulting on the next child poverty strategy, and I mentioned in a previous answer that there is more that we can do. For instance, we know that food poverty has become much more of a problem in Wales recently, so that is something that we can look at within the new strategy as we go forward.

Nid wyf yn credu bod tlodi plant neu unrhyw fath o dlodi yn anochel. Rwy'n meddwl ei bod yn gwbl annerbyniol. Rydym eisoes wedi gwneud llawer iawn o waith. Nid yw ein gwaith wedi'i helpu gan ddiwygiadau lles eich Llywodraeth yn Llundain na'r toriadau sylweddol i'r gyllideb rydym yn gorfod eu trosglwyddo. Rydym wedi gwneud ein gorau i ddiogelu cyllidebau—cyfeiriais at Dechrau'n Deg yn benodol. Y mis nesaf, byddaf yn ymgynghori ar y strategaeth tlodi plant nesaf, a soniais mewn ateb blaenorol y gallwn wneud mwy. Er enghraifft, gwyddom fod tlodi bwyd wedi dod yn fwy o broblem o lawer yng Nghymru yn ddiweddar, felly mae hynny'n rhywbeth y gallwn edrych arno yn y strategaeth newydd wrth inni symud ymlaen.

15:05

**Adroddiad y Pwyllgor  
Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar  
ei Ymchwiliad i Gynigion  
Llywodraeth Cymru ar gyfer yr M4  
o amgylch Casnewydd**

**Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Chair of the Environment and Sustainability Committee, Alun Ffred Jones, to move the motion.

Cynnig NDM5601 Alun Ffred Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei Ymchwiliad i gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Gorffennaf 2014.

**The Environment and  
Sustainability Committee's Report  
on its Inquiry into Welsh  
Government Proposals for the M4  
around Newport**

**Y** Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Alun Ffred Jones, i gyflwyno'r cynnig.

Motion NDM5601 Alun Ffred Jones

To propose that the National Assembly for Wales:

Notes the report of the Environment and Sustainability Committee on its Inquiry into Welsh Government Proposals for the M4 around Newport, which was laid in the Table Office on 21 July 2014.

15:05

**Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

Diolch yn fawr am y cyfle i agor y ddadl, sy'n seiliedig ar adroddiad y pwyllgor ar y cynllun i greu traffordd newydd i'r de o Gasnewydd. Mae hwn yn fater o bwysigrwydd amgylcheddol ac economaidd arwyddocaol. Yn sicr, mae'n un o'r penderfyniadau pwysicaf, os nad y pwysicaf, y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud.

Thank you for the opportunity to open this debate, which is based on the committee's report on plans to create a new motorway to the south of Newport. This is an issue of significant environmental and economic importance, and it is certainly one of the biggest, if not the biggest decision that the Welsh Government will take.

Mae ein gwaith ni, fel pwyllgor, wedi canolbwyntio ar y broses a ddilynwyd gan Lywodraeth Cymru. Nid ydym wedi dod i gasgliadau yn seiliedig ar rinweddau opsiynau penodol. Serch hynny, mae'n werth dweud bod yr adroddiad, yn ei gyfanrwydd, wedi ei gytuno yn unfrydol gan y pwyllgor. Daethom i'r casgliadau a ganlyn: mae cwestiynau difrifol wedi codi, sydd heb eu hateb, yn ein barn ni, ynghylch a ydyw'r broses ymgynghori wedi bodloni gofynion cyfarwyddeb asesiad amgylcheddol strategol Ewrop, ac yr oedd nifer o'r tystion yn nodi'r pryderon hynny; ac mae'r pryderon a godwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddigon difrifol i godi amheuan am werth y wybodaeth a gafwyd o'r adroddiad amgylcheddol. Yr wyf yn nodi, yn ateb y Gweinidog, fod Cyfoeth Naturiol Cymru bellach wedi bodloni, i raddau, â'r sylwadau a wnaethpwyd, ond wrth gwrs mae cwestiynau wedyn yn codi ynglŷn â natur barn Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, mater arall yw hwnnw, ac yr oedd hynny y tu allan i sgôp yr adroddiad hwn.

Un mater a gafodd gryn sylw gan y pwyllgor a'r tystion oedd effaith bosibl y cynigion ar gyfer trafniadaeth gyhoeddus a thrydaneiddio, yn enwedig metro de Cymru, ar y cynllun hwn. Barn y pwyllgor oedd nad oedd y cynigion hyn wedi cael eu hystyried yn ddigonol wrth ymdrin â phatrymau teithio i'r dyfodol. Felly, yr oedd costau gwahanol y cynlluniau hynny, a deilliannau y gwahanol gynlluniau, yn fater yr oeddwn yn teimlo nad oedd wedi cael y sylw haeddiannol ac angenrheidiol o gofio maint a chost y cynllun arbennig hwn.

We are also left unconvinced by the traffic projections that have been used and have heard evidence to suggest that a more flexible and robust approach is possible to address uncertainty in forecasting methods. This was an issue that was emphasised in the evidence that we received from various independent experts. The total cost of the scheme, including all ancillary measures, remains unclear, and the source for funding for this total cost is still shrouded by uncertainty. That was not the main focus of the committee's work, but it certainly was mentioned by those giving evidence.

Given the lack of clarity on the assessment of alternative options, wider public transport measures, including the metro proposals and the potential impacts of electrification, it is difficult to conclude on the basis of current information that a convincing case for the long-term value for money of this potential investment has yet been made. Those were the main conclusions contained in our report. I look forward to the debate and to hearing the views of Members. I will have further comments to make at the end of the debate. Diolch yn fawr.

Our work as a committee focused on the process followed by the Welsh Government. We did not draw conclusions on the merits of particular options. It is worth noting that the report, in its entirety, was agreed unanimously by the committee. We came to the following conclusions: there are serious unanswered questions about whether the consultation process has met the requirements of the European strategic environmental assessment directive, about which many witnesses noted concerns; and concerns raised by Natural Resources Wales are sufficiently serious to call into question the value of the information provided in the environment report. I note from the Minister's response that NRW is now, to a certain extent, satisfied with the comments made, but, of course, questions arise as to the nature of the views expressed by NRW. However, that is another issue, and that was outwith the scope of this particular report.

One issue that was given quite some attention by the committee and witnesses was the potential impact of public transport and electrification proposals, particularly the south Wales metro, on this particular scheme. The committee's view was that these proposals had not been adequately taken into account in dealing with likely travel patterns for the future. Therefore, the different costs of those various schemes and their outputs were issues that we felt had not been given the attention that was due and necessary given the scale and cost of this particular scheme.

Nid ydym wedi ein hargyhoeddi chwaith gan y rhagamcanion traffig a ddefnyddiwyd ac rydym wedi clywed tystiolaeth sy'n awgrymu bod dull mwy hyblyg a chadarn yn bosibl i fynd i'r afael â'r ansicrwydd ynglŷn â dulliau darogan. Roedd hwn yn fater a bwysleisiwyd yn y dystiolaeth a gawsom gan amrywiaeth o arbenigwyr annibynnol. Mae cyfanswm cost y cynllun, gan gynnwys yr holl fesurau ategol, yn parhau'n aneglur, ac mae'r ffynhonnell ariannu ar gyfer cyfanswm y gost yn parhau i fod yn ansicr. Nid dyna oedd prif ffocws gwaith y pwyllgor, ond yn sicr cafodd ei grybwyll gan y rhai a gyflwynodd dystiolaeth.

O ystyried y diffyg eglurder ynglŷn ag asesu'r opsiynau amgen, mesurau trafniadaeth gyhoeddus ehangach, gan gynnwys cynigion ar gyfer y metro ac effeithiau bosibl trydaneiddio, mae'n anodd dod i gasgliad ar sail y wybodaeth gyfredol bod achos diamheuol ar gyfer gwerth am arian hirdymor o'r buddsoddiad bosibl wedi'i wneud eto. Dyna oedd y prif gasgliadau yn ein hadroddiad. Edrychaf ymlaen at y ddadl ac at glywed barn yr Aelodau. Bydd gennyf sylwadau pellach i'w gwneud ar ddiwedd y ddadl. Diolch yn fawr.

15:09

## **Mick Antoniw** [Bywgraffiad Biography](#)

First, I welcome the developments that have taken place since the report was issued and the consideration of the process that we were considering within the committee. There are a number of areas that have been raised that, I think, perhaps, you could expand upon. They are some of the issues that, I think, members of the committee were particularly concerned about.

Yn gyntaf, rwy'n croesawu'r datblygiadau sydd wedi bod ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi a'r ystyriaeth o'r broses roeddem yn ei hystyried yn y pwyllgor. Mae nifer o feysydd wedi'u codi y gallech, rwy'n meddwl, ymhelaethu arnynt o bosibl. Maent yn rhai o'r materion hynny, rwy'n meddwl, roedd aelodau'r pwyllgor yn arbennig o bryderus yn eu cylch.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

One of the areas, of course, is the whole issue of the M4 in that area and the logjam, and what the actual requirements are in terms of additional capacity. Of course, the additional 20% has been a target figure and a potential justification for the proposals. Among the things we considered in the committee was, of course, where the 20% figure actually came from, but also what the projections were from the Department for Transport in terms of traffic increases, because some of the evidence we received indicated that, in actual fact, those predictions were quite out of date and that changes due to increased costs of motoring and so on and so forth would actually mean that there was beginning to be a plateau in terms of the ongoing increase in motorway traffic. One of the difficulties we had, of course, was that we could not get any further details from the Department for Transport about what those figures were based on and what the empirical basis was, and the evidence we had was that they were out of date. So, it would be helpful to have some further clarification on that particular aspect, because that is a key point in terms of what options the Government goes for.

There was, of course, the question as to an understanding of how the proposals integrated with proposals for the metro. Of course, since then, you have started to expand on the metro proposals, but any further development in terms of how that would occur is obviously of some importance.

There was considerable concern—and I will reiterate this concern again—that the committee spent a lot of time trying to take evidence and particularly trying to understand the business case. One of the key proponents, if not the main proponent of the M4 option that was proposed was, of course, the Confederation of British Industry in Wales. It is of some concern that, on such a major and important issue, the CBI could be approached six times to give evidence and refuse to do so on every occasion. What that meant was that you had one of the main business proponents regularly reporting how important it was to have a new M4 motorway relief road, but, at the same time, it would not come to give any of the evidence that we required to actually evaluate what the business case was. That is something that has also hampered our ability to explore the whole issue.

Ultimately, the final point I would make relates, again, to an understanding of borrowing powers and the whole financial package—what the impact of that would actually be, how it relates to funding within the metro and so on. Those are the areas that the committee was aiming to explore and on which it would be helpful to get greater clarification from the Welsh Government.

Un o'r meysydd, wrth gwrs, yw holl fater yr M4 yn yr ardal honno a'r dagfa, a beth yw'r gofynion gwirioneddol o ran capasiti ychwanegol. Wrth gwrs, mae'r 20% ychwanegol wedi bod yn ffigur targed ac yn gyfiawndad posibl ar gyfer y cynigion. Ymhlith y pethau y gwnaethom eu hystyried yn y pwyllgor, wrth gwrs, oedd o ble roedd y ffigur 20% wedi dod mewn gwirionedd, ond hefyd beth oedd rhagamcanion yr Adran Drafnidiaeth ynglŷn â'r cynnydd mewn lefelau'r traffig, gan fod rhywfaint o'r dystiolaeth a gawsom yn dangos, mewn gwirionedd, bod y rhagfynegiadau hynny yn gymharol hen ac y byddai newidiadau oherwydd costau moduro uwch ac yn y blaen yn golygu mewn gwirionedd bod y cynnydd parhaus mewn traffig ar y draffordd yn dechrau cyrraedd penllanw. Un o'r anawsterau a wynebwyd gennym, wrth gwrs, oedd na allem gael unrhyw wybodaeth bellach gan yr Adran Drafnidiaeth am sail y ffigurau hynny na'r sylfaen empeiraidd, ac yn ôl y dystiolaeth a oedd gennym, roedd y ffigurau yn hen. Felly, byddai'n ddefnyddiol cael rhywfaint o eglurhad pellach ar yr agwedd benodol honno, gan fod hynny'n bwynt allweddol o ran pa opsiynau y mae'r Llywodraeth yn eu dewis.

Yr oedd, wrth gwrs, cwestiwn ynglŷn â dealltwriaeth o sut y mae'r cynigion yn integreiddio â chynigion ar gyfer y metro. Wrth gwrs, ers hynny, rydych wedi dechrau ymhelaethu ar y cynigion ar gyfer y metro, ond mae unrhyw ddatblygiad pellach ynglŷn â sut y byddai hynny'n digwydd yn amlwg o gryn bwysigrwydd.

Roedd pryder sylweddol—ac ailadroddaf y pryder hwn eto—bod y pwyllgor wedi treulio llawer o amser yn ceisio cymryd tystiolaeth ac yn ceisio deall yr achos busnes yn benodol. Un o'r lladmeryddion allweddol, os nad y prif ladmerydd ar gyfer yr opsiwn a gynigiwyd ar gyfer yr M4 oedd, wrth gwrs, y Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru. Mae'n destun cryn bryder, wrth ystyried pa mor fawr a phwysig yw'r mater hwn, bod y CBI wedi derbyn cais i roi tystiolaeth chwe gwaith ac wedi gwrthod gwneud hynny ar bob achlysur. Oherwydd hynny, roedd gennym sefyllfa lle'r oedd un o'r prif ladmeryddion busnes yn datgan yn rheolaidd pa mor bwysig oedd cael ffordd liniaru traffordd yr M4 newydd, ond, ar yr un pryd, ni fyddai'n dod i roi unrhyw dystiolaeth yr oedd ei hangen arnom i werthuso'r achos busnes gwirioneddol. Mae hynny'n rhywbeth sydd hefyd wedi amharu ar ein gallu i edrych ar y mater yn ei gyfanrwydd.

Yn y pen draw, mae'r pwynt olaf y byddwn yn ei wneud yn ymwneud, unwaith eto, â deall pwerau benthyca a'r pecyn ariannol cyfan—beth fyddai effaith hynny mewn gwirionedd, sut y mae'n berthnasol i gyllid ar gyfer y metro ac yn y blaen. Dyna'r meysydd roedd y pwyllgor yn awyddus i'w harchwilio a'r meysydd y byddai'n ddefnyddiol cael mwy o eglurhad yn eu cylch gan Lywodraeth Cymru.

I agree that this was an extremely important inquiry undertaken by the committee. I echo the concerns raised by Mick Antoniw concerning the failure of the CBI to either contribute written evidence or come to give proper oral evidence to us, so that we could question it on that evidence. However, of course, it was not just the CBI that refused to come to the committee to give evidence; the Minister was asked numerous times to attend the committee. I know that that correspondence is on the public record and that others can check that. It was very disappointing, and there have been previous debates in the Chamber about the way that this whole matter has been handled by the Welsh Government as well.

As the Chair has said, we looked very carefully at the process that was undertaken in looking at the potential routes that were available for this project, and it is safe to say that there are many, many concerns. The committee describes them in its report as 'grave' concerns over the consultation process and the basis upon which the decision was made by the Minister. In particular, a lot of stakeholders identified that they did not feel there was enough distinction between the three options included in the consultation documents and that the options on offer were particularly narrow. The blue route was included very late in the day and was not part of the public consultation.

As the Chair of the committee has already highlighted, there were grave concerns about the fact that the environmental considerations did not accord with the strategic environmental directive. Given the importance of the Gwent levels, the fact that it is a key environmental site, and that it is a very important and internationally recognised wildlife site, it was important for the Welsh Government to ensure that it was above reproach in the way that this consultation was handled. I think that there is a lack of public confidence in the way the process has been handled. It is clear that there are grave concerns about the fact that Natural Resources Wales's advice to the Minister appears not to have been taken appropriately or properly into account. It disagreed with the assessment of its findings on the impact of biodiversity and asked for it to be amended to a major negative from a minor negative, and it questioned the completeness of certain assessments contained in the environmental report. The Minister seems to have written those off.

I appreciate that you have addressed many of these concerns in your letter, Minister, back to the committee Chair, but they are worth repeating in this debate. What is unfortunate is that we did not have the opportunity to hear from you directly during the inquiry and question you on them. In fact, we have not had an opportunity to question you on it subsequently in a committee format. This is a major infrastructure project that will have a major impact, not only on south Wales, but, because of the knock-on implications, on other infrastructure projects potentially elsewhere in Wales.

Rwy'n cytuno bod hwn yn ymchwiliad hynod o bwysig a gynhaliwyd gan y pwyllgor. Ategaf y pryderon a godwyd gan Mick Antoniw ynglŷn â methiant y CBI i naill ai gyfrannu tystiolaeth ysgrifenedig neu ddod i gyflwyno tystiolaeth lafar briodol i ni, fel y gallem ei holi ynglŷn â'r dystiolaeth honno. Fodd bynnag, wrth gwrs, nid dim ond y CBI a wrthododd ddod i'r pwyllgor i roi tystiolaeth; gofynnwyd i'r Gweinidog fynychu'r pwyllgor nifer o weithiau. Gwn fod yr ohebiaeth honno ar y cofnod cyhoeddus ac y gall eraill wirio hynny. Roedd yn siomedig iawn, a bu dadleuon blaenorol yn y Siambr ynglŷn â sut y mae'r holl fater hwn wedi cael ei drin gan Lywodraeth Cymru yn ogystal.

Fel y dywedodd y Cadeirydd, buom yn edrych yn ofalus iawn ar y broses a gynhaliwyd wrth ystyried y llwybrau posibl a oedd ar gael ar gyfer y prosiect hwn, ac mae'n deg dweud bod llawer iawn o bryderon. Mae'r pwyllgor yn eu disgrifio yn ei adroddiad fel pryderon 'difrifol' o safbwynt y broses ymgynghori ac ar ba sail y gwnaed y penderfyniad gan y Gweinidog. Yn benodol, nododd llawer o randdeiliaid nad oeddynt yn teimlo bod digon o wahaniaeth rhwng y tri opsiwn a gafodd eu cynnwys yn y dogfennau ymgynghori a bod y dewisiadau a oedd ar gael yn arbennig o gul. Cafodd y llwybr glas ei gynnwys yn hwyr iawn yn y dydd ac nid oedd yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Fel y mae Cadeirydd y pwyllgor eisoes wedi ei nodi, roedd pryderon difrifol ynglŷn â'r ffaith nad oedd yr ystyriaethau amgylcheddol yn cyd-fynd â'r gyfarwydddeb amgylcheddol strategol. O ystyried pwysigrwydd gwastadeddau Gwent, y ffaith ei fod yn safle amgylcheddol allweddol, a'i fod yn safle bywyd gwyllt pwysig iawn sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol, roedd yn bwysig i Lywodraeth Cymru sicrhau ei fod yn ddi-fai yn y ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn. Rwy'n meddwl bod diffyg hyder cyhoeddus yn y ffordd y mae'r broses wedi cael ei thrin. Mae'n amlwg bod pryderon difrifol ynglŷn â'r ffaith ei bod yn ymddangos nad yw cyngor Adnoddau Naturiol Cymru i'r Gweinidog wedi'i ystyried yn briodol nac yn wirioneddol. Roedd yn anghytuno â'r asesiad o'i ganfyddiadau ar effaith bioamrywiaeth a gofynnodd iddo gael ei ddiwygio o effaith negyddol fach i effaith negyddol fawr, ac roedd yn cwestiynu cyflawnrwydd rhai asesiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad amgylcheddol. Ymddengys fod y Gweinidog wedi anghofio am y rheini.

Rwy'n sylweddoli eich bod wedi rhoi sylw i lawer o'r pryderon hyn yn eich llythyr, Weinidog, yn ôl at Gadeirydd y pwyllgor, ond mae'n werth eu hailadrodd yn y ddatl hon. Yr hyn sy'n anffodus yw na chawsom y cyfle i glywed gennych yn uniongyrchol yn ystod yr ymchwiliad a gofyn cwestiynu i chi amdanynt. Yn wir, nid ydym wedi cael cyfle i'ch cwestiynu yn ei gyflwyniad mewn fformat pwyllgor. Mae hwn yn brosiect seilwaith mawr a fydd yn cael effaith fawr, nid yn unig ar dde Cymru, ond, oherwydd y sgil-oblygiadau, ar brosiectau seilwaith eraill posibl mewn rhannau eraill o Gymru.



Personally, I do not feel that you have been prepared to be transparent or open or to be scrutinised properly on the decision making that has taken place thus far. I hope that there will be economic benefit to south-east Wales, but as Mick Antoniw has outlined again, there are clear concerns that the traffic information used to justify this project is out-dated in light of electrification and the proposed metro and that environmental concerns have not been properly listened to. At present, Minister, I do not believe that you have the support of the public for this project.

Yn bersonol, nid wyf yn teimlo eich bod wedi bod yn barod i fod yn dryloyw neu'n agored neu i fod yn destun craffu gwirioneddol o safbwynt y broses o wneud penderfyniadau sydd wedi mynd rhagddi hyd yn hyn. Rwy'n gobeithio y bydd budd economaidd i dde-ddwyrain Cymru, ond fel y mae Mick Antoniw wedi'i amlinellu unwaith eto, mae pryderon clir bod y wybodaeth am draffig a ddefnyddiwyd i gyfiawnhau'r prosiect hwn yn hen o ystyried trydaneiddio a'r metro arfaethedig ac nad yw pryderon amgylcheddol wedi'u hystyried yn briodol. Ar hyn o bryd, Weinidog, nid wyf yn credu bod gennych gefnogaeth y cyhoedd ar gyfer y prosiect hwn.

15:18

## Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Government's decision to adopt the black route has been controversial, to say the least. It has sparked several debates here in this Chamber. As the Minister has previously noted, in fairness, major schemes always cause controversy; we recognise that. However, in the case of the M4, we had the added complication of this being the first ever intended use of Welsh borrowing powers and the involvement of the UK Government in specifying that an M4 scheme had to be taken forward within those borrowing powers.

As a member of the committee, I was, I have to say, seriously disappointed that the Minister could not come before us to explain some of the technical aspects of the decision, the financing and how options were selected or de-selected. A very clear message came across that we were being prevented from scrutinising a scheme that had, and still has, major financial and environmental implications. I understand that the Minister, in her letter to the committee, states that the reason for that is the statutory decision-making process around major highway schemes. However, if that is, indeed, the case, I think that there is a serious problem here with the statutory decision-making process, and I would be very concerned if future large-scale infrastructure investments are made using a similar process. We were not, for example, able to scrutinise the actual cost of the scheme, and we still do not know how it will be paid for and, specifically, how cost elements of the scheme outside of the implied Welsh borrowing limit will be accounted for. The Minister has stated that this will become clearer as the scheme is designed and developed further, but, surely, the financial detail of the scheme should have been more widely known when the decision on a preferred route was made, not only to inform the Government's decision, of course, but to enable scrutiny of whether this was the most value-for-money decision.

Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i fabwysiadu'r llwybr du wedi bod yn ddadleuol, a dweud y lleiaf. Mae wedi ysgogi sawl dadl yma yn y Siambr hon. Fel y mae'r Gweinidog wedi'i nodi o'r blaen, a bod yn deg, mae cynlluniau mawr yn ddadleuol bob amser; rydym yn cydnabod hynny. Fodd bynnag, yn achos yr M4, roedd y sefyllfa'n fwy cymhleth gan mai hwn oedd y defnydd cyntaf arfaethedig erioed o bwerau benthycia yng Nghymru, ac oherwydd ymyriad Llywodraeth y DU a ddywedodd fod yn rhaid bwrw ymlaen â chynllun yr M4 yn unol â'r pwerau benthycia hynny.

Fel aelod o'r pwyllgor, yr oeddwn, rhaid i mi ddweud, yn siomedig iawn na allai'r Gweinidog ddod ger ein bron i egluro rhai o agweddau technegol y penderfyniad, yr ariannu a sut y cafodd opsiynau eu dewis neu eu dad-dewis. Daeth neges glir iawn drosodd ein bod yn cael ein hatal rhag craffu ar gynllun a oedd â, ac sy'n dal i fod â, goblygiadau ariannol ac amgylcheddol mawr. Deallaf fod y Gweinidog, yn ei llythyr at y pwyllgor, yn datgan mai'r rheswm am hynny yw'r broses o wneud penderfyniadau statudol ynglŷn â chynlluniau priffyrdd mawr. Fodd bynnag, os mai dyna, yn wir, yw'r gwirionedd, rwy'n meddwl bod problem ddifrifol yma o safbwynt y broses o wneud penderfyniadau statudol, a byddwn yn bryderus iawn os bydd buddsoddiadau seilwaith ar raddfa fawr yn cael eu gwneud yn y dyfodol drwy ddefnyddio proses debyg. Nid ydym, er enghraifft, yn gallu craffu ar gost wirioneddol y cynllun, ac nid ydym yn gwybod eto sut y caiff y cynllun ei ariannu nac, yn benodol, sut y rhoddir cyfrif am elfennau cost y cynllun y tu allan i derfyn benthycia Cymru sydd ymhlyg. Mae'r Gweinidog wedi dweud y bydd hyn yn dod yn gliriach wrth i'r cynllun gael ei gynllunio a'i ddatblygu ymhellach, ond, oni ddylai manylion ariannol y cynllun fod wedi bod yn fwy hysbys pan gafodd y penderfyniad ar lwybr a ffeirir ei wneud, nid yn unig i lywio penderfyniad y Llywodraeth, wrth gwrs, ond er mwyn hwyluso craffu ar y cwestiwn ai'r penderfyniad hwn a fyddai'n rhoi'r gwerth am arian gorau.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

On value for money, the Minister has, in previous weeks, been defending a much more reasonable cost estimate of around £600 million for the black route. However, in the Minister's letter, the high-level cost estimate of £1 billion is, again, confirmed. I, personally, have strong objection to the fact that the route crosses the Gwent levels, the environmental significance of that and the environmental damage that that would cause. However, surely, the financial aspect is equally important, and there is a discrepancy there that would influence whether other Members would be supportive or more critical of the black route.

I appreciate the point that the Minister has made regarding the likelihood of a public local inquiry. Yes, that will allow scrutiny of more detailed plans from the Government. I also welcome the response of the Minister to Rhun ap Iorwerth earlier in the autumn that a final decision on proceeding with construction would, of course, be a matter for the next Welsh Government. However, it remains the case that, when the Minister made the decision on adopting the draft plan for the black route, the impression was given to the people of Wales that it was a done deal and that it could be done more cheaply and quickly than was the case in the Government's existing documentation. Members in the Chamber had no adequate way of scrutinising that decision, and I think that, as a result of that, there is a lack of clarity over the decision-making process here and over the actual route that has been adopted.

15:22

## **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to pay tribute to the current Chair of the Environment and Sustainability Committee, Alun Ffred Jones, for his leadership of the inquiry, but also note that this all got under way under the previous Chair, Lord Dafydd Elis-Thomas; in fact, on a couple of occasions, it was my privilege to Chair some of the evidence sessions, too.

Committees perform a key role in this place in scrutinising the Government and the formulation of policy, and that role is, as others have noted, made rather difficult when the Government is reluctant to engage fully with the inquiry on the terms of the committee. As Llyr Gruffydd has stated, there are particular issues there that may be of a more procedural kind and may need attention in another place. However, I would associate myself very strongly with the remarks of Mick Antoniw, in terms of his disappointment at the lack of readiness of some key representative business organisations to come forward and make their voices heard when we could read their views in diary pieces in the 'Western Mail'; that did grate, rather, with our committee, and it was a matter of some disappointment.

O safbwynt gwerth am arian, mae'r Gweinidog, dros yr wythnosau diwethaf, wedi bod yn amddiffyn amcangyfrif cost llawer mwy rhesymol o tua £600 miliwn ar gyfer y llwybr du. Fodd bynnag, yn llythyr y Gweinidog, mae'r amcangyfrif cost lefel uchel o £1 biliwn, unwaith eto, yn cael ei gadarnhau. Rwyf, yn bersonol, yn gwrthwynebu'n gryf y ffaith fod y llwybr yn croesi gwastadeddau Gwent, arwyddocâd amgylcheddol hynny a'r niwed amgylcheddol y byddai hynny'n ei achosi. Fodd bynnag, onid yw'r agwedd ariannol yr un mor bwysig, ac mae anghysondeb yn y cyswllt hwnnw a fyddai'n dylanwadu ar a fyddai Aelodau eraill yn gefnogol neu'n fwy beirniadol o'r llwybr du.

Deallaf y pwynt y mae'r Gweinidog wedi'i wneud ynglŷn â'r tebygolrwydd y bydd ymchwiliad lleol cyhoeddus. Wrth gwrs, bydd hynny'n caniatáu craffu ar gynlluniau mwy manwl gan y Llywodraeth. Rwyf hefyd yn croesawu ymateb y Gweinidog i Rhun ap Iorwerth yn gynharach yn yr hydref y byddai penderfyniad terfynol ynglŷn â bwrw ymlaen â'r gwaith adeiladu, wrth gwrs, yn fater i Lywodraeth nesaf Cymru. Fodd bynnag, mae'n wir o hyd, pan wnaeth y Gweinidog y penderfyniad ar fabwysiadu'r cynllun drafft ar gyfer y llwybr du, bod pobl Cymru wedi cael yr argraff bod y trefniadau wedi'u cadarnhau ac y gellid gwneud y gwaith yn rhatach ac yn gyflymach na'r hyn a nodwyd yn nogfennau presennol y Llywodraeth. Nid oedd gan Aelodau yn y Siambr unrhyw ffordd ddiogonol o graffu ar y penderfyniad hwnnw, ac o ganlyniad, rwy'n credu bod diffyg eglurder ynglŷn â'r broses o wneud penderfyniadau yma ac ynglŷn â'r union lwybr sydd wedi cael ei fabwysiadu.

Hoffwn dalu teyrnged i Gadeirydd presennol y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Alun Ffred Jones, am ei arweinyddiaeth o'r ymchwiliad, gan nodi hefyd bod hyn i gyd wedi cychwyn o dan y Cadeirydd blaenorol, yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas; mewn gwirionedd, ar un neu ddau achlysur, ces i'r fraint hefyd o gadeirio rhai o'r sesiynau tystiolaeth.

Mae pwyllgorau yn cyflawni rôl allweddol yn y lle hwn wrth graffu ar y Llywodraeth a'r broses o lunio polisiau, ac mae'r rôl honno, fel y nododd eraill, braid yn anodd pan fydd y Llywodraeth yn gyndyn o ymgysylltu'n llawn â'r ymholiad ar delerau'r pwyllgor. Fel y dywedodd Llyr Gruffydd, mae materion penodol yn y cyswllt hwn a allai ymwneud mwy â gweithdrefnau ac sydd angen sylw mewn lle arall o bosibl. Fodd bynnag, rwy'n cyd-fynd yn gryf iawn â sylwadau Mick Antoniw, o ran ei siom ynglŷn â diffyg parodrwydd rhai sefydliadau busnes cynrychioliadol allweddol i ddod ymlaen a dweud eu dweud pan yr oedd modd i ni ddarllen eu safbwyntiau mewn darnau dyddiaduron yn y 'Western Mail'; llwyddodd hynny i godi gwrychyn ein pwyllgor, ac roedd yn fater o gryn siom.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The lack of engagement that I have referred to is reflected, of course, in our report, and I feel that it speaks volumes about concerns around the transparency issue that we are where we are with the M4 around Newport today. Clearly, the fact that the M4 is no longer fit for purpose is beyond question and significant changes are necessary—that much we understand. However, we must not fall into the trap of saying that something must be done and responding to the problem with the first idea that comes along before considering—and fully considering—all of the options. That is why the committee's report highlights so many serious unanswered questions with regard to both the preferred black route and the level of consideration that alternatives received. Now that that report has been published, I am pleased that some of those questions have been answered by the Government; it is just a shame that those answers came rather belatedly.

Furthermore, it would be remiss of me not to mention the benefits that come from the budget agreement that has been achieved between my party and the Welsh Government with regard to the opportunity to pause and reflect on what has been proposed without the fear that the Government will press ahead regardless, awarding the contract within this Assembly term; that will now, thanks to that agreement, no longer be the case. While this may be an example of opposition parties being more effective at influencing the Welsh Government than, maybe, its own Members, I think that it also shows that it remains very much a live issue and one that we need to reflect upon, and, clearly, it will be going, if it gets that far, to public inquiry.

Turning to the Government's response, I am pleased to see that significant extra detail has been provided on why the blue route was taken out of consideration, particularly in terms of the projected cost and timescale for delivery. Clearly, this alternative is open to as much debate as the black route and, as such, I am pleased that we now have the opportunity to fully explore them both before any further decisions are made. As we go through that process, it remains critical that we let the evidence speak for itself, rather than holding on to our favourite and pet projects.

Nevertheless, the key point that must be stressed is that it is not about the road alone, nor must it address only Newport's problems; we need to get people out of their cars and onto public transport, onto their bikes, or, indeed, where possible, the pedestrian solution. In doing so, we need to look for examples across this country, Europe and the wider world. A truly effective integrated transport network is what we need to achieve. It will not be easy, but if we make the effort and commit ourselves, it is achievable.

Mae'r diffyg ymgysylltu rwyf wedi cyfeirio ato yn cael ei adlewyrchu, wrth gwrs, yn ein hadroddiad, ac rwy'n teimlo ei fod yn dweud cyfrolau am bryderon ynglŷn â'r mater o dryloywder ein bod wedi cyrraedd y sefyllfa bresennol gyda'r M4 yn ardal Casnewydd heddiw. Yn amlwg, mae'r ffaith nad yw'r M4 yn addas i'r diben bellach y tu hwnt i amheuaeth ac mae angen newidiadau sylweddol—rydym yn deall hynny. Fodd bynnag, rhaid inni beidio â syrthio i'r fagl o ddweud bod yn rhaid i rywbeth gael ei wneud ac ymateb i'r broblem gyda'r syniad cyntaf sy'n dod cyn ystyried—ac ystyried yn llawn—yr holl opsiynau. Dyna pam y mae adroddiad y pwyllgor yn tynnu sylw at gymaint o gwestiynau difrifol sydd heb eu hateb ynglŷn â'r llwybr du a ffeirir a lefel yr ystyriaeth a gafodd y dewisiadau eraill. Nawr bod yr adroddiad wedi'i gyhoeddi, rwy'n falch bod rhai o'r cwestiynau hynny wedi cael eu hateb gan y Llywodraeth; ond mae'n drueni bod yr atebion hynny wedi dod braidd yn hwyr.

Ar ben hynny, byddai'n esgeulus imi beidio â sôn am y manteision sy'n deillio o gytundeb y gyllideb rhwng fy mhlaid a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cyfle i oedi a myfyrio ar yr hyn a gynigiwyd heb ofni y bydd y Llywodraeth yn bwrw ymlaen beth bynnag, gan ddyfarnu'r contract yn rhymor y Cynulliad hwn; ni fydd hynny, diolch i'r cytundeb hwnnw, yn digwydd mwyach. Er y gall hyn fod yn enghraifft o'r gwrthbleidiau yn dylanwadu ar Lywodraeth Cymru yn fwy effeithiol nag, efallai, ei Haelodau ei hun, rwy'n meddwl ei bod hefyd yn dangos ei fod yn parhau i fod yn fater byw ac yn un y mae angen inni ei ystyried, ac, yn amlwg, bydd yn mynd, os yw'n mynd mor bell â hynny, i ymchwiliad cyhoeddus.

Gan droi at ymateb y Llywodraeth, rwy'n falch o weld bod gwybodaeth ychwanegol sylweddol wedi'i darparu am y rhesymau pam y cafodd y llwybr glas ei ddiystyru, yn enwedig o safbwynt y gost a ragwelwyd a'r amserlen ar gyfer ei gyflawni. Yn amlwg, mae'r llwybr gwahanol hwn yn agored i gymaint o drafodaeth â'r llwybr du ac, yn hynny o beth, rwy'n falch bod gennym y cyfle yn awr i archwilio'r ddau yn llawn cyn i unrhyw benderfyniadau pellach gael eu gwneud. Wrth i ni fynd drwy'r broses honno, mae'n parhau i fod yn hollbwysig ein bod yn gadael i'r dystiolaeth siarad drosti ei hun, yn hytrach na dal ein gafael yn ein hoff brosiectau.

Serch hynny, y pwynt allweddol y mae'n rhaid ei bwysleisio yw nad yw'r mater hwn yn ymwneud â'r ffordd yn unig, ac ni ddylid ei gyfyngu i fynd i'r afael â phroblemau Casnewydd yn unig; mae angen i ni gael pobl allan o'u ceir ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, ar eu beiciau, neu, yn wir, lle bo modd, yn cerdded. Wrth wneud hynny, mae angen inni edrych am enghreifftiau ledled y wlad hon, yn Ewrop ac yn y byd ehangach. Rhwydwaith trafnidiaeth integredig gwirioneddol effeithiol yw'r nod i ni. Ni fydd yn hawdd, ond os ydym yn gwneud yr ymdrech ac yn ymrwymo ein hunain, mae modd ei gyflawni.

I welcome this opportunity to debate the committee report. It was a frustrating experience to deal with this report. I accept that the Minister, for statutory and decision-making reasons, was not able to appear before the committee. However, it was very annoying and frustrating that the CBI did not come despite being asked so many times. In fact, we read about it in the 'Western Mail', and we know that it went up to Westminster to lobby very hard; yet, it showed disrespect to the committee that was looking at this process here in Wales. Therefore, it was frustrating, doing this report.

However, I welcome the position that we have now arrived at—the Government's recognition that there will be no construction of the M4 relief road until after the Assembly elections and that there will be a detailed environmental impact study on the preferred route before any detailed design work begins. I know that that is as a result of the budget agreement with the Liberal Democrats. I also welcome the fact that the Welsh Government will be open to reviewing its decision. That gives us the time to have the debates that we need to have about the preferred route, bearing in mind that the Government has said that it is open minded.

I hope that the environmental impact study will highlight the fact that the back route does have some disastrous environmental consequences; it has 1 ha of ancient woodland that is irreplaceable, five nationally designated sites, four Gwent level sites of special scientific interest, the river Usk site, which is of special scientific interest and special areas of conservation. In our decision making, absolutely every effort should be made to avoid such a devastating impact on the environment.

The Welsh Government's planning policy says that

'There is a presumption against development likely to damage a SSSI.'

However, in fact, there are four SSSIs in this plan, and, surely, there must be a way of finding a less damaging route.

There were a few issues that I wanted to raise in this debate. The cost of the proposed route has already been raised quite a few times. However, it would be helpful to know how much of the £500 million borrowing agreed by the Westminster Government will be earmarked for the M4 relief road. We have been reassured that some of that money will go towards other projects, but I think that it would be very helpful to know how much money that was.

Rwy'n croesawu'r cyfle hwn i drafod adroddiad y pwyllgor. Roedd ymdrin â'r adroddiad hwn yn brofiad rhwystredig. Rwy'n derbyn nad oedd y Gweinidog, am resymau statudol a rhesymau gwneud penderfyniadau, yn gallu ymddangos gerbron y pwyllgor. Fodd bynnag, roedd y ffaith na ddaeth y CBI, er y gofynnwyd iddo gymaint o weithiau, yn peri cryn ddieter a rhwystredigaeth. Yn wir, darllenasom amdano yn y 'Western Mail', ac rydym yn gwybod iddo fynd i San Steffan i lobio yn galed iawn; eto, dangosodd ddiffyg parch at y pwyllgor a oedd yn edrych ar y broses hon yma yng Nghymru. Felly, roedd yn rhwystredig llunio'r adroddiad hwn.

Fodd bynnag, croesawaf y sefyllfa rydym wedi'i chyrraedd erbyn hyn—cydnabyddiaeth y Llywodraeth na fydd ffordd liniaru'r M4 yn cael ei hadeiladu tan ar ôl etholiadau'r Cynulliad ac y bydd astudiaeth fanwl o'r effaith amgylcheddol ar y llwybr dewisol yn cael ei chynnal cyn i unrhyw waith cynllunio manwl ddechrau. Gwn fod hynny wedi digwydd o ganlyniad i'r cytundeb ar y gyllideb â'r Democratiaid Rhyddfrydol. Croesawaf hefyd y ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn agored i adolygu ei benderfyniad. Mae hynny'n rhoi'r amser i ni gael y trafodaethau sydd angen inni eu cael ynglŷn â'r llwybr a ffefrir, gan gofio bod y Llywodraeth wedi dweud bod ganddi feddwl agored.

Gobeithiaf y bydd yr astudiaeth o'r effaith amgylcheddol yn amlgu'r ffaith y bydd y llwybr du yn cael rhai canlyniadau amgylcheddol trychinebus; mae'n cynnwys 1 hectar o goetir hynafol sydd yn unigryw, pum safle a ddynodir yn genedlaethol, pedwar safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig ar wastadeddau Gwent, safle'r afon Wysg, sydd o ddiddordeb gwyddonol arbennig ac ardaloedd cadwraeth arbennig. Wrth i ni wneud penderfyniadau, dylid gwneud pob ymdrech bosibl i osgoi effaith mor ddiinstriol ar yr amgylchedd.

Mae polisi cynllunio Llywodraeth Cymru yn dweud

'Mae rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad sy'n debygol o niweidio SoDdGA.'

Fodd bynnag, mewn gwirionedd, mae pedwar SoDdGA yn y cynllun hwn, ac, yn sicr, mae'n rhaid bod ffordd o ddod o hyd i lwybr llai niweidiol.

Roedd rhai materion roeddwn am eu codi yn y ddatl hon. Mae cost y llwybr arfaethedig eisoes wedi'i chodi sawl gwaith. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol gwybod faint o'r benthyciad £500 miliwn a gytunwyd gan Lywodraeth San Steffan a fydd yn cael ei glustnodi ar gyfer ffordd liniaru'r M4. Rydym wedi cael ein yn sicrhau y bydd rhywfaint o'r arian yn mynd tuag at brosiectau eraill, ond credaf y byddai'n ddefnyddiol iawn gwybod faint oedd yr arian hwnnw.

It would also be useful to know whether the borrowing was dependent on choosing this particular route, rather than any of the other routes. The other question I have was about the blue route, which has been mentioned, and I think that many of us travelled along the blue route. I travelled along it a few times. Professor Stuart Cole is my constituent, and I have had a lot of discussions about this with him. I wonder whether it was correct that the Welsh Government had bought the steel works part of his blue route, with a view to it being the M4 relief road in the past, because, certainly, driving along that road, it appeared to be a road that was directly parallel with the part of the new black route, and it was really a mirror of it. There do seem to be, in terms of Professor Cole's route, some misconceptions about it, because although there are traffic lights along the route, and roundabouts, the plan of the new route would be to have flyovers over all those. I think that there is a view that the costs perhaps have also been overestimated.

However, my main concern is the environmental damage that this route will bring. I feel that, when we make decisions like this, I suppose that you are looking at economic benefits, compared to environmental benefits. However, I think that, in this particular case, there are other options, and I think that our report has highlighted the unease that the committee feels about how far these issues have been addressed.

Byddai hefyd yn ddefnyddiol gwybod a oedd benthg yr arian yn dibynnu ar ddeuwis y llwybr penodol hwn, yn hytrach nag unrhyw un o'r llwybrau eraill. Mae'r cwestiwn arall sydd gennyf yn ymwneud â'r llwybr glas, sydd wedi cael ei grybwyll, ac rwy'n meddwl bod llawer ohonom wedi teithio ar hyd y llwybr glas. Teithiais ar ei hyd ychydig o weithiau. Mae'r Athro Stuart Cole yn un o'm hetholwyr, ac rwyf wedi cael sawl trafodaeth ag ef am hyn. Tybed a oedd yn gywir bod Llywodraeth Cymru wedi prynu rhan y gwaith dur o'i lwybr glas, gyda'r bwriad o'i gwneud yn ffordd liniaru'r M4 yn y gorffennol, oherwydd, yn sicr, wrth yrru ar hyd y ffordd honno, roedd yn ymddangos i fod yn ffordd a oedd yn uniongyrchol gyfochrog â'r rhan o'r llwybr du newydd, ac roedd yn ddrych ohoni mewn gwirionedd. Mae'n ymddangos bod rhai camsyniadau ynglŷn â llwybr yr Athro Cole, oherwydd er bod goleuadau traffig ar hyd y llwybr, a chylchfannau, byddai cynllun y llwybr newydd yn golygu bod pontffyrdd dros bob un o'r rheini. Rwy'n meddwl bod rhai pobl yn credu bod y costau wedi'u goramcangyfrif o bosibl hefyd.

Fodd bynnag, fy mhrif bryder yw'r difrod amgylcheddol a fydd yn deillio o'r llwybr hwn. Rwy'n teimlo, wrth wneud penderfyniadau fel hyn, mae'n debyg ein bod yn edrych ar fanteision economaidd, yn hytrach na manteision amgylcheddol. Fodd bynnag, rwy'n meddwl, yn yr achos penodol hwn, bod opsiynau eraill, a chredaf fod ein hadroddiad wedi amlygu'r anesmwythd y mae'r pwyllgor yn ei deimlo ynglŷn ag i ba raddau y mae'r materion hyn wedi cael sylw.

15:31

## **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As a member of the Environment and Sustainability Committee, I am pleased just to make a short contribution to today's debate. I want to focus my contribution on the comments on the value for money of the project. I will not repeat what has been said, but I do associate myself with the comments regarding the disappointment that the CBI was not willing to come and give evidence to the committee.

So, I and other Members of this Chamber are concerned that the Welsh Government has ignored, if you like, the environmental and value-for-money concerns that are associated with the preferred route. After adopting the so-called 'black route', I am concerned that any ambitions for infrastructure projects that would benefit other parts of Wales will hit the buffers due to a lack of available money. During the committee's evidence taking, it was interesting to hear evidence from Professor Stuart Cole and the Federation of Small Businesses, both of whom expressed concerns about the focus of such a large-scale infrastructure project being in one part of south-east Wales, which would have a detrimental impact on other projects across Wales. That was their view.

Fel aelod o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, mae'n dda gennyf wneud cyfraniad byr yn unig at y ddadl heddiw. Rwyf am ganolbwyntio fy nghyfraniad ar y sylwadau ar werth am arian y prosiect. Ni fyddaf yn ailadrodd yr hyn a ddywedwyd, ond rwy'n cyd-fynd â'r sylwadau ynglŷn â'r siom nad oedd y CBI yn barod i ddod i roi tystiolaeth i'r pwyllgor.

Felly, rwyf ac Aelodau eraill o'r Siambr hon yn bryderus bod Llywodraeth Cymru wedi anwybyddu, os mynnwch, y pryderon amgylcheddol a gwerth am arian sy'n gysylltiedig â'r llwybr a ffeirir. Ar ôl mabwysiadu'r hyn a elwir yn 'llwybr du', rwy'n pryderu y bydd unrhyw uchelgais ar gyfer prosiectau seilwaith a fyddai o fudd i rannau eraill o Gymru yn cael ei roi o'r neilltu oherwydd diffyg arian. Wrth i'r pwyllgor dderbyn tystiolaeth, roedd yn ddiddorol clywed tystiolaeth gan yr Athro Stuart Cole a'r Ffederasiwn Busnesau Bach, y ddau ohonynt yn mynegi pryderon ynglŷn â ffocws prosiect seilwaith ar raddfa mor fawr mewn un rhan o dde-ddwyrain Cymru, a fyddai'n cael effaith andwyol ar brosiectau eraill ledled Cymru. Dyna oedd eu barn.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

By opting for the most expensive option, the concern is that the Welsh Government is using almost the whole budget for a single project and failing, I would say, to look at Wales's transport infrastructure in the round. So, I would be interested to hear assurances from the Minister that projects in mid and north Wales will not be put on the back burner as a result of her decision to spend £1 billion in south-east Wales. I appreciate that other figures have been mentioned that are lower than £1 billion. The Minister will be aware that I am always mentioning projects in my own constituency, in mid Wales—the Pant to Llanymynech bypass, and Dyfi bridge. [‘Interruption’.] Yes, but what will be the effect on other decisions, on vital improvements on the A55 in north Wales, or the dualling of the A40 in west Wales? I do not deny that improvements on the M4 are essential, but it is vital that the benefits of capital investment are felt across the whole of Wales, and it appears that, if the proposed route goes ahead, it will limit the opportunity to use borrowing for other schemes, and I would like to hear assurances to the contrary.

So, what I hear, as a constituency AM—and other mid and north Wales AMs will hear the same—is that all the money is spent in south Wales. That is the perception. I will not get into the debate, but that is the perception that comes to me from people who support my party, and all other parties, and no parties at all. I do not think that this project, and the amount of spend on one particular area of Wales, does anything to help deter that perception. So, ignoring fundamental transport needs within Wales, as well as the environmental and value-for-money concerns, in favour of one costly project that will not bring benefits for many years to come, I do not think is an acceptable way forward, and I think that there are issues that need to be dealt with in mid and north Wales as well.

So, I therefore agree with the committee's conclusion that there are serious unanswered questions on the potential impact of other transport projects, and on the total cost and value for money of the proposed investment.

15:34

## John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that this committee report is very worth while, dealing with major decisions that have to be made, involving a great deal of public money and shaping our transport systems and environment for many years to come. The Gwent levels are unique in environmental terms, and Julie Morgan has mentioned some of the environmental considerations that are applicable, and they have been covered in various places at various times and are beyond doubt in terms of their importance. The Gwent levels are very historic and unique in terms of the landscape and the significance unchanged for so many years. So, I think that those aspects are common perhaps to all of those considering these matters, but their importance should not and cannot be overlooked.

Drwy ddewis yr opsiwn drutaf, y pryder yw bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r gyllideb gyfan bron ar gyfer prosiect unigol ac yn methu, byddwn yn dweud, ag edrych ar seilwaith trafndiaeth Cymru yn gyffredinol. Felly, byddai'n dda gennyf gael sicrwydd gan y Gweinidog na fydd prosiectau yng nghanolbarth a gogledd Cymru yn cael eu rhoi o'r neilltu o ganlyniad i'w penderfyniad i wario £1 biliwn yn ne-ddwyrain Cymru. Rwy'n sylweddoli bod ffigurau eraill wedi cael eu crybwyll sy'n is nag £1 biliwn. Bydd y Gweinidog yn gwybod fy mod bob amser yn sôn am brosiectau yn fy etholaeth, yng nghanolbarth Cymru—ffordd osgoi'r Pant i Lanymynech, a phont Dyfi. [‘Torri ar draws’.] Ie, ond beth fydd yr effaith ar benderfyniadau eraill, ar welliannau hanfodol i'r A55 yn y gogledd, neu ddeuoli'r A40 yng ngorllewin Cymru? Nid wyf yn gwadu bod gwelliannau i'r M4 yn hanfodol, ond mae'n hollbwysig bod manteision buddsoddiad cyfalaf yn cael eu teimlo ledled Cymru gyfan, ac mae'n ymddangos, os bydd y llwybr arfaethedig yn mynd yn ei flaen, y bydd yn cyfyngu ar y cyfle i ddefnyddio arian sydd wedi'i fenthg ar gyfer cynlluniau eraill, a hoffwn glywed sicrwydd i'r gwrthwyneb.

Felly, yr hyn rwy'n ei glywed, fel AC dros etholaeth—a bydd ACau eraill yng nghanolbarth a gogledd Cymru yn clywed yr un peth—yw bod yr holl arian yn cael ei wario yn ne Cymru. Dyna'r canfyddiad. Ni fyddaf yn ymuno â'r ddadl, ond dyna'r canfyddiad sy'n cael ei gyfleu i mi gan bobl sy'n cefnogi fy mhlaid, a phob plaid arall, a phobl nad ydynt yn perthyn i unrhyw blaid. Nid wyf yn credu bod y prosiect hwn, a lefel y gwariant ar un rhan benodol o Gymru, yn gwneud unrhyw beth i helpu i ddileu'r canfyddiad hwnnw. Felly, nid wyf yn meddwl bod anwybyddu anghenion trafndiaeth sylfaenol yng Nghymru, yn ogystal â'r pryderon amgylcheddol a gwerth am arian, o blaid un prosiect costus na fydd yn dod â manteision am flynyddoedd lawer i ddod, yn ffordd dderbyniol ymlaen, ac rwy'n meddwl bod materion y mae angen ymdrin â hwy yng nghanolbarth a gogledd Cymru hefyd.

Felly, rwy'n cytuno â chasgliad y pwyllgor bod cwestiynau difrifol heb eu hateb ynglŷn ag effaith bosibl prosiectau trafndiaeth eraill, ac ar gyfanswm y gost a gwerth am arian y buddsoddiad arfaethedig.

Credaf fod adroddiad y pwyllgor hwn yn werth chweil, a'i fod yn ymdrin â phenderfyniadau pwysig y mae'n rhaid eu gwneud sy'n ymwneud â llawer iawn o arian cyhoeddus ac yn llywio ein systemau trafndiaeth a'r amgylchedd am flynyddoedd lawer i ddod. Mae gwastadeddau Gwent yn unigryw o safbwynt yr amgylchedd, ac mae Julie Morgan wedi crybwyll rhai o'r ystyriaethau amgylcheddol sy'n berthnasol, ac maent wedi cael eu trafod mewn gwahanol leoedd ar wahanol adegau ac nid oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â'u pwysigrwydd. Mae gwastadeddau Gwent yn hanesyddol iawn ac yn unigryw o safbwynt y dirwedd a'r arwyddocâd digyfnewid am gymaint o flynyddoedd. Felly, credaf fod yr agweddau hynny o bosibl yn gyffredin i bob un o'r rheini sy'n ystyried y materion hyn, ond ni ddylid ac ni ellir anwybyddu eu pwysigrwydd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



However, I would like to add to that in terms of the debate about routes, that I am not in favour of an M4 relief road across the Gwent levels; neither am I in favour of the blue route. The blue route itself raises many environmental issues. We have heard, for example, of the possibility of flyovers. There are many communities that would be living underneath those flyovers. There are great air and noise pollution issues. My favoured solution to the issues of the M4 around Newport involves public transport solutions and other carrots and sticks to change behaviour and use of the M4. Again, many of those issues have been covered in the various debates surrounding these matters over a number of years.

However, I think that we are in a changed position now when we consider these matters. We have already heard today about the budget statement, which puts all of this in a new context. There will be further opportunities for consideration and decision making. Different timescales are now involved as part of that. We also know, of course, that new proposals are coming forward with regard to the metro system. Monmouthshire, for example, is very keen in terms of the geographical coverage of that metro system, and that would have a major potential impact on use of the M4 and the Brynglas tunnels as a pinch point.

Allied to that, of course, is the debate following the Scottish referendum, where I think that we are in new territory now in terms of our relationship with the UK Government. We are going to see major change following very quickly and that impacts in terms of the levers and financial capacity that Welsh Government will have to address the solutions to the problems on the M4 and particularly, I hope, the issue of the extent to which the early access to borrowing powers is tied to a particular solution to the problems of the M4 around Newport—that of a new relief road.

I think that all of this now is open to debate anew and we should approach it in terms of these new circumstances. So, I look forward to being part of that continuing debate as we move forward. We have this committee report, which is important, but I think that we are now in a new context, and all of us need to approach these matters with those new possibilities in mind.

Fodd bynnag, hoffwn ychwanegu at hynny o ran y ddadl am lwybrau, nad wyf o blaid ffordd liniaru i'r M4 ar draws gwastadeddau Gwent; nid wyf o blaid y llwybr glas chwaith. Mae'r llwybr glas ei hun yn codi llawer o gwestiynau amgylcheddol. Rydym wedi clywed, er enghraifft, am y posibilrwydd o bontffyrdd. Byddai llawer o gymunedau'n byw o dan y pontffyrdd hynny. Mae problemau mawr yn ymwneud â llygredd aer a llygredd sŵn. Mae'r ateb rwy'n ei ffafrio i broblemau'r M4 o amgylch Casnewydd yn ymwneud ag atebion trafndiaeth gyhoeddus a chymhellion eraill i newid ymddygiad a defnydd o'r M4. Unwaith eto, mae llawer o'r problemau hynny wedi cael eu cynnwys yn y gwahanol ddadleuon ynglŷn â'r materion hyn dros nifer o flynyddoedd.

Fodd bynnag, rwy'n meddwl bod y sefyllfa wedi newid erbyn hyn wrth i ni ystyried y materion hyn. Rydym eisoes wedi clywed heddiw am y datganiad cyllideb, sy'n rhoi hyn i gyd mewn cyd-destun newydd. Bydd cyfleoedd pellach i ystyried y materion a gwneud penderfyniadau. Mae amserlenni gwahanol wedi'u cynnwys fel rhan o hynny bellach. Rydym hefyd yn gwybod, wrth gwrs, bod cynigion newydd yn cael eu cyflwyno ar gyfer y system metro. Mae Sir Fynwy, er enghraifft, yn awyddus iawn o safbwynt cwrpas daearyddol y system metro honno, a byddai hynny'n cael effaith fawr o bosibl ar y defnydd o'r M4 a thwneli Brynglas fel man cyfyng.

Yn gysylltiedig â hynny, wrth gwrs, yw'r ddadl yn dilyn referendwm yr Alban, lle rwy'n meddwl ein bod mewn sefyllfa newydd erbyn hyn o safbwynt ein perthynas â Llywodraeth y DU. Rydym yn mynd i weld newid mawr yn dilyn yn gyflym iawn ac mae hynny'n effeithio ar y dulliau a'r gallu ariannol y bydd gan Lywodraeth Cymru i roi sylw i'r atebion i'r problemau ar yr M4 ac yn benodol, rwy'n gobeithio, y mater o ystyried i ba raddau y mae'r mynediad cynnar at bwerau benthyca yn cael ei glymu i ateb penodol i broblemau'r M4 o amgylch Casnewydd—sef ffordd liniaru newydd.

Credaf fod hyn i gyd yn awr yn agored i'w drafod o'r newydd a dylem wneud hynny ar sail yr amgylchiadau newydd. Felly, edrychaf ymlaen at fod yn rhan o'r ddadl barhaus honno wrth inni symud ymlaen. Mae gennym adroddiad y pwyllgor hwn, sy'n bwysig, ond rwy'n meddwl ein bod yn awr mewn cyd-destun newydd, ac mae angen i bob un ohonom ystyried y materion hyn ar sail y posibilrwydd newydd hynny.

15:38

## **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Economy, Science and Transport to speak on behalf of the Government—Edwina Hart.

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i siarad ar ran y Llywodraeth—Edwina Hart.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

First, I would like to thank the committee for its inquiry and report and I recognise its important role in scrutinising decisions in relation to the M4 corridor around Newport, and note the recommendations that the committee has made. My letter of 1 September 2014 responded to the report's recommendations because this is a significant and complex project that is rightly the subject of a high level of interest and scrutiny. However, if I refer to my letter of 1 September, I did indicate that I recognise the committee's important role in scrutinising decisions in relation to the M4 corridor around Newport and regret that the timing of the inquiry meant that I could not give evidence in person.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r pwyllgor am ei ymchwiliad a'i adroddiad ac rwy'n cydnabod ei rôl bwysig wrth graffu ar benderfyniadau yn ymwneud â choridor yr M4 o amgylch Casnewydd, ac yn nodi'r argymhellion y mae'r pwyllgor wedi eu gwneud. Ymatebodd fy llythyr dyddiedig 1 Medi 2014 i argymhellion yr adroddiad gan fod hwn yn brosiect arwyddocaol a chymhleth ac mae'n briodol ei fod yn destun lefel uchel o ddiddordeb a chraffu. Fodd bynnag, os cyfeiriaf at fy llythyr dyddiedig 1 Medi, nodais fy mod yn cydnabod rôl bwysig y pwyllgor wrth graffu ar benderfyniadau'n ymwneud â choridor yr M4 o gwmpas Casnewydd ac yn gresynu bod amseriad yr ymchwiliad yn golygu na allwn roi tystiolaeth yn bersonol.

As I explained in my letters of 20 December 2013 and 19 March, the statutory decision-making process in relation to major highway schemes is very strict and I was not in a position to offer a view on the merits of different options until I could consider all the evidence arising from the public consultation and relevant assessments and determine a way forward. In light of that, William Powell's comments about process might well be an issue that we need to look at and, of course, I very much take on board his comments about the budget agreement between us and the Liberal Democrats.

Fel yr eglurais yn fy llythyrau dyddiedig 20 Rhagfyr 2013 a 19 Mawrth, mae'r broses o wneud penderfyniadau statudol yn ymwneud â chynlluniau priffyrdd mawr yn llym iawn, ac nid oeddwn mewn sefyllfa i gynnig barn ar rinweddau opsiynau gwahanol nes y gallwn ystyried yr holl dystiolaeth a oedd yn codi o'r ymgynghoriad cyhoeddus a'r asesiadau perthnasol a phenderfynu ar y ffordd ymlaen. O ystyried hynny, gallai sylwadau William Powell am y broses fod yn fater y mae angen inni edrych arno ac, wrth gwrs, rwy'n ystyried ei sylwadau ynglŷn â'r cytundeb cyllideb rhyngom a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

On 23 September 2014, Friends of the Earth filed with the High Court an application for permission to apply for a judicial review against the decision to adopt the plan for the M4 corridor around Newport. In response on 17 October, we filed an acknowledgement of the claim and a summary of the grounds for resistance in which the claims made were firmly rejected. We now await the court's decision as to whether Friends of the Earth will be permitted to proceed with the judicial review.

Ar 23 Medi 2014, cyflwynodd Cyfeillion y Ddaear gais i'r Uchel Lys am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol yn erbyn y penderfyniad i fabwysiadu'r cynllun ar gyfer coridor yr M4 o amgylch Casnewydd. Mewn ymateb ar 17 Hydref, cyflwynasom gydnabyddiaeth o'r cais a chrynodeb o'r seiliau ar gyfer anghytuno â'r honiadau lle cafodd yr honiadau a wnaed eu gwrthod yn gadarn. Rydym yn awr yn aros am benderfyniad y llys ynglŷn ag a fydd Cyfeillion y Ddaear yn cael caniatâd i fynd ymlaen â'r adolygiad barnwrol.

The draft plan was subject to strategic environmental assessment and a strategic habitat regulations assessment. This will now be followed by a detailed environmental impact study on the preferred route before any detailed design work begins, and this will be considered very carefully before we decide how to proceed. In addition, given the level of interest and the range of views being expressed, I anticipate that there will be a local public inquiry into the proposals in 2016 and, at that time, more detailed information will be available on the scheme design, costs and environmental assessments. However, I do discuss financial issues regularly with Jane Hutt and we will, of course, make what information we are able to available to Members.

Roedd y cynllun drafft yn destun asesiad amgylcheddol strategol ac asesiad rheoliadau cynefinoedd strategol. Bydd astudiaeth fanwl o'r effaith amgylcheddol ar y llwybr dewisol yn dilyn yn awr cyn i unrhyw waith dylunio manwl ddechrau, a bydd hyn yn cael ei ystyried yn ofalus iawn cyn i ni benderfynu sut i symud ymlaen. Yn ogystal, o ystyried lefel y diddordeb a'r ystod o safbwyntiau sy'n cael eu mynegi, rwy'n rhagweld y bydd ymchwiliad cyhoeddus lleol i'r cynigion yn 2016 ac, ar yr adeg honno, bydd gwybodaeth fanylach ar gael am ddyluniad y cynllun, y costau a'r asesiadau amgylcheddol. Fodd bynnag, rwy'n trafod materion ariannol yn rheolaidd â Jane Hutt a byddwn, wrth gwrs, yn sicrhau bod yr Aelodau yn derbyn unrhyw wybodaeth y gallwn ei chyflwyno iddynt.

An independent inspector will hear a range of both oral and written evidence before reporting to the Welsh Government with their findings and recommendations. Unfortunately, it would not be appropriate for me to comment any further in this debate while this decision process is ongoing.

Bydd arolygydd annibynnol yn clywed amrywiaeth o dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig cyn cyflwyno ei ganfyddiadau a'i argymhellion i Lywodraeth Cymru. Yn anffodus, ni fyddai'n briodol i mi wneud rhagor o sylwadau yn y ddadl hon tra bod y broses benderfynu hon yn mynd rhagddi.

I call on the Chairman of the committee to reply to the debate—Alun Ffred Jones.

Galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor i ymateb i'r ddadl—Alun Ffred Jones.

Diolch yn fawr iawn. Thank you very much to everybody who contributed to the debate. I must admit that I am still disappointed in the response from the Government, in the sense that there seems to be always a reason for not giving any details, or indeed answering some basic questions about the process that led up to this decision. I am afraid that I am none the wiser after hearing the response of the Minister this afternoon than I was before the debate, which is disappointing, while I understand some of the issues that she raises in relation to the ongoing case. However, certainly, the committee at the time did not actually want to discuss the relative merits of the routes. That was the least of the committee's concerns and, in fact, it was not a really a matter for this committee, but there were other issues that demanded to be discussed in the open, so that people could hear the reasoning behind the Government's decision and statement.

I will not go into great detail because we have heard the remarks and the comments made, but, again, I would emphasise that Mick Antoniw talked about the logjam. Almost all of the stakeholders who contributed to the inquiry told us that a solution to the congestion on the M4 around Newport is needed. We are not in any way opposed to a solution, but it must be the right solution and arrived at in the correct way with all reasonable options considered. I think that that is the basic view of the committee. Mick Antoniw also emphasised the fact that the CBI, approached six times, would not come before us to present the case for a new M4. Indeed, that was a major source of frustration, which is the word that was used by Julie Morgan.

Antoinette Sandbach again emphasised the narrow choice presented in the consultation and that is certainly a cause for concern, in view of the serious reservations expressed by NRW at the time. The use of the borrowing powers for this major scheme was emphasised by Llyr Gruffydd and by Russell George. The fact is that a scheme of this magnitude will have a knock-on effect on other schemes elsewhere, and that is why it is absolutely essential that it is the right decision, and that it is seen to be the right decision, and that we understand the reasoning behind it. There is a certain lack of clarity at the moment that is very frustrating. Julie Morgan referred to 'a frustrating and annoying experience', while emphasising that her concern, as with others, is the potential environmental damage that the black route will entail.

Again, I think we need to impress upon the Minister that we did not want to discuss the merits of various routes, we simply wanted to ask questions—pertinent questions—about the process. That is why I think that the view of the committee would still be that the Government, in view of the concerns expressed, should consider re-starting the process to ensure that the concerns that have been raised are properly considered, that all reasonable alternatives are considered, and that the process that is followed is seen to be beyond reproach.

Diolch yn fawr iawn. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd at y ddaidl. Rhaid i mi gyfaddef fy mod yn dal i fod yn siomedig ag ymateb y Llywodraeth, yn yr ystyr ei bod yn ymddangos bob amser bod rheswm dros beidio â rhoi unrhyw fanylion, neu yn wir ateb rhai cwestiynau sylfaenol am y broses a arweiniodd at y penderfyniad hwn. Mae arnaf ofn nad wyf ddim callach ar ôl clywed ymateb y Gweinidog y prynhawn hwn nag yr oeddwn cyn y ddaidl, sy'n siomedig, er fy mod yn deall rhai o'r materion y mae hi'n eu codi mewn perthynas â'r achos sy'n parhau. Fodd bynnag, yn sicr, nid oedd y pwyllgor ar y pryd yn awyddus i drafod rhinweddau cymharol y llwybrau mewn gwirionedd. Dyna oedd y lleiaf o bryderon y pwyllgor ac, yn wir, nid oedd yn fater i'r pwyllgor hwn mewn gwirionedd, ond roedd materion eraill yr oedd angen eu trafod yn agored, fel y gallai pobl glywed y rhesymeg y tu ôl i benderfyniad a datganiad y Llywodraeth.

Ni fyddaf yn siarad yn fanwl iawn oherwydd rydym wedi clywed y sylwadau a wnaed, ond, unwaith eto, byddwn yn pwysleisio bod Mick Antoniw wedi siarad am y dagfa. Dywedodd bron pob un o'r rhanddeiliaid a gyfrannodd at yr ymchwiliad fod angen dod o hyd i ateb i'r tagfeydd ar yr M4 o amgylch Casnewydd. Nid ydym yn gwrthwynebu ateb mewn unrhyw ffordd, ond rhaid i'r ateb fod yn un cywir a rhaid mynd ati i'w wneud yn y ffordd gywir gan ystyried yr holl ddewisiadau rhesymol. Rwy'n meddwl mai dyma farn sylfaenol y pwyllgor. Yn ogystal, pwysleisiodd Mick Antoniw'r ffaith na fyddai'r CBI yn dod ger ein bron i gyflwyno'r achos o blaid M4 newydd, er y gofynnwyd iddynt wneud hynny chwe gwaith. Yn wir, arweiniodd hynny at rwystredigaeth fawr, sef y gair a ddefnyddiodd Julie Morgan.

Pwysleisiodd Antoinette Sandbach unwaith eto'r dewis cul a gyflwynir yn yr ymgynghoriad ac mae hynny'n sicr yn achos pryder, o ystyried yr amheuon difrifol a fynegwyd gan CNC ar y pryd. Pwysleisiodd Llyr Gruffydd a Russell George y defnydd o bwerau benthyca ar gyfer y cynllun mawr hwn. Y ffaith yw y bydd cynllun o'r maint hwn yn cael effaith ganlyniadol ar gynlluniau eraill mewn ardaloedd gwahanol, a dyna pam ei bod yn gwbl hanfodol bod y penderfyniad yn gywir, a'i fod yn cael ei weld yn benderfyniad cywir, a'n bod yn deall y rhesymau y tu ôl iddo. Mae rhywfaint o ddiffyg eglurder ar hyn o bryd sydd yn rhwystredig iawn. Cyfeiriodd Julie Morgan at 'brofiad rhwystredig ac annifyr', gan bwysleisio bod ei phryder, yn debyg i bobl eraill, yn ymwneud â'r niwed amgylcheddol posibl a fydd yn deillio o'r llwybr du.

Unwaith eto, rwy'n credu bod angen i ni bwysleisio wrth y Gweinidog nad oeddem am drafod rhinweddau llwybrau amrywiol, yn syml iawn roeddem eisieu gofyn cwestiynau—cwestiynau perthnasol—am y broses. Dyna pam rwy'n meddwl y byddai'r pwyllgor yn parhau i greu y dylai'r Llywodraeth, o ystyried y pryderon a fynegwyd, ystyried ail-gychwyn y broses i sicrhau bod y pryderon a godwyd yn cael eu hystyried yn briodol, bod yr holl ddewisiadau rhesymol eraill yn cael eu hystyried, ac na ellir cwestiynu'r broses sy'n cael ei dilyn.

15:45

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to note the report of the Environment and Sustainability Committee. Does any Member object? There is no objection. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:46.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:46.*

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Prentisiaethau

*Detolwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts, a gwelliant 2 yn enw Elin Jones.*

## Welsh Conservatives Debate: Apprenticeships

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts, and amendment 2 in the name of Elin Jones.*

15:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call on William Graham to move the motion.

Galwaf ar William Graham i gyflwyno'r cynnig.

Cynnig NDM5604 Paul Davies

Motion NDM5604 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi, er gwaethaf y cyllid ychwanegol ar gyfer prentisiaethau yn y ddau gytundeb diwethaf ar y gyllideb, fod toriadau yn ystod y flwyddyn o £10.7 miliwn wedi gadael darparwyr dysgu yn nhir neb.

1. Notes that despite the additional funding for apprenticeships in the past two budget deals, in-year cuts of £10.7million has left learning providers in limbo.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi nifer y prentisiaethau a grëwyd ers 2011.

2. Calls on the Welsh Government to clarify the number of apprenticeships created since 2011.

3. Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i sicrhau y bydd yr astudiaeth derfynol o gylch gorchwyl Twf Swyddi Cymru yn cynnwys gwerthusiad o'r sgiliau a ddatblygodd cyfranogwyr.

3. Further calls on the Welsh Government to ensure the final study of Jobs Growth Wales' terms of reference will include an evaluation of the skills acquired by participants.

15:46

## William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I move the motion.

Cynigaf y cynnig.

I am sure that all Members agree that apprenticeships give people the hope and opportunity to fulfil their potential and to succeed in life. Currently, there are too many unclear policies from the Welsh Government, which is making it difficult for employers and young people to engage efficiently. Various overlapping work programmes, along with qualifications that are not providing key skills, are ensuring that the workplace is even harder for young people to navigate.

Rwy'n siŵr bod pob Aelod yn cytuno bod prentisiaethau yn rhoi'r gobaith a'r cyfle i bobl wireddu eu potensial a llwyddo mewn bywyd. Ar hyn o bryd, mae gormod o bolisiâu aneglur gan Lywodraeth Cymru, sy'n ei gwneud yn anodd i gyflogwyr a phobl ifanc ymgysylltu'n effeithlon. Mae rhaglenni gwaith amrywiol sy'n gorgyffwrdd, ynghyd â chymwysterau nad ydynt yn darparu sgiliau allweddol, yn golygu ei bod hyd yn oed yn anoddach i bobl ifanc ymdopi â'r gweithle.

Due to the budget deal for 2013-14, which was struck in conjunction with Plaid Cymru, the Welsh Labour Government has pledged £20 million in additional funding for apprenticeships. The budget deal also included a further £20 million for 2014-15, which the Welsh Government said it was honouring in the 2014-15 budget statement. As both the Plaid and Lib Dem amendments show, the Welsh Government has again been propped up by the other parties with unfulfilled, unrealistic and quick-fix policies in a futile attempt to restore the Welsh economy.

In an act of robbing Peter to pay Paul, confusingly the budget for work-based learning decreased in net terms compared to 2013-14 by £7.3 million in 2014-15, and £5.3 million in 2015-16. This means that the Welsh Government appears to have given both more money to apprenticeships, and then cut them at the same time. This smoke-screening of figures should come as no surprise. The budget reductions will result in a decrease in the number of traineeship opportunities and a decrease in the number of apprenticeship opportunities in non-priority sectors.

When discussing employment, apprenticeships and training, the Welsh Government's usual response is to quote from Jobs Growth Wales in the hope of avoiding the real, pertinent questions. Well, let us address what actually happens in Jobs Growth Wales. The interim evaluation report, which was released in September, has some key elements of research that show that the scheme is not quite the magic bullet that the Welsh Government claims it to be. The interim review found that 73% of people on the scheme would have found employment without the scheme. I repeat: 73% of people would have found employment without the scheme. This means that the scheme's resources are not being targeted at those who need that support. There are large overlaps between the graduate strand of the programme and the existing Welsh Government programmes in this area. The review recommends that consideration should be given to discontinuing this particular stream of Jobs Growth Wales.

The number of early leavers in Jobs Growth Wales is consistently around a third. While the number of job opportunities compared to the early leavers is around 20%, the total number of those who have left the programme shows that the early-leaver figure is actually very much higher. The Welsh Government consistently refutes this and refuses to give any kind of explanation for the high level of incompleteness.

The Jobs Growth Wales programme is currently subject to in-year budget cuts. These have not been accounted for in the baseline of the 2015-16 draft budget. It is vital that we know how these cuts are going to affect the scheme. During the budget scrutiny session, the Deputy Minister said that the decrease in funding would result in fewer starts in 2015-16 and suggested some of these will be in-year. She also said in her evidence

Oherwydd cytundeb y gyllideb ar gyfer 2013-14 ar y cyd â Phlaid Cymru, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi addo £20 miliwn o arian ychwanegol ar gyfer prentisiaethau. Roedd cytundeb y gyllideb hefyd yn cynnwys £20 miliwn ychwanegol ar gyfer 2014-15, a dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn cadw'r addewid hwnnw yn natganiad cyllideb 2014-15. Fel y mae gwelliannau Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ei ddangos, mae Llywodraeth Cymru wedi'i chynnal unwaith eto gan y pleidiau eraill gyda pholisïau afrealistig, ateb cyflym nas cyflawnwyd mewn ymgais ofer i adfer economi Cymru.

Mewn gweithred o ddwyn o'r naill law i dalu'r llall, cafwyd gostyngiad yn y gyllideb ar gyfer dysgu seiliedig ar waith mewn termau net o £7.3 miliwn yn 2014-15 a £5.3 miliwn yn 2015-16 o gymharu â lefel 2013-14. Mae hyn yn golygu ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru wedi darparu mwy o arian ar gyfer prentisiaethau, ac yna eu torri ar yr un pryd. Nid yw cuddio ffigurau fel hyn yn peri unrhyw syndod. Bydd y gostyngiadau yn y gyllideb yn arwain at ostyngiad yn nifer y cyfleoedd hyfforddeiaeth a gostyngiad yn nifer y cyfleoedd prentisiaeth mewn sectorau nad ydynt yn flaenoriaeth.

Wrth drafod swyddi, prentisiaethau a hyfforddiant, ymateb arferol Llywodraeth Cymru yw dyfynnu o Twf Swyddi Cymru yn y gobaith o osgoi'r cwestiynau go iawn, perthnasol. Wel, gadewch i ni ystyried yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd o safbwynt Twf Swyddi Cymru. Mae'r adroddiad gwerthuso interim, a gafodd ei ryddhau ym mis Medi, yn cynnwys rhai elfennau ymchwil allweddol sy'n dangos nad yw'r cynllun yn ateb y problemau i gyd, er gwaethaf honiadau Llywodraeth Cymru i'r gwrthwyneb. Canfu'r adolygiad interim y byddai 73% o bobl ar y cynllun wedi dod o hyd i waith heb y cynllun. Dywedaf eto: byddai 73% o bobl wedi dod o hyd i waith heb y cynllun. Mae hyn yn golygu nad yw adnoddau'r cynllun yn cael eu targedu at y rhai sydd angen y cymorth hwnnw. Mae gorgyffwrdd mawr rhwng elfen y rhaglen i raddedigion a rhaglenni presennol Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Mae'r adolygiad yn argymhell y dylid ystyried rhoi'r gorau i'r elfen benodol hon o Twf Swyddi Cymru.

Mae tua thraean o bobl yn gadael Twf Swyddi Cymru yn gynnar, ac mae'r lefel hon yn gyson. Er bod nifer y cyfleoedd gwaith o gymharu â'r rhai sy'n gadael yn gynnar tua 20%, mae cyfanswm y rhai sydd wedi gadael y rhaglen yn dangos bod y ffigur ar gyfer y rhai sy'n gadael yn gynnar yn uwch o lawer mewn gwirionedd. Mae Llywodraeth Cymru yn gwadu hyn yn gyson ac yn gwrthod rhoi unrhyw fath o eglurhad am y lefel uchel o bobl nad ydynt yn cwblhau'r rhaglen.

Ar hyn o bryd, mae rhaglen Twf Swyddi Cymru yn destun toriadau yn y gyllideb yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r rhain wedi cael eu cyfrif yn y gyllideb ddrafft sylfaenol ar gyfer 2015-16. Mae'n hanfodol ein bod yn gwybod sut y mae'r toriadau hyn yn mynd i effeithio ar y cynllun. Yn ystod y sesiwn graffu ar y gyllideb, dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r gostyngiad yn y cyllid yn arwain at lai o ddechreuwy'r newydd yn 2015-16 ac awgrymodd y bydd rhai o'r rhain yn ystod y flwyddyn. Dywedodd hefyd yn ei thystiolaeth

'we believe that the in-year cuts will cause around 1,000 fewer starts and around 600 otherwise; so, around 1,500 or 1,600.'

Again, more cuts with no clarification. We need to know the number of fewer starts, how many of these will be in 2014-15, and how many will be in 2014-15 and how many will be in 2015-16. We also need clarification on how the reduction in the number of opportunities will be applied to the different elements of the programme, a breakdown of the estimated number of fewer opportunities in the private sector, the third sector, self-employment and graduate strands, and clarification on whether any of these strands have been prioritised in next year's funding.

In light of the decrease in funding for apprenticeships, I seek assurances that the Deputy Minister's figures of 17,000 and 19,000 new starts for 2015-16 have been accurately estimated. Could we ask how this figure will be monitored in future? Could we perhaps have assurances on this today? We would also be grateful to know whether there is a contingency for additional funds if the estimated figure for new starts is not met in the 2014-15 or 2015-16 academic years. We would also appreciate a breakdown of the estimated new starts for 2015-16 into the respective priority areas, that is, higher apprenticeships and 16 to 24-year-olds, and the non-priority areas by sector.

I am concerned by, and raised last week in First Minister's questions, the likely negative effects of the budget proposals on apprenticeships for those aged over 25, especially for female learners. One only has to remember last year, in which the Welsh Government's Business Wales website offered 'helpful advice' including practical tips on becoming a stripper and running a lap dancing club, erotic boutiques and escort agencies. Is this really a way forward for Wales? While the United Kingdom Government is offering wage incentives to businesses to take on 18 to 24-year-olds, extra work experience places and incentives to small businesses to take on apprentices, industries in Wales, regrettably, are suffering further and further. The Construction Industry Training Board Cymru contacted my office yesterday with its concerns that funding for apprenticeships in the construction sector does not meet existing demand. The work-based learning contract allocations for the period of 1 August 2015 to 31 July 2016 are insufficient, and there are concerns across the sector that many young people on existing Jobs Growth Wales, apprenticeship, and traineeship programmes will be unable to progress their learning pathway because of inadequate funding, and employers find it difficult to plan future recruitment strategies while these uncertainties continue.

'Rydym yn credu y bydd y toriadau yn ystod y flwyddyn yn golygu y bydd tua 1,000 yn llai yn dechrau a thua 600 fel arall; felly, tua 1,500 neu 1,600.'

Unwaith eto, mwy o doriadau heb unrhyw eglurhad. Mae angen i ni wybod faint yn llai o bobl a fydd yn dechrau, faint o'r rhain a fydd yn berthnasol i 2014-15, a beth fydd y cyfanswm yn 2014-15 a beth fydd y cyfanswm yn 2015-16. Mae angen eglurhad hefyd ynglŷn â sut y bydd y gostyngiad yn nifer y cyfleoedd yn cael ei gymhwyso i elfennau gwahanol y rhaglen, dadansoddiad o'r gostyngiad amcangyfrifedig mewn cyfleoedd yn y sector preifat, y trydydd sector, elfennau hunangyflogaeth a graddedigion, ac eglurhad ynglŷn ag a yw unrhyw un o'r elfennau hyn wedi cael eu blaenoriaethu yng nghyllid y flwyddyn nesaf.

Yn sgîl y gostyngiad yn y cyllid ar gyfer prentisiaethau, rwy'n gofyn am sicrwydd bod ffigurau'r Dirprwy Weinidog, sef 17,000 a 19,000 o ddechreuwr newydd ar gyfer 2015-16, wedi cael eu hamcangyfrif yn gywir. A allem ofyn sut y bydd y ffigur hwn yn cael ei fonitro yn y dyfodol? A allem gael sicrwydd am hyn heddiw efallai? Byddem hefyd yn ddiolchgar cael gwybod a oes cynllun wrth gefn ar gyfer arian ychwanegol os nad yw'r ffigur a amcangyfrifwyd ar gyfer dechreuwr newydd yn cael ei fodloni ym mlynnyddoedd academaidd 2014-15 neu 2015-16. Byddem hefyd yn gwerthfawrogi dadansoddiad o amcangyfrif o'r dechreuwr newydd ar gyfer 2015-16 yn y meysydd blaenoriaeth perthnasol, hynny yw, prentisiaethau uwch a'r rhai rhwng 16 a 24 oed, a'r meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth yn ôl sector.

Mae effeithiau negyddol tebygol cynigion y gyllideb ar brentisiaethau i'r rhai dros 25 oed, yn enwedig dysgwyr benywaidd, yn peri pryder i mi, a chodais y mater hwn yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog yr wythnos diwethaf. Nid oes ond rhaid cofio'r hyn a ddigwyddodd y llynedd, pan gynigiodd gwefan Busnes Cymru Llywodraeth Cymru 'gyngor defnyddiol' a oedd yn cynnwys cyngor ymarferol ar ddod yn stripiwr a rheoli clwb glin-ddawnsio, bwticau erotig ac asiantaethau hebrwng. Ai dyma'r ffordd ymlaen i Gymru mewn gwirionedd? Tra bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cynnig cymhellion cyflog i fusnesau gyflogi pobl ifanc 18 i 24 oed, lleoedd profiad gwaith ychwanegol a chymhellion i fusnesau bach gymryd prentisiaid, yn anffodus mae diwydiannau yng Nghymru yn dioddef mwy a mwy. Cysylltodd Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu â'm swyddfa ddoe i ddatgan ei bryderon nad yw cyllid ar gyfer prentisiaethau yn y sector adeiladu yn bodloni'r galw presennol. Mae dyraniadau'r contract dysgu seiliedig ar waith ar gyfer y cyfnod 1 Awst 2015 tan 31 Gorffennaf 2016 yn annigonol, ac mae pryderon ledled y sector na fydd llawer o bobl ifanc ar raglenni prentisiaeth a hyfforddeiaeth presennol Twf Swyddi Cymru yn gallu symud ymlaen â'u llwybr dysgu oherwydd cyllid annigonol, ac mae cyflogwyr yn ei chael yn anodd cynllunio strategaethau recriwtio yn y dyfodol tra bod yr ansicrwydd hwn yn parhau.



Wales again needs to look to the United Kingdom Government for a lead on this issue. Following the Prime Minister's announcement to create 3 million apprenticeships, new figures show that 1.9 million apprenticeships have now been created under the Conservative-led Government. This is a real-terms increase of 450,000 new apprenticeships year on year. The Conservatives aim to build upon this by creating a further 3 million apprenticeships from 2015 onwards—600,000 a year. We oppose both the amendments to this motion. We feel that, as a result of driving forward our economic recovery, the United Kingdom Government has already doubled apprenticeships during this Parliament so that more young people can get the skills they need to get on in life. I urge the Welsh Government to follow this lead.

Unwaith eto mae angen i Gymru edrych tuag at Lywodraeth y Deyrnas Unedig am arweiniad ar y mater hwn. Yn dilyn cyhoeddiad Prif Weinidog y Deyrnas Unedig ynglŷn â chreu 3 miliwn o brentisiaethau, mae ffigurau newydd yn dangos bod 1.9 miliwn o brentisiaethau wedi cael eu creu bellach o dan y Llywodraeth o dan arweiniad y Ceidwadwyr. Dyma gynnydd mewn termau real o 450,000 o brentisiaethau newydd bob blwyddyn. Mae'r Ceidwadwyr yn bwriadu adeiladu ar hyn drwy greu 3 miliwn o brentisiaethau eraill o 2015 ymlaen—600,000 y flwyddyn. Rydym yn gwrthwynebu'r ddau welliant i'r cynnig hwn. Rydym yn teimlo, o ganlyniad i sbarduno ein hadferiad economaidd, bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig eisoes wedi dyblu nifer y prentisiaethau yn ystod y Senedd hon fel y gall mwy o bobl ifanc ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo mewn bywyd. Rwy'n annog Llywodraeth Cymru i ddilyn yr arweiniad hwn.

15:53

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the two amendments to the motion. I call on Eluned Parrott to move amendment 1 tabled in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 1 and replace with:*

*Yn croesawu cyhoeddiad cyllidebol Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Llywodraeth Cymru o £10 miliwn ychwanegol i ddarparu tua 5,000 o brentisiaethau newydd dros y ddwy flynedd nesaf.*

*Welcomes the Welsh Liberal Democrat and Welsh Government budget announcement of an additional £10m to deliver around 5,000 new apprenticeships over the coming two years.*

15:53

## **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 1 tabled in the name of Aled Roberts.

Cynigiau welliant 1 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I would like to thank the Welsh Conservatives for bringing forward this debate today and, indeed, the Member introducing it for reading from so many of my recent press releases. [Laughter.] It gives us an opportunity though, I think, to reflect on the crucial role that skills training plays in boosting the Welsh economy, in enabling social mobility and in helping people to build careers and lives for themselves and for their families. However, of course, we also have to reflect on the fact that these are very challenging times for our further education colleges and other providers of work-based learning. Personally, I was absolutely delighted that, through the budget agreement that my party reached with the Welsh Government, we were able to ameliorate some of the proposed cuts to apprenticeship places in Wales. That £10 million will deliver around 5,000 new apprenticeships over the next two years—places that would not have been available otherwise, due to the very challenging budget conditions. I am also proud, I have to say, that our agreement has broadened the impact of things such as the pupil deprivation grant to include early years education, because, if our aim is to raise skills and enable people to get on in life, we have to recognise that learning is a lifelong process. If we can improve the educational outcomes of our poorest children throughout their school career, we will open doors for them to gain an apprenticeship place and to gain a place on a degree programme and, through that, to build a skilled and rewarding working career too. So, this is about a programme of interventions that I hope will help us to improve the social mobility of our poorest young people now and in the future.

I was also delighted that, through the budget agreement, we have also been able to secure the introduction of a concessionary fare scheme for public transport for young people who are in education and training. Time and again in the Enterprise and Business Committee, and in other places too, young people have told us that a major barrier to getting into an apprenticeship placement is the cost of travelling to it. In rural Wales in particular, this is a massive challenge for young people who face long distances and long journeys to reach their training provider, even if their work provider is relatively local. So, this is something that I am incredibly pleased about, because it is about enabling social mobility and making sure that the opportunities that are available are equally available to everyone.

While I am pleased that we were able to protect some of those opportunities, that is not to say that I do not have concerns in any other areas, and I wonder whether the Deputy Minister, in responding today, might be able to address some of these questions in her response. The impact of the in-year cuts that have been made in this financial year are certainly being felt in the sector, but there is a lack of clarity, I think, in terms of the scale of those cuts. Certainly, there is a difference between the figures in today's motion, for example, and the figures being discussed in the sector and what that means in reality. It makes it very difficult for us to analyse the impact of that and to understand really what is happening.

Hoffwn ddiolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r ddatl hon heddiw ac, yn wir, i'r Aelod sy'n ei chyflwyno am ddarllen o gymaint o'm datganiadau i'r wasg diweddar. [Chwerthin.] Fodd bynnag, mae'n rhoi cyfle i ni, rwy'n meddwl, ystyried cyfraniad hanfodol hyfforddiant sgiliau tuag at hybu economi Cymru, drwy alluogi symudedd cymdeithasol a helpu pobl i ddatblygu gyrfaedd a bywydau ar gyfer eu hunain ac ar gyfer eu teuluoedd. Fodd bynnag, wrth gwrs, mae'n rhaid i ni hefyd ystyried y ffaith fod y rhain yn amseroedd heriol iawn ar gyfer ein colegau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith eraill. Yn bersonol, roeddwn wrth fy modd, trwy gytundeb y gyllideb rhwng fy mhlaid a Llywodraeth Cymru, bod modd i ni liniaru rhai o'r toriadau arfaethedig i leoedd prentisiaeth yng Nghymru. Bydd y £10 miliwn yn creu tua 5,000 o brentisiaethau newydd dros y ddwy flynedd nesaf—leoedd na fyddent wedi bod ar gael fel arall, oherwydd yr amodau cyllideb heriol iawn. Rwyf hefyd yn falch, mae'n rhaid i mi ddweud, bod ein cytundeb wedi ehangu effaith pethau fel y grant amddifadedd disgyblion i gynnwys addysg y blynyddoedd cynnar, oherwydd, os mai codi sgiliau a galluogi pobl i lwyddo mewn bywyd yw ein nod, mae'n rhaid i ni gydnabod bod dysgu yn broses gydol oes. Os gallwn wella canlyniadau addysgol ein plant tlotaf drwy gydol eu gyrfa yn yr ysgol, byddwn yn agor drysau iddynt sicrhau prentisiaethau ac ennill lle ar raglenni gradd a, thrwy hynny, datblygu gyrfa gwaith medrus a gwerth chweil hefyd. Felly, mae hyn yn ymwneud â rhaglen o ymyriadau a fydd, gobeithiaf, yn ein helpu i wella symudedd cymdeithasol ein pobl ifanc dlotaf yn awr ac yn y dyfodol.

Roeddwn wrth fy modd hefyd, drwy gytundeb y gyllideb, ein bod wedi llwyddo i sicrhau cyflwyno cynllun teithio rhatach ar gyfer cludiant cyhoeddus i bobl ifanc sydd mewn addysg a hyfforddiant. Dro ar ôl tro yn y Pwyllgor Menter a Busnes, ac mewn manau eraill hefyd, mae pobl ifanc wedi dweud wrthym fod y gost o deithio i leoliad prentisiaeth yn rhwystr mawr. Yng nghefn gwlad Cymru yn arbennig, mae hyn yn her enfawr i bobl ifanc sy'n wynebu pellteroedd hir a theithiau hir i gyrraedd eu darparwr hyfforddiant, hyd yn oed os yw eu darparwr gwaith yn gymharol leol. Felly, mae hyn yn rhywbeth rwyf wrth fy modd yn ei gylch, oherwydd mae'n ymwneud â galluogi symudedd cymdeithasol a sicrhau bod y cyfleoedd sydd ar gael ar gael yn gyfartal i bawb.

Er fy mod yn falch ein bod wedi gallu diogelu rhai o'r cyfleoedd hyn, nid yw hynny'n golygu nad wyf yn pryderu am feysydd eraill, a thybed a all y Dirprwy Weinidog, wrth ymateb heddiw, ymdrin â rhai o'r cwestiynau hyn yn ei hymateb. Yn ddi-os, mae'r sector yn teimlo effaith y toriadau yn ystod y flwyddyn sydd wedi'u gwneud yn y flwyddyn ariannol hon, ond mae diffyg eglurder, rwy'n meddwl, o ran lefel y toriadau hynny. Yn sicr, mae gwahaniaeth rhwng y ffigurau yn y cynnig heddiw, er enghraifft, a'r ffigurau sy'n cael eu trafod yn y sector a'r hyn y mae hynny'n ei olygu mewn gwirionedd. Mae'n ei gwneud yn anodd iawn i ni ddadansoddi effaith hynny a deall beth sy'n digwydd mewn gwirionedd.

Another question I have is around alternative methods of funding apprenticeships. If you look, for example, at the 2013 evaluation of the Young Recruits programme, it states that there was an ambition to use ESF to expand the availability of places initially, but this was not deemed possible, as I understand it. I wonder whether the Deputy Minister can confirm why that is, and whether there is an opportunity to revisit this issue in the next round to see whether that provides us with an opportunity to expand the number of places again.

More recently as well, the Welsh Government has suggested that it expects employers to play a bigger role in funding training, but, of course, the question there is: what engagement have you done in advance of that movement to ensure that employers recognise that, are well prepared for that, are able and willing to do so and that they will step into the breach in the way that you suggest? Many employers will, of course, ask, 'Why should I pay now when previously the Welsh Government was paying me?' Frankly, the more cynical ones might also ask, 'Why should I pay to train this young person, to give them day release to go to college and to invest in them, if the Welsh Government will pay me to take them on a Jobs Growth Wales placement and then I won't have to train them at all?'

I very strongly suspect that the Deputy Minister and I are never going to agree on the relative merits of Jobs Growth Wales, however I hope that she will recognise that prioritising a youth unemployment programme that provides no requirement for training, while severely cutting back a programme that does, sends absolutely the wrong message to employers and potential inward investors about how highly we value skills in this nation. It is illogical and contrary to what I truly believe is the Deputy Minister's very deeply held respect for the value of vocational training, and I wonder whether she can talk to us a little about how Jobs Growth Wales can be used to deliver training, if it cannot be funded in another way.

Mae gen i gwestiwn hefyd ynglŷn â dulliau amgen o ariannu prentisiaethau. Os ydych yn edrych, er enghraifft, ar werthusiad 2013 o'r rhaglen Recriwtiaid Newydd, mae'n nodi bod bwriad arfaethedig i ddefnyddio Cronfa Gymdeithasol Ewrop i ehangu argaeledd lleoedd yn y lle cyntaf, ond penderfynwyd nad oedd modd gwneud hyn, yn ôl a ddeallaf. Tybed a all y Dirprwy Weinidog gadarnhau pam y digwyddodd hynny, ac a oes cyfle i edrych eto ar y mater hwn yn y cylch nesaf i weld a yw hynny'n rhoi cyfle i ni ehangu nifer y lleoedd eto.

Yn fwy diweddar hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu ei bod yn disgwyl i gyflogwyr gyfrannu mwy at ariannu hyfforddiant, ond, wrth gwrs, y cwestiwn yn y cyswllt hwn yw: faint o ymgysylltu sydd wedi bod â chyflogwyr cyn y newid hwnnw i sicrhau eu bod yn cydnabod hynny, eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer hynny, eu bod yn gallu ac yn barod i wneud hynny ac y byddant yn camu i'r adwy yn y ffordd rydych yn ei hawgrymu? Bydd llawer o gyflogwyr, wrth gwrs, yn gofyn, 'Pam y dylwn dalu yn awr pan yr oedd Llywodraeth Cymru yn talu o'r blaen?' Mewn gwirionedd, efallai y bydd y rhai mwy sinigaidd hefyd yn gofyn, 'Pam y dylwn dalu i hyfforddi'r person ifanc hwn, ei ryddhau unwaith yr wythnos i fynd i'r coleg a buddsoddi ynddo, os bydd Llywodraeth Cymru yn talu i mi ei dderbyn ar leoliad Twf Swyddi Cymru a na fydd rhaid i mi ei hyfforddi o gwbl?'

Rwy'n amau yn gryf iawn a fydd y Dirprwy Weinidog a mi byth yn cytuno ar rinweddau cymharol Twf Swyddi Cymru, fodd bynnag, rwy'n gobeithio y bydd yn cydnabod bod blaenoriaethu rhaglen diweithdra ymhlith pobl ifanc nad yw'n cynnwys unrhyw ofyniad ar gyfer hyfforddiant, gan gwtogi'n sylweddol iawn ar raglen sy'n gwneud hynny, yn anfon y neges gwbl anghywir i gyflogwyr a darpar fewnfuddsoddwyr ynglŷn â phwysigrwydd sgiliau yn y wlad hon. Mae'n afresymegol ac yn groes i'r parch dwfn sydd gan y Dirprwy Weinidog, rwy'n credu, at bwysigrwydd hyfforddiant galwedigaethol, a thybed a all siarad â ni ychydig am sut y gall rhaglen Twf Swyddi Cymru gael ei defnyddio i ddarparu hyfforddiant, os na ellir ei ariannu mewn ffordd arall.

15:58

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call on Simon Thomas to move amendment 2, tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Simon Thomas i gynnig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 2—Elin Jones*

*Amendment 2—Elin Jones*

*Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:*

*Add as new point 2 and renumber accordingly:*

*Yn cydnabod yr effaith sylweddol a chadarnhaol a gafodd y cytundeb ar gyllideb 2013/14 rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru ar bobl ifanc ac yn gresynu at benderfyniad y Llywodraeth i gymryd cam yn ôl a thorri'r Rhaglen Recriwtiaid Newydd.*

*Recognises the significant and positive impact on young people of the 2013/14 budget agreement between Plaid Cymru and the Welsh Government and regrets the Government's decision to row backwards and cut the Young Recruits Programme.*

15:58

## **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you. I move amendment 2.

Diolch. Cynigaf welliant 2.

I draw the Assembly's particular attention to the wording of the amendment that the previous budget agreement had a 'significant and positive impact' on this area. I want to focus on that impact in the field of apprenticeships in particular, as I agree with the previous speaker's comments that Jobs Growth Wales is a very different scheme. In fact, it is a bit disappointing to have them put together and conflated in this way in one debate. They are not the same at all, and all I would say to the Deputy Minister present is that, with the changing economy now, we really need to look at how Jobs Growth Wales moves on to the next stage and becomes much more focused on skills and aligned with the apprenticeship schemes.

The agreement between Plaid and the Welsh Government undoubtedly increased the apprenticeship budget; it went up to £105.8 million in 2013-14. Contrast that with this year's budget, which is stated to be around £62 million, allocated from August to March 2015—a loss of about 9,000 new apprenticeship places. That is why we will be supporting the Conservative motion today, as we feel that there have been significant in-year cuts. It is also why we do not know the detail of those cuts, as the Government likes to tell us what it is spending the money from the cuts with before it tells us in the supplementary budget in January where the cuts will actually fall. However, we know from the National Training Federation for Wales that there is a certain £7 million cut in apprenticeships and young recruits. We expect a future 20% cut in the budget for next year. That is what has been estimated so far, and that is why I cannot accept the Liberal Democrat amendment, because though £5 million over two years might be seen to be welcome, that is against a backdrop of £20 million per year cut to the apprenticeship budget proposed by the current Welsh Government—that is 10,000 fewer apprenticeship places every year. What this does is it takes the apprenticeship budget back to what it was in 2011-12, at around £72 million, £73 million, £74 million, before there was any agreement with either Plaid Cymru or, indeed, another party on apprenticeships. We feel that that has broken the spirit and possibly the word—though we will not know about the word until the supplementary budget in January—of the agreement that we had, and we do feel as a party that on this, at least, it should be a case of once bitten, twice shy.

We are proud in Wales, however, that we have an all-age apprenticeship programme. We are proud that, in Wales, we have specific regard to Welsh language and higher-skills apprenticeships. That is a particular feature that the English system does not have. And I think we can be proud in Wales that our apprenticeship completion rate, at 87%, is considerably higher than that achieved in England. However, we are in danger of losing what we have achieved over the last two or three years. That progress, and particularly the progress we have had in securing parity between vocational and apprenticeship training and undergraduate courses, is about to be lost. I will give way briefly.

Tynnaf sylw'r Cynulliad yn arbennig at eiriad y gwelliant bod y cytundeb ar y gyllideb flaenorol wedi cael 'effaith sylweddol a chadarnhaol' ar y maes hwn. Rwyf am ganolbwyntio ar yr effaith honno ym maes prentisiaethau yn arbennig, gan fy mod yn cytuno â sylwadau'r siaradwr blaenorol bod Twf Swyddi Cymru yn gynllun gwahanol iawn. Yn wir, mae braidd yn siomedig gweld eu bod wedi'u cyfuno fel hyn mewn un ddatl. Nid ydym yr un peth o gwbl, a'r cwbl rwyf am ei ddweud wrth y Dirprwy Weinidog sy'n bresennol yw, wrth i'r economi newid nawr, mae gwir angen i ni edrych ar sut y mae Twf Swyddi Cymru yn symud ymlaen i'r cam nesaf ac yn canolbwyntio llawer mwy ar sgiliau ac yn cyd-fynd i raddau mwy â chynlluniau prentisiaethau.

Llwyddodd y cytundeb rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru i gynyddu'r gyllideb ar gyfer prentisiaethau yn ddi-os; cynyddodd i £105.8 miliwn yn 2013-14. Cyferbynnwch hynny â'r gyllideb eleni, y nodir ei bod tua £62 miliwn, i'w dyrannu rhwng mis Awst a mis Mawrth 2015—colled o tua 9,000 o leoedd prentisiaeth newydd. Dyna pam y byddwn yn cefnogi cynnig y Ceidwadwyr heddiw, gan ein bod yn teimlo y bu toriadau sylweddol yn ystod y flwyddyn. Dyna'r rheswm hefyd nad ydym yn gwybod manylion y toriadau hynny, gan fod y Llywodraeth yn hoffi dweud wrthym sut y bydd yn gwario'r arian o'r toriadau cyn dweud wrthym yn y gyllideb atodol ym mis Ionawr lle bydd y toriadau'n digwydd mewn gwirionedd. Fodd bynnag, gwyddom gan Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru y bydd gostyngiad pendant o £7 miliwn mewn prentisiaethau a recriwtiaid ifanc. Rydym yn disgwyl gostyngiad o 20% yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Dyna beth sydd wedi ei amcangyfrif hyd yn hyn, a dyna pam na allaf dderbyn gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol, oherwydd er bod £5 miliwn dros ddwy flynedd yn ymddangos yn rhywbeth i'w groesawu, mae hynny yn erbyn cefnlen o ostyngiad o £20 miliwn y flwyddyn yn y gyllideb ar gyfer prentisiaethau a gynigir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd—hynny yw 10,000 yn llai o leoedd prentisiaeth bob blwyddyn. Canlyniad hyn yw mynd â'r gyllideb ar gyfer prentisiaethau yn ôl i lefelau 2011-12, sef tua £72 miliwn, £73 miliwn, £74 miliwn, cyn bod unrhyw gytundeb ar brentisiaethau gyda naill ai Plaid Cymru, neu, yn wir, plaid arall. Rydym yn teimlo bod hynny wedi torri ysbryd ac o bosibl gair—er na fyddwn yn gwybod am y gair tan y gyllideb atodol ym mis Ionawr—y cytundeb a oedd gennym, ac rydym yn teimlo fel plaid ar y mater hwn, o leiaf, nad ydym eisiau llosgi ein bysedd eto.

Rydym yn falch yng Nghymru, fodd bynnag, bod gennym raglen brentisiaethau bob oed. Rydym yn falch, yng Nghymru, ein bod yn rhoi sylw penodol i brentisiaethau iaith Gymraeg a sgiliau uwch. Mae hynny'n nodwedd arbennig nad yw'n rhan o'r system yn Lloegr. Ac rwy'n meddwl y gallwn fod yn falch yng Nghymru bod ein cyfradd cwblhau prentisiaethau, sef 87%, yn sylweddol uwch na'r hyn a gyflawnir yn Lloegr. Fodd bynnag, rydym mewn perygl o gollir hyn rydym wedi'i gyflawni dros y ddwy neu'r tair blynedd diwethaf. Mae'r cynnydd hwnnw, ac yn enwedig y cynnydd a gawsom wrth sicrhau cydraddoldeb rhwng hyfforddiant galwedigaethol a phrentisiaethau a chysiaau israddedig, ar fin cael ei gollu. Rwyf am ildio yn fyr.

16:01

**Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Thank you for giving way. You just mentioned there that our completion rate in Wales is better in many respects than it is in England, and that, of course, is true. However, at the same time, as the Enterprise and Business Committee discovered in its report on this, there are fewer apprenticeships in key sectors here in Wales, are there not?

Diolch i chi am iaidio. Rydych newydd grybwyll bod ein cyfradd cwblhau yng Nghymru yn well ar lawer ystyr nag y mae yn Lloegr, ac mae hynny, wrth gwrs, yn wir. Fodd bynnag, ar yr un pryd, fel y darganfuwyd y Pwyllgor Menter a Busnes yn ei adroddiad ar hyn, mae llai o brentisiaethau mewn sectorau allweddol yma yng Nghymru, onid oes?

16:02

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The Member is certainly partly right. For example, the construction industry has just been mentioned, and that is underprovided for, for apprenticeships. We look at the need for affordable homes in Wales, and for renewable technologies in Wales, and that is a clear area where we should be expanding. So, I think that he is right, at least in that regard.

Mae'r Aelod yn sicr yn rhannol gywir. Er enghraifft, mae'r diwydiant adeiladu newydd ei grybwyll, ac nid oes digon o brentisiaethau ar gael yn y diwydiant hwnnw. Rydym yn edrych ar yr angen am dai fforddiadwy yng Nghymru, ac ar gyfer technolegau adnewyddadwy yng Nghymru, a dyna faes amlwg lle y dylem fod yn ehangu. Felly, rwy'n meddwl ei fod yn gywir, o leiaf yn y cyswllt hwnnw.

We also know that apprenticeships, over the lifetime of a student, can bring an estimated £150,000 of extra earnings. That, incidentally, is the same amount as a graduate degree will now bring you. So, the apprenticeship route, particularly the higher-skills apprenticeship route, is as profitable, if you are going to look at it in terms of finance only, as the graduate route. Therefore, it needs to be treated in the same way and with the same kind of parity.

Gwyddom hefyd y gall prentisiaethau, dros oes myfyriwr, arwain at tua £150,000 o enillion ychwanegol. Mae hynny, gyda llaw, cymaint â'r hyn sy'n deillio o radd ar hyn o bryd. Felly, mae'r llwybr prentisiaeth, yn enwedig y llwybr prentisiaeth sgiliau uwch, yr un mor broffidiol, os ydych yn mynd i edrych arno o safbwynt arian yn unig, â'r llwybr gradd. Felly, mae angen trin y llwybr hwn yn yr un ffordd a chyda'r un math o gydraddoldeb.

The alternative, of course, which is letting young people become NEETs—not in education, employment or training—costs us as a society at least £56,000 over the lifetime of that person, in missed opportunities and in dealing with some of the consequences of being a NEET. Apprenticeships are also good for business: 80% of employers say that apprentices make their business more productive and 83% of employers who employ apprentices rely on them to provide a skilled future workforce.

Mae'r dewis arall, wrth gwrs, sef gadael i bobl ifanc fod yn NEET—ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant—yn costio tua £56,000 i ni fel cymdeithas dros oes y person hwnnw drwy gollu cyfleoedd ac wrth ymdrin â rhai o ganlyniadau bod yn NEET. Mae prentisiaethau'n dda ar gyfer busnes hefyd: mae 80% o gyflogwyr yn dweud bod prentisiaid yn gwneud eu busnes yn fwy cynhyrchiol ac mae 83% o gyflogwyr sy'n cyflogi prentisiaid yn dibynnu arnynt i ddarparu gweithlu medrus yn y dyfodol.

Therefore, going forward, we need to see more investment in this area, which was called for only this week by the Social Mobility and Child Poverty Commission, under the chairmanship of Alan Milburn. It states that we should set a target for apprenticeships from all employers of 10 or more employees by 2020. How can we do that? We do need alternative models of funding. Yes, we can look at co-funding, but co-funding also means a co-input into the apprenticeship curriculum. Businesses must be part of forming the curriculum if they want to invest, in time, in the funding of that.

Felly, wrth symud ymlaen, mae angen inni weld mwy o fuddsoddi yn y maes hwn, a dyna oedd galwad y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant, dan gadeiryddiaeth Alan Milburn yr wythnos hon. Mae'n datgan y dylem bennu targed ar gyfer prentisiaethau i bob cyflogwr sydd â 10 neu fwy o weithwyr erbyn 2020. Sut y gallwn wneud hynny? Mae angen modelau ariannu eraill arnom. Ie, gallwn edrych ar gyd-ariannu, ond mae cyd-ariannu hefyd yn golygu cyd-fewnbwn yn y cwricwlwm prentisiaeth. Mae'n rhaid i fusnesau gyfrannu at y gwaith o greu'r cwricwlwm os ydynt am fuddsoddi, mewn amser, yn y broses o'i ariannu.

The final point to bear in mind is that 98% of businesses in Wales are small and medium-sized enterprises. We must look at alternative models, particularly in rural areas, such as shared apprenticeships, and a way that we can attract people through a UCAS-style application system, also.

Y pwynt olaf i'w gofio yw bod 98% o fusnesau yng Nghymru yn fusnesau bach a chanolig. Mae'n rhaid inni edrych ar fodelau amgen, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, megis prentisiaethau a rennir, yn ogystal â ffordd o ddenu pobl drwy system geisiadau tebyg i UCAS.

**Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to thank Paul Davies and our own group for bringing a debate forward that, while talking about apprenticeships, gives me the opportunity to speak about the almost forgotten sector within our society, and that is the number of people now struggling to find training opportunities as they get older. As a result, it can certainly be particularly difficult to find new employment, especially if you are over 50.

This is not the first time that I, or other Members, have raised the issue of training for over-50s with the Welsh Government. Earlier this year, I specifically asked the First Minister to advise me what was in place for them and what schemes were available. The answer came back very—well, I did not really receive an adequate answer that addressed the actual question. I then submitted a written question to the then-Minister for Education and Skills asking him to provide specific information on education and the training programmes available. Again, I got a very protracted response, but he could not tell me what schemes were available.

The latest figures show that, in Wales, there are over 16,000 people aged between 50 and 64 actively seeking employment. However, employers and recruitment agencies are often focused on targeting the recruitment of younger people. There have been some excellent contributions so far, but the words 'young', 'youth', 'younger trainees' and 'younger recruits' were used a lot. So, I think I am quite right to be raising the concerns of those who are over 25. I have only to look around this Chamber, I think it fair to say, to see that there are far more people who are over 25—[Laughter.] However, I would hope that we are all still very valuable Members of this Chamber and are able to contribute. Well, so, too, are those who are not in this Chamber and who are on our unemployment list.

These are very valuable individuals who have already contributed a great deal to the workplace and society in general. They are capable and want to deliver more. They have wide-ranging knowledge, skills and valid experience that would make them a really worthwhile asset to any business or even the public sector. To be overlooked is almost ageism in itself. Sadly, in Wales, around 41% of unemployed people aged 50 to 66 have been unemployed for at least a year compared with 18% of 18 to 24-year-olds. That is 41% against 18%. From these statistics, it is clear to see that the Welsh Government is failing to see the employment of this age group as a priority.

I would like the recently appointed Minister to tell me today the names of some schemes. Tell me the number of people over that age group whom your Government has managed to actually get back into active employment in the last 12 months.

Hoffwn ddiolch i Paul Davies a'n grŵp ein hunain am ddod â dadl gerbron sydd, er yn cyfeirio at brentisiaethau, yn rhoi'r cyfle i mi siarad am sector sydd bron wedi mynd yn angof yn ein cymdeithas, sef nifer y bobl sy'n cael trafferth dod o hyd i gyfleoedd hyfforddi wrth iddynt fynd yn hŷn. O ganlyniad, gall fod yn arbennig o anodd dod o hyd i swydd newydd, yn enwedig os ydych dros 50 oed.

Nid dyma'r tro cyntaf i mi, neu Aelodau eraill, godi'r mater o hyfforddiant ar gyfer pobl dros 50 oed gyda Llywodraeth Cymru. Yn gynharach eleni, gofynnais yn benodol i'r Prif Weinidog am y ddarpariaeth sydd ar gael ar eu cyfer ac am ba gynlluniau a oedd ar gael. Roedd yr ateb a gefais—wel, mewn gwirionedd ni chefais ateb digonol a oedd yn ateb y cwestiwn gwirioneddol. Ar ôl hynny, cyflwynais gwestiwn ysgrifenedig i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd yn gofyn iddo ddarparu gwybodaeth benodol am y rhaglenni addysg a hyfforddiant sydd ar gael. Unwaith eto, derbyniais ymateb maith iawn, ond ni allai ddweud wrthyf ba gynlluniau a oedd ar gael.

Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos, yng Nghymru, bod dros 16,000 o bobl rhwng 50 a 64 oed wrthi'n chwilio am waith. Fodd bynnag, yn aml mae cyflogwyr ac asiantaethau recriwtio yn canolbwyntio ar recriwtio pobl iau. Cafwyd rhai cyfraniadau ardderchog hyd yn hyn, ond defnyddiwyd y geiriau 'ifanc', 'ieuenctid', 'hyfforddeion iau' a 'recriwtiaid iau' yn aml. Felly, rwy'n meddwl ei bod yn briodol i mi godi pryderon y rhai sydd dros 25 oed. Nid oes ond rhaid i mi edrych o gwmpas y Siambr hon, rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud, i weld bod llawer mwy o bobl sydd dros 25 oed—[Chwerthin.] Fodd bynnag, byddwn yn gobeithio ein bod i gyd yn parhau i fod yn Aelodau gwerthfawr iawn o'r Siambr hon ac yn gallu cyfrannu. Wel, mae'r un peth yn wir hefyd am y rhai nad ydynt yn y Siambr hon ac sydd ar ein rhestr ddiweithdra.

Mae'r rhain yn unigolion gwerthfawr iawn sydd eisoes wedi cyfrannu llawer iawn at y gweithle ac at gymdeithas yn gyffredinol. Maent yn alluog ac yn awyddus i gyfrannu mwy. Mae ganddynt wybodaeth a sgiliau amrywiol iawn a phrofiad dilys a fyddai'n eu gwneud yn ased gwerth chweil i unrhyw fusnes neu hyd yn oed y sector cyhoeddus. Mae cael eich diystyru bron yn rhagfarn ar sail oed ynddo ei hun. Yn anffodus, yng Nghymru, mae tua 41% o bobl ddi-waith rhwng 50 a 66 oed wedi bod yn ddi-waith ers o leiaf blwyddyn o gymharu â 18% o bobl 18 i 24 oed. Mae hynny'n 41% yn erbyn 18%. O'r ystadegau hyn, mae'n amlwg bod Llywodraeth Cymru yn methu ag ystyried cyflogaeth y grŵp oedran hwn yn flaenoriaeth.

Hoffwn i'r Gweinidog a benodwyd yn ddiweddar ddweud wrthyf heddiw enwau rhai cynlluniau. Dywedwch wrthyf faint o bobl dros y grŵp oedran hwnnw y mae eich Llywodraeth wedi llwyddo mewn gwirionedd i'w dychwelyd i gyflogaeth go iawn dros y 12 mis diwethaf.

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?



- 16:07 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes. Gwnaf.
- 
- 16:07 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- She is making a very important point, of course, about access for all ages. All ages are able to go into apprenticeships in Wales, but is she aware that, in England, there are no grants or support schemes for apprentices of the age groups she is talking about? Mae'n gwneud pwynt pwysig iawn, wrth gwrs, ynglŷn â mynediad ar gyfer pob oedran. Mae pobl o bob oed yn gallu dechrau prentisiaethau yng Nghymru, ond a yw'n ymwybodol, yn Lloegr, nad oes unrhyw grantiau neu gynlluniau cymorth ar gyfer prentisiaid o'r grwpiau oedran y mae'n siarad amdanynt?
- 
- 16:07 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Frankly, with all due respect to the Member, I am an Assembly Member for Aberconway here in Wales. I am not interested. Right now, it is about what the Welsh Government is doing here. Mewn gwirionedd, gyda phob dyledus barch i'r Aelod, rwy'n Aelod Cynulliad dros Aberconwy yma yng Nghymru. Nid oes gennyf ddiddordeb. Ar hyn o bryd, yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yma sy'n bwysig.
- All too often, the main barrier for people of age can be a basic lack of technology skills and skills for a particular job, as things have changed over the years. This fact has been recognised by the Welsh Government's strategy for older people. I certainly look forward to seeing more schemes set up to enhance IT skills. However, in Aberconway, we have seen training for those skills withdrawn. Yn rhy aml, y prif rwystr i bobl o oedran o bosibl yw diffyg sgiliau technoleg sylfaenol a diffyg sgiliau ar gyfer swydd benodol, gan fod pethau wedi newid dros y blynyddoedd. Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl hŷn wedi cydnabod y ffaith hon. Rwy'n sicr yn edrych ymlaen at weld mwy o gynlluniau'n cael eu sefydlu i wella sgiliau TG. Fodd bynnag, yn Aberconwy, rydym wedi gweld hyfforddiant ar gyfer y sgiliau hynny yn cael ei dynnu'n ôl.
- The Welsh Government is well aware of these facts. Its inaction in addressing the issue of age discrimination is entirely contradictory given its rhetoric on equality and diversity, when it considers factors such as race, religion and sexuality. You very rarely hear about the age profile of individuals. It is estimated that, by 2020, a third of the workforce here in Wales will be over 50, as people remain in good health and live longer. With this in mind, people will need fresh opportunities to learn, relearn, retrain and acquire new skills through training and apprenticeships. It is up to the Welsh Government to ensure that these are available. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol iawn o'r ffeithiau hyn. Mae ei diffyg gweithredu wrth ymdrin â'r mater o wahaniaethu ar sail oed yn gwbl anghyson o ystyried ei rhethreg ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, pan fydd yn ystyried ffactorau megis hil, crefydd a rhywioldeb. Anaml iawn y mae rhywun yn dlywed am broffil oedran unigolion. Amcangyfrifir y bydd un rhan o dair o'r gweithlu yma yng Nghymru dros 50 oed erbyn 2020, wrth i bobl barhau i fod mewn iechyd da a byw'n hirach. O ystyried hyn, bydd angen cyfleoedd newydd i bobl ddysgu, aildysgu, ailhyfforddi a dysgu sgiliau newydd drwy hyfforddiant a phrentisiaethau. Mater i Lywodraeth Cymru yw sicrhau bod y rhain ar gael.
- I passionately believe that the over-50s should be afforded the reassurance they deserve from the Welsh Government, and that they should feel very valued members of our society and indeed, of the Welsh workforce in years to come. Rwy'n credu'n gryf y dylai pobl dros 50 oed gael y sicrwydd y maent yn ei haeddu gan Lywodraeth Cymru, ac y dylent deimlo'n aelodau gwerthfawr iawn o'n cymdeithas ac yn wir, o weithlu Cymru yn y blynyddoedd i ddod.
- 
- 16:09 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am grateful for the opportunity to speak in this important debate today, and I am happy to acknowledge that I am 25 plus—indeed, I am 50 plus, if you can believe that. [Laughter.] I am also happy to say that I began my working life as an apprentice with the National Coal Board. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddadl bwysig hon heddiw, ac rwy'n hapus i gydnabod fy mod dros 25 oed—yn wir, rwyf dros 50 oed, os gallwch gredu hynny. [Chwerthin.] Rwyf hefyd yn falch o ddweud i mi ddechrau fy mywyd gwaith fel prentis gyda'r Bwrdd Glo Cenedlaethol.

Here in Wales, our consistent support for apprenticeships and work-based learning can be considered one of our proudest achievements. There has been a dramatic increase in the number of people starting an apprenticeship in Wales in the past few years. We have made good use of European social fund moneys to set up our apprenticeship programme, and this shows how important our membership of the European Union is to Wales. The quality and respectability of our apprenticeship programme, including Pathways to Apprenticeships and the Young Recruits programme, are evidenced both by the high completion rates and the buy-in from industry. Indeed, just over two weeks ago, I attended along with my colleague, Mick Antoniw, the AM for Pontypridd, the annual apprenticeship graduation ceremony at GE Aviation Wales, where many of my constituents work. An apprenticeship at GE Aviation is highly sought after. Every year, each vacancy is oversubscribed, completion rates are very high, and successful applicants often go on to lead fulfilling careers with the company once they have completed their apprenticeship. I think that this is just one example of the confidence that employers have in our apprenticeship programme.

Points were made about Jobs Growth Wales, and I agree that that is a very different scheme, and it is perhaps unfortunate that it is being combined with apprenticeships in this way. Let me make this one point against any allegations that young people involved would have had jobs anyway, so why bother? Jobs Growth Wales was always planned for job-ready young people and from day one of unemployment. It is as much about helping businesses to expand as about recruitment opportunities for young people, and many of the positive outcomes could include moving on to a full-time apprenticeship.

I have read the briefing provided to Members by CITB Cymru Wales. For a long time, I have had a good working relationship with the CITB and I trust that this will continue. I very much appreciate its concerns about funding for existing and future demand. CITB makes a lot of relevant points and, as the industry representative body, has every right to air its views on the matter. Nonetheless, I am sure that the CITB would acknowledge the successes that we have had to date, particularly with regard to the Pathways to Apprenticeships and Young Recruits. The overall financial settlement in terms of cuts to the Welsh block grant from the Treasury is very difficult, and we all have to bear that important caveat in mind.

Next week, I will be attending the annual conference of the National Training Federation for Wales, and I look forward very much to hearing its views on the apprenticeship programme. That is why I am pleased that the Welsh Government has been engaging with work-based learning providers in the expectation of lower funding for apprenticeship recruitment in order to mitigate its impact. Apprenticeships, regrettably, cannot be immune from difficult spending decisions. When the Deputy Minister appeared before the Enterprise and Business Committee, of which I am a member, last week, she was very frank and honest about how her department has to target resources towards priority areas because of the difficult financial circumstances.

Yma yng Nghymru, gall ein cefnogaeth gyson i brentisiaethau a dysgu seiliedig ar waith gael ei hystyried yn un o'n llwyddiannau pwysicaf. Bu cynnydd drammatig yn nifer y bobl sy'n dechrau prentisiaethau yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym wedi gwneud defnydd da o arian cronfa gymdeithasol Ewrop i sefydlu ein rhaglen prentisiaethau, ac mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd i Gymru. Amlygir ansawdd ac enw da ein rhaglen prentisiaethau, gan gynnwys Llwybrau at Brentisiaethau a'r rhaglen Recriwtiaid Ifanc, gan y cyfraddau cwblhau uchel a'r gefnogaeth gan ddiwydiant. Yn wir, ychydig dros bythefnos yn ôl, mynychodd fy nghyd-Aelod, Mick Antoniw, yr AC dros Bontypridd, a mi seremoni raddio flynyddol prentisiaethau GE Aviation Wales, lle mae llawer o'm hetholwyr yn gweithio. Nid yw'n hawdd ennill prentisiaeth yn GE Aviation. Bob blwyddyn, mae llawer iawn o ymgeiswyr ar gyfer pob swydd wag, mae cyfraddau cwblhau yn uchel iawn, ac yn aml mae ymgeiswyr llwyddiannus yn mynd ymlaen i gael gyrfaedd boddhaus gyda'r cwmni ar ôl iddynt gwblhau eu prentisiaeth. Rwy'n meddwl mai un enghraifft yn unig yw hon o'r hyder sydd gan gyflogwyr yn ein rhaglen prentisiaethau.

Codwyd pwyntiau ynglŷn â Twf Swyddi Cymru, ac rwy'n cytuno bod hwnnw'n gynllun gwahanol iawn, ac mae'n anffodus efallai ei fod yn cael ei gyfuno â phrentisiaethau yn y modd hwn. Gadewch imi wneud y pwynt hwn yn erbyn unrhyw honiadau y byddai'r bobl ifanc dan sylw wedi cael swyddi beth bynnag, felly pam trafferthu? Roedd cynllun Twf Swyddi Cymru wedi'i lunio o'r cychwyn ar gyfer pobl ifanc sy'n barod am swyddi ac o'r diwrnod cyntaf o ddiweithdra. Mae'n ymwneud cymaint â helpu busnesau i ehangu ag am gyfleoedd recriwtio ar gyfer pobl ifanc, a gallai llawer o'r canlyniadau cadarnhaol gynnwys symud ymlaen i brentisiaeth lawn-amser.

Rwyf wedi darllen y wybodaeth a ddarperir i Aelodau gan Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu yng Nghymru. Bu gennyf berthynas waith dda â'r CITB ers cyfnod hir, a hyderaf y bydd hynny'n parhau. Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr iawn ei bryderon ynglŷn â chyllid ar gyfer y galw presennol a'r galw yn y dyfodol. Mae'r CITB yn codi llawer o bwyntiau perthnasol ac, fel y corff sy'n cynrychioli'r diwydiant, mae ganddo bob hawl i fynegi ei safbwyntiau ar y mater. Er hynny, rwy'n siŵr y byddai'r CITB yn cydnabod y llwyddiannau rydym wedi'u cael hyd yma, yn enwedig o safbwynt Llwybrau at Brentisiaethau a Recriwtiaid Newydd. Mae'r setliad ariannol cyffredinol o safbwynt y toriadau i grant bloc Cymru gan y Trysorlys yn anodd iawn, ac mae'n rhaid i ni gyd gofio'r cafeate pwysig hwnnw.

Yr wythnos nesaf, byddaf yn mynychu cynhadledd flynyddol Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, ac edrychaf ymlaen yn fawr at glywed ei farn am y rhaglen prentisiaethau. Dyna pam rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgysylltu â darparwyr dysgu seiliedig ar waith, gan ragweld y bydd llai o gyllid ar gael ar gyfer recriwtio prentisiaid er mwyn lliniaru ei effaith. Yn anffodus, ni ellir eithrio prentisiaethau o benderfyniadau gwario anodd. Pan ymddangosodd y Dirprwy Weinidog gerbron y Pwyllgor Menter a Busnes, yr wyf yn aelod ohono, yr wythnos diwethaf, siaradodd yn blaen ac yn onest am sut y mae ei hadran yn gorfod targedu adnoddau tuag at feysydd blaenoriaeth oherwydd yr amgylchiadau ariannol anodd.

Simon Thomas has correctly alluded to remembering two years ago when I, incidentally, was Deputy Minister, that we agreed an increase in apprenticeship funding ahead of the 2013-14 financial year, a good deal of which was geared to higher-level apprenticeships of level 4 and above. This was so that we could ensure that our workforce could be trained to obtain the more technical skills increasingly required by employers in the global workplace, and those recruited into those apprenticeship programmes at that time will be able to complete their training.

So, I will conclude, Deputy Llywydd, by expressing my pride in what we have done with apprenticeships here in Wales. We have regular good feedback from apprentices, employers and the work-based learning providers that are crucial to making it work. Completion rates are high, and we have good labour market intelligence to ensure that we direct resources into areas of growth. This is particularly important given the tight public finances.

16:14

## Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

Prosperity in Wales per head has fallen to 72.3% of the UK average, Wales has the lowest employment rate in the UK, and the number of working-age people in Wales not in employment is back up to 598,000. We will succeed only when everyone is given the chance to reach their full potential.

Apprenticeships can offer training, real career opportunities and a skilled and committed workforce. In Wales, the Welsh Government has imposed in-year cuts to apprenticeship funding. In England, as we have heard, the UK Government has already doubled apprenticeships this Parliament, delivering more than 1.9 million new apprenticeships, enabling more people to acquire the skills that they need to get on in their lives. Also, the Prime Minister has announced plans to create 3 million apprenticeship places and end youth unemployment in England within the next Parliament.

Apprenticeship starts in England rose by 82% to 510,200 in the three years following Labour's exit from the UK Government, and overall apprenticeship participation there grew by almost 80% to 868,700 over that period. However, over the same period, apprenticeship starts in Wales rose at half the rate in England to just 27,900 and overall participation in Wales grew by just 19%, a quarter of the rate in England, to just 47,000.

The proportion of apprenticeship starts in England by people aged 25 and over has more than doubled since Labour left office there, whereas the Welsh Government has focused on youth unemployment, claiming an all-aged apprenticeship programme, while, in effect, penalising those aged 25 and over. Age should not be a barrier to opportunity. Apprenticeships are key to tackling youth unemployment, but they can also be the key to a better life for the 25 and overs.

Mae Simon Thomas wedi cyfeirio'n gywir at ddwy flynedd yn ôl, pan oeddwn, gyda llaw, yn Ddirprwy Weinidog, gan gofio ein bod wedi cytuno ar gynnydd yn y cyllid ar gyfer prentisiaethau cyn blwyddyn ariannol 2013-14, gyda llawer iawn ohono wedi'i fwriadu ar gyfer prentisiaethau lefel uwch, sef lefel 4 ac uwch. Gwnaed hyn fel y gallem sicrhau y gallai ein gweithlu gael ei hyfforddi i ennill y sgiliau mwy technegol sydd eu hangen yn gynyddol gan gyflogwyr yn y gweithle byd-eang, a bydd y rhai a gafodd eu recriwtio i'r rhaglenni prentisiaethau hynny ar y pryd yn gallu cwblhau eu hyfforddiant.

Felly, rwyf am gloi, Ddirprwy Lywydd, drwy fynegi fy malchder yn yr hyn rydym wedi'i wneud gyda phrentisiaethau yma yng Nghymru. Rydym yn cael adborth da yn rheolaidd gan brentisiaid, cyflogwyr a darparwyr dysgu seiliedig ar waith sy'n hanfodol i sicrhau ei bod yn llwyddo. Mae cyfraddau cwblhau yn uchel, ac mae gennym wybodaeth dda am y farchnad lafur er mwyn sicrhau ein bod yn cyfeirio adnoddau i feysydd twf. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y cyllid cyhoeddus cyfyngedig.

Mae ffyniant y pen yng Nghymru wedi gostwng i 72.3% o gyfartaledd y DU, mae gan Gymru'r gyfradd gyflogaeth isaf yn y DU, ac mae nifer y bobl o oedran gweithio yng Nghymru nad ydynt mewn cyflogaeth wedi codi i 598,000. Byddwn yn llwyddo dim ond pan fydd pawb yn cael y cyfle i wireddu eu potensial yn llawn.

Gall prentisiaethau gynig hyfforddiant, cyfleoedd gyrfa go iawn a gweithlu medrus ac ymroddedig. Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno toriadau yn ystod y flwyddyn i gyllid prentisiaethau. Yn Lloegr, fel y clywsom, mae Llywodraeth y DU eisoes wedi dyblu nifer y prentisiaethau yn ystod cyfnod y Senedd hon, gan gyflwyno dros 1.9 miliwn o brentisiaethau newydd a galluogi mwy o bobl i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddod ymlaen yn eu bywydau. Hefyd, mae Prif Weinidog y DU wedi cyhoeddi cynlluniau i greu 3 miliwn o leoedd prentisiaeth a dileu diweithdra ymhlith pobl ifanc yn Lloegr yn y Senedd nesaf.

Cynyddodd nifer y bobl yn dechrau prentisiaethau yn Lloegr 82% i 510,200 yn y tair blynedd ar ôl i Lafur adael Llywodraeth y DU, a chafwyd cynnydd o bron i 80% mewn cyfranogiad cyffredinol mewn prentisiaethau nes cyrraedd 868,700 yn y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, yn ystod yr un cyfnod, roedd y cynnydd yn nifer y prentisiaid newydd yng Nghymru hanner y gyfradd yn Lloegr, sef dim ond 27,900, a chafwyd cynnydd mewn cyfranogiad cyffredinol yng Nghymru o 19% yn unig, chwarter y gyfradd yn Lloegr, i ddim ond 47,000.

Mae cyfran y prentisiaid newydd sy'n 25 oed a throsodd yn Lloegr wedi mwy na dyblu ers i Lafur adael y Llywodraeth yno, tra bod Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar ddiweithdra ymhlith pobl ifanc, gan hawlio bod y rhaglen prentisiaethau ar gyfer pobl o bob oed, tra ei bod, i bob diben, yn cosbi'r rhai 25 oed a throsodd. Ni ddylai oedran fod yn rhwystr i gyfle. Mae prentisiaethau yn allweddol i ymdrin â diweithdra ymhlith pobl ifanc, ond gallant hefyd fod yn allwedd i fywyd gwell ar gyfer pobl 25 oed a throsodd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Across the UK, 733,000 people aged 16 to 24 are now unemployed, which is down 88,000 on the previous quarter and 253,000 on the previous year—a 5.3% fall to 16% over that 12-month period. However, youth unemployment in Wales is still higher at 19.3%, having begun its rise in 2005.

Whenever challenged over this, this Welsh Government refers to its Jobs Growth Wales scheme. However, as we have heard, last month's independent interim evaluation of Jobs Growth Wales found that 73% of people on the scheme would have found employment without it, meaning that the scheme's resources—public resources—are not being targeted at those needing support.

Furthermore, the review found big overlaps between the graduate strand of the programme and the existing Welsh Government programmes in this area. Around 20% of programme entrants were early leavers, representing almost a third of all programme leavers.

Ministers have dodged my previous questions regarding Jobs Growth Wales performance destination data and, instead, have used my questions to divert criticism to the UK Government's Work Programme in Wales, which does not accept graduates, with reactionary claims that ignore the reality, scale, nature, flexibility and success of the Work Programme—putting people at the centre and providing long-term support for sustainable employment.

Although the Welsh Affairs Committee report on the Work Programme rightly stated that both Governments have a common aim to support people in Wales seeking work, particularly the long-term unemployed, and that it is imperative that they work together to achieve that, it expressed concern that people on the Work Programme in Wales have been denied access to Welsh Government schemes funded by the European social fund, such as Jobs Growth Wales. This resulted, for example, in a young Flintshire woman referred to the Work Programme by Jobcentre Plus not being able to access either of the jobs that she was offered because both required Jobs Growth Wales support, which was denied to her by this Welsh Government.

Jobs Growth Wales and the Work Programme are polar opposites. The Work Programme is the biggest welfare-to-work programme that the UK has ever seen, with payment by results not only for getting people into work, but for keeping them in work—a two-year programme—but, by contrast, the Jobs Growth Wales programme only provides unemployed young people aged 16 to 24 with a job opportunity for six months.

Lledled y DU, mae 733,000 o bobl 16 i 24 oed yn awr yn ddi-waith, sydd i lawr 88,000 ers y chwarter blaenorol a 253,000 ers y flwyddyn flaenorol—gostyngiad o 5.3% i 16% dros y cyfnod 12 mis hwnnw. Fodd bynnag, mae diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru yn parhau i fod yn uwch ar 19.3%, ar ôl dechrau cynyddu yn 2005.

Pryd bynnag y mae Llywodraeth Cymru yn cael ei herio ynglŷn â hyn, mae'n cyfeirio at ei chynllun Twf Swyddi Cymru. Fodd bynnag, fel y clywsom, canfu gwerthusiad interim annibynnol y mis diwethaf o Twf Swyddi Cymru y byddai 73% o bobl ar y cynllun wedi dod o hyd i swydd hebddo, sy'n golygu nad yw adnoddau'r cynllun—adnoddau cyhoeddus—yn cael eu targedu at y rhai sydd angen cymorth.

Ar ben hynny, nododd yr adolygiad fod gorgyffwrdd sylweddol rhwng elfen y rhaglen i raddedigion a rhaglenni presennol Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Gadawodd tua 20% o'r rhai a ddechreuodd y rhaglen yn gynnar, sef bron i draean o holl ymadawyr y rhaglen.

Mae Gweinidogion wedi osgoi fy nghwestiynau blaenorol am ddata cyrchfan perfformiad Twf Swyddi Cymru ac, yn lle hynny, maent wedi defnyddio fy nghwestiynau i ddargyfeirio beirniadaeth i Raglen Waith Llywodraeth y DU yng Nghymru, nad yw'n derbyn graddedigion, gan wneud honiadau adweithiol sy'n anwybyddu realiti, graddfa, natur, hyblygrwydd a llwyddiant y Rhaglen Waith—canolbwyntio ar bobl a darparu cymorth hirdymor ar gyfer cyflogaeth gynaliadwy.

Er bod adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig ar y Rhaglen Waith wedi datgan yn gywir bod y ddwy Lywodraeth yn rhannu'r amcan o gefnogi pobl yng Nghymru sy'n chwilio am waith, yn enwedig y rhai a fu'n ddi-waith ers cyfnod hir, a'i bod yn hanfodol eu bod yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni hynny, mae'n mynegi pryder nad yw pobl ar y Rhaglen Waith yng Nghymru wedi cael mynediad at gynlluniau Llywodraeth Cymru a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, megis Twf Swyddi Cymru. O ganlyniad, er enghraifft, nid oedd menyw ifanc o Sir y Fflint a gafodd ei chyfeirio i'r Rhaglen Waith gan y Ganolfan Byd Gwaith yn gallu derbyn unrhyw un o'r ddwy swydd a gynigiwyd iddi gan fod angen cefnogaeth Twf Swyddi Cymru ar gyfer y ddwy, a methodd Llywodraeth Cymru â'i darparu iddi.

Mae Twf Swyddi Cymru a'r Rhaglen Waith yn gwbl groes i'w gilydd. Y Rhaglen Waith yw'r rhaglen o fudd-dal i waith fwyaf a welodd y DU erioed, gan dalu yn ôl canlyniadau nid yn unig i gael pobl i mewn i waith, ond i'w cadw mewn gwaith—rhaglen ddwy flynedd—ond, ar y llaw arall, mae Rhaglen Twf Swyddi Cymru ond yn darparu cyfle am swydd i bobl ifanc ddi-waith 16 i 24 oed am chwe mis.

Unlike the UK Government's Work Programme, Jobs Growth Wales is voluntary and people are therefore far more prepared to engage. So, why is it not more of a success? As CITB Cymru states—and I have also read its submission—apprenticeships and work-based learning form a vital contingent to robust vocational education, not least in the construction sector, and industry input is vital if the Welsh Government is to ensure the huge potential benefits that could be achieved.

Yn wahanol i Raglen Waith Llywodraeth y DU, mae Twf Swyddi Cymru yn gynllun gwirfoddol ac o ganlyniad mae pobl yn llawer mwy parod i gymryd rhan. Felly, pam nad yw'n fwy o lwyddiant? Fel y mae CITB Cymru yn ei ddatgan—ac rwyf wedi darllen ei gyflwyniad hefyd—mae prentisiaethau a dysgu seiliedig ar waith yn hollbwysig i addysg alwedigaethol gadarn, yn enwedig yn y sector adeiladu, ac mae mewnbwn gan ddiwydiant yn hanfodol os yw Llywodraeth Cymru am sicrhau'r manteision enfawr posibl y gellid eu cyflawni.

16:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the Deputy Minister for Skills and Technology, Julie James.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, Julie James.

16:19 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

I have to say that I am not at all surprised here in the Chamber this afternoon to find that the Conservatives are critical of our apprenticeship programme, but I think that instead of the word 'critical', what I think we should say is 'envious' of our apprenticeship programme in Wales, because the figures here speak for themselves.

Mae'n rhaid i mi ddweud nad wyf yn synnu o gwbl yma yn y Siambr y prynhawn yma i ganfod bod y Ceidwadwyr yn feirniadol o'n rhaglen prentisiaethau, ond yn hytrach na'r gair 'beirniadol', credaf y dylem ddweud 'cenfigennus' o'n rhaglen prentisiaethau yng Nghymru, gan fod y ffigurau yma yn siarad drostynt eu hunain.

Our successful attainment rates here in Wales stand a whole 10 percentage points—at 86% in 2013, which is the last year for which we have figures—above those in England. We have excellence in Wales. We have the buy-in of all of our providers and our apprentices and something to celebrate. Indeed, only yesterday I was giving out awards to excellent apprenticeship providers, employers and apprentices who were so exceptional that they really did bring a lump to your throat in terms of the effort that they had put in, the skills that they had achieved and the strength that they bring to both our future and our economy. For all of those reasons, I certainly oppose this motion.

Mae ein cyfraddau cyrhaeddiad llwyddiannus yma yng Nghymru 10 pwynt canran—86% yn 2013, sef y flwyddyn ddiwethaf y mae gennym ffigurau ar ei chyfer—yn uwch na'r rhai yn Lloegr. Mae gennym ragoriaeth yng Nghymru. Mae gennym gefnogaeth pob un o'n darparwyr a'n prentisiaid a rhywbeth i'w ddathlu. Yn wir, dim ond ddoe yr oeddwn yn cyflwyno gwobrau i ddarparwyr prentisiaethau, cyflogwyr a phrentisiaid rhagorol a oedd mor eithriadol nes eu bod wir yn dod â lwmp i'ch gwddf o ran eu holl waith caled, y sgiliau yr oeddynt wedi eu cyflawni a'r cryfder ar gyfer ein dyfodol a'n heconomi sy'n deillio ohonynt. Oherwydd pob un o'r rhesymau hynny, rwy'n sicr yn gwrthwynebu'r cynnig hwn.

I am equally surprised that the Conservatives are highlighting budget cuts in my area, given that, as they are well aware, in 2015-16, the Welsh Government budget will be 10% lower in real terms than in 2010 as a result of the bonfire of public services perpetrated by the Conservative-led UK Government.

Rwy'n synnu llawn cymaint bod y Ceidwadwyr yn tynnu sylw at doriadau yn y gyllideb yn fy maes, o ystyried, fel eu bod yn gwybod yn iawn, y bydd cyllideb Llywodraeth Cymru 10% yn is mewn termau real yn 2015-16 oherwydd y goelcerth o wasanaethau cyhoeddus y mae Llywodraeth y DU dan arweiniad y Ceidwadwyr yn gyfrifol amdani.

16:21 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Will you take an intervention?

A wnech dderbyn ymyriad?

16:21 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Certainly.

Yn sicr.

16:21 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to the Deputy Minister for taking the intervention. As you will recall, I challenged the First Minister on this during First Minister's questions some weeks ago. The issue is that the Welsh budget has not been cut over the last couple of years, other than what was done in the comprehensive of spending review. Training providers are justifiably disgusted by the in-year cuts that have been inflicted on the apprenticeship programme. How can you defend that? As the Deputy Minister, how can you defend those in-year cuts?

Rwy'n ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am dderbyn yr ymyriad. Fel y cofiwch, heriais y Prif Weinidog ynglŷn â'r mater hwn yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog rai wythnosau yn ôl. Y pwynt yw nad yw cyllideb Cymru wedi cael ei thorri dros y blynyddoedd diwethaf, ac eithrio am yr hyn a wnaed yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Mae gan ddarparwyr hyfforddiant bob cyfiawnhad dros ffeiddio at y toriadau yn ystod y flwyddyn sydd wedi'u gorfodi ar y rhaglen prentisiaethau. Sut y gallwch amddiffyn hynny? Fel y Dirprwy Weinidog, sut y gallwch amddiffyn y toriadau yn ystod y flwyddyn?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:21 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That is just extraordinary, because, of course, we know that we are actually £1.5 billion down in Wales—

Mae hynny'n gwbl ryfeddol, oherwydd, wrth gwrs, rydym yn gwybod mewn gwirionedd bod gennym £1.5 biliwn yn llai o arian yng Nghymru—

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:21 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

But you have not had any in-year cuts.

Ond nid ydych wedi cael unrhyw doriadau yn ystod y flwyddyn.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:21 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That is absolute nonsense. I certainly do not accept that, and the First Minister was entirely right not to do so as well.

Mae hynny'n nonsens llwyr. Yn sicr, nid wyf yn derbyn hynny, ac roedd y Prif Weinidog yn gwbl gywir i beidio â gwneud hynny hefyd.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Let us turn to the apprenticeship figures themselves. We have secured, as a result of our alliance with the Liberal Democrats, an extra £5 million for 2015-16, which we are very glad to have done. The Liberal Democrats—and Eluned Parrott in particular highlighted this—share our pride in this successful Welsh scheme. I cannot emphasise enough how every single person I have met since I have been in this job has told me what a fantastic scheme this is. Employers, providers, apprentices, young people, people in higher level apprenticeships—everyone—have told me what an exceptionally good scheme this is. It is important also not forget that we had a great agreement with Plaid Cymru in this area, but it was only ever a two-year deal.

Gadewch i ni droi at ffigurau'r prentisiaethau eu hunain. Rydym wedi sicrhau, o ganlyniad i'n cynghrair â'r Democratiaid Rhyddfrydol, £5 miliwn ychwanegol ar gyfer 2015-16, ac rydym yn falch iawn ein bod wedi gwneud hynny. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol—ac mae Eluned Parrott yn benodol wedi nodi hyn—yn rhannu ein balchder yn y cynllun llwyddiannus hwn yng Nghymru. Ni allaf bwysleisio digon sut y mae pob unigolyn rwyf wedi'i gyfarfod ers i mi fod yn y swydd hon wedi dweud wrthyf ba mor wych yw'r cynllun hwn. Mae cyflogwyr, darparwyr, prentisiaid, pobl ifanc, pobl mewn prentisiaethau lefel uwch—pawb—wedi dweud wrthyf fod hwn yn gynllun eithriadol o dda. Mae'n bwysig cofio hefyd bod gennym gytundeb gwych gyda Phlaid Cymru yn y maes hwn, ond cytundeb dwy flynedd yn unig ydoedd o'r cychwyn cyntaf.

So, this is what the figures actually look like, but some of the difficulty arises because we talk here about financial years, but, of course, we let the contracts in contract years, or academic years, broadly, from August. So, the difficulty is trying to get the financial year to marry-up with the contract year in order to get figures that you can actually get your hands on. However, effectively, what we had in 2012-13 was £87.47 million in that contract year, from August to the following July, and then, in 2015-16, we will have £91.2 million, based on that same 12-month contract year, which is a rise of £3.73 million from the base. The Plaid Cymru agreement was a £20 million hike to that base, over a two-year period, which has been immensely successful and which everybody was very grateful for— [Interruption.] Yes, certainly.

Felly, fel hyn y mae'r ffigurau yn edrych mewn gwirionedd, ond mae rhai o'r anawsterau'n codi oherwydd ein bod yn siarad yn y fan hon am flynyddoedd ariannol, ond, wrth gwrs, rydym yn gosod y contractau mewn blynyddoedd contract, neu flynyddoedd academaidd, yn fras, o fis Awst. Felly, y broblem yw ceisio sicrhau bod y flwyddyn ariannol yn cyd-fynd â'r flwyddyn gontract er mwyn cael ffigurau y gallwch gael gafael arnynt mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, yr hyn a oedd gennym yn 2012-13 oedd £87.47 miliwn yn y flwyddyn gontract, rhwng mis Awst a'r mis Gorffennaf canlynol, ac yna, yn 2015-16, bydd gennym £91.2 miliwn, yn seiliedig ar yr un flwyddyn gontract 12 mis, sy'n gynydd o £3.73 miliwn o'r sylfaen. Roedd y cytundeb â Phlaid Cymru yn gynydd o £20 miliwn ar y sylfaen honno, dros gyfnod o ddwy flynedd, sydd wedi bod yn hynod o lwyddiannus ac mae pawb yn ddiolchgar iawn amdano— [Torri ar draws.] Oes, yn sicr.



16:23 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Minister, would you just please name for me today, so that when I get constituents coming to my office saying, 'We feel surplus to requirement', a couple of schemes that I can actually signpost them to that will actually enable them to get back into work?

Diolch. Weinidog, a fydddech mor garedig ag enwi ychydig o gynlluniau i mi heddiw a fydd yn galluogi pobl i ddychwelyd i waith, fel y gallaf gyfeirio etholwyr iddynt sy'n dod i'm swyddfa ac yn dweud, 'Rydym yn teimlo'n ddiangen bellach'.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

16:23 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

If Janet Finch-Saunders wants to write to me with specific constituent enquiries, I am more than happy to do that. I am not going to list here every scheme in Wales, as the Deputy Presiding Officer, clearly, would cut me off if I tried to do so. Let me go back to my figures.

Os yw Janet Finch-Saunders eisiau ysgrifennu ataf gydag ymholiadau penodol sy'n ymwneud â'i hetholaeth, rwy'n fwy na pharod i wneud hynny. Nid wyf yn mynd i restru yma pob cynllun yng Nghymru, gan y byddai'r Dirprwy Lywydd, yn amlwg, yn fy atal pe bawn yn ceisio gwneud hynny. Gadewch i mi fynd yn ôl at fy ffigurau.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

The £20 million hike was a two-year high in that programme, which was immensely successful. It got an enormous number of people into those programmes and actually delivered a really good boost to our economy. It allowed many of the companies that took on those people to understand the benefit of taking on an apprentice, what that apprentice could bring and how their company could grow as a result. We know from the results of the apprenticeship programme that, often, where apprentices are kept on by their employers, it is those employers who did not see the value of growing the company before that person arrived who see it afterwards.

Roedd y cynnydd o £20 miliwn yn benllanw dwy flynedd yn y rhaglen honno, a oedd yn hynod o lwyddiannus. Llwyddodd i sicrhau bod llawer iawn o bobl yn gallu cymryd rhan yn y rhaglenni hynny ac roedd yn hwb gwirioneddol dda i'n heconomi mewn gwirionedd. Roedd yn fodd o sicrhau bod llawer o'r cwmnïau a dderbyniodd y bobl hynny yn gallu deall y manteision o dderbyn prentis, cyfraniad posibl y prentis a sut y gallai eu cwmni dyfu o ganlyniad. Gwyddom o ganlyniadau'r rhaglen prentisiaethau, yn aml, lle mae prentisiaid yn cael eu cadw gan eu cyflogwyr, y cyflogwyr hynny nad oeddynt yn gweld gwerth cynyddu'r cwmni cyn i'r unigolyn hwnnw gyrraedd sy'n gweld y gwerth wedyn.

We also have a large number of anchor companies that seriously understand the needs of their companies, but which also carry a lot of social responsibility towards the young people in the areas they work in. If you speak to them, you will learn that they are quite humbling. We have a number of anchor companies in that category that have a rolling programme of apprenticeships to invest in their future and also in their supply chains' future. So, that is also a very important point.

Mae gennym hefyd nifer fawr o gwmnïau angor sy'n deall anghenion eu cwmnïau o ddirif, ond sydd hefyd â llawer o gyfrifoldeb cymdeithasol am y bobl ifanc yn yr ardaloedd lle maent yn gweithio. Os ydych yn siarad â nhw, byddwch yn dysgu eu bod yn gymharol ostyngedig. Mae gennym nifer o gwmnïau angor yn y categori hwnnw sydd â rhaglen dreigl o brentisiaethau i fuddsoddi yn eu dyfodol, ac yn nyfodol eu cadwyni cyflenwi hefyd. Felly, mae hynny'n bwynt pwysig iawn hefyd.

On the 5,000 additional apprenticeship starts that we now will secure, again, these will not necessarily be apportioned equally over a two-year period, because, as has been highlighted by a number of people—not least Jeff Cuthbert, and I very much welcome his support and want to acknowledge, as I speak, the very hard work that he put into this programme—and as Jeff pointed out, we have a very good relationship in talking to our employers, our sector skills councils and our regional consortia about where skills are needed and when.

O ran y 5,000 o brentisiaethau ychwanegol y byddwn yn awr yn eu sicrhau, unwaith eto, ni fydd y rhain yn cael eu rhannu'n gyfartal dros gyfnod o ddwy flynedd o reidrydd, oherwydd, fel y nododd nifer o bobl—yn enwedig Jeff Cuthbert, ac rwy'n croesawu ei gefnogaeth yn fawr iawn ac yn awyddus i gydnabod, fel rwy'n siarad, ei waith caled iawn ar y rhaglen hon—ac fel y nododd Jeff, mae gennym berthynas dda iawn wrth siarad â'n cyflogwyr, ein cynghorau sgiliau sector a'n consortia rhanbarthol ynglŷn â ble mae angen sgiliau a phryd.

For example, I have had a number of meetings over the last two weeks with upcoming construction companies, particularly in power generation all across Wales, and in our travel-to-work area, about the pipeline we need to get those projects working with Welsh Labour, and about where the skills will be needed, what the skills are, and when we need to produce them. So, it is not about just having 5,000 starts—2,500 in each year—as it is about having 5,000 starts in a pipeline leading to permanent good work.

Er enghraifft, rwyf wedi cael nifer o gyfarfodydd dros y pythefnos diwethaf â chwmnïau adeiladu sydd ar y gweill, yn enwedig ym maes cynhyrchu ynni ledled Cymru, ac yn ein hardal teithio i'r gwaith, ynglŷn â'r broses sydd ei hangen i ni gael y prosiectau hynny'n gweithio gyda Llafur Cymru, ac ymhle y bydd angen y sgiliau, beth yw'r sgiliau, a phryd y mae angen i ni eu cynhyrchu. Felly, nid yw'n ymwneud â sicrhau 5,000 o brentisiaethau newydd yn unig—2,500 ym mhob blwyddyn—gan ei bod yn ymwneud â chael 5,000 o brentisiaethau newydd fel rhan o broses sy'n arwain at waith parhaol da.

That brings me on to some of the English apprenticeship scheme problems. We have also had a large number of conversations with our colleagues in England and we have a working group set up to look at this problem. The apprenticeships scheme in England is now going to be funded by employers; it has been cut free from Government money. The problem we have with that is that they are going to come away from what are called the national occupational standards, and the problem with that is that if you become an apprentice in one of those schemes, it is not portable. You might be employable in one employer's area, but you will not then be able to move somewhere else and have a recognised qualification.

We are absolutely determined in Wales that that will not happen. We want our young people to benefit from these qualifications as well as the employers. We want the whole of our economy to benefit; our community as well as each of the young people in question. So, we have increased apprenticeship starts and we have expanded and strengthened the higher apprenticeships. Again, higher apprenticeships are not for young people. They are for people of all ages. Many people on higher apprenticeships are not under 24. That is a misunderstanding. That money is targeted at anyone who can get into a higher level apprenticeship position, coming up to levels 3, 4, 5 and 6 of higher level apprenticeships.

It is a complete misunderstanding to talk about some kind of age-based discrimination here. We know that the biggest barrier to employment for everyone is both skills and the lack of work experience. The thing you do not take into account when you do not understand the targeting of young people is that you have some young people who have all the skills necessary but who have absolutely no work experience. Jobs Growth Wales gives them that work experience and it gives the employers an understanding of what that person can bring to their employment. These things marry together beautifully—we have expansion in our economy and we have young people who now have both the skills and the work experience to get the start in life that they so badly need. That misunderstanding really needs to be put to bed here today.

I also want to commend our network of work-based learning providers for mobilising themselves very rapidly and delivering on the scale we have wanted them to do. There have been a lot of figures bandied about today from various trading federations and so on, but, in fact, it is only very recently that we have announced the contract awards. I was sitting only this morning at the Skills Cymru 2014 project with a number of training providers who are still getting their heads around what they have been awarded in the upcoming contract year. It is not possible for any figures that came out—

Daw hynny â mi at rai o broblemau cynllun prentisiaethau Lloegr. Rydym wedi cael llawer o sgysiau â'n cydweithwyr yn Lloegr hefyd ac mae gennym weithgor a sefydlwyd i edrych ar y broblem hon. Mae'r cynllun prentisiaethau yn Lloegr yn awr yn mynd i gael ei ariannu gan gyflogwyr; mae wedi cael ei dorri yn rhydd o arian y Llywodraeth. Y broblem sydd gennym gyda hynny yw'r ffaith eu bod yn mynd i gefnu ar yr hyn a elwir yn safonau galwedigaethol cenedlaethol, a'r broblem gyda hynny yw os byddwch yn dod yn brentis yn un o'r cynlluniau hynny, nid yw'r cymhwyster yn cael ei dderbyn ymhobman. Efallai y byddwch yn gyflogadwy yn ardal un cyflogwr, ond ni fyddwch yn gallu symud i rywle arall wedyn â chymhwyster cydnabyddedig.

Rydym yn gwbl benderfynol na fydd hynny'n digwydd yng Nghymru. Rydym am i'n pobl ifanc fanteisio ar y cymwysterau hyn yn ogystal â'r cyflogwyr. Rydym am i'n heconomi gyfan fanteisio arnynt; ein cymuned yn ogystal â phob un o'r bobl ifanc dan sylw. Felly, rydym wedi cynyddu nifer y prentisiaethau ac rydym wedi ehangu a chryfhau'r prentisiaethau uwch. Unwaith eto, nid yw prentisiaethau uwch ar gyfer pobl ifanc. Maent ar gyfer pobl o bob oed. Nid yw llawer o bobl ar brentisiaethau uwch o dan 24 oed. Mae hynny'n gamddealltwriaeth. Targedir yr arian hwnnw at unrhyw un a all ennill lle ar brentisiaeth lefel uwch, hyd at lefelau 3, 4, 5 a 6 o'r prentisiaethau lefel uwch.

Mae siarad am ryw fath o wahaniaethu ar sail oedran yma yn gamddealltwriaeth llwyr. Gwyddom mai'r rhwystr mwyaf i swyddi i bawb yw sgiliau a diffyg profiad gwaith. Yr hyn nad ydych yn ei ystyried pan nad ydych yn deall targedu pobl ifanc yw bod rhai pobl ifanc â'r holl sgiliau sydd eu hangen ond nad oes ganddynt unrhyw brofiad gwaith o gwbl. Mae Twf Swyddi Cymru yn rhoi'r profiad gwaith iddynt ac mae'n sicrhau bod cyflogwyr yn deall cyfraniad posibl yr unigolyn hwnnw at eu cyflogaeth. Mae'r pethau hyn yn cyd-fynd yn berffaith—mae gennym economi sy'n ehangu ac mae gennym bobl ifanc sydd bellach â'r sgiliau a'r profiad gwaith i gael y dechrau mewn bywyd y mae cymaint o'i angen arnynt. Mae gwir angen cywiro'r camddealltwriaeth hwnnw yma heddiw.

Rwyf hefyd am ganmol ein rhwydwaith o ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith am drefnu eu hunain yn gyflym iawn ac am gyflawni ar y raddfa yn unol â'n dymuniadau. Mae llawer o ffigurau wedi'u cyflwyno heddiw gan ffederasiynau masnachu amrywiol ac yn y blaen, ond, mewn gwirionedd, dim ond yn ddiweddar iawn rydym wedi cyhoeddi dyfarniadau'r contractau. Dim ond y bore yma roeddwn yn eistedd fel rhan o brosiect Sgiliau Cymru 2014 gyda nifer o ddarparwyr hyfforddiant sy'n dal i amgyffred yr hyn sydd wedi'i ddyfarnu iddynt yn y flwyddyn gontract sydd i ddod. Nid yw'n bosibl i unrhyw ffigurau a ddaeth allan—

16:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You must conclude now, Deputy Minister.

Mae'n rhaid i chi derfynu'n awr, Ddirprwy Weinidog.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:28 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continues.]—in the last couple of days to be accurate. I commend people to go for Skills Cymru 2014 and to get behind our really great apprenticeship programme.

[Yn parhau.]—yn ystod y diwrnodau diwethaf fod yn gywir. Cymeradwyaf bobl i fynd am Skills Cymru 2014 ac i gefnogi ein rhaglen prentisiaethau wirioneddol wych.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 16:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- If necessary, I will give the opposition speaker similar flexibility in terms of the timing. I call on Darren Millar to reply to the debate.
- Os bydd angen, byddaf yn sicrhau bod siaradwr yr wrthblaid yn cael yr un hyblygrwydd o safbwynt amseru. Galwaf ar Darren Millar i ymateb i'r ddatl.
- 16:29 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Deputy Presiding Officer. I am very grateful to be able to wrap up this debate on apprenticeships.
- Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n ddiolchgar iawn i allu cloi'r ddatl hon ar brentisiaethau.
- We all value and appreciate the role of apprenticeships in upskilling our workforce and ensuring that people can get access to the workforce and the job experience that they might need to be able to secure employment. At a time when there has been a difficult economic downturn over the past few years, the role of apprenticeships in being able to support the economy to turn around has been very important.
- Rydym i gyd yn gwerthfawrogi rôl prentisiaethau wrth wella sgiliau ein gweithlu a sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at y gweithlu a'r profiad gwaith sydd eu hangen arnynt o bosibl i gael swydd. Ar adeg pan fu dirywiad economaidd anodd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae rôl prentisiaethau wrth helpu i wella'r economi wedi bod yn bwysig iawn.
- Before I go any further, I should put on the record how much I appreciate those employers and colleges in my own constituency that have delivered apprenticeships on behalf of the Welsh public sector and have been doing a great job, particularly Coleg Cambria, which has its site in Llysfasi—Coleg Llysfasi is just outside Rhuthun—and, indeed, Coleg Llandrillo, part of Grŵp Llandrillo Menai, which has been doing some fantastic, exemplary work that I want to take the time to commend.
- Cyn imi fynd ymhellach, dylwn gofnodi cymaint rwy'n gwerthfawrogi'r cyflogwyr a'r colegau yn fy etholaeth fy hun sydd wedi darparu prentisiaethau ar ran y sector cyhoeddus yng Nghymru ac sydd wedi bod yn gwneud gwaith gwych, yn enwedig Coleg Cambria, sydd â'i safle yn Llysfasi—mae Coleg Llysfasi ychydig y tu allan i Ruthun—ac, yn wir, Coleg Llandrillo, rhan o Grŵp Llandrillo Menai, sydd wedi bod yn gwneud gwaith gwych, arloesol rwyf yn awyddus i'w ganmol.
- However, that said, it does not mean that there are not improvements and tweaks that can be made to schemes that have been successful. I acknowledge readily that there has been a growth in the number of apprenticeships in Wales over the past few years; that is something that I am sure every one of us in the Chamber would want to welcome very much indeed. However, there is a concern out there among young people, older people and other individuals who want to be able to access apprenticeships that the cut that has been announced—the in-year cut—. I appreciate the difficulty in terms of the academic and financial years, Minister, but you must know enough, from one year to the next, in terms of the budgets that you are making available as a Government, to have sufficient certainty to be able to speak to, and liaise with, providers and employers so that they can fully understand and know what their contribution needs to be in order that they can play a full part in delivering the best outcomes in the apprenticeships that are available.
- Fodd bynnag, wedi dweud hynny, nid yw hynny'n golygu na ellir gwella cynlluniau sydd wedi bod yn llwyddiannus. Rwy'n barod iawn i gydnabod y bu cynnydd yn nifer y prentisiaethau yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf; mae hynny'n rhywbeth rwy'n siŵr y byddai pob un ohonom yn y Siambr yn awyddus i'w groesawu'n fawr iawn. Fodd bynnag, mae pobl ifanc, pobl hŷn ac unigolion eraill sydd eisiau cyrchu prentisiaethau yn pryderu bod y toriad sydd wedi'i gyhoeddi—y toriad yn ystod y flwyddyn—. Rwy'n gwerthfawrogi'r anhawster o ran y blynyddoedd academaidd ac ariannol, Weinidog, ond mae'n rhaid i chi wybod digon, o'r naill flwyddyn i'r llall, am y cyllidebau sydd ar gael gennyh fel Llywodraeth, i fod â sicrwydd digonol i allu siarad a chydweithio â darparwyr a chyflogwyr er mwyn iddynt allu deall yn llawn a gwybod beth fydd eu cyfraniad fel y gallant wneud cyfraniad llawn at sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer y prentisiaethau sydd ar gael.
- Andrew R.T. Davies a gododd—*
- Andrew R.T. Davies rose—*
- 16:31 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I will take an intervention.
- Byddaf yn derbyn ymyriad.
- 16:31 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am grateful to the Member for taking an intervention. I think that it is important to understand that the providers are normally given their budgets at the end of March, with a start date of 1 August. This year, the Government did not provide those dates until three days before the start; that is poor management and it is letting down apprentices, would you not agree?
- Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am dderbyn ymyriad. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig deall bod y darparwyr fel arfer yn cael eu cyllidebau ar ddiwedd mis Mawrth, gyda dyddiad cychwyn o 1 Awst. Eleni, ni ddarparodd y Llywodraeth y dyddiadau hynny tan dri diwrnod cyn y dyddiad cychwyn; mae hynny'n rheolaeth wael ac yn gadael prentisiaid i lawr, oni fydddech yn cytuno?

- 16:31 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I would agree that bad planning like that does not make it easy for providers to be able to deliver against their contractual objectives. I think that it is very concerning, when you are in a situation where you do not know, three days before the start of the contract that you have to deliver, what the scale of that contract, or the terms of that contract, is going to be.
- Byddwn yn cytuno nad yw cynllunio gwael o'r math yn ei gwneud yn hawdd i ddarparwyr allu cyflawni yn erbyn eu hamcanion cytundebol. Rwy'n meddwl ei bod yn peri cryn bryder, pan ydych mewn sefyllfa lle nad ydych yn gwybod, dri diwrnod cyn i'r contract y mae'n rhaid i chi ei gyflawni gychwyn, beth fydd maint y contract hwnnw, neu delerau'r contract hwnnw.
- I had to laugh to myself, actually, at the budget deal that had been created between the Liberal Democrats and the Welsh Labour Government for the next financial year. The £5 million that has been secured is against a backdrop of a significant cut. So, actually, it is not extra places that are being delivered, but making the huge cut slightly smaller than it would have been in the first place. I do not know, frankly, how you can be popping the champagne corks and celebrating such a budget deal, but, then again, it should not surprise me, given the deals that you have cut in the past on the national health service.
- Roedd yn rhaid i mi chwerthin i mi fy hun, mewn gwirionedd, ynglŷn â chytundeb y gyllideb rhwng y Democratiaid Rhyddfrydol a Llywodraeth Lafur Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r £5 miliwn sydd wedi'i sicrhau yn seiliedig ar gyd-destun o doriad sylweddol. Felly, mewn gwirionedd, nid lleoedd ychwanegol sy'n cael eu darparu, ond proses o wneud y toriad enfawr ychydig yn llai nag y byddai wedi bod yn y lle cyntaf. Nid wyf yn gwybod, a siarad yn blaen, sut y gallwch fod yn agor y poteli siampên a dathlu cytundeb cyllideb o'r fath, ond, eto, ni ddylai fod syndod i mi, o ystyried y cytundebau rydych wedi'u gwneud yn y gorffennol ar y gwasanaeth iechyd gwladol.
- Aled Roberts a gododd—*
- Aled Roberts rose—*
- 16:32 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I will happily take an intervention.
- Rwyf yn fodlon derbyn ymyriad.
- 16:32 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Can you explain to us, then, how you would apportion these budgets, given that you continuously stand up here and tell us that these different departments should all be given extra resources against this backdrop?
- A allwch egluro wrthym, felly, sut y byddech yn dosrannu'r cyllidebau hyn, o gofio eich bod yn sefyll i fyny yma yn gyson ac yn dweud wrthym y dylai'r adrannau gwahanol hyn i gyd derbyn adnoddau ychwanegol yn y cyd-destun hwn?
- 16:33 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Look, if you want a Welsh Conservative Government to be able to deliver a budget, I will be happy to step up to the plate and participate in one. [Interruption.]
- Edrychwch, os ydych am i Lywodraeth Geidwadol Cymru allu cyflwyno cyllideb, byddaf yn hapus i ymateb i'r her a chymryd rhan yn un. [Torri ar draws.]
- 16:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Order. I want to hear what a Welsh Conservative Government would do. [Laughter.]
- Trefn. Rwyf am glywed yr hyn y byddai Llywodraeth Geidwadol Cymru yn ei wneud. [Chwerthin.]

What we need to see are more opportunities to get people upskilled and back into the workplace, or upskilled before they enter the workplace for the first time. Unfortunately, the arrangements that are in place are reducing the number of opportunities that there are. I am all for further work and partnership with the private sector, the third sector and other employers to reduce the total cost and expand the number of apprenticeships that are available out there in Wales. I think that it is very positive, actually, that you are engaging more with employers, especially given the criticism from the FSB and the CBI in terms of the lack of engagement and discussion that there has been in the past. So, it is very positive, Minister, that you have said that that is something that is improving.

However, the overlap that has been identified between Jobs Growth Wales—. I know that there was some criticism from Jeff Cuthbert about the fact that we had included in our motion reference to Jobs Growth Wales. However, the reality is that there are some overlaps here, in terms of the different schemes that are available to support people into employment and the apprenticeship schemes that are available. The interim evaluation report that has been completed demonstrates those overlaps and makes some very clear recommendations about how they can be reduced in order that the limited resource that is available can be better focused, particularly in those priority areas that I know that the Deputy Minister is keen to focus resources on in the future.

We should also not forget the Wales Audit Office report on NEETs, published recently, that demonstrated very clearly that, while there has been quite a lot of success in the younger age groups, in the 16 to 18 age group in particular, those in the older age groups, in the 19 to 25 age group, perhaps, are not being as well served as they could be by apprenticeships, Jobs Growth Wales and other schemes. I think that there needs to be, perhaps, a little bit more of a focus on those from the Government in the future.

A number of speakers touched on the challenges faced by the construction industry. If there is one good indicator of the economy, it is growth or contraction in the construction industry. Usually, it is a very early barometer, in terms of the way that the economy is bearing down. We know that there is huge demand from employers for more apprenticeships in the construction industry at the moment. Deputy Minister, I ask that you work closely with the construction industry to see what you can do to make your resources go further in order to create the apprenticeships that need to be created in the construction industry, not just for the housing sector and not just for the renewable energy sector, but for the investment that we will need in the public sector over the next few years, as, hopefully, tax receipts rise as a result of the economic recession being over and as the economy continues to grow as a result of the efforts of the UK Government.

It is important that we nail these things down in the future, that there is better planning, that people know well in advance of the start of their contract what the size of the contract will be, that there is better partnership working and that this duplication in the system is overcome.

Yr hyn sydd angen i ni ei weld yw mwy o gyfleoedd i wella sgiliau pobl a'u cael yn ôl yn y gweithle, neu wella'u sgiliau cyn iddynt ddechrau yn y gweithle am y tro cyntaf. Yn anffodus, mae'r trefniadau sydd ar waith yn lleihau nifer y cyfleoedd sydd ar gael. Rwy'n gefnogol iawn i waith pellach a phartneriaeth â'r sector preifaf, y trydydd sector a chyflogwyr eraill i leihau cyfanswm y gost ac ehangu nifer y prentisiaethau sydd ar gael yng Nghymru. Rwy'n meddwl ei bod yn gadarnhaol iawn, mewn gwirionedd, eich bod yn ymgysylltu mwy â chyflogwyr, yn enwedig o ystyried y feirniadaeth gan y Ffederasiwn Busnesau Bach a Chyddfederasiwn Diwydiant Prydain ynglŷn â'r diffyg ymgysylltu a thrafod sydd wedi bod yn y gorffennol. Felly, mae'n gadarnhaol iawn, Weinidog, eich bod wedi dweud bod hynny'n rhywbeth sy'n gwella.

Fodd bynnag, mae'r gorgyffwrdd sydd wedi'i nodi rhwng Twf Swyddi Cymru—. Rwy'n gwybod bod rhywfaint o feirniadaeth gan Jeff Cuthbert oherwydd y ffaith ein bod wedi cynnwys cyfeiriad at Twf Swyddi Cymru yn ein cynnig. Fodd bynnag, y realiti yw bod rhywfaint o orgyffwrdd yma, o ran y gwahanol gynlluniau sydd ar gael i helpu pobl i gael gwaith a'r cynlluniau prentisiaeth sydd ar gael. Mae'r adroddiad gwerthuso interim a gwblhawyd yn dangos y gorgyffwrdd ac yn gwneud rhai argymhellion clir iawn ynglŷn â sut y gellir eu lleihau er mwyn sicrhau bod yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael yn gallu cael eu defnyddio'n well, yn enwedig yn y meysydd blaenoriaeth lle mae'r Dirprwy Weinidog, rwy'n gwybod, yn awyddus i ganolbwyntio adnoddau yn y dyfodol.

Hefyd, ni ddylem anghofio adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar NEETs, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a oedd yn dangos yn glir iawn, er y bu cryn dipyn o lwyddiant yn y grwpiau oedran iau, yn y grŵp oedran 16 i 18 yn benodol, nid yw'r system brentisiaethau, Twf Swyddi Cymru a chynlluniau eraill yn gweithio cystal i'r grwpiau oedran hŷn, yn enwedig y grŵp 19-25 oed o bosibl. Rwy'n meddwl bod angen, efallai, i'r Llywodraeth ganolbwyntio ychydig bach mwy ar y rheini yn y dyfodol.

Mae nifer o siaradwyr wedi cyfeirio at yr heriau sy'n wynebu'r diwydiant adeiladu. Un dangosydd da o gyflwr yr economi yw twf neu grebachu yn y diwydiant adeiladu. Fel arfer, mae'n faromedr cynnar iawn, o ran y ffordd y mae'r economi yn perfformio. Rydym yn gwybod bod galw mawr gan gyflogwyr am fwy o brentisiaethau yn y diwydiant adeiladu ar hyn o bryd. Ddirprwy Weinidog, rwy'n gofyn i chi weithio'n agos gyda'r diwydiant adeiladu i weld beth y gallwch ei wneud i sicrhau bod eich adnoddau yn mynd ymhellach er mwyn creu'r prentisiaethau sydd angen eu creu yn y diwydiant adeiladu, nid yn unig ar gyfer y sector tai ac nid yn unig ar gyfer y sector ynni adnewyddadwy, ond ar gyfer y buddsoddiad y bydd ei angen arnom yn y sector cyhoeddus dros y blynyddoedd nesaf, wrth i dderbyniadau treth godi, gobeithio, yn sgîl diwedd y dirwasgiad economaidd ac wrth i'r economi barhau i dyfu o ganlyniad i ymdrechion Llywodraeth y DU.

Mae'n bwysig ein bod yn gwneud y pethau hyn yn y dyfodol, bod gwell cynllunio, bod pobl yn gwybod ymhell cyn dechrau eu contract beth fydd maint y contract, bod gwell gwaith partneriaeth a bod y dyblygu hwn yn y system yn cael ei oresgyn.

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection. Therefore, I defer voting under this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

## Dadl Plaid Cymru: Amaethyddiaeth

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts, and amendments 3, 4, 5, 6, 7, 8 and 9 in the name of Paul Davies.*

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly, caiff y bleidlais ei gohirio tan y cyfnod pleidleisio.

*Voting deferred until voting time.*

## Plaid Cymru Debate: Agriculture

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 3, 4, 5, 6, 7, 8 a 9 yn enw Paul Davies.*

16:37

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call on Llyr Gruffydd to move the motion.

Galwaf ar Llyr Gruffydd i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5606 Elin Jones

Motion NDM5606 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi'r amodau economaidd sy'n gynyddol anodd i ffermwyr;

1. Notes the increasingly difficult economic conditions for farmers;

2. Yn gresynu at benderfyniad Llywodraeth Cymru i drosglwyddo'r uchafswm o 15% o golofn 1 i golofn 2 o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

2. Regrets the Welsh Government's decision to transfer the maximum 15% from pillar 1 to pillar 2 of the Common Agriculture Policy.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

3. Calls on the Welsh Government to:

a) cynyddu ei hymdrechion i leihau biwrocratiaeth yn y diwydiant;

a) accelerate its efforts to reduce red tape within the industry;

b) cymryd camau ymarferol a chyflym i gefnogi'r sectorau cig coch a llaeth yng Nghymru; ac

b) take practical and swift action to support the red meat and dairy sectors in Wales; and

c) cyflwyno cynllun Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol i helpu'r rhai sy'n ffermio o dan yr amgylchiadau mwyaf heriol.

c) introduce a dedicated Area of Natural Constraint scheme to help those farming in the most challenging conditions.

16:37

### Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

Rwy'n falch iawn o gyflwyno'r cynnig hwn yn enw Plaid Cymru. Dyma'r ail ddadl i ni ei chyflwyno ar destun amaeth o fewn ychydig fisoedd, sydd yn adlewyrchu cyfraniad pwysig y sector i'r economi, ac i'r economi wledig yn benodol yma yng Nghymru, ond sydd hefyd yn adlewyrchu'r newidiadau a'r ansicrwydd sydd yn dod yn sgîl hynny wrth i'r sector symud ymlaen i wynebu cyfnod newydd.

I am very pleased to move this motion in the name of Plaid Cymru. This is the second debate that we have tabled on agriculture within a few months, reflecting the important contribution of the sector to the economy, and to the rural economy in particular here in Wales, but also reflecting the changes and uncertainties that have come about as the sector moves on to face a new era.



Mae cyfnodau o newid, fel hyn, yn anorfod, ac mae heriau, yn naturiol, yn dod gyda hynny. Mae busnesau yn gorfod addasu ac esblygu gyda'r oes a'r amgylchiadau y maen nhw'n gweithredu oddi mewn iddynt. Nid yw hynny'n wahanol mewn unrhyw faes busnes arall, er ein bod ni, yng nghyd-destun y diwydiant amaeth, yn sôn am ddiwydiant sydd yn creu bywoliaeth o gylchdro natur, y tywydd a'r tymhorau. Felly, nid yw wastad mor hawdd, efallai, i addasu ac i newid yn sydyn.

Felly, ble ydym ni heddiw? Rydym yn gwybod am yr ystadegau sydd yn dangos bod cwymp wedi bod yn incwm ffermydd yn 2013. Rydym yn cofio hefyd, cyn cychwyn y trafodaethau ynghylch sut mae CAP yn cael ei weithredu, fod toriad o 10% wedi bod ar draws y gyllideb gyfan ar lefel Ewropeaidd. Er i Blaid Cymru wrthwynebu hynny, cefnogwyd hynny gan y pleidiau eraill. Mae cyfeiriadau mynych wedi eu gwneud, ac mae'r cynnig ei hun yn cyfeirio at y ffaith bod teimladau cryf ynghylch penderfyniad y Llywodraeth i drosglwyddo 15% o'r arian allan o biler 1 y CAP, sy'n rhywbeth a gafodd ei ddisgrifio gan gynrychiolwyr y diwydiant fel dim byd llai nag ymosodiad ar y diwydiant gan eu Llywodraeth nhw eu hunain.

Mae Plaid Cymru wedi bod yn glir y byddem wedi trosglwyddo canran, wrth gwrs, ond ni fyddem wedi mynd am y 15% llawn. Byddem wedi cychwyn ar lefel tipyn mwy rhesymol, gan wybod bod cyfle i adolygu hynny i fyny, os oedd angen, ychydig ffordd i lawr y llinell, pan fyddai'r diwydiant wedi cael ychydig bach mwy o amser, o leiaf, i ddygydd â'r ystod ehangach o lawer o newidiadau roedd disgwyl iddo ddygydd â nhw.

Gallwn gymharu'r 15% hwnnw â lefelau is yn Lloegr a 9.5% yn yr Alban. Yng Ngogledd Iwerddon, doedd dim trosglwyddiad o gwbl. Yn Ffrainc a'r Almaen, cafwyd symiau isel iawn, a hynny, wrth gwrs, yn cyflwyno anfantaes gystadleuol i Gymru mewn llawer ffordd—wedi mynd o fod yn un o'r gwledydd â'r lefel isaf o drosglwyddiad i fod ar y lefel uchaf yn Ewrop. Y canlyniad yw bod tua £286 miliwn wedi ei gymryd allan o bocedi ffermwyr Cymru, sy'n arian a fyddai nid yn unig yn cefnogi bywoliaeth y ffermwyr eu hunain a'r rhai sy'n gweithio ar eu ffermydd nhw, ond y rhengoedd o fusnesau gwledig sy'n ddibynnol arnynt hefyd am eu bywoliaeth—y contractwyr, y darparwyr nwyddau a gwasanaethau amaethyddol, y garejis lleol, y siopau pentref, y swyddfeydd post, y tafarndai gwledig, ac yn y blaen.

Rwy'n cydnabod, wrth gwrs, bod y Llywodraeth yn dweud y bydd y pres hwnnw yn dod yn ôl i ffermwyr drwy biler 2. Rydym yn dal i aros i weld yr union fanylion o ran sut y bydd hynny'n gweithio. Yn sicr, ni fydd yn dod yn ôl yn yr un ffordd ag y byddai petai'n dod mewn taliad uniongyrchol. Mae rhywun yn tybio y bydd ychydig o dâp coch o gwmpas hynny hefyd ac, wrth gwrs, yn tybio y bydd cyrff ac ymgynghorwyr yn cymryd eu siâr nhw o'r gacen hefyd, cyn i'r pres hwnnw gyrraedd y ffermwyr. Ond, arhoswn i weld, ac edrychwn ymlaen at weld yr union raglenni y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu cyflwyno o dan biler 2.

Periods of change like this are inevitable, and challenges, of course, come with that. Businesses have to adapt and evolve with the age and the circumstances in which they work. That is no different in any other area of business, although we are, in the context of the agriculture industry, talking about an industry that provides livelihoods from the turn of nature, the weather and the seasons. Therefore, it is not always so easy, perhaps, to adapt and change suddenly.

So, where are we today? We know about the statistics that show that there was a fall in farm incomes in 2013. We remember also, prior to the start of the discussions about how CAP is to be implemented, the cut of 10% across the whole budget at a European level. Although Plaid Cymru opposed it, that was supported by the other parties. Frequent references have been made—the motion itself refers to it—to the strong feelings about the Government's decision to transfer 15% of the money out of CAP pillar 1, which is something described by industry representatives as nothing less than an attack on the industry by its own Government.

Plaid Cymru has been clear that we would have transferred a percentage, of course, but we would not have gone for the full 15%. We would have started at a much more reasonable level, knowing that that could be reviewed up, if needed, a little way down the line, when the industry had had a bit more time, at least, to cope with the much wider range of changes it was expected to cope with.

We can compare that 15% with the lower levels in England and 9.5% in Scotland. In Northern Ireland, there was no transfer at all. In France and Germany, there were very low amounts, and that, of course, introduces a competitive disadvantage to Wales in many ways—we have gone from being a country with one of the lowest levels of transfer to one of the highest in Europe. The result is that some £286 million has been taken out of the pockets of Welsh farmers, which is money that would not only have supported the livelihoods of the farmers themselves and those who work on their farms, but the legions of rural businesses that depend on them for their livelihoods—the contractors, the agricultural goods and services providers, the local garages, the village shops, the post offices, the rural pubs and so on.

I acknowledge, of course, that the Government says that the money will come back to farmers through pillar 2. We are still awaiting the exact detail of how that will work. Certainly, it will not come back in the same way as if it was a direct payment. One anticipates that there will be some red tape around that too and, of course, that organisations and consultants will take their share of the cake also, before the money reaches farmers. However, we will wait to see, and we look forward to seeing the specific programmes that the Government intends to introduce under pillar 2.

I ychwanegu at yr her sy'n wynebu ffermwyr Cymru—yr her ariannol—mae'r gyfradd gyfnewid rhwng yr ewro a'r bunt hefyd wedi ei gosod 7% yn is eleni, sy'n golygu y bydd gwerth y taliad o Ewrop yn is. Effaith hyn oll, yn ôl un amcan, yw y bydd ffermwr a oedd wedi derbyn £10,000 y llynedd yn derbyn, ar gyfartaledd, dros 20% yn llai eleni, sef ryw £7,879.

Ond nid newidiadau CAP yw sail holl ofidiau'r diwydiant. Mae llawer o gyhoeddusrwydd wedi bod yn ddiweddar—yn iawn, felly—yn glŷn â'r ffaith bod prisiau yn gostwng yn nau sector mwyaf blaenllaw y diwydiant yng Nghymru, sef y sectorau llaeth a chig coch. Mae'r pris y mae ffermwyr yn ei gael am eu llaeth erbyn hyn, ar gyfartaledd, yn is na'r pris cynhyrchu—27c y litr ar gyfartaledd o gymharu â chost cynhyrchu o 30c y litr. Mae prisiau cig eidion a chig oen hefyd, wrth gwrs, wedi gweld cwmp sylweddol yn y cyfnod diwethaf.

Ymateb y Llywodraeth i'r sefyllfa laeth—fel y clywsom yr wythnos diwethaf, ac fel y codais yn gynharach, yn ystod cwestiynau i'r Dirprwy Weinidog—oedd cyhoeddi adolygiad. Ni ddywedaf nad wyf yn croesawu'r cyhoeddiad, oherwydd cydnabyddais yn gynharach bod rôl bwysig gan adolygiad o'r fath wrth ddeall yr heriau mwy hirdymor a sut y mae modd sicrhau bod y diwydiant yn ymateb i hynny. Fodd bynnag, yr hyn y mae ffermwyr Cymru yn chwilio amdano yw gweithredu buan; dyna sydd ei angen. Rydych wedi rhoi sicrwydd inni y bydd yr ymgynghoriad, neu'r adolygiad, yn digwydd yn sydyn, felly edrychwn ymlaen at weld rhaglen weithredu yn cael ei chynllunio yn fuan, a'i gweithredu yn fuan hefyd.

Mae Plaid Cymru wedi bod yn glir bod yr amser wedi dod i gryfhau'r cod llaeth, i roi gwell amddiffyniad i'n ffermwyr rhag gafael annheg rhai o'r cwmnïau llaeth ar eu busnesau. Nid oes angen bod ofn cyflwyno cod gorfodol, ychwaith. Rydym yn gwybod bod 12 aelod wladwriaeth eisoes wedi gwneud hynny, ac felly wedi dangos ei fod yn gallu gweithio. Mae mwy y gallwn ei wneud i wella cadwyni cyflenwi a chynyddu prosesu lleol. Un o'r pethau sy'n fy ngwylltio yw gweld miliynau o litrau o laeth yn cael eu trosglwyddo allan o un o feysydd llaeth mwyaf Ewrop, yn y de orllewin, er mwyn cael eu prosesu, ac wedyn miliynau o dunelli o gynnyrch llaeth yn dod yn ôl. Mae'r un peth yn wir, wrth gwrs, i raddau llai, yn naturiol, gyda chig coch.

Rydym wedi codi'n gyson gyda'r Dirprwy Weinidog yr angen i ddiwygio'r lefi cig coch yng Nghymru. Mae'r drefn bresennol, fel yr ydym yn gwybod, yn golygu bod rhyw £1 miliwn y flwyddyn yn cael ei golli i'r sector sydd gennym—arian a allai gael ei fuddsoddi i agor marchnadoedd newydd a chryfhau ansawdd ac effeithlonrwydd y sector. Gwn fod y Dirprwy Weinidog yn rhannu'r rhwystredigaeth yn glŷn â'r diffyg symud sydd o gyfeiriad Llywodraeth San Steffan ar hyn. Mae blwyddyn ers i'r Gweinidog ar y pryd yno ymrwymo i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Os na fydd symud ar hyn yn fuan, bydd cwestiynau difrifol yn gorfod cael eu gofyn o ran ymrwymiad y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, a'u pleidiau nhw yn San Steffan, i ffermwyr Cymru yn y cyd-destun hwn.

To add to the challenge facing Welsh farmers—the financial challenge—the exchange rate between the euro and the pound has been set 7% lower this year, which means that the value of the payment from Europe will be lower. The effect of all this, according to one estimate, is that a farmer who would have received £10,000 last year will receive, on average, over 20% less this year, which is some £7,879.

However, it is not only changes in the CAP that worry the industry. There has been much publicity recently—rightly so—about the fact that prices are falling in the two leading industry sectors in Wales, namely the dairy and red meat sectors. The price that farmers now get for their milk is, on average, lower than the cost of production—27p a litre on average compared to the production cost of 30p per litre. Beef and lamb prices have also, of course, seen a significant drop in the last period.

The Government's response to the situation with regard to dairy—as we heard last week, and as I raised earlier, during questions to the Deputy Minister—was to announce a review. I am not saying that I do not welcome the announcement, because I acknowledged earlier the important role of such a review in understanding the longer-term challenges and how can we ensure that the industry responds to that. However, what Welsh farmers are seeking is early action; that is what is needed. You have given us an assurance that the consultation, or review, will happen quickly, so we look forward to seeing a programme of action being planned quickly too, and implemented quickly.

Plaid Cymru has been clear that the time has come to strengthen the milk code, to give better protection to our farmers from the unfair hold of some of the dairy companies on their businesses. There is no need either to be afraid of introducing a mandatory code. We know that 12 member states have already done so, therefore showing that it can work. There is more that we can do to improve supply chains and increase local processing. One of the things that makes me mad is to see millions of litres of milk being transferred out of one of Europe's largest milk fields, in south-west Wales, in order to be processed, and then millions of tonnes of dairy produce returning the other way. The same is true, of course, to a lesser extent, naturally, of red meat.

We have constantly raised with the Deputy Minister the need to reform the red meat levy. The present system, as we know, means that around £1 million per year is being lost to the sector here—money that could be invested to open new markets and strengthen the quality and efficiency of the sector. I know that the Deputy Minister shares the frustration about the lack of action from the Westminster Government on this. It is a year since the Minister at the time there made a commitment to address the situation. If there is no movement on this soon, serious questions will have to be asked about the commitment of the Conservatives and the Liberal Democrats, and their parties at Westminster, to Welsh farmers in this context.

Mae angen cryfhau polisïau caffael hefyd, wrth gwrs—rydym yn gwybod hynny. Mae llawer mwy y gall y sector cyhoeddus ei wneud i gefnogi cynhyrchwyr Cymreig. Bydd fy nghyd-Aelodau yn ymhelaethu ar hyn yn ystod y ddadl, a hefyd yn ymhelaethu ar yr angen i gyflwyno cynllun penodol i'r ffermwyr hynny a fydd yn wynebu'r her fwyaf o naddu bywoliaeth allan o'r tiroedd uchaf a'r rhostiroedd yn benodol, drwy wneud defnydd o daliad i ardaloedd o gyfyngiad naturiol—yr ANC.

Gallwn hefyd i gyd, wrth gwrs, ar lefel bersonol, addunedu i wneud mwy i gefnogi cynnyrch Cymreig, ac rwy'n siŵr y bydd pawb yn y Siambwr yn cytuno bod hynny'n rhywbeth sydd angen digwydd, ond, pan fydd yr esgid yn gwasgu, mae sicrhau bod gan fusnesau yr hyblygrwydd i addasu ac i ymateb yn sydyn i'w hamgylchiadau yn allweddol. Rydym i gyd am weld diwydiant mwy ymatebol a chwim yn wyneb newid, a fyddai yn sicrhau bod gennym ddiwydiant cryfach. Ond, wrth gwrs, mae tâp coch a biwrocratiaeth yn dal i lethu rhannau o'r diwydiant ac yn tagu peth o'r hyblygrwydd hwnnw sy'n gwbl angenrheidiol yn yr hinsawdd sydd ohoni.

Rydym yn ymwybodol iawn o agenda 'Hwyluso'r Drefn' a'r gwaith sydd wedi cael ei wneud ar y ffyrnt hwnnw. Rydym yn ymwybodol hefyd fod y Llywodraeth yn cydnabod yr her honno a'r angen i fynd i'r afael â hynny. Ond, wrth gwrs, mae'r gweithredu yn rhy araf o lawer. Mae Plaid Cymru yn glir, er enghraifft, fod angen i'r rheol gwahardd symud chwech diwrnod—y 'six-day standstill rule'—fynd. Mae gyda ni ers dros ddegawd, mae wedi ateb ei ddiben, a byddai caniatáu cyflwyno unedau cwarantîn ar ffermydd yn ddull llawer mwy cymesur erbyn hyn a fyddai'n codi un o'r beichiau mwyaf sy'n cyfyngu ar fusnesau fferm. Roedd yn argymhelliad clir yn yr adroddiad 'Hwyluso'r Drefn'. Yn wir, roedd yn cael ei ddisgrifio fel 'quick win' yn yr adroddiad hwnnw. Ond, bron i dair blynedd yn ddiweddarach, rydym yn dal i aros, ac o'r hyn rwy'n ei ddeall, mae'n bosib na fydd symud ar hyn tan ar ôl etholiad nesaf y Cynulliad, a hyd yn oed mewn i 2017. Yn sicr, nid yw hynny'n dderbyniol. Mae rheolau fel y rhain yn tagu'r diwydiant ar yr union adeg y mae angen i'r diwydiant fod ar ei fwyaf hyblyg, er mwyn gallu addasu, goroesi ac, yn y pen draw, dod allan yn gryfach.

Mae lluo o welliannau wedi eu gosod ac mi redaf drwy'r rhestr yn sydyn. Mi fyddwn yn cefnogi gwelliant 1 sy'n sôn am broffil oed y diwydiant. Roeddwn i'n ymwneud â Menter a Busnes ar yr adeg yr oedd yn edrych ar waith a oedd yn digwydd yn Iwerddon ar olyniaeth. Rwy'n ymwybodol o gynlluniau grant yn y gorffennol, lle yr oedd gofyn i un o'r partneriaid yn y busnes i fod yn iau. Mae hynny yn sicr yn fath o 'approach' y dylid ei efelychu eto. Mae'r cynllun cefnogi newydd-ddyfodiaid ifainc yn gwneud cyfraniad, hyd yn oed os nad yw'n gwneud dim mwy na sicrhau bod y drafodaeth ar olyniaeth yn cychwyn o fewn teuluoedd fferm.

There is also a need to strengthen procurement policies, of course—we know that. There is much more that the public sector can do to support Welsh producers. My colleagues will elaborate on this in the debate, and also expand on the need to introduce a specific plan for those farmers who will face the greatest challenge in terms of carving out a living from the uplands and the moorlands in particular, by making use of payments to areas with natural constraints—the ANC.

We can also, of course, on a personal level, all pledge to do more to support Welsh produce, and I am sure that everyone in this Chamber would agree that that is something that needs to happen, but, when the shoe is tightening, we need to ensure that businesses have the flexibility to adapt and to respond quickly to their circumstances. That is crucially important. We all want to see an industry that is more reactive and swifter in the face of change, which would mean that we would have a stronger industry. However, of course, red tape and bureaucracy still suffocate parts of the industry and prevent that flexibility that is so important in the current climate.

We are very aware of the 'Working Smarter' agenda and the work that has been done on that front. We are aware that the Government has also recognised that challenge and the need to tackle that. However, of course, action is happening far too slowly. Plaid Cymru is clear, for example, that the six-day standstill rule needs to be changed. It has been in place for over a decade, it has met its ends, and allowing the introduction of quarantine units on farms would be a far more proportionate response by now, and that would actually remove one of the greatest barriers to farm businesses. It was a clear recommendation in the 'Working Smarter' report. Indeed, it was described as a 'quick win' in that particular report. However, almost three years later, we are still waiting and, from what I understand, it is possible that there will be no movement on this until after the next Assembly election and even into 2017, and that is certainly not acceptable. Rules such as these suffocate the industry at the very time when the industry must be at its most agile in order to adapt, survive and, ultimately, emerge stronger.

There are all sorts of amendments tabled to the motion and I will run through the list quickly. We will support amendment 1, which mentions the age profile of the industry. I was involved with Menter a Busnes at the time when it was looking at the work that was happening in Ireland on succession on farms. I am aware of grant schemes in the past where one of the family partners was required to be younger, and that is certainly the kind of approach that should be adopted here. The young entrants scheme is also making a contribution, even if it is only to ensure that that discussion of succession actually happens within farming families.

Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 2; rwy'n siŵr nad yw hynny'n syndod i'r Democratiaid Rhyddfrydol. Mae gwelliant 3 yn sôn am dorri'r gyllideb. Wrth gwrs, nid ydym am weld toriadau yn y gyllideb, ond mae'n rhaid i mi ddweud nad oes terfyn ar ba mor unlygeidiog yw'r Ceidwadwyr ar y mater hwn. Peidiwch â dweud wrthym ni ynglŷn â thori'r gyllideb yn y fan hon yn y Cynulliad; dywedwch wrth eich Llywodraeth chi yn San Steffan. Rwy'n edrych ymlaen at glywed llefarydd amaeth y Ceidwadwyr yn esbonio'n union sut y bydd yn amddiffyn y gyllideb oherwydd, o fethu gwneud hynny, rwy'n meddwl y bydd hynny'n dweud mwy nag y gallaf i ei ddweud yn y fan hon.

Rydym yn cytuno â gwelliant 4 bod angen sedd o gwmpas bwrdd y Cabinet. Mae hynny'n rhywbeth y mae Plaid Cymru wedi galw amdano o'r cychwyn. Byddwn yn cefnogi gwelliant 5 ar archfarchnadoedd a fydd yn gyfraniad pwysig i hyrwyddo cynnyrch Cymreig. Byddwn yn cefnogi hefyd gwelliant 6 ar ladd-dai. Rwyf am ganmol ymdrechion Aelod Sir Fôn sydd wedi bod yn gweithio'n ddiffino i drio sicrhau ailagor y lladd-dy yng Ngaerwen. Rwy'n siŵr y cawn gyfle i glywed ychydig mwy am hynny yn nes ymlaen. Rwyf wedi cyfeirio at y 'levy' cig coch ac felly byddwn yn cefnogi gwelliant 7, ac felly hefyd gwelliant 8 ar gaffael a gwelliant 9 ar adolygiad y sector llaeth. Dim ond mor gryf â'i chynllun gweithredu y mae unrhyw strategaeth. Rwy'n meddwl mai dyna y mae ffermwyr llaeth Cymru eisiau ei weld. Felly, rwy'n edrych ymlaen at glywed y ddadl ac at ymateb gyda'r ychydig amser sydd gen i ar ôl ar y diwedd.

We will not be supporting amendment 2; I am sure that that will not surprise the Liberal Democrats. Amendment 3 talks of a cut in the budget. Of course, we do not want to see the budget cut, but I have to say that there is no end to how blinkered the Conservatives are on this issue. Do not tell us about cutting budgets here in the Assembly; have a word with your own Government in Westminster. I look forward to hearing the Conservative spokesperson on agriculture explaining exactly how he will defend that budget because, in failing to do so, he will tell us more than I can say here.

We agree with amendment 4 that we need a seat at the Cabinet table. That is something that Plaid Cymru has called for. We will support amendment 5 on supermarkets, which will be an important contribution to promoting Welsh produce. We will also support amendment 6 on abattoirs. I want to praise the Member for Anglesey who has worked tirelessly to try to ensure the reopening of the abattoir in Gaerwen. I am sure that we will have an opportunity to hear a little more about that later. I have already referred to the red meat levy, and therefore we will support amendment 7, and also amendment 8 on procurement and amendment 9 on a review of the dairy industry. Every strategy is only as strong as its action plan. I think that that is what Welsh dairy farmers want to see. Therefore, I look forward to hearing the debate and to responding with what little time I have left at the end.

16:49

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I have selected the nine amendments to the motion. I call on William Powell to move amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dewis y naw gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar William Powell i gynnig gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 1 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 1 and renumber accordingly:*

*Yn nodi proffil oedran uchel ffermwyr Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i wella prosesau cynllunio ar gyfer olyniaeth a ffermio ar y cyd.*

*Notes the high-age profile of Welsh farmers and calls on the Welsh Government to take steps to improve succession planning & shared farming.*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 2 and renumber accordingly:*

*Yn gresynu at y ffaith nad oes Ardal â Chyfyngiadau Naturiol benodedig yn rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig; penderfyniad sydd â'i wreiddiau mewn dewisiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru'n Un.*

*Regrets the lack of a dedicated Area of Natural Constraint scheme as part of the Rural Development Plan, a decision which has its roots in choices made by the One Wales Government.*

16:49

## **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I move amendments 1 and 2.

Cynigiau welliannau 1 a 2.

In moving the amendments, I welcome very much the Plaid Cymru debate that has been brought forth this afternoon by Llyr Gruffydd and his colleagues. Now that we have reached the end of the common agricultural policy reform process and decisions have been made, it is absolutely critical that we take stock as a nation of all that it means for our farming industry and our rural communities, and how they will be impacted upon by the Welsh Government's decisions over the next funding period. As such, I am glad that today's debate offers us a very important opportunity once again to highlight the Welsh Government's decision, referred to already by Llyr Gruffydd, to end dedicated uplands support in the form of an area of natural constraint scheme. Those of us who know the industry have been concerned about the damage that such a mistake would inflict upon the Welsh lamb industry, and we are now in that place. Farmers have already contacted me fearing that their businesses will not survive. When it made the final announcement, I was disappointed that the Welsh Government once again sought to blame the European Union for mistakes that were made not very far from here. It is no surprise to me that such a poisonous attitude pervades the debate in this country around the European Union when Governments within the UK, of all hues, are all too ready to lay the blame at the doors of Brussels. I will take the intervention.

Wrth gynnig y gwelliannau, croesawaf yn fawr ddaid Plaid Cymru a gyflwynwyd y prynhawn yma gan Llyr Gruffydd a'i gydweithwyr. Nawr ein bod wedi cyrraedd diwedd y broses o ddiwygio'r polisi amaethyddol cyffredin a bod penderfyniadau wedi eu gwneud, mae'n gwbl hanfodol ein bod fel cenedl yn pwysu a mesur yr hyn y mae'n ei olygu ar gyfer ein diwydiant amaethyddol a'n cymunedau gwledig, a sut y byddant yn cael eu heffeithio gan benderfyniadau Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod ariannu nesaf. Fel y cyfryw, rwy'n falch bod dadl heddiw'n cynnig cyfle pwysig iawn i ni dynnu sylw unwaith eto at benderfyniad Llywodraeth Cymru y cyfeiriwyd ato eisoes gan Llyr Gruffydd i roi diwedd ar gefnogaeth wedi'i neilltuo ar gyfer yr ucheldir ar ffurf cynllun ardal â chyfyngiadau naturiol. Mae'r rhai ohonom sy'n adnabod y diwydiant wedi bod yn pryderu am y niwed y byddai camgymeriad o'r fath yn ei achosi i ddiwydiant cig oen Cymru, ac rydym yn awr yn y lle hwnnw. Mae ffermwyr eisoes wedi cysylltu â mi yn ofni na fydd eu busnesau yn goroesi. Pan wnaeth y cyhoeddiad terfynol, roeddwn yn siomedig fod Llywodraeth Cymru unwaith eto'n ceisio rhoi'r bai ar yr Undeb Ewropeidd am gamgymeriadau a wnaethpwyd nid nepell oddi yma. Nid yw'n syndod i mi fod y fath agwedd wenwynig yn treiddio drwy'r ddadl yn y wlad hon ynghylch yr Undeb Ewropeidd pan fo Llywodraethau yn y DU, o bob lliw, yn rhy barod o lawer i osod y bai ar Frwsel. Cymeraf yr ymyriad.

16:50 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That is wholly and entirely incorrect. The decisions that he refers to were taken by this Government in Wales. At no time did I or anyone else seek to take responsibility away from us. The decisions were based on the report written by Kevin Roberts, the former director-general of the National Farmers Union, acting as an independent adviser to the Government. We at no time blamed the European Union for those decisions.

Mae hynny'n gwbl anghywir. Gwnaed y penderfyniadau y cyfeiria atynt gan y Llywodraeth hon yng Nghymru. Ni cheisiais innau nac unrhyw un arall gymryd y cyfrifoldeb i ffrwd oddi wrthym ar unrhyw adeg. Mae'r penderfyniadau yn seiliedig ar yr adroddiad a ysgrifennwyd gan Kevin Roberts, cyn-gyfarwyddwr cyffredinol Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, yn gweithredu fel cynghorydd annibynnol i'r Llywodraeth. Ni feiasom yr Undeb Ewropeidd am y penderfyniadau hynny ar unrhyw adeg.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:51 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very grateful to the former Minister for his intervention, but I would refer him to correspondence that was disclosed to me from commissioner Ciołoş in relation to the ability of the Welsh Government to craft an agri-environment scheme that was rural development plan proof. I think that the record stands in that regard.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r cyn Weinidog am ei ymyriad, ond rwy'n ei gyfeirio at ohebiaeth a ddatgelwyd i mi gan y comisiynydd Ciołoş ynglŷn â gallu Llywodraeth Cymru i ddylunio cynllun amaeth-amgylcheddol a oedd yn ddiogel rhag cynlluniau datblygu gwledig. Credaf fod y cofnodion yn gywir yn hynny o beth.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

In saying that, I appreciate that many of the decisions were taken long before this Assembly and, in fact, had their roots in the very architecture of the Glastir scheme, which framed the terms of the debate. That is also a matter of public record.

Wrth ddweud hynny, rwy'n sylweddoli bod llawer o'r penderfyniadau wedi eu gwneud ymhell cyn y Cynulliad hwn ac mewn gwirionedd, roedd eu gwreiddiau ym mhensaerniaeth cynllun Glastir, a fframiodd dermau'r drafodaeth. Mae hynny hefyd yn fater o gofnod cyhoeddus.

In contrast, the main thing that we now need to focus on is the way in which we use the opportunity presented by the RDP to secure the future for the next generation of Wales's farmers. I refer to the undoubted success of the young entrants scheme that was referred to by Llyr Gruffydd. It is now in its final year of operation, and we need to ensure that something is put in place, hopefully with RDP support, to enable that scheme, or at least the legacy of that scheme, to be built upon.

Mewn cyferbyniad, y prif beth sydd angen i ni ganolbwyntio arno bellach yw'r ffordd rydym yn defnyddio'r cyfle y mae'r Cynllun Datblygu Gwledig yn ei gynnig i sicrhau dyfodol ar gyfer y genhedlaeth nesaf o ffermwyr Cymru. Cyfeiriaf at lwyddiant diamheuol y cynllun i newydd-ddyfodiad y cyfeiriodd Llyr Gruffydd ato. Mae bellach ym mlwyddyn olaf ei weithrediad ac mae angen i ni sicrhau bod rhywbeth yn cael ei roi ar waith, gyda chymorth y Cynllun Datblygu Gwledig gobeithio, i'w gwneud hi'n bosibl i adeiladu ar y cynllun hwnnw, neu o leiaf ar etifeddiaeth y cynllun hwnnw.

The report commissioned by the former Minister for agriculture and the former Deputy Minister for Skills by Professor Wynne Jones on the development of rural skills will play a very important part in that. I look forward to seeing that report.

Another sector that we need to be conscious of as having, maybe, a mixed future is the organic sector. Back at the Royal Welsh Show, a number of meat industry professionals raised with me real concerns about the recent exodus from the organic sector that they fear will affect our ability to deliver the quality and supply of organic produce that this nation needs. In that context, I am very glad that the Environment and Sustainability Committee is about to embark upon an inquiry in this very important field, and I know that a consultation is still live in that regard.

Over the next period, I would encourage the Welsh Government to do all in its power to explore the potential offered by share farming as also being a way of providing new entrants with access to the land, which is absolutely critical if this industry is to have the future that it deserves. I am very grateful to Llyr Gruffydd for agreeing to support amendment 1, and the opposition to amendment 2 is of no great surprise. What we have today is a real opportunity to form a genuine prospect for the future of this industry, which is one of success. It is really important that we take every opportunity that we have to pave the way to a successful rural industry for agriculture in this country. I am very grateful for the opportunity to contribute today.

Bydd yr adroddiad a gomisiynodd y cyn Weinidog amaethyddiaeth a'r cyn Ddirprwy Weinidog Sgiliau gan yr Athro Wynne Jones ar ddatblygu sgiliau gwledig yn rhan bwysig iawn o hynny. Edrychaf ymlaen at weld yr adroddiad hwnnw.

Sector arall sydd angen i ni fod yn ymwybodol y gallai fod yn wynebu dyfodol cymysg yw'r sector organig. Yn ôl yn Sioe Frenhinol Cymru, daeth nifer o weithwyr proffesiynol y diwydiant cig â phryderon gwirioneddol i fy sylw ynghylch yr ecsodus diweddar o'r sector organig y maent yn ofni y bydd yn effeithio ar ein gallu i sicrhau'r ansawdd a'r cyflenwad o gynnyrch organig sydd eu hangen ar y genedl hon. Yn y cyd-destun hwnnw, rwy'n falch iawn bod y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar fin dechrau ar ymchwiliad yn y maes pwysig hwn, a gwn fod ymgynghoriad yn dal ar y gweill yn y cyswllt hwnnw.

Dros y cyfnod nesaf, byddwn yn annog Llywodraeth Cymru i wneud popeth o fewn ei gallu i edrych ar y potensial a gynigir gan ffermio cyfran fel ffordd hefyd o roi mynediad i'r tir i newydd-ddyfodiaid, sy'n gwbl hanfodol os yw'r diwydiant hwn i gael y dyfodol y mae'n ei haeddu. Rwy'n ddiolchgar iawn i Llyr Gruffydd am gytuno i gefnogi gwelliant 1, ac nid yw'r gwrthwynebiad i welliant 2 yn syndod mawr. Yr hyn sydd gennym heddiw yw cyfle gwirioneddol i ffurfio gwir obaith am ddyfodol llwyddiannus i'r diwydiant hwn. Mae'n bwysig iawn ein bod yn manteisio ar bob cyfle a gawn i baratoi'r ffordd ar gyfer diwydiant gwledig llwyddiannus i amaethyddiaeth yn y wlad hon. Rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfle i gyfrannu heddiw.

16:54

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I call on Russell George to move amendments 3, 4, 5, 6, 7, 8 and 9, tabled in the name of Paul Davies.

Galwaf ar Russell George i gynnal gwelliannau 3, 4, 5, 6, 7, 8 a 9, a gyflwynir yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Amendment 3—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at benderfyniad Llywodraeth Cymru i dorri'r gyllideb Amaethyddiaeth a Bwyd o 17.8% a'r gyllideb Iechyd Anifeiliaid o 20.7% yng Nghyllideb Ddrafft 2015-16.*

*Regrets the Welsh Government's decision to cut the Agriculture and Food budget by 17.8% and the Animal Health budget by 20.7% in the Draft Budget 2015-16.*

*Gwelliant 4—Paul Davies*

*Amendment 4—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adfer swydd benodol yn y Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros Amaethyddiaeth a Bwyd.*

*Calls on the Welsh Government to reinstate a dedicated Cabinet level post for Agriculture and Food.*

*Gwelliant 5—Paul Davies*

*Amendment 5—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gefnogi cod ymarfer gwirfoddol ar gyfer archfarchnadoedd i neilltuo rhan amlwg o'u harwynebedd llawr ar gyfer cig ansawdd uchel o Gymru sydd â statws Dynodiad Daearyddol Gwarchoddedig a chig Tractor Coch Prydeinig.*

*Calls on the National Assembly for Wales to support a voluntary code of practice for supermarkets to dedicate a prominent section of floor space for high quality Welsh PGI status and British Red Tractor meat.*



Gwelliant 6—Paul Davies

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn credu y byddai lleoli lladd-dy cig eidion a chig oen yng ngogledd Cymru yn sicrhau cynaliadwyedd cynhyrchu cig coch yng ngogledd Cymru.*

Gwelliant 7—Paul Davies

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddiwygio'r ardoll hybu cig er mwyn sicrhau bod yr ardoll yn daladwy i'r wlad lle cafodd yr anifail ei eni.*

Gwelliant 8—Paul Davies

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod canran uwch o'r cynnyrch a brynir drwy brosesau caffael cyhoeddus yn dod o Gymru.*

Gwelliant 9—Paul Davies

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar gylch gorchwyl yr adolygiad annibynnol o'r diwydiant llaeth yng Nghymru i gynnwys datblygu cynllun gweithredu strategol cynhwysfawr i gefnogi'r diwydiant llaeth.*

Amendment 6—Paul Davies

*Add as new point at end of motion:*

*Believes that a North Wales based beef and lamb abattoir would ensure the long term sustainability of red meat production in North Wales.*

Amendment 7—Paul Davies

*Add as new point at end of motion:*

*Calls on the Welsh Government to work with the UK Government to reform the meat promotional levy to ensure that the levy is payable to the country in which the animal is born.*

Amendment 8—Paul Davies

*Add as new point at end of motion:*

*Calls on the Welsh Government to increase the percentage of public procurement of Welsh produce.*

Amendment 9—Paul Davies

*Add as new point at end of motion:*

*Calls for the terms of reference of the independent review of the dairy industry in Wales to include the development of a comprehensive strategic action plan to support the dairy industry.*

16:54

**Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 3, 4, 5, 6, 7, 8 and 9.

I would like to indicate my support for Plaid's motion, and I hope that Members will consider supporting our amendments, which I feel strengthen the motion further. I appreciate Plaid's indication that it will support all our amendments in a loose kind of way—I think it supported them.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Cynigiad welliannau 3, 4, 5, 6, 7, 8 a 9.

Hoffwn ddangos fy nghefnogaeth i gynneg Plaid Cymru, a gobeithiaf y bydd yr Aelodau'n ystyried cefnogi ein gwelliannau, sydd yn fy marn i'n cryfhau'r cynnig ymhellach. Rwy'n gwerthfawrogi dynodiad Plaid Cymru y bydd yn cefnogi ein holl welliannau i raddau mwy neu lai—rwy'n credu ei bod yn eu cefnogi.

With regard to amendment 3, we feel that farmers deserve clarity from the Deputy Minister as to how the 17.8% cut in the agriculture and food budget will affect farmers. Farmers already have a difficult economic outlook with statistics showing that the average farm business income in Wales fell by 30% to £28,400 last year. This has been further compounded by tough market conditions in the dairy, beef and lamb industries, which we all know about. So, does the Welsh Government think that cutting the natural resources budget is really the sort of support that our rural farming communities need at this time? I have to say that the Deputy Minister must have been bitterly disappointed at the cut after being in post for just a few weeks, and disappointed that she was not able to stand up for Welsh farmers in budget negotiations with her more senior colleagues. I think firmly that the Deputy Minister should be promoted, and that we should have a dedicated voice at the Cabinet table with an exclusive focus on farming. So, therefore, I move amendment 4.

On amendments 5, 6, 7 and 8, Members may be aware that the Welsh Conservatives launched proposals for the sustainability of the red meat industry in Wales at this year's Royal Welsh Show. Our red meat industry is absolutely critical to the Welsh economy, but it needs innovative Government thinking. Supermarkets must play a part, and I want to see every single store sign up to a voluntary code of practice that commits them to dedicating a prominent section of floor space to the promotion and support of high-quality Welsh lamb and beef. That is the vote of confidence that I think our producers deserve. A north Wales abattoir, reform of the red meat promotional levy and boosted public procurement of red meat are also desperately needed proposals that will ensure that the Welsh red meat industry has a bright and sustainable future.

Turning to dairy, I recall participating in a debate almost three years ago, which resolved to tackle unfair commercial practices and contractual issues between farmers, dairy companies and retailers. Unfortunately, contractual concerns remain, and still affect the industry today. It is an incredibly difficult time for dairy farmers who are suffering from significant price cuts, an increase in supply and the lack of demand from international markets. So, it is now critical, I think, that the Welsh Government uses the powers at its disposal to help to support the industry. More must be done to support the supply chain, build markets and deliver a sustainable milk price. May I say that the Welsh Government does not seem to have an overall strategic approach to the dairy industry in Wales? It has the 2007 strategic action plan, the 2010 road map and the 2012 plan for milk, but there is no clarity as to how all of these plans and policies are interlinked. This is why we are calling for the terms of reference of the recently announced independent review of the dairy industry in Wales to include provision for the development of a comprehensive strategic action plan for the dairy industry in Wales. I therefore move amendment 9 in the name of Paul Davies.

O ran gwelliant 3, rydym yn teimlo bod ffermwyr yn haeddu eglurder gan y Dirprwy Weinidog ynghylch sut y bydd y toriad o 17.8% yn y gyllideb amaethyddiaeth a bywyd yn effeithio ar ffermwyr. Mae'r rhagolygon economaidd eisoes yn anodd i ffermwyr gydag ystadegau'n dangos bod incwm cyfartalog busnesau fferm yng Nghymru wedi gostwng o 30% i £28,400 y llynedd. Cymhlethir hyn ymhellach gan yr amodau marchnad anodd y gwyddom oll amdanynt yn y diwydiannau llaeth, cig eidion a chig oen. Felly, a yw Llywodraeth Cymru yn credu mai tori'r gyllideb adnoddau naturiol yw'r math o gefnogaeth sydd ei angen mewn gwirionedd ar ein cymunedau ffermio gwledig ar hyn o bryd? Rhaid bod y Dirprwy Weinidog yn eithriadol o siomedig am y toriad ar ôl bod yn y swydd am ychydig wythnosau'n unig, ac yn siomedig na allodd sefyll dros ffermwyr Cymru mewn trafodaethau ar y gyllideb gyda'i chydweithwyr uwch. Credaf yn gryf y dylai'r Dirprwy Weinidog gael ei dyrchafu, ac y dylem gael llais penodol wrth fwrdd y Cabinet i ganolbwyntio ar ffermio'n unig. O'r herwydd, cynigiau welliant 4.

O ran gwelliannau 5, 6, 7 ac 8, efallai bod yr Aelodau'n ymwybodol i'r Ceidwadwyr Cymreig lansio cynigion ar gynaliadwyedd y diwydiant cig coch yng Nghymru yn Sioe Frenhinol Cymru eleni. Mae ein diwydiant cig coch yn hollol hanfodol i economi Cymru ond mae angen i'r Llywodraeth feddwl yn arloesol. Mae'n rhaid i archfarchnadoedd chwarae rhan, ac rwyf am weld pob siop yn dilyn cod ymarfer gwirfoddol sy'n eu hymrwymyo i neilltuo rhan amlwg o arwynebedd llawr ar gyfer hyrwyddo a chefnogi cig oen a chig eidion Cymru o ansawdd uchel. Dyna'r bleidlais o hyder y mae ein cynhyrchwyr yn ei haeddu yn fy marn i. Mae cael lladd-dy yng ngogledd Cymru, diwygio'r lefi hybu cig coch a hybu caffael cyhoeddus ar gyfer cig coch hefyd yn gynigion sydd eu hangen yn enbyd i sicrhau dyfodol disglair a chynaliadwy i ddiwydiant cig coch Cymru.

Gan droi at gynnyrch llaeth, rwy'n cofio bod yn rhan o ddadl bron i dair blynedd yn ôl ynglŷn â mynd i'r afael ag arferion masnachol annheg a materion cytundebol rhwng ffermwyr, cwmnïau llaeth a manwerthwyr. Yn anffodus, mae pryderon cytundebol yn parhau, ac yn dal i effeithio ar y diwydiant heddiw. Mae'n adeg hynod anodd i ffermwyr godro sy'n dioddef o ganlyniad i doriadau sylweddol mewn prisiau, cynnydd yn y cyflenwad a diffyg galw gan farchnadoedd rhyngwladol. Felly, credaf ei bod bellach yn hanfodol i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddi i helpu i gefnogi'r diwydiant. Rhaid gwneud mwy i gefnogi'r gadwyn gyflenwi, adeiladu marchnadoedd a chyflwyno pris llaeth cynaliadwy. A gaf fi ddweud nad yw'n ymddangos bod gan Lywodraeth Cymru dull strategol cyffredinol o weithio gyda'r diwydiant llaeth yng Nghymru? Mae ganddi gynllun gweithredu strategol 2007, map ffordd 2010 a chynllun llaeth 2012, ond nid oes eglurder o ran sut y mae'r holl gynlluniau a pholisïau hyn yn cysylltu â'i gilydd. Dyma pam rydym yn galw am i gylch gorchwyl yr adolygiad annibynnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar y diwydiant llaeth yng Nghymru gynnwys darpariaeth ar gyfer datblygu cynllun gweithredu strategol cynhwysfawr ar gyfer y diwydiant llaeth yng Nghymru. Cynigiau felly welliant 9 yn enw Paul Davies.

Finally, I want our farmers to succeed in an open market. We cannot continue to saddle the industry with the extra burden of cost relative to their competitors, and we must look to facilitate rather than regulate. The Plaid spokesperson has already talked about the 15% transfer between pillar 1 and pillar 2 and the disappointment about that. At a time when farming in Wales is coming under considerable pressure, the Welsh Government is putting Welsh farmers at a competitive disadvantage compared with other parts of the UK and Europe. So, let us create the right conditions for our farming industry to thrive, and to do so I think that it would be right to put a Minister for agriculture and food at the top table, where he or she deserves to be, and create a Cabinet Minister for farming. I have run out of time, so I commend our amendments and the motion and urge Members to support them.

Yn olaf, rwyf am i'n ffermwyr lwyddo mewn marchnad agored. Ni allwn barhau i roi'r baich ychwanegol ar y diwydiant o gymharu â'u cystadleuwyr, a rhaid i ni geisio hwyluso yn hytrach na rheoleiddio. Mae llefarydd Plaid Cymru eisoes wedi siarad am y trosglwyddiad o 15% rhwng colofn 1 a cholofn 2 a'r siom sydd ynghylch hynny. Ar adeg pan fo ffermio yng Nghymru yn dod o dan bwysau sylweddol, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi ffermwyr Cymru o dan anfantais gystadleuol o gymharu â rhannau eraill o'r DU ac Ewrop. Felly, gadewch i ni greu'r amodau cywir i'n diwydiant ffermio ffynnu, ac i wneud hynny credaf y byddai'n deg rhoi lle i Weinidog amaethyddiaeth a bywd wrth y prif fwrdd, lle y dylai ef neu hi fod, a chreu Gweinidog Cabinet ar gyfer ffermio. Ni does gennyf ragor o amser, felly rwy'n cymeradwyo ein gwelliannau a'r cynnig ac yn annog yr Aelodau i'w cefnogi.

16:59

## Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rydym wedi clywed y prynhawn yma eisoes am sut y mae'r prisiau sy'n cwmpo ar hyn o bryd yn cael effaith andwyol ar incwm ffermwyr a chynaliadwyedd ein ffermydd ni yma yng Nghymru, ac mae'n rhaid inni dderbyn, wrth gwrs, fod rhan helaeth o'r farchnad rydd y tu hwnt i bwerau Llywodraeth Cymru, er bod camau y gall y Dirprwy Weinidog gymryd i warchod ffermwyr hefyd, o rywfaint o anweddolrwydd prisiau'r farchnad. Fodd bynnag, mae gweithredu'r cynllun datblygu gwledig yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Dirprwy Weinidog. Mae ffermwyr Cymru yn awr yn disgwyl i'r Dirprwy Weinidog sicrhau bod y cynllun datblygu gwledig yn cael ei ddefnyddio i gefnogi ffermio'n uniongyrchol, yn enwedig, wrth gwrs, y £250 miliwn sydd wedi'i drosglwyddo o echel 1 i echel 2.

Rwyf eisieu defnyddio fy nghyfraniad y prynhawn yma i dynnu sylw at dri mater penodol o fewn y cynllun datblygu gwledig hwnnw. Yn gyntaf, yn fy marn i, mae angen cynyddu'r ganran o'r gyllideb yn y cynllun datblygu gwledig sy'n mynd yn syth at fuddsoddi ar fferm. Mae angen cefnogi nifer o'n ffermydd i foderneiddio eu cynhyrchiant, ac, i alluogi hynny, mae angen gyfundrefn o grantiau buddsoddi uniongyrchol i ffermwyr, fel y gallent gryfhau eu busnesau fferm.

Pwrpas penderfyniad y Gweinidog blaenorol i fodiweiddio piler 1 ar lefel o 15% oedd lleihau dibyniaeth y fferm ar daliad cyhoeddus uniongyrchol a chryfhau cynaliadwyedd economaidd ein ffermydd ni. Dylai ddilyn, felly, fod rhaglen o gymorth ariannol benodol i ffermwyr i fuddsoddi yn eu busnesau a bod y gronfa ar gyfer hynny yn un sylweddol o dan y cynllun datblygu gwledig nesaf.

We have heard this afternoon about how falling prices at present are having a detrimental effect on farmers' incomes and the sustainability of our farms here in Wales, and we must accept, of course, that a substantial part of the free market is beyond the powers of Welsh Government, although there are steps that the Deputy Minister can take to safeguard farmers from some of the vagaries of the market. However, implementing the rural development plan is completely within the control of the Deputy Minister. The farmers of Wales are now expecting the Deputy Minister to ensure that the rural development plan is used to directly support farming, particularly, of course, the £250 million that has been transferred from pillar 1 to pillar 2.

I want to use my contribution this afternoon to refer to three specific matters within the rural development plan. First, I think we need to increase the proportion of the budget in the rural development plan that goes directly into farm investment. We need to support a number of our farmers to modernise their production, and, to enable that, we need a system of direct investment grants for farmers, so that they can strengthen their farm businesses.

The purpose of the previous Minister's decision to modulate pillar 1 at a level of 15% was to reduce farm dependence on direct public payments and to increase the economic viability of our farmers. It should follow, therefore, there is a specific funding programme for farmers to invest in their businesses and that the fund for that is a substantial one under the next rural development programme.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Mae lle pendant iawn yn y cynllun datblygu gwledig i Gyswllt Ffermio ac mae gwaith da iawn yn cael ei wneud gan Gyswllt Ffermio, a Menter a Busnes yn benodol wedi sicrhau ffocws a chyfeiriad i'r gwaith hwn o dan ymbarél Cyswllt Ffermio. Fodd bynnag, mae'n rhaid gochel, yn y cynllun datblygu gwledig nesaf, rhag creu cyfundrefn lle mae 'access' ffermwyr i grantiau buddsoddi ond ar gael trwy ymgynghorwyr penodol o dan Gyswllt Ffermio. Mae'r rhan fwyaf o ffermwyr yn fwy na digon abl i gynllunio'u busnesau ac i wneud ceisiadau am grantiau heb orfod defnyddio ymgynghorwyr drud wedi'u hariannu gan y pwrs cyhoeddus. Roedd hon yn neges gref y clywodd y Gweinidog ar y pryd a'r Dirprwy Weinidog yn uniongyrchol oddi wrth ffermwyr yn fy etholaeth i, pan wnaethant ymweld â sioe Aberteifi yn ystod yr haf.

Rwyf i hefyd eisiau cyfeirio, yn y fan hon, o dan y cynllun datblygu gwledig, at benderfyniad y Dirprwy Weinidog yn ddiweddar i beidio â chreu cynllun ANC, 'area of natural constraint', penodol—sef cynllun ar gyfer ardal gyfyngedig o rostir y byddwn yn rhagweld y byddai cynllun o'r math hwnnw. Mae penderfyniad y Gweinidog blaenorol i gyflwyno taliad o ddim ond €20 yr hectar i dir yn uwch na 400m yng Nghymru wedi bod yn ergyd ariannol enfawr i nifer fach, ond nifer bwysig, o ffermwyr Cymru. Roedd y penderfyniad ar ben hynny i beidio â chreu cynllun rhostir yn ergyd ychwanegol i'r grŵp bach hwn o ffermwyr.

Mae cyfyngiadau amgylcheddol ar y tir a'r ffermydd hyn yn y rhostir, a hefyd mae cyfyngiadau tywydd a chyfyngiadau naturiol eraill ar y ffermydd hyn ar yr ucheldir. Bach iawn yw hyblygrwydd y ffermydd hyn i arallgyfeirio ac i arallgyfeirio oddi wrth ffermio defaid mynydd traddodiadol. Mae ffermwyr y rhostir yn flin iawn gyda'r penderfyniad ar daliadau piler 1 yn wreiddiol, a bellach y penderfyniad i beidio â chyflwyno cynllun penodol ar gyfer y rhostir. Rwyf i bellach ar ddeall bod adolygiad barnwrol o benderfyniad y Dirprwy Weinidog ar y gweill gan ffermwyr yr ucheldir. Mae cyfle i'r Dirprwy Weinidog i ailfeddwl ei phenderfyniad ar gynllun rhostir, ac fe fyddem yn erfyn arni i wneud hynny ac i wneud hynny ar fyrder.

There is a definite place in the rural development plan for Farming Connect and very good work has been done by Farming Connect, and Menter a Busnes in particular has ensured a focus and direction for this work under the umbrella of Farming Connect. However, we must be careful, in the next rural development plan, to ensure that we do not create a system whereby farmers' access to investment grants is available only through particular advisers under Farming Connect. The majority of farmers are more than able to plan their businesses and to submit grant applications without having to use expensive advisers funded by the public purse. That was a strong message that the Minister at the time and the Deputy Minister heard from farmers in my constituency, when they visited Cardigan show during the summer.

I also wish to refer here, under the rural development plan, to the decision of the Deputy Minister recently not to create a specific area of natural constraint scheme—that is, a scheme for a restricted area of moorland, I would anticipate. The decision of the previous Minister to introduce a payment of only €20 per hectare for land above 400m in Wales has been a terrible financial blow for a small number, but an important number, of Welsh farmers. The decision then not to create a moorland scheme was an additional blow for this small group of farmers.

There are environmental constraints on the land and these farmers in the moorlands, and there are also the constraints of the weather and other natural constraints on these farms in the uplands. These farms have very little flexibility to diversify and to diversify away from traditional mountain sheep farming. The moorland farmers are very angry with the original decision on pillar 1 payments, and now with the decision not to introduce a specific scheme for the moorlands. I understand that there is a judicial review of the Deputy Minister's decision that has been launched by upland farmers. There is an opportunity for the Deputy Minister to rethink her decision on a moorland scheme, and I would implore her to do so as a matter of urgency.

17:04

## Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Food policy economists at City University London estimate that a quarter of all farmers across the UK are living in poverty. My question is: why? That is despite the subsidies that farmers get from pillar 1 payments from the rural development plan, which go directly to farmers. What exactly is going on? Some £196 billion is spent on food every year in the UK; £98 billion of that goes to food retailers and £9.2 billion goes to farmers. So, there is something there that tells me that it is something to do with supply chains as much as it is with the inevitable decrease in the subsidy that will be coming from Europe. We have to wake up and smell the cooking, because the pillar 1 subsidies are going down, and they will continue to go down. So, I fully support the Government's decision to top-slice 15% and put it into pillar 2 in order to support farmers to become more viable as subsidies continue to go down.

Mae economegwyr polisi bwyd ym Mhrifysgol Dinas Llundain yn amcangyfrif bod chwarter holl ffermwyr y DU yn byw mewn tlodi. Fy nghwestiwn yw: pam? Mae hynny er gwaethaf y cymorthdaliadau y mae ffermwyr yn eu cael o daliadau colofn 1 y cynllun datblygu gwledig, sy'n mynd yn uniongyrchol i ffermwyr. Beth yn union sy'n digwydd? Mae oddeutu £196 biliwn yn cael ei wario ar fwyd bob blwyddyn yn y DU; mae £98 biliwn o hynny'n mynd i fanwerthwyr bwyd a £9.2 biliwn yn mynd i ffermwyr. Felly, mae rhywbeth yno sy'n dweud wrthyf ei fod yn rhywbeth i'w wneud â chadwyni cyflenwi lawn cymaint â'r gostyngiad anochel yn y cymhorthdal a ddaw o Ewrop. Mae'n rhaid i ni fod yn effro i'r hyn sy'n digwydd, oherwydd mae cymorthdaliadau colofn 1 yn gostwng, a byddant yn parhau i ostwng. Felly, rwy'n llwyr gefnogi penderfyniad y Llywodraeth i frigdorri 15% a'i roi yng ngholofn 2 er mwyn cynorthwyo ffermwyr i ddod yn fwy hyfyw wrth i gymorthdaliadau barhau i ostwng.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

So, 'Are co-operatives the solution?' I asked myself. We have the oldest and largest dairy co-op in Wales, South Caernarfon Creameries, operating since 1938, 100% owned by farmers, and with all its non-executive directors elected from its 110 farm members. The creamery is on the eastern edge of the Llŷn peninsula, an area renowned for abundant grass due to the mild weather from the Gulf Stream, so it is clearly playing to our natural strengths to have a dairy industry in that area. It surprises me, in a way, that, for the Dragon label, which is so well recognised across Wales, the main outlets are four of the big supermarkets. Even the UK-wide First Milk, the largest farmer-owned co-operative in the country, has also been subjected to the suppression of prices by the supermarkets, and has slashed its milk prices to producers by 3p a litre. So, even it does not have the clout to enable it to get a fair price to at least cover the cost of producing the milk.

Why is it that even these large co-ops are in such a disadvantaged position with the supermarkets that they trade with? The Deputy Minister mentioned earlier that 50% of Welsh milk is sold as liquid and 50% is processed, and I can see that that might be a way forward, because processed milk does not have such a short shelf life. However, is the solution to process more of our milk into cheese and yoghurt? Not necessarily. Yes, South Caernarfon Creameries has an excellent brand in its Dragon cheeses, but let us look at what happened to First Milk, which closed its cheese-packing plant near Wrexham as soon as it lost its contract with Asda. I am still struggling to understand why, having lost one contract, it could not develop new contracts. Wrexham is within easy distance of large urban areas around Liverpool and Manchester, with very significant cheese chompers. It is not just Wallace and Gromit that like cheese. Why is it that we cannot circumvent the power of individual, very large, multinational supermarkets, which are constantly driving down prices and driving down quality at the same time?

The key is how we are going to deploy pillar 2 of the RDP to enable us to have a vibrant rural industry, because, at the moment, much of the RDP seems to be ending up subsidising the supermarkets, which clearly do not need subsidising. Deputy Minister, you are reviewing the plan for milk and the voluntary code, which is good. Would you consider replacing the voluntary code with a compulsory one to give the producers, that is, the farmers, more clout? Would you look at reinstating the Milk Marketing Board, scrapped by the Tories in 1993? It is an absolute anomaly that, while children go hungry, there is a glut of milk production across Europe. No-one wants to go back to the milk lakes of old, but the horsemeat scandal reminds us, in case we needed reminding, that locally produced food is much easier to regulate than something produced thousands of miles away. So, in my view, we have to strengthen our local distribution network so that we are less dependent on multinational businesses with little concern for the economy of Wales.

Felly, 'ai cwmnïau cydweithredol yw'r ateb?' gofynnais i mi fy hun. Dyna gwmni llaeth cydweithredol hynaf a mwyaf Cymru, Hufenfa De Arfon, sy'n gweithredu ers 1938, ac sy'n eiddo 100% i ffermwyr, a'i holl gyfarwyddwyr anweithredol wedi'u hethol o blith y 110 o ffermydd sy'n aelodau o'r cwmni cydweithredol. Mae'r hufenfa ar ymyl ddwyreiniol penrhyn Llŷn, ardal sy'n enwog am ei glaswellt toreithiog oherwydd y tywydd mwyn o Lif y Gwlff, felly mae'n amlwg fod cael diwydiant llaeth yn yr ardal honno yn ategiad i'n cryfderau naturiol. Mae'n syndod i mi, mewn ffordd, mai pedair o'r archfarchnadoedd mawr yw'r prif farchnadoedd ar gyfer label Dragon, brand sydd mor adnabyddus ledled Cymru. Mae hyd yn oed First Milk, y cwmni cydweithredol mwyaf yn y wlad sy'n eiddo i ffermwyr ac sy'n gweithredu ledled y DU, hefyd wedi dioddef o ganlyniad i ostwng prisiau gan yr archfarchnadoedd, ac wedi torri 3c y litr oddi ar eu prisiau llaeth i gynhyrchwyr. Felly, nid oes ganddynt hwy, hyd yn oed, y grym i'w galluogi i gael pris teg i dalu am y gost o gynhyrchu'r llaeth fan lleiaf.

Pam y mae hyd yn oed y cwmnïau cydweithredol mawr hyn dan gymaint o anfantais gyda'r archfarchnadoedd y maent yn masnachu gyda hwy? Soniodd y Dirprwy Weinidog yn gynharach fod 50% o laeth Cymru'n cael ei werthu fel hylif a 50% yn cael ei brosesu, a gallaf weld sut y gallai hynny fod yn ffordd ymlaen, oherwydd nad oes gan laeth wedi ei brosesu oes sillf cyn fyrdd. Fodd bynnag, ai'r ateb yw prosesu mwy o'n llaeth yn gaws ac yn iogwrt? Ddim o reidrwydd. Oes, mae gan Hufenfa De Arfon frand rhagorol yn eu cawsiau Dragon, ond gadewch i ni edrych ar yr hyn a ddigwyddodd i First Milk, a gaeodd eu ffatri bacio caws ger Wrecsam cyn gynted ag y collasant eu cytundeb gydag Asda. Rwy'n dal i fethu â deall pam, ar ôl colli un cytundeb, nad allasant ddatblygu cytundebau newydd. Mae Wrecsam o fewn pellter hwylus i ardaloedd trefol mawr o amgylch Lerpwl a Manceinion, gyda nifer sylweddol o fwytywyr caws. Nid Wallace a Gromit yn unig sy'n hoffi caws. Pam na allwn osgoi grym archfarchnadoedd unigol, enfawr, amlwladol, sy'n gwrthio prisiau i lawr yn gyson ac yn pryd?

Yr allwedd yw hyn: sut rydym yn mynd i ddefnyddio colofn 2 y Cynllun Datblygu Gwledig i'n galluogi i gael diwydiant gwledig bywiog, oherwydd ar hyn o bryd, ymddengys bod llawer o'r Cynllun Datblygu Gwledig yn y pen draw yn rhoi cymorthdal i'r archfarchnadoedd, nad oes angen cymorth arnynt, yn amlwg. Ddirprwy Weinidog, rydych yn adolygu'r cynllun llaeth a'r cod gwirfoddol, sy'n beth da. A fydddech yn ystyried gosod cod gorfodol yn lle'r un gwirfoddol i roi mwy o rym i'r cynhyrchwyr, hynny yw, y ffermwyr? A fydddech yn ceisio adfer y Bwrdd Marchnata Llaeth a ddiddymwyd gan y Toriaid ym 1993? Mae'n anomaledd llwyr fod plant yn llwgu wrth i ormodedd o laeth gael ei gynhyrchu ledled Ewrop. Nid oes neb am ddychwelyd at yr hen lynnoedd llaeth ers llawer dydd, ond mae'r sgandal cig ceffyl yn ein hatgoffa, rhag ofn bod angen ein hatgoffa, fod bwyd a gynhyrchir yn lleol yn llawer haws i'w reoleiddio na rhywbeth a gynhyrchir filoedd o filltiroedd i ffwrdd. Felly, yn fy marn i, mae'n rhaid i ni gryfhau ein rhwydwaith dosbarthu lleol fel ein bod yn llai dibynnol ar fusnesau amlwladol sy'n hidio fawr ddim am economi Cymru.

17:09

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Conclude now, please.

Gorffennwch yn awr, os gwelwch yn dda.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:09 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad Biography](#)

Okay.

O'r gorau.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:09 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad Biography](#)

Fe lwyddodd Jenny Rathbone, ar ddiwedd ei chyfraniad, i gyrraedd y cwestiwn sylfaenol: sut yr ydym yn defnyddio'r cynllun datblygu gwledig ar gyfer sicrhau bod gennym ddiwydiant hyfyw yng Nghymru o ran cynhyrchu bwyd? Mae'r cwestiwn hwnnw'n berthnasol iawn.

Jenny Rathbone succeeded, at the end of her contribution, in arriving at the fundamental question: how do we use the RDP to ensure that we have a viable industry in Wales in terms of food production? That question is very pertinent.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Nid wyf wedi fy argyhoeddi bod gweddill ei chyfraniad hi'n berthnasol iawn i'r drafodaeth, ond mae'r cwestiwn hwnnw yn un sylfaenol, oherwydd fe wnaeth y cyn Weinidog benderfyniad y byddai rhai yn dweud yr oedd yn benderfyniad dewr ac y byddai eraill yn dweud yr oedd yn benderfyniad ffôl—mae'n dibynnu â phwy yr ydych yn siarad—i symud 15% o'r cyllid o biler 1 i biler 2. Fe ddylai'r cwestiwn hwnnw fod wedi ei ateb cyn gwneud y penderfyniad hwnnw, oherwydd os oes modd i ddefnyddio'r cynllun datblygu gwledig er mwyn cynnal diwydiant hyfyw yng Nghymru, yna mae dadl gref iawn dros y trosglwyddiad. Ond, fel dywedodd Llyr Huws Gruffydd wrth gyflwyno'r ddadl hon, fe ddylid fod wedi gwneud hynny'n raddol er mwyn caniatáu i amaethwyr gyfarwyddo â'r broses a chynllunio i'r dyfodol. Mae'n ymddangos i mi mai'r gwendid yw nad oedd trafodaeth ddigon eang yn Ewrop cyn gwneud y penderfyniad hwn, ynglŷn â'r potensial o ddefnyddio'r cynllun datblygu gwledig er mwyn creu cyfleoedd gwirioneddol i amaethwyr a oedd yn colli arian o'r taliad uniongyrchol ym mhiler 1.

I am not convinced that the rest of her contribution was pertinent, but that question is a fundamentally important one because the former Minister made a decision that some might say was a brave decision and others would describe as foolish—it depends on whom you speak to—to transfer 15% of funding from pillar 1 to pillar 2. That question should have been answered before that decision was taken, because if there is a means of using the rural development plan in order to sustain a viable industry in Wales, then there is a very strong argument for that transfer. However, as Llyr Huws Gruffydd said in opening this debate, that should have been done gradually in order to allow farmers to acclimatise to the process and to plan for the future. It appears to me that the weakness was that there was not a broad enough discussion in Europe before this decision was made on the potential for using the rural development plan in order to create real opportunities for farmers who were losing out from the direct payments in pillar 1.

Fe ges i drafodaeth gyda Gwilym Jones sy'n uwch-swyddog yn y Comisiwn amaethyddol a materion gwledig yn Ewrop, nôl yn 2013, pan roeddwn yn paratoui datganiad ar bartneriaethau preifat a chyhoeddus, gan edrych yn benodol ar rôl Banc Buddsoddi Ewrop. Roedd e'n dweud bryd hynny fod defnyddio'r Banc Buddsoddi Ewrop fel modd i wneud y gorau o'r arian a oedd ar gael yn y cynllun datblygu gwledig yn greiddiol i benderfyniad y Comisiwn i adolygu'r polisi amaeth cyffredinol. Nid wyf wedi clywed unrhyw beth yn y lle yma ynglŷn â bwriadau Llywodraeth Cymru i edrych ar hyn. Ond, y mae arian sylweddol ar gael, ac y mae pwyslais bellach gan y Comisiwn Ewropeaidd i edrych yn benodol ar y cynllun datblygu gwledig i weld lle y gellid cael cefnogaeth y banc hwn.

I had a discussion with Gwilym Jones, who is a senior official at the Commission for agriculture and rural affairs in Europe, in 2013, when I was preparing a statement of opinion on public-private partnerships, looking specifically at the role of the European Investment Bank. He said at that point that using the European Investment Bank as a means of making the most of the funding available in the rural development plan was at the heart of the Commission's decision to review the common agricultural policy. I have not heard anything in this place regarding the Welsh Government's intentions to look at this. However, there is significant funding available, and there is now an emphasis within the European Commission at looking specifically at the rural development plan to see where the bank can provide support.

Mae'r banc yn unigryw, oherwydd nid yw'n fanc masnachol. Nid yw'n edrych ar bethau'n fasnachol; mae'n edrych ar gynlluniau hirdymor, hyd at 30 mlynedd, gyda llog, ond nid yw'r llog mor gystadleuol â'r llog o fanc masnachol. Byddai modd wedyn i wneud y math o gynlluniau y mae pobl wedi bod yn sôn amdany'n nhw. Roedd Elin Jones, yn ei chyfraniad hi, yn sôn am y math o bethau y gellid eu gwneud a'u cefnogi er mwyn sicrhau bod ffermwyr yn gallu manteisio ar y penderfyniad hwn i symud yr arian.

The bank is unique, because it is not a commercial bank. It does not look at things in commercial terms; it looks at long-term proposals of up to 30 years, with interest payments, but the interest is not as competitive as would be the case with a commercial bank. There would be a way, then, of undertaking the kinds of schemes that people have mentioned. Elin Jones, in her contribution, talked about the kinds of things that could be done and the kinds of proposals that could be supported in order to ensure that farmers can benefit from this decision to transfer the funding.



Roedd Llyr Huws Gruffydd, yn ei gyflwyniad, yn sôn am y ffaith bod gennym y maes llaeth hwn yn ne-orllewin Cymru, sy'n cynnwys fy etholaeth i, ond bod diffyg enfawr o ran gallu prosesu i'w gael o fewn y maes llaeth ei hun. Mae unrhyw un yn gallu gweld bod symud llaeth dros bellter yn mynd i greu anfantaes i'r cynhyrchwyr. A oes unrhyw un yn Llywodraeth Cymru wedi edrych ar y posibiladau o ddefnyddio arian Ewropeaidd, o ddefnyddio cefnogaeth Banc Buddsoddi Ewrop, er mwyn creu uned brosesu a fyddai'n rhoi cryfder i'r diwydiant llaeth yn y maes llaeth arbennig hwn yn ne-orllewin Cymru?

Fe ddechreuais i drwy ddweud ei fod yn dibynnu â phwy yr ydych yn siarad a oedd penderfyniad y cyn Weinidog yn ddewr neu'n ffôl. Mae'r penderfyniad wedi ei wneud. Yr hyn sy'n rhaid i ni ei wneud 'nawr yw manteisio ar y penderfyniad hwnnw ac nid ei gyfyngu i gynlluniau penagored dros dro, ond edrych am gynlluniau hirdymor a fydd yn cynnwys ein cynhyrchwyr ni, oherwydd, yn y pen draw, mae'n rhaid i ni edrych ar y targedau sydd wedi cael eu gosod ar gyfer 2020, ac y mae Cymru, fel gwlad sy'n cynhyrchu, yn rhan annatod o'r angen i gyrraedd y targedau hynny o ran cynhyrchu bwyd.

17:14

## Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As people might expect, I approach a debate on CAP with the same level of trepidation that I assume any former Minister would feel when discussing their former responsibilities, especially when the motion being debated is somewhat critical, at times, of some of my decisions and approaches. Deputy Presiding Officer, you will be pleased to hear that I will do a little more in the time allowed this afternoon, I hope, than simply remake and restate my case.

I sought to reform agricultural support in Wales to make the industry more market-orientated and more business-focused. I believe that this approach has helped make our policy in Wales one of the most radical and far-sighted programmes in Europe. By negotiating the biggest RDP in our nation's history, I launched a programme of investment in agriculture that has the potential to make Wales not only the most efficient food producer in Europe, but also one whose industry has financial and business sustainability hard-wired throughout it. I accept completely the points that have just been made by Rhodri Glyn Thomas. This is absolutely essential if you want to see a future for agriculture.

I was very lucky to meet many wonderful families and hard-working farmers. I spent time with them in their homes and walking along fields, talking to them about their farms, their businesses, their homes. If we are to ensure a future for those people, we have to do more than read out press releases in debates of this sort. In succeeding to reform the structures of support, I was forced to fight time and again against a deep-seated hostility to reform and an unwillingness to ask fundamental and difficult questions about the future of the industry, both from those within the industry itself and those who purport to support it and its best interests.

Llyr Huws Gruffydd, in his opening remarks, mentioned the fact that we have a huge milk field in south-west Wales, which includes my own constituency, but that there is a huge deficit in terms of processing capacity within the milk field itself. Anyone can see that moving milk over long distances is going to create a disadvantage for producers. Is there anyone in the Welsh Government who has looked at the possibilities of actually using European funding, and using the support of the European Investment Bank to create a processing unit, which would provide resilience for the dairy industry in that particular milk field in south-west Wales?

I started by saying that it depends on whom you speak to as to whether the former Minister's decision was brave or foolish. The decision has been made. What we must do now is to take advantage of that decision and not restrict it to open-ended temporary schemes, but to seek long-term schemes that will include our producers, because, ultimately, we have to look at the targets set for 2020, and Wales, as a nation that produces food, is an integral part of the need to reach those targets in terms of food production.

Fel y gallwch ddisgwyl, rwy'n cymryd rhan mewn dadl ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin gyda'r un lefel o anesmwythder ag y tybiaf y byddai unrhyw gyn Weinidog yn ei themlo wrth drafod eu cyfrifoldebau blaenorol, yn enwedig pan fo'r cynnig dan sylw ar adegau'n eithaf beirniadol o rai o fy mhenderfyniadau a fy nulliau. Ddirprwy Lywydd, byddwch yn falch o glywed fy mod yn gobeithio gwneud ychydig mwy yn yr amser a ganiateir y prynhawn yma na dim ond ailadrodd ac ailddatgan fy achos.

Ceisiais ddiwygio cymorth amaethyddol yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y diwydiant yn canolbwyntio'n well ar y farchnad ac ar fusnes. Rwy'n credu bod y dull hwn wedi helpu i wneud ein polisi yng Nghymru yn un o'r rhaglenni mwyaf radical a phellweledol yn Ewrop. Drwy drafod y Cynllun Datblygu Gwledig mwyaf yn hanes ein cenedl, lansiais raglen o fuddsoddiadau mewn amaethyddiaeth a oedd â'r potensial i wneud Cymru nid yn unig yn gynhyrchydd bwyd mwyaf effeithlon Ewrop, ond hefyd yn un sydd â chynaliadwyedd ariannol a busnes yn treiddio drwy'i ddiwydiant. Rwy'n derbyn y pwyntiau sydd newydd gael eu gwneud gan Rhodri Glyn Thomas yn llwyr. Mae hyn yn gwbl hanfodol os ydych am weld dyfodol i amaethyddiaeth.

Roeddwn yn ffodus iawn i gwrdd â llawer o deuluoedd ardderchog a ffermwyr gweithgar. Treuliais amser gyda hwy yn eu cartrefi ac yn cerdded drwy gaeau, yn siarad â hwy am eu ffermydd, eu busnesau, eu cartrefi. Os ydym am sicrhau dyfodol i'r bobl hynny, mae'n rhaid i ni wneud mwy na darllen datganiadau i'r wasg mewn dadleuon fel hyn. Wrth lwyddo i ddiwygio'r strwythurau cymorth, cefais fy ngorfodi i ymladd dro ar ôl tro yn erbyn gelyniaeth ddofn tuag at ddiwygio ac amharodrwydd i ofyn cwestiynau sylfaenol ac anodd am ddyfodol y diwydiant, gan rai o fewn y diwydiant ei hun a rhai sy'n honni eu bod yn ei gefnogi ac yn cefnogi ei les.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

All too often, the agricultural industry finds itself locked in a culture that denies both the reality of the global markets within which it must compete and that does not understand its privileged position in the economies and communities of Europe.

Yn rhy aml o lawer, mae'r diwydiant amaethyddol yn cael ei gloi mewn diwylliant sy'n gwadu realiti'r marchnadoedd byd-eang y mae'n rhaid iddo gystadlu ynddynt ac sy'n methu â deall ei sefyllfa freintiedig o fewn economïau a chymunedau Ewrop.

17:16 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

17:16 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
No, I will not on this matter.

Na, ni dderbyniaf ymyriad ar y mater hwn.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

This denial of reality is aided and abetted by politicians who are afraid to speak the truth with and to farming interest groups. This motion for debate, I am afraid to say, is an example of that culture, and that fundamentally undermines the future of agriculture and farming businesses in Wales.

Mae'r gwadu realiti hwn yn cael ei helpu a'i annog gan wleidyddion sy'n ofni dweud y gwir wrth grwpiau ffermio. Mae'r cynnig hwn i'w drafod, mae'n ddrwg gen i ddweud, yn enghraifft o'r diwylliant hwnnw, ac mae hynny yn y bôn yn tansellio dyfodol busnesau amaethyddiaeth a ffermio yng Nghymru.

It is a motion that speaks of the hard and bleak financial position of farm businesses. However, we know that that is not entirely true. In the last decade, farm incomes increased by more than 70% in the face of the deepest recession of our lifetimes. At the same time, the rest of the Welsh population saw incomes rise by a little over 20%. Next month, the Deputy Minister will release figures that show an astonishing rise in farm incomes over previous years—80% in the dairy sector alone and over 30% in agriculture—across the whole industry. That is in a single year. This is also the year when we were told that Welsh agriculture was on its knees, that the snowfalls in the spring of 2013 had devastated the industry. Members of this Chamber sought to increase new and additional payments for the industry, and yet we have seen enormous increases in profitability. People must be held to account for what they were demanding then and what they are saying today. There is no other industry in our economy that has seen such an enormous increase in profitability, no other industry that continues to demand a permanent public subsidy, and no other industry that constantly demands additional forms of public support.

Mae'n gynnig sy'n trafod sefyllfa ariannol anodd a llwm busnesau ffermio. Fodd bynnag, gwyddom nad yw hynny'n hollol wir. Yn y degawd diwethaf, cynyddodd incwm ffermydd dros 70% yn wyneb dirwasgiad gwaethaf ein hoes. Ar yr un pryd, cododd incwm gweddill poblogaeth Cymru ychydig dros 20%. Y mis nesaf, bydd y Dirprwy Weinidog yn rhyddhau ffigurau sy'n dangos cynnydd syfrdanol yn incwm ffermydd dros y blynyddoedd diwethaf—80% yn y sector llaeth yn unig a thros 30% mewn amaethyddiaeth—dros yr holl ddiwydiant. Mae hynny mewn un flwyddyn. Hon hefyd yw'r flwyddyn pan ddywedwyd wrthym fod amaethyddiaeth Cymru ar ei gliniau, fod eira gwanwyn 2013 wedi dinistrio'r diwydiant. Ceisiodd Aelodau'r Siambr hon gynyddu taliadau newydd ac ychwanegol ar gyfer y diwydiant, ac eto rydym wedi gweld cynnydd enfawr mewn proffidioldeb. Rhaid i bobl fod yn atebol am yr hyn roeddent yn ei fynnu ar y pryd a'r hyn y maent yn ei ddweud heddiw. Nid oes unrhyw ddiwydiant arall yn ein heconomi sydd wedi gweld cynnydd mor enfawr mewn proffidioldeb, nid oes unrhyw ddiwydiant arall sy'n parhau i fynnu cymhorthdal cyhoeddus parhaol, ac nid oes unrhyw ddiwydiant arall sy'n mynnu ffurfiau ychwanegol o gefnogaeth gyhoeddus yn gyson.

Agriculture will not succeed while it is held back by a culture that is subsidy-focused and not business-focused. It is a culture that must change.

Ni fydd amaethyddiaeth yn llwyddo tra bydd yn cael ei ddal yn ôl gan ddiwylliant sy'n canolbwyntio ar gymorthdaliadau yn hytrach nag ar fusnes. Mae'n ddiwylliant sy'n rhaid ei newid.

17:18 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

17:18 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
I will not take an intervention, I am sorry.

Nid wyf am dderbyn ymyriad, mae'n ddrwg gennyf.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

It is a culture of demand and dependency that is preventing the industry from effectively competing in global markets. This culture will end. It is the policy of the Welsh Government that all farm payments will be published when the new regulations take effect next year. Let me say this and let me be clear: when these figures are made public, it will not only be people in this place who will need to account for their words and actions.

I still remember, Deputy Presiding Officer, the real shock when, as a Deputy Minister nearly three years ago, I was first given the full list of the 16,000 pillar 1 payments. I was reading those numbers, listening to those debates, answering those questions and understanding that an average farm in Wales will receive a subsidy two and a half times the average wage in my constituency. We need to understand that the debate that we are having today is not a debate that does agriculture any good at all. It is no surprise that the farming interest groups have fought so hard for so long to keep these things secret. However, within a year, all of these matters will be in the public domain, and then the industry and its representatives will need to follow a different debate and argue for a different future.

17:19

## Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad Biography](#)

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, am y cyfle i gyfrannu at y drafodaeth hon. Rydym yn gwybod bod cael diwydiant amaeth ffyniannus yn gallu bod yn hwb mawr i'r economi wledig drwyddi draw. Er gwaethaf y sylwadau rydym newydd eu clywed gan y cyn-Weinidog, rydym yn gwybod bod rhai sectorau o fewn y diwydiant amaeth yng Nghymru sydd ddim wedi perfformio cystal â sectorau eraill. Rydym yn gwybod bod amgylchiadau'n anodd iawn i ffermwyr yn nifer o'r sectorau hynny. Rydym yn gwybod am y cwmp sydd wedi bod, ac sy'n dal i ddigwydd, ym mhreis llaeth. Mae'r farchnad fyd-eang am gig coch yn dod yn fwy o bryder. Oes, mae rhywfaint o welliant wedi bod yn ddiweddar iawn, ond mae pris cig eidion yn dal rhyw 14% yn is nag ydoedd flwyddyn yn ôl. Mae pris cig oen wedyn yn dal i ddisgyn. Mae prisiau ŵyn wedi disgyn rhyw 8% yn y mis diwethaf yn unig.

Byddai cwmp tebyg mewn pris olew, dyweder, mewn gwlad sy'n ddibynol ar olew yn arwain at gonsŷrn go iawn gan Lywodraeth y wlad honno. Os meddylwn ni am brisiau cynnyrch amaeth fel yr olew yn ein cefn gwlad, nid yw'n ymddangos, yn y cyd-destun hwnnw, fod y Llywodraeth hon yn dangos yr un math o gonsŷrn ag y byddem yn ei ddisgwyl.

Pwrpas y ddadl y prynhawn yma yw galw ar y Llywodraeth i gymryd camau pendant a phob cam posibl i feddwl mewn ffyrdd gwahanol, efallai, i helpu'r diwydiant amaeth a thrwy hynny i helpu'r economi wledig drwyddi draw. Mae caffael yn un maes rydym yn dod yn ôl ato dro ar ôl tro. Dyma'r un maes lle'r ydym yn hyderus bod llawer mwy y gellid ei wneud gan y Llywodraeth i sicrhau bod cymaint â phosibl o'r bunt Gymreig yn aros yng Nghymru, ac yn benodol yn yr achos hwn yng nghefn gwlad Cymru.

Mae'n ddiwylliant sy'n seiliedig ar alw a dibyniaeth ac mae hynny'n atal y diwydiant rhag cystadlu'n effeithiol mewn marchnadoedd byd-eang. Bydd y diwylliant hwn yn dod i ben. Mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru y bydd pob taliad fferm yn cael ei gyhoeddi pan ddaw'r rheoliadau newydd i rym y flwyddyn nesaf. Gadewch i mi ddweud hyn a gadewch i mi fod yn glir: pan fydd y ffigurau hyn yn cael eu gwneud yn gyhoeddus, nid y bobl yn y lle hwn yn unig fydd angen rhoi cyfrif am eu geiriau a'u gweithredoedd.

Ddirprwy Lywydd, rwy'n dal i gofio'r sioc wirioneddol bron i dair blynedd yn ôl pan dderbyniais y rhestr lawn o'r 16,000 taliad colofn 1. Roeddwn yn darllen y rhifau hynny, yn gwrandao ar y dadleuon hynny, yn ateb y cwestiynau hynny ac yn deall y bydd fferm gyffredin yng Nghymru yn derbyn cymhorthdal sydd ddwywaith a hanner y cyflog cyfartalog yn fy etholaeth. Mae angen i ni ddeall nad yw'r ddadl rydym yn ei chael heddiw yn un sy'n gwneud unrhyw les o gwbl i amaethyddiaeth. Nid yw'n syndod fod grwpiau buddiannau ffermio wedi ymladd mor galed ers cymaint o amser i gadw'r pethau hyn yn gyfrinach. Fodd bynnag, o fewn blwyddyn, bydd pob un o'r materion hyn yn y parth cyhoeddus, ac yna bydd angen i'r diwydiant a'i gynrychiolwyr gynnig dadl wahanol a dadlau am ddyfodol gwahanol.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer, for the opportunity to contribute to this debate. We know that having a flourishing agriculture industry can be a great boost to the rural economy throughout. Despite the comments that we have just heard from the former Minister, we know that there are some sectors within the agriculture industry in Wales that have not performed as well as other sectors. We know that circumstances are very difficult for farmers in a number of those sectors. We know about the fall that has been, and still is, happening in the price of milk. The global market for red meat is becoming more of a concern. Yes, there has been a slight improvement very recently, but the price of beef is still down some 14% compared with last year. The price of lamb continues to fall. Lamb prices fell by 8% in the last month alone.

A similar decline in the price of oil, let us say, in a country dependent on oil would lead to a real concern on the part of the Government of that country. If we think about the price of agricultural produce as the oil of our countryside, it does not seem, in that context, as though the Government here is showing the same sort of concern as one would expect.

The purpose of this afternoon's debate is to call on the Government to take decisive action and to take every possible step, to think in different ways, perhaps, to assist the agriculture industry, thereby helping the rural economy as a whole. Procurement is one area that we return to time after time. This is the one area in which we feel that there is much more that could be done by the Government to ensure that as much of the Welsh pound as possible remains in Wales, and specifically in this case in rural parts of Wales.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Mae Plaid Cymru wedi ymgyrchu'n hir iawn i newid rheolau caffael yr Undeb Ewropeaidd. Mae newid wedi bod yn ddiweddar a llwyddiant wedi bod yn hynny o beth, ond nid oes newid polisi i weld wedi dod o du'r Llywodraeth. Rŵan, o dan y rheolau newydd, mae elfennau y gallai Llywodraeth Cymru fynd ar eu holau i warchod y sector amaeth—oddi wrth ansicrwydd rhyngwladol, er enghraifft.

Bydd Aelodau'n cofio, ddechrau'r flwyddyn hon, fod cais rhyddid gwybodaeth gan Plaid Cymru wedi dangos ystadegau brawychus, mewn difrif, gan awdurdodau lleol ar gaffael cinio ysgol. Tra bod Plaid Cymru yng Ngwynedd yn gwario pob dimai o'i £1.7 miliwn ar gyfer cinio ysgol o fewn Gwynedd neu o fewn gogledd Cymru, yn sicr nid yw hynny'n wir mewn ardaloedd eraill. Nid yw'n achos balchder o gwbl imi fod Ynys Môn yn gwario pob dimai o'i £1.2 miliwn nhw ar gyfer cinio ysgol ar gytundeb gyda chwmmi yn Reading, a'r cytundeb hwnnw yn mynnu bod 30% yn unig o'r cynnyrch yn y cinio ysgol yn gynnyrch Cymreig. Nid yw hynny'n ddigon da. Mae'r math hwnnw o beth yn gyffredin ar draws y sector cyhoeddus, nid dim ond mewn ysgolion.

Mae cynllun bwyd a diod Llywodraeth Cymru a gafodd ei gyhoeddi eleni yn dweud mai dim ond 40% o'r cig coch a gafodd ei brynu gan y sector cyhoeddus yng Nghymru y llynedd a oedd yn dod o Gymru. Roedd y ffigur yn 60% yn 2009. Felly, nid yn unig nad ydym yn ennill tir, ond rydym yn colli tir o hyd. Mae hwn yn arian sy'n cael ei wario beth bynnag, felly gadewch inni wneud yn siŵr ei fod yn cael ei wario ar gynnyrch o Gymru i gefnogi ein cynhyrchwyr a'n diwydiant amaeth.

Mae hynny'n wir ar draws y sectorau—y sector llaeth a'r sector cig coch. Deuaf at gig coch yn benodol yn y fan hon. Rydym angen sicrwydd hefyd ar fater gwahanol, sef y bydd y Gweinidog yn mynd ar ôl pob cam posibl i sicrhau bod adolygiad o reolau presennol y 'levy' cig coch yn digwydd. Mae dros flwyddyn erbyn hyn ers i DEFRA addo diwygio'r 'levy'. Rydym yn dal i aros. Nid yw'n gwneud synnwyr bod cymaint o'n harian 'levy' a ddylai fod yn aros yng Nghymru yn llithro dros y ffin tra bo Hybu Cig Cymru yn colli £1 miliwn pob blwyddyn. Wrth gwrs, mae rheswm pam mae cymaint yn cael ei golli, sef colli capasiti lladd-dai mewn ardaloedd fel fy etholaeth i—mater arall y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef. Rwyf wedi gwneud fy marn yn eithaf clir ar y mater hwnnw. Mae'r gwaith yn parhau o geisio gwthio am agor lladd-dy eto ym Môn, ond rydym wedi dod ar draws rhwystr ar ôl rhwystr. Rwy'n apelio'n daer ar y Llywodraeth i beidio â rhoi'r ffidil yn y to.

Beth bynnag, rwy'n falch bod y Ceidwadwyr wedi cynnig y gwelliant hwnnw ar y 'levy' cig coch. Mae'n eironig ei fod yn dod gan y Blaid Geidwadol, sydd mewn grym yn San Steffan, gan mai yn San Steffan y mae angen gwneud y newid. Felly, perswadiwch eich cyd-aelodau o'r blaid.

Mae'r rhain yn gamau synhwyrol ac yn gamau bychain a phendant iawn a allant wneud gwahaniaeth go iawn i'r diwydiant amaeth yng Nghymru.

Plaid Cymru has long campaigned to change European Union procurement rules. There has been some change and some success in that respect recently, but there does not seem to be any change in policy come from the Government. Now, under the new rules, there are elements that Welsh Government could pursue to protect the agricultural sector—from international vagaries, for example.

Members might recall that, at the beginning of this year, a freedom of information request by Plaid Cymru revealed what were, in reality, frightening statistics from local authorities on the procurement of school meals. While Plaid Cymru in Gwynedd spends every penny of its £1.7 million for school meals within Gwynedd or within north Wales, that is certainly not true in other areas. It is no source of pride to me that Anglesey spends every penny of its £1.2 million for school meals on a contract with a company in Reading, with that agreement stipulating that only 30% of the content of the school meals must be Welsh produce. That is not good enough. That kind of thing is quite common across the public sector, not just in schools.

The Welsh Government's food and drink strategy, published this year, states that only 40% of the red meat that was purchased in the public sector in Wales last year came from Wales. The figure was 60% in 2009. Therefore, not only are we not gaining any ground, but we are actually losing ground all the time. This is money that is being spent anyway, so let us ensure that it is spent on Welsh produce to support our producers and our agriculture industry.

That is true across sectors—the dairy and red meat sector. I come back to red meat in particular now. We also need an assurance on a different issue, namely that the Minister will pursue all possible steps to ensure that there is a review of the current rules governing the red meat levy. Over a year has lapsed now since DEFRA promised to reform the levy. We are still waiting. It does not make sense that so much of our levy moneys, which should remain in Wales, are slipping across the border while Hybu Cig Cymru is losing £1 million each year. Of course, there is a reason why so much is lost, and that is the loss of abattoir capacity in areas such as mine—another issue that must be addressed. I have made my views quite clear on that matter. Work is continuing to try to push for the reopening of the abattoir on Anglesey, but we have met with obstacle after obstacle. I implore the Government not to give up on that.

However, I am pleased that the Conservatives have tabled that amendment on red meat levy. It is ironic that it comes from the Conservative Party, which is in power at Westminster, and it is Westminster that needs to make the change. Therefore, please try to persuade your fellow party members.

These are sensible steps and are small, incremental but definite steps, and they could make a real difference to the farming industry in Wales.

17:25

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Deputy Minister for Farming and Food, Rebecca Evans.

Galwaf ar Rebecca Evans, y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

17:25

## Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*

Thank you. I thank Plaid Cymru for tabling this motion today and for giving me the opportunity to set the record straight. We will be opposing the motion because, although farming faces challenges, along with every industry in Wales, it also has many opportunities waiting to be seized.

The world's population is growing, and the resulting demand for food presents huge opportunities for our farmers. Consumers are interested in where their food comes from now and how it is produced, and that is good news for our farmers. On the subject of good news, Wales is outperforming the rest of the UK on food exports, which are up 16% compared here with 3% for the UK as a whole. This is combined with a substantial increase in inward investment, at the highest level in nearly 25 years.

It has been an exceptional year for the red meat sector. The weather has provided ideal growing conditions for grass, which has led to an increase in livestock stocking levels as well as improved growing yields in arable sectors. Exports of Welsh lamb and Welsh beef were worth more than £224 million to the Welsh economy last year, and the industry is now supporting 50,000 Welsh jobs, and we continue to work to open up new markets. I was also pleased to report last month that the recent forecasts show that average farm business incomes in Wales increased by around 32% in 2013-14. We will have the final figures soon, and then Llyr Gruffydd and Russell George can stop quoting the 2012 figures and start quoting the new figures.

Modern, professional, sustainable and, of course, profitable farm businesses are at the heart of our rural economy and communities, and that is this Government's vision. The European Union budget cut and falling public spending are unwelcome realities, but realities they are. This is a wake-up call to everyone in the industry who currently benefits from subsidies, particularly so for those whose businesses depend on public subsidy for their survival. Through pillar 2, the new rural development programme will be supporting rural communities and investing heavily in individual rural farm businesses. Schemes and interventions are being developed with the industry's input, and it is my intention to have some schemes ready to go in January of next year.

Diolch. Diolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r cynnig hwn heddiw ac am roi cyfle i mi egluro'r sefyllfa. Byddwn yn gwrthwynebu'r cynnig, oherwydd, er bod ffermio'n wynebu heriau fel pob diwydiant yng Nghymru, mae gan y diwydiant ffermio nifer o gyfleoedd hefyd yn aros i gael eu bachu.

Mae poblogaeth y byd yn tyfu, ac mae'r galw am fwyd o ganlyniad i hynny'n cynnig cyfleoedd enfawr i'n ffermwyr. Mae gan ddefnyddwyr ddiddordeb mewn gwybod o ble y daw eu bwyd a sut y mae'n cael ei gynhyrchu, ac mae hynny'n newyddion da i'n ffermwyr. Wrth sôn am newyddion da, mae Cymru'n perfformio'n well na gweddill y DU ar allforion bwyd, sydd wedi cynyddu 16% o'i gymharu yma â 3% ar gyfer y DU gyfan. Caiff hyn ei gyfuno gyda chynnydd sylweddol mewn mewnfuddsoddi, sydd ar y lefel uchaf ers bron i 25 mlynedd.

Mae hi wedi bod yn flwyddyn eithriadol ar y sector cig coch. Mae'r tywydd wedi creu amodau tyfu delfrydol ar gyfer glaswellt, sydd wedi arwain at gynnydd yn lefelau stocio da byw yn ogystal â gwella lefelau cynhyrchu yn y sectorau cynyddu. Mae'r diwydiant bellach yn cefnogi 50,000 o swyddi yng Nghymru, ac rydym yn parhau i weithio ar agor marchnadoedd newydd. Roeddwn hefyd yn falch o adrodd y mis diwethaf fod y rhagolygon diweddar yn dangos bod incwm busnesau fferm cyfartalog yng Nghymru wedi cynyddu tua 32% yn 2013-14. Bydd y ffigurau terfynol gennym cyn bo hir, yna gall Llyr Gruffydd a Russell George roi'r gorau i ddyfynnu ffigurau 2012 a dechrau dyfynnu'r ffigurau newydd.

Mae busnesau fferm modern, proffesiynol, cynaliadwy, a phroffidiol wrth gwrs, yn ganolog i'n heconomi a'n cymunedau gwledig, a dyna yw gweledigaeth y Llywodraeth hon. Mae'r toriad yng nghyllideb yr Undeb Ewropeaidd a'r gostyngiad mewn gwariant cyhoeddus yn wirioneddau digroeso, ond yn wirioneddau serch hynny. Dyma alwad i ddeffro pawb yn y diwydiant sydd ar hyn o bryd yn elwa ar gymorthdaliadau, yn enwedig felly'r rhai y mae eu busnesau yn dibynnu ar gymhorthdal cyhoeddus i allu goroesi. Drwy golofn 2, bydd y rhaglen ddatblygu gwledig newydd yn cefnogi cymunedau gwledig ac yn buddsoddi'n drwm mewn busnesau fferm gwledig unigol. Mae cynlluniau ac ymyriadau'n cael eu datblygu gyda mewnbwn y diwydiant, a bwriadaf sicrhau bod rhai o'r cynlluniau'n barod i ddechrau ym mis Ionawr y flwyddyn nesaf.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Today's motion seeks accelerated effort to reduce red tape. This shows a lack of appreciation of the significant progress that we have made to date. Working Smarter has achieved a considerable amount, but it is also about considerably more than simply reducing red tape, important though that is. Working Smarter seeks, at its core, an agriculture industry working jointly with Government for the best interests of farming, and that is happening increasingly on a wide range of important issues. We have ambitious plans to support the Welsh food and drink industry, to help it to grow by 30% by 2020 through our action plan, 'Towards Sustainable Growth'. An integral part of our plan, and a specific action point, is our commitment to develop opportunities for small food-and-drink businesses to bid to supply the public sector.

The Welsh Government is engaged in detailed discussions with the levy boards, the UK Government and representatives of the other administrations on the distribution of the red meat levy, to ensure that Welsh levy payers are not disadvantaged in any way. I should also say that supermarkets will be present at the upcoming beef summit, as well.

In the dairy industry, the reduction in milk prices since the spring is of great concern to me. A major factor in this is the high global milk supply, which has put pressure on global prices, and the Russian trade ban on agriculture products has added further pressure to global markets. I appreciate that cuts in farm-gate prices put pressure on Welsh dairy farmers, but on-farm confidence had been growing significantly over the last 18 months.

Mae cynnig heddiw'n ceisio cyflymu'r ymdrech i leihau biwrocraiaeth. Mae hyn yn dangos diffyg gwerthfawrogiad o'r cynnydd sylweddol rydym wedi'i wneud hyd yn hyn. Mae Hwyluso'r Drefn wedi cyflawni cryn dipyn, ond mae hefyd yn ymwneud â llawer mwy na lleihau biwrocraiaeth yn unig, er mor bwysig yw hynny. Yn ei hanfod, mae Hwyluso'r Drefn yn ceisio cael y diwydiant amaeth i weithio ar y cyd gyda'r Llywodraeth er lles gorau ffermio, ac mae hynny'n digwydd yn gynyddol ar ystod eang o faterion pwysig. Mae gennym gynlluniau uchelgeisiol i gefnogi diwydiant bwyd a diod Cymru, a'i helpu i dyfu 30% erbyn 2020 drwy ein cynllun gweithredu, 'Tuag at Dwf Cynaliadwy'. Rhan annatod o'n cynllun, a phwynt gweithredu penodol, yw ein hymrwymiad i ddatblygu cyfleoedd i fusnesau bwyd a diod bach gyflwyno cynigion i gyflenwi'r sector cyhoeddus.

Mae Llywodraeth Cymru'n cymryd rhan mewn trafodaethau manwl gyda'r byrddau lefi, Llywodraeth y DU a chynrychiolwyr y gweinyddiaethau eraill ar ddsbarthiad y lefi cig coch, er mwyn sicrhau nad yw talwyr y lefi yng Nghymru o dan anfantais mewn unrhyw ffordd. Dylwn ddweud hefyd y bydd archfarchnadoedd yn bresennol yn yr uwchgynhadledd cig eidion sydd i ddod.

Yn y diwydiant llaeth, mae'r gostyngiad ym mhrisiau llaeth ers y gwanwyn yn peri pryder mawr i mi. Un ffactor pwysig yn hyn yw'r cyflenwad uchel o laeth yn fyd-eang, sydd wedi rhoi pwysau ar brisiau byd-eang, ac mae gwaharddiad masnach Rwsia ar gynhyrchion amaethyddol wedi ychwanegu pwysau pellach ar farchnadoedd byd-eang. Rwy'n gwerthfawrogi bod toriadau yn y prisiau wrth gât y fferm yn rhoi pwysau ar ffermwyr llaeth Cymru, ond mae hyder ffermydd wedi cynyddu'n sylweddol dros y 18 mis diwethaf.

17:29 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Will the Deputy Minister take an intervention?

A wnaiff y Dirprwy Weinidog dderbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

17:29 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Yes, I will.

Gwnaf.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

17:29 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
I have been listening to your contribution, Deputy Minister, and I have heard about the discussions that are ongoing with various institutions. There has been no mention of Europe or the European Investment Bank, and yet the European Commission has instructed the European Investment Bank to look specifically at the rural development plan as a means of offering support. Have you had those discussions? Did the previous Minister have those discussions?

Rwyf wedi bod yn gwrando ar eich cyfraniad, Ddirprwy Weinidog, ac rwyf wedi clywed am y trafodaethau parhaus gyda gwahanol sefydliadau. Ni fu sôn o gwbl am Ewrop neu Fanc Buddsoddi Ewrop, ac eto mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi rhoi cyfarwyddyd i Fanc Buddsoddi Ewrop edrych yn benodol ar y cynllun datblygu gwledig fel modd o gynnig cymorth. A ydych chi wedi cael y trafodaethau hynny? A gafodd y Gweinidog blaenorol y trafodaethau hynny?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

17:29 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
I am pleased to tell you that the European Commission's Directorate-General for Agriculture and Rural Development and the bank are currently developing a range of specific products that will be available for EU member states to use in appropriate circumstances. We await further information on those, but they are certainly something that my department is looking at using in future. I would be happy to keep Members updated on that.

Mae'n bleser gennyf ddweud wrthyfch fod Cyfarwyddiaeth Gyffredinol y Comisiwn Ewropeaidd dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig a'r banc ar hyn o bryd yn datblygu ystod o gynnyrch penodol a fydd ar gael i aelod-wladwriaethau'r UE eu defnyddio mewn amgylchiadau priodol. Rydym yn aros am wybodaeth bellach ar y rheini, ond maent yn sicr yn rhywbeth y mae fy adran yn ystyried eu defnyddio yn y dyfodol. Buaswn yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar hynny.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)



I am aware of Plaid Cymru's calls for change in the dairy industry, and I have considered the option of establishing a dairy equivalent to Hybu Cig Cymru for Welsh milk. However, as I explained earlier, the levy money from Welsh milk would be too small to make such an option viable. The percentage of Welsh milk currently made into a variety of value-added products is too high for such a body to work, making it impossible to advertise branded processed products through levy funding.

That said, I am determined to do all that we can to support the dairy sector, and Members know that, earlier this month, I asked the dairy taskforce to nominate an individual to undertake an urgent review of the sector and to make recommendations to me. I will have more to say about that next week, and the review may well recommend a strategic action plan for dairy, but I do not want to pre-empt the outcome of that review or compromise its independence in any way.

With its climate, Wales has an advantage over many milk producing countries, with ideal grass growing conditions. I intend to make further use of the RDP to help Welsh farmers to capitalise on that advantage. The new industry-led food and drink Wales industry board will work with us to enable opportunities to supply the public sector. Wales is blessed with a vast variety of dairy suppliers, so opening up public sector opportunities to those suppliers will be high on the agenda.

Today's motion also calls for an area of natural constraints scheme. We have to stop looking to the past if we have any chance of a successful future. Today's motion displays a lack of understanding of the current CAP framework and what Welsh farming needs if it is to secure a healthy future.

Rwy'n ymwybodol o alwadau Plaid Cymru am newid yn y diwydiant llaeth ac rwyf wedi ystyried yr opsiwn o sefydlu corff sy'n cyfateb i Hybu Cig Cymru ar gyfer llaeth Cymru. Fodd bynnag, fel yr eglurais yn gynharach, byddai'r arian lefi o laeth Cymru yn rhy fach i wneud y fath opsiwn yn ymarferol. Mae'r ganran o laeth Cymru sydd ar hyn o bryd yn cael ei droi'n amrywiaeth o gynhyrchion sy'n ychwanegu gwerth yn rhy uchel i gorff o'r fath allu gweithio, gan ei gwneud yn amhosibl hysbysebu cynnyrch brand wedi'i brosesu drwy ddefnyddio arian lefi.

Wedi dweud hynny, rwy'n benderfynol o wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r sector llaeth ac fel mae'r Aelodau'n gwybod, yn gynharach y mis hwn, gofynnais i'r tasglu llaeth enwebu unigolyn i gynnal adolygiad brys o'r sector a gwneud argymhellion ar fy nghyfer. Bydd gennyf fwy i'w ddweud am hynny yr wythnos nesaf, ac efallai'n rhy bydd yr adolygiad yn argymhell cynllun gweithredu strategol ar gyfer llaeth, ond nid wyf am achub y blaen ar ganlyniad yr adolygiad hwnnw na pheryglu ei annibyniaeth mewn unrhyw ffordd.

Gyda'i hinsawdd, mae gan Gymru fantais dros lawer o wledydd sy'n cynhyrchu llaeth, gydag amodau tyfu glaswellt delfrydol. Rwy'n bwriadu gwneud defnydd pellach o'r Cynllun Datblygu Gwledig i helpu ffermwyr Cymru i elwa ar y fantais honno. Bydd bwrdd newydd ar gyfer diwydiant bwyd a diod Cymru, wedi'i arwain gan y diwydiant, yn gweithio gyda ni er mwyn sicrhau cyfleoedd i gyflenwi'r sector cyhoeddus. Mae Cymru wedi'i bendithio gan amrywiaeth helaeth o gyflenwyr cynnyrch llaeth, felly bydd agor cyfleoedd yn y sector cyhoeddus i'r cyflenwyr hynny'n uchel ar yr agenda.

Mae cynnig heddiw hefyd yn galw am gynllun ardal â chyfyngiadau naturiol. Mae'n rhaid i ni roi'r gorau i edrych tua'r gorffennol os ydym am gael unrhyw obaith o sicrhau dyfodol llwyddiannus. Mae cynnig heddiw'n dangos diffyg dealltwriaeth o fframwaith y Polisi Amaethyddol Cyffredin presennol a'r hyn sydd ei angen ar ffermio yng Nghymru os yw am sicrhau dyfodol iach.

17:31 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention on that?

A wnewch chi dderbyn ymyriad ar hynny?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:31 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will continue, and I will probably answer your questions.

Rwyf am barhau, ac yn ôl pob tebyg byddaf yn ateb eich cwestiynau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I have closely examined the option of a targeted ANC scheme. However, there is no legal mechanism to enable us to target that kind of scheme at those farmers most affected by changes to pillar 1. We have to remember that many upland farmers will benefit from the move to a new area-based CAP direct payment. Of more than 16,000 farmers in Wales, 93 moorland farmers will lose out significantly under the new system, and the change will take place over five years. I will refer Members to my written statement, where we explain the kind of support the Welsh Government will be giving to those farmers.

Rwyf wedi edrych yn fanwl ar opsiwn cynllun Ardal â Chyfyngiadau Naturiol wedi'i dargedu. Fodd bynnag, nid oes mecanwaith cyfreithiol sy'n ein galluogi i dargedu'r math hwnnw o gynllun tuag at y ffermwyr sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan newidiadau i golofn 1. Mae'n rhaid i ni gofio y bydd llawer o ffermwyr mynyddig yn elwa o'r newid i daliad uniongyrchol newydd seiliedig ar arwynebedd y Polisi Amaethyddol Cyffredin. O'r 16,000 a mwy o ffermwyr yng Nghymru, bydd 93 o ffermwyr rhostir ar eu colled yn sylweddol o dan y system newydd, a bydd y newid yn digwydd dros gyfnod o bum mlynedd. Cyfeiraf yr Aelodau at fy natganiad ysgrifenedig, lle rydym yn esbonio'r math o gefnogaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei roi i'r ffermwyr hynny.

I need to be careful about what I say on this issue because of the judicial review, but I can say that the ANC scheme would in fact deliver the very outcome that some have suggested would happen in the absence of such a scheme, and that is an unlevel playing field, providing further support to some of those who do not need it. It would be unaffordable, taking up around £20 million a year, which is money that would be unavailable to fund on-farm investment and other fundamental changes needed in the industry across the industry.

I am opposing today's motion because, while farming in Wales continues to face major challenges, as do all industries, the agriculture industry is modernising and increasingly looking to the future rather than the past. Tomorrow, I will be publishing my response to Malcolm Thomas's report, alongside an action plan to help young people into farming, and I hope that all Members will welcome that.

The industry is looking beyond the challenges to embrace opportunities, and it is doing so with the full support of the Welsh Government.

Mae angen i mi fod yn ofalus ynglŷn â'r hyn rwy'n ei ddweud ar y mater hwn oherwydd yr adolygiad barnwrol, ond gallaf ddweud y byddai'r cynllun Ardal â Chyfyngiadau Naturiol mewn gwirionedd yn cyflawni'r union ganlyniad y mae rhai wedi awgrymu a fyddai'n digwydd heb gynllun o'r fath, sef maes chwarae anwastad, a fyddai'n darparu cymorth pellach i rai nad ydynt ei angen. Byddai'n rhy ddrud, yn costio oddeutu £20 miliwn y flwyddyn, sy'n arian na fyddai ar gael i ariannu buddsoddiadau ar y fferm a newidiadau sylfaenol eraill sydd eu hangen ar draws y diwydiant.

Rwy'n gwrthwynebu cynnig heddiw, oherwydd, er bod ffermio yng Nghymru yn parhau i wynebu heriau mawr, fel pob diwydiant, mae'r diwydiant amaethyddol yn moderneiddio ac yn edrych fwyfwy i'r dyfodol yn hytrach na'r gorffennol. Yfory, byddaf yn cyhoeddi fy ymateb i adroddiad Malcolm Thomas, ynghyd â chynllun gweithredu i helpu pobl ifanc i mewn i ffermio, ac rwy'n gobeithio y bydd pob Aelod yn croesawu hynny.

Mae'r diwydiant yn edrych y tu hwnt i'r heriau i fanteisio ar gyfleoedd, ac mae'n gwneud hynny gyda chefnogaeth lawn Llywodraeth Cymru.

17:33

### **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Llyr Gruffydd to reply to the debate.

Galwaf ar Llyr Gruffydd i ymateb i'r ddaid.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

17:33

### **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd, a diolch i bawb am eu cyfraniadau i'r ddaid hon. Rwy'n credu ei bod wedi bod yn ddadl werthfawr iawn. Rwy' eisiau diolch yn arbennig i'r Dirprwy Weinidog, ac fe fyddaf i'n pigo i fyny ar ambell un o'r sylwadau mewn munud.

Thank you, Deputy Presiding Officer, and thank you to everyone for their contributions to this debate. I think that it has been a very valuable debate. I want to particularly thank the Deputy Minister, and I will pick up on a few of her comments in a few moments.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Efallai y byddai rhai'n synnu fy mod i'n cytuno â llawer o'r hyn roedd Alun Davies yn ei ddweud a'r hyn roedd nifer o'r cyfranwyr eraill yn ei ddweud. Rwy'n credu bod cytundeb o safbwynt y weledigaeth hirdymor a ble rydym ni eisiau gweld y diwydiant yn cyrraedd. Rwy'n cyd-fynd a'r hyn ddywedoch chi am gael ffocws mwy 'market orientated' a ffocws busnes cryfach o fewn y diwydiant. Wrth gwrs, mae'r broblem yn codi yn y modd y mae'r Llywodraeth wedi mynd ati i drio symud i'r cyfeiriad hwnnw, sy'n fodd, yn fy marn i, sydd wedi ei wthio yn rhy galed ac yn rhy sydyn ac a fydd yn gyrru gormod o'r diwydiant, o bosibl, allan o fusnes. Felly, yr amser hwnnw i ddygymod â'r newid yw'r peth pwysig, ond byddwch yn synnu clywed, efallai, fy mod i'n cytuno â chi o safbwynt lle rydym ni eisiau mynd.

Some people may be surprised to hear that I agreed with much of what Alun Davies had to say and what many of the other contributors had to say. I think that there is agreement in terms of the long-term vision and where we want to see the industry. I agree with what you said about having a more market-orientated focus and a stronger business focus within the industry. Of course, the problem arises in the way in which the Government has tried to move in that direction, which, in my view, has been pushing too hard and too fast and which could well drive too much of the industry out of business. Therefore, it is that time to cope with the change that is the important issue, but you will be surprised to hear, perhaps, that I agree with you in terms of where we want to go.

Mae gan yr RDP rôl bwysig i'w chwarae yn hynny o beth, ac rwy'n cyd-fynd yn llwyr â'r hyn a ddywedodd Elin Jones am sicrhau bod cymaint o hwnnw ag sy'n bosibl yn fuddsoddiad sydd yn digwydd ar y fferm. Buoch chi, Ddirprwy Weinidog, gyda mi yn ymweld â ffermwr yn Rhosllannerchrugog yn ddiweddar a oedd yn wynebu colli ryw 25% neu 30% o'i daliad. Mae'n berffaith iawn i chi gyfeirio at yr RDP. Roedd gan yr unigolyn hwnnw radd mewn amaethyddiaeth, ac felly roedd e'n teimlo bod ganddo lawer o'r wybodaeth y byddai gwahanol ymgynghorwyr yn ei rhoi iddo. Hefyd, roedd ei braidd o ddefaid yn perfformio ymhlith y 10% gorau yng Nghymru, yn ôl arrolwg busnes fferm Prifysgol Aberystwyth. Felly, roedd yn ei chael hi'n anodd iawn i weld sut y byddai rhaglenni RDP o reidrydd yn llwyddo i gau'r bwlch hwnnw.

Wedi dweud hynny, yr hyn sy'n bwysig, wrth edrych ymlaen, yw bod yna shift a bod buddsoddiad yn mynd o fod ar yr elfen 'knowledge transfer' i 'implementation' ymarferol a buddsoddiad cyfalaf ar y fferm. Rydym wedi gweld, er tegwch i'r Llywodraeth, y cynllun IED peilot sydd wedi cael ei gyhoeddi, sy'n cyflwyno elfen o bres cyfalaf er mwyn hwyluso'r newid yna yn y ffordd y mae'r diwydiant yn gweithredu, ac mae hynny'n rhywbeth rwy'n ddigon hapus i'w groesawu.

O ran eich sylwadau am hwyluso'r drefn, rwy'n cyd-fynd bod pethau da wedi digwydd, ac mae pethau da ar y gweill, ond, wrth gwrs, y rhwystredigaeth yw y bydd rhai o'r penderfyniadau a gafodd eu disgrifio fel 'quick wins' yn cymryd pedair neu bum mlynedd cyn cael eu delifro.

O safbwynt marchnata llaeth, rwy'n derbyn, efallai, nad y lefi yw'r ffynhonnell orau ar gyfer hynny, ond, yn sicr, mae'n rhaid cydnabod bod angen yno y mae angen cwrrd ag ef o safbwynt marchnata nad yw'n cael ei ateb ar hyn o bryd.

Roedd eich cyhoeddiad ddoe ar ddigolledi ffermwyr am TB yn gam positif iawn a oedd, gobeithio, yn adlewyrchu'r meddwl newydd o fewn Llywodraeth Cymru a'i hagwedd tuag at y diwydiant. Mae gennym gomisiynydd newydd yn Ewrop, a Gweinidogion weddol newydd yn DEFRA ac yn y fan hyn, felly rwy'n gobeithio y gallwn symud ymlaen yn bositif ar gyfer y dyfodol.

The RDP has an important role to play in that regard, and I agree entirely with what Elin Jones had to say about ensuring that as much of that as possible should be on-farm investment. Deputy Minister, you joined me in visiting a farmer in Rhosllannerchrugog recently, who was facing the prospect of losing some 25% or 30% of his payment. It is quite right that you to refer to the RDP. That individual had a degree in agriculture and so he felt that he already had a great deal of the information that various consultants would bring to him. Also, his flock of sheep was performing among the best 10% in Wales according to Aberystwyth University's farm business survey. So, he found it very difficult to see how RDP programmes would necessarily assist in closing that gap.

Having said that, what is important now, as we look to the future, is that there is a shift and that investment is moved from the knowledge-transfer element to practical implementation and capital investment on-farm. In fairness to the Government, we have seen the pilot IED scheme, which has been introduced and which brings a capital expenditure element in order to facilitate that change in the way the industry works, and that is something that I am happy to welcome.

In terms of your comments on working smarter, I agree that there are good things that have happened and in the pipeline, but, of course, the frustration is that it will be four or five years before some of the decisions described as quick wins will be implemented.

In terms of dairy marketing, I accept that a levy is not perhaps the best source for that, but we must acknowledge that there is marketing need that needs to be met and which is currently not being addressed.

Your announcement yesterday on compensating farmers for TB was a very positive step, which, I hope, reflects the new mindset within the Welsh Government and the attitude towards the industry. We have a new commissioner in Europe and relatively new Ministers in DEFRA and here, therefore I hope that we will be able to move forward positively for the future.

17:36

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection. Therefore, I defer all voting under this item until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb welliant. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly, rwy'n gohirio'r pleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Votes deferred until voting time.*

*Daeth Peter Black i'r Gadair am 17:36.*

*Peter Black took the Chair at 17:36.*

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Porthladdoedd

*The following amendments have been selected:  
amendment 1 in the name of Aled Roberts, and  
amendments 2 and 3 in the name of Elin Jones.*

## Welsh Conservatives Debate: Ports

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw  
Aled Roberts, a gwelliannau 2 a 3 yn enw Elin Jones.*

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Bryon Davies to move the motion.

Cynnig NDM5603 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd porthladdoedd i economi Cymru.
2. Yn nodi y gallai cynnydd mewn morgludiant byr ym mhorthladdoedd Cymru sicrhau manteision yn y tymor hir.
3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gwaith gyda WEFO ar ddatblygiadau isadeiledd a rôl porthladdoedd yn y gadwyn gyflenwi ynni adnewyddadwy.

**Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Chair. I rise to move the Welsh Conservatives' motion, tabled in the name of Paul Davies, and it gives me great pleasure to do so as it is yet another opportunity to highlight the importance of our ports to the Welsh economy and, to set the context, I want to outline some of their key attributes in Wales.

The report of the Wales freight task and finish group outlined that the total cargo throughput for 2010, the year for which we have the latest figures, was 60 million tonnes. This was the equivalent of 12% of the UK total throughput. The sector supports 3,300 port-related jobs in Wales, as well as other jobs indirectly.

The markets serviced by Welsh ports are, in the main, roll-on, roll-off, which, as Members will be aware, are vessels designed to carry wheeled cargo, such as cars and trucks. Also, oil and energy sector traffic is handled by the port at Milford Haven, and dry and liquid bulk, iron and steel products, forest products and leisure activity, such as cruises, are thankfully growing sectors in our other ports.

In 2011, Milford Haven handled 48.7 million tonnes of cargo traffic, the most of any Welsh port. Fishguard handled the least, with 345,000 tonnes. Almost all of Milford Haven's cargo was liquid bulk, while Fishguard's traffic related entirely to the roll-on, roll-off market. Ports at Port Talbot and Newport dealt with dry bulk and other general cargo, and our Swansea port dealt mostly with the same market. Cardiff port dealt with both liquid and dry cargo, as well as lift-on, lift-off containers, and Holyhead dealt almost entirely with roll-on, roll-off vehicles.

Motion NDM5603 Paul Davies

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Recognises the importance of ports to the Welsh economy.
2. Notes increasing short sea shipping at Welsh ports could secure long term dividends.
3. Calls on the Welsh Government to provide an update on its work with WEFO on infrastructure developments and the role of ports in the renewable energy supply chain.

Diolch, Gadeirydd. Rwy'n codi i gynnig y cynnig gan y Ceidwadwyr Cymreig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies, ac mae'n rhoi pleser mawr i mi wneud hynny gan ei fod yn gyfle arall i dynnu sylw at bwysigrwydd ein porthladdoedd i economi Cymru. Er mwyn gosod y cyd-destun, rwyf am amlinellu rhai o'u priodoleddau allweddol yng Nghymru.

Roedd adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar gludo nwyddau Cymru'n nodi bod cyfanswm y llif cargo ar gyfer 2010, sef y flwyddyn y mae gennym y ffigurau diweddaraf ar ei chyfer, yn 60 miliwn o dunelli. Roedd hyn yn cyfateb i 12% o gyfanswm llif cargo'r DU. Mae'r sector yn cynnal 3,300 o swyddi sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd yng Nghymru, yn ogystal â swyddi eraill yn anuniongyrchol.

At ei gilydd, marchnadoedd gyrru ar/oddi ar longau yw'r rhai sy'n cael eu gwasanaethu gan borthladdoedd Cymru, sef llongau a gynlluniwyd i gario nwyddau mewn cerbydau, megis ceir a lorïau, fel y gwŷyr yr Aelodau. Hefyd, y porthladd yn Aberdaugleddau sy'n ymdrin â thraffig y sector olew ac ynni ac mae swmp sych a hylifol, cynnyrch haearn a dur, cynnyrch coedwigoedd a gweithgareddau hamdden megis mordeithiau, yn sectorau sy'n tyfu, diolch byth, yn ein porthladdoedd eraill.

Yn 2011, ymdriniodd Aberdaugleddau â 48.7 miliwn tunnell o draffig cargo, y pwysau mwyaf o blith holl borthladdoedd Cymru. Abergwaun oedd y porthladd a ymdriniodd â'r pwysau lleiaf o draffig cargo—345,000 o dunelli. Swmp hylif oedd bron y cyfan o gargo Aberdaugleddau, tra roedd traffig Abergwaun yn gyfan gwbl gysylltiedig â'r farchnad yrru ar/oddi ar longau. Ymdriniodd porthladdoedd ym Mhort Talbot a Chasnewydd â chargo sych a chargo cyffredinol arall, ac ymdriniodd porthladd Abertawe â'r un farchnad ar ei gilydd. Ymdriniodd porthladd Caerdydd â chargo hylifol a sych, yn ogystal â chynwysyddion ar gyfer eu codi ar/oddi ar longau, ac ymdriniodd Caerdydd bron yn gyfan gwbl â cherbydau sy'n gyrru ar/oddi ar longau.

So, what are Welsh ports doing—importing or exporting? In 2011, around 70% of the traffic moving through Milford Haven was of imports. Simple mathematics tell us, therefore, that 30% was leaving the port as exports. Traffic through ports such as Cardiff, Port Talbot, Swansea and Newport consisted mainly of imports. In the case of Bury Port, the traffic was entirely imports. Over half of traffic through Holyhead's ports were exports, while traffic through Llanddulas port was entirely exports.

This is a huge sector and an important economic lever for us in Wales. As outlined, there is huge capacity to sell Welsh products to the world that is yet to be realised. As a member of the Enterprise and Business Committee, I can recommend the report of our inquiry, which was a very interesting and most enjoyable one, into international connectivity through Welsh ports. The majority of our recommendations focused on using ports as an economic lever and improving transport links to and from ports.

I want to concentrate on a couple of these recommendations and highlight the lack of a Government response. I will start with recommendation 10, which the Welsh Government accepted. It said:

'The Welsh Government should publish a revised Wales Freight Strategy, which has a greater emphasis on rail freight, by the end of 2012, and negotiate the needs of rail freight in Wales for the next Network Rail Control Period.'

The Government stated that the Wales freight strategy was being reviewed and also told us:

'we will await the outcome of the review which will conclude in the autumn'

of 2013. Having been given that commitment, Minister, I would like to have an update to see where we are on that, please.

Recommendation 11 said:

'The Welsh Government should commission feasibility studies into the development of short sea shipping and port-centric logistics at Welsh ports to identify potential opportunities as well as obstacles to development.'

You accepted this recommendation and conceded that:

'There is merit in some further exploratory work into opportunities linked to ports across Wales.'

So, again, I would ask you: where are we with that and what has happened, please, Minister?

Recommendation 15 said:

Felly, beth y mae porthladdoedd Cymru yn ei wneud—mewnforio neu allforio? Yn 2011, roedd tua 70% o'r traffig a symudai drwy Aberdaugleddau yn fewnforion. Mae mathemateg syml yn dweud wrthym fod 30% felly'n gadael y porthladd fel allforion. Roedd traffig drwy borthladdoedd megis Caerdydd, Port Talbot, Abertawe a Chasnewydd yn cynnwys mewnforion yn bennaf. Yn achos Porth Tywyn, mewnforion oedd y traffig i gyd. Allforion oedd dros hanner y traffig drwy borthladdoedd Caerdybi, ac allforion oedd y traffig i gyd drwy borthladd Llanddulas.

Mae hwn yn sector enfawr ac yn ysgogiad economaidd pwysig i ni yng Nghymru. Fel yr amlinellwyd, mae yna gapasiti enfawr ar gyfer gwerthu cynnyrch o Gymru i'r byd sydd eto i'w wireddu. Fel aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes, gallaf argymhell adroddiad ein hymchwiliad, a oedd yn un diddorol a phleserus iawn, i gysylltedd rhyngwladol drwy borthladdoedd Cymru. Roedd y mwyafrif o'n hargymhellion yn canolbwyntio ar ddefnyddio porthladdoedd fel ysgogiad economaidd a gwella cysylltiadau trafniadaeth i ac o borthladdoedd.

Rwyf am ganolbwyntio ar un neu ddau o'r argymhellion hyn a thynnu sylw at ddiffyg ymateb y Llywodraeth. Dechreuaf gydag argymhelliad 10, a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd y dylai Llywodraeth Cymru:

'[G]yhoeddi Strategaeth Cludo Nwyddau ddiwygiedig i Gymru, sydd â mwy o bwyslais ar gludo nwyddau ar y rheilffyrdd, erbyn diwedd 2012, a negodi'r anghenion cludo nwyddau ar y rheilffyrdd yng Nghymru ar gyfer Cyfnod Rheoli nesaf Network Rail.'

Dywedodd y Llywodraeth fod strategaeth cludo nwyddau Cymru yn cael ei hadolygu a dywedodd wrthym hefyd:

'byddwn yn aros am ganlyniad yr adolygiad a fydd yn gorffen yn yr hydref'

yn 2013. Ar ôl cael yr ymrwymiad hwnnw, Weinidog, hoffwn gael y wybodaeth ddiweddaraf i weld lle rydym yn sefyll ar hynny.

Meddai Argymhelliad 11:

'Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu astudiaethau dichonoldeb i ddatblygu morgludiant byr a logisteg porthladd-ganolog ym mhorthladdoedd Cymru i ganfod cyfleoedd posibl yn ogystal â rhwystrau rhag datblygu.'

Derbyniasoch yr argymhelliad hwn a chyfaddef:

'Byddai mantais cynnal peth gwaith ymchwil pellach i gyfleoedd datblygu'r cysylltiadau rhwng porthladdoedd ledled Cymru.'

Felly, unwaith eto, gofynnwn i chi: lle rydym yn sefyll ar hynny a beth sydd wedi digwydd, Weinidog?

Meddai Argymhelliad 15:

'The Welsh Government should clarify its intentions for Enterprise Zones that include Welsh ports or airports so that Wales can fully benefit from this initiative.'

You accepted this recommendation and provided a link to your enterprise zone. However, again, I cannot see any tangible results, so perhaps you could enlighten us on that one as well. Finally, I will just make reference to recommendation 17, which said:

'The Welsh Government should encourage port operators to improve the tourist experience at their facilities and consult potential stakeholders on how best to fund berthing facilities that will attract cruise liners.'

You accepted this and committed to a co-ordinated approach between the Welsh Government, ports, local authorities and tourism business. Again, Minister, I would ask where the evidence of this work is to date. I hope that Members do not mind me going into detail on this committee report, but it is the key to this debate. The Welsh Government responded to the committee in September 2012 and accepted all the recommendations, but what has happened in the past two years? Where are the strategies promised, the action committed to and the recognition of our ports' importance? I would welcome in the Minister's response some clarity on these issues and perhaps an explanation of why promised action was not taken. Or can we have the evidence if it has been taken, please?

I will come to a close in my contribution on the huge potential of the renewable energy sector for our ports and how this could help to improve our export numbers. Renewable energy provides not only new sources of generating power but employment opportunities. Welsh suppliers situated both on and off ports will also benefit from renewable energy projects. According to DTZ, Welsh firms are well placed to engage in this market, with 100 firms across Wales expressing an interest in offshore wind supply-chain opportunities. At the moment, offshore wind and biomass are expected to stay as the areas providing the bulk of employment in the low carbon energy sector—more than 90%. I would like to see tidal generation playing a much bigger role. Looking at the current trials off Ramsey Island—and the technology is almost there—we need to be ready and certainly prepared.

'Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei bwriadau o ran Ardaloedd Menter sy'n cynnwys porthladdoedd neu feysydd awyr yng Nghymru er mwyn i Gymru allu elwa'n llawn o'r cynllun hwn.'

Derbyniasoch yr argymhelliad hwn a darparu dolen i'ch gwefan ardaloedd menter. Fodd bynnag, unwaith eto, ni allaf weld unrhyw ganlyniadau pendant, felly efallai y gallech ein goleuo ar hynny hefyd. Yn olaf, rwyf am gyfeirio at argymhelliad 17, a ddywedai:

'Dylai Llywodraeth Cymru annog gweithredwyr porthladdoedd i wella profiad twristiaid yn eu cyfleusterau ac ymgynghori â rhanddeiliaid posibl ynglŷn â'r ffordd orau o ariannu cyfleusterau docio a fydd yn denu llongau mordeithio.'

Derbyniasoch hyn ac ymrwymo i ymagwedd gydgyssylltiedig rhwng Llywodraeth Cymru, y porthladdoedd, awdurdodau lleol a busnesau twristiaeth. Unwaith eto, Weinidog, gofynnaf ble mae'r dystiolaeth o'r gwaith hyd yma. Rwy'n gobeithio nad oes ots gan yr Aelodau fy mod yn manylu ar adroddiad y pwyllgor, ond dyma'r allwedd i'r ddaidl hon. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r pwyllgor ym mis Medi 2012 a derbyniodd yr holl argymhellion, ond beth sydd wedi digwydd yn y ddwy flynedd ddiwethaf? Ble mae'r strategaethau a addawyd, y camau gweithredu yr ymrwymwyd iddynt a'r gydnabyddiaeth i bwysigrwydd ein porthladdoedd? Yn ymateb y Gweinidog, byddwn yn croesawu rhywfaint o eglurder ar y materion hyn ac esboniad efallai ynglŷn â pham na weithredwyd y camau a addawyd. Neu a gawn ni weld y dystiolaeth os ydynt wedi cael eu gweithredu?

Byddaf yn gorffen fy nghyfraniad drwy drafod potensial aruthrol y sector ynni adnewyddadwy i'n porthladdoedd a sut y gallai hyn helpu i wella ein ffigurau allforio. Nid yn unig y mae ynni adnewyddadwy yn darparu ffynonellau newydd ar gyfer cynhyrchu pŵer, ond hefyd mae'n creu cyfleoedd gwaith. Bydd cyflenwyr o Gymru, sydd wedi'u lleoli mewn porthladdoedd ac ardaloedd cyfagos hefyd yn elwa ar brosiectau ynni adnewyddadwy. Yn ôl DTZ, mae cwmnïau yng Nghymru mewn sefyllfa dda i gymryd rhan yn y farchnad hon, gyda 100 o gwmnïau ledled Cymru yn mynegi diddordeb mewn cyfleoedd yn deillio o'r gadwyn gyflenwi gwynt ar y môr. Ar hyn o bryd, mae disgwyl i wynt ar y môr a biomas barhau i fod y meysydd sy'n cyflogi'r mwyaf llethol o bobl yn y sector ynni carbon isel—mwy na 90%. Hoffwn weld cynhyrchu ynni'r llanw yn chwarae rhan llawer mwy o faint. O edrych ar brofion cyfredol oddi ar Ynys Dewi—ac mae'r dechnoleg bron yno—yn bendant, mae angen i ni fod yn barod.



This brings me nicely to the action that the Welsh Government, I believe, needs to take now to account for barriers that our ports could encounter. These include the importance of market awareness, engagement with Welsh ports and deciding what ports should be used for renewable energy developments, port infrastructure and environmental and planning concerns. These, I feel, can be addressed through measures such as engagement with both large and small ports to understand the opportunities offered by both types and exactly which ports are best suited to accommodate renewable energy products, and through supporting ports to invest in the appropriate infrastructure.

Minister, in conclusion, Welsh ports can and should be a key economic lever as we grow the Welsh economy. They provide the ability to move in bulk around the world, and we are well placed thanks to commitments like the European Commission's acceptance of Milford Haven as a core port and the follow-on investment in an upgraded core rail freight link. I think that we need to ensure that we do not miss the boat, as it were, on this, and that is why I highlighted the lack of action to date—or the perceived lack of action—by the Welsh Government in 2012. I would very much welcome the Minister's response, particularly to the recommendations I have mentioned. In short, we will be supporting amendments 1 and 3. It is a very fair point about Holyhead and one that I have made time and time again, and I know that the Member for Ynys Môn has continually made it in committee. However, we will vote against amendment 2 as I do not believe that the case has yet been made for devolving ports. I am open-minded—not completely closed—but currently cannot see the case and, in some cases, the revenue required to support strategically important ports to the UK in revenue support and security of passage and energy supply. I do not feel persuaded at this time.

Thank you, Members, for your attention and I commend the motion to you.

17:45

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Presiding Officer has selected the three amendments to the motion. I call Eluned Parrott to move amendment 1 tabled in the name of Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:*

*Yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan Borthladdoedd Cysylltiedig Prydain y gallai llwybr du arfaethedig yr M4 gael effaith ddifrifol ar fasnach yn Nociâu Casnewydd.*

17:45

**Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 1.

Daw hyn â mi'n daclus at y camau y mae Llywodraeth Cymru angen eu cymryd yn awr, yn fy marn i, i ystyried rhwystrau a allai wynebu ein porthladdoedd. Mae'r rhain yn cynnwys pwysigrwydd ymwybyddiaeth o'r farchnad, ymgysylltu â phorthladdoedd Cymru a phenderfynu pa borthladdoedd y dylid eu defnyddio ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy, seilwaith porthladdoedd a phryderon amgylcheddol a chynllunio. Rwy'n teimlo y gellir mynd i'r afael â'r rhain drwy fesurau megis ymgysylltu â phorthladdoedd mawr a bach i ddeall y cyfleoedd y mae'r ddau fath yn eu cynnig, a pha borthladdoedd yn union yw'r mwyaf addas i ddarparu ar gyfer cynnyrch ynni adnewyddadwy, a thrwy gynorthwyo porthladdoedd i fuddsoddi yn y seilwaith priodol.

Weinidog, wrth gloi, dylai, a gallai, porthladdoedd Cymru fod yn ysgogiad economaidd allweddol wrth i ni dyfu economi Cymru. Maent yn darparu'r gallu i symud swmpgyflenwadau o gwmpas y byd, ac rydym mewn sefyllfa dda, diolch i ymrwymadau fel derbyniad y Comisiwn Ewropeaidd o Aberdaugleddau fel porthladd craidd, a'r buddsoddiad dilynol mewn cyswllt craidd wedi'i uwchraddio ar gyfer cludo nwyddau ar y rheilffyrdd. Credaf fod angen i ni sicrhau nad ydym yn colli'r cyfle hwn a dyna pam rwyf wedi tynnu sylw at y diffyg gweithredu hyd yma—neu ddiffyg gweithredu ymddangosiadol—gan Lywodraeth Cymru yn 2012. Byddwn yn croesawu'n fawr ymateb y Gweinidog, yn enwedig i'r argymhellion rwyf wedi'u crybwyll. Yn fyr, byddwn yn cefnogi gwelliannau 1 a 3. Mae'n bwynt teg iawn am Gaergybi ac yn un rwyf wedi'i leisio dro ar ôl tro, a gwn fod yr Aelod dros Ynys Môn wedi'i leisio yn barhaus yn y pwyllgor. Fodd bynnag, byddwn yn pleidleisio yn erbyn gwelliant 2 gan nad wyf yn credu bod yr achos wedi'i wneud dros ddatganoli porthladdoedd eto. Mae gennyf feddwl agored—nid yw'n gwbl gaeedig—ond ar hyn o bryd ni allaf weld yr achos ac mewn rhai achosion, y referniw sydd ei angen i gefnogi porthladdoedd strategol bwysig i'r DU mewn cymorth referniw a diogelwch llwybr a chyflenwad ynni. Nid wyf yn teimlo fy mod wedi cael fy mherswadio ar hyn o bryd.

Diolch i chi, Aelodau, am eich sylw a chymeradwyaf y cynnig i chi.

Mae'r Llywydd wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Insert as new point 2 and renumber accordingly:*

*Notes the concerns expressed by the Associated British Ports that trade at Newport Docks could be severely affected by the proposed M4 black route.*

Cynigiau welliant 1.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I thank the Welsh Conservatives for bringing forward this important debate. This Chamber has been very concerned with our transport infrastructure over the past year, but there has been a danger that the important role of ports and their potential for passengers and freight could have been overlooked. My amendment today highlights one example of where I think our ports have been overshadowed because of the silo mentality that seems to persist in our transport planning. There is too much focus on individual projects and not enough holistic planning about how these are all going to work together to deliver a transport infrastructure that will suit our needs. We have to change that kind of thinking, or our strategic transport planning will essentially be pulling in different directions. We need to be thinking about how these things interrelate.

Ports are integral to that mix. As I say, they are too often overlooked, and we have seen recently from the Directorate-General for Mobility and Transport in the European Commission a very clear change in focus in terms of how it sees its grand challenges on transport. No longer are we looking at road transport as being the primary way in which we connect our communities and in which we get our goods to market. We are moving very firmly, in policy terms, away from that road-building priority and much more towards moving people and goods by rail and sea—more environmentally sustainable forms of transport. The European Commission is backing this policy intention with funding, which is available if you happen to be on the core network of the trans-European transport networks programme. I am sure that, in moving its amendments, Plaid Cymru will talk about this in some detail. However, I must express my disappointment not only that Wales fell off that map but also that Government, at neither end of the M4, seemed able to tell us when, how or why that happened. Perhaps the Minister might like to elucidate that for us. However, let me indicate my support for the Plaid Cymru amendments today.

Sadly, it would appear that not only did the Welsh Government fail to fight Holyhead's corner on TEN-T funding, but it is also preparing to row against this policy tide coming from Europe in bringing forward a road project that will actively damage another of our strategically important ports. A recent report by the global shipping consultancy, Safety at Sea Ltd, found that 58% of the vessels using Newport north docks between 2004 and 2008 would not have been able to do so if the proposed bridge at an assumed height of 25m had been in place. If you raise that bridge, the cost will also increase, and I cannot see Welsh Government pushing for a more expensive solution rather than a less expensive solution in its road planning department. That is talking about current vessels; we also know that the tendency in shipping is towards even larger ships. So, even if we raise the bridge height to accommodate more of today's traffic, we will still be crippling that port for the future. Only this week, a new record was set in the Thames when a vessel 400m long and 50m wide docked for the very first time. Believe me: with the combination of globalisation and environmental pressures that we currently face, nobody else is confining and restricting its ports.

Diolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r ddadl bwysig hon. Mae'r Siambr wedi ymwneud yn helaeth â'n seilwaith trafniadaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, ond roedd perygl fod rôl bwysig porthladdoedd a'u potensial ar gyfer teithwyr a nwyddau wedi cael eu hesgeuluso. Mae fy ngwelliant heddiw yn tynnu sylw at un enghraifft lle rwy'n meddwl bod ein porthladdoedd wedi cael eu bwrw i'r cysgod oherwydd y meddylfryd seilo sydd i'w weld yn gyson yn ein cynlluniau trafniadaeth. Mae gormod o ffocws ar brosiectau unigol a dim digon o gynllunio cyfannol ynglŷn â'r modd y mae'r rhain i gyd yn mynd i weithio gyda'i gilydd i ddarparu seilwaith trafniadaeth a fydd yn addas ar gyfer ein hanghenion. Mae'n rhaid i ni newid meddylfryd o'r fath neu bydd ein cynlluniau trafniadaeth strategol yn cael eu tynnu i gyfeiriadau gwahanol i bob pwrpas. Mae angen i ni feddwl ynglŷn â sut y mae'r pethau hyn yn cydberthyn.

Mae porthladdoedd yn rhan annatod o'r gymysgedd honno. Fel y dywedaf, cânt eu hesgeuluso'n rhy aml ac yn ddiweddar, gwelsom newid amlwg iawn yn ffocws y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Symudedd a Thrafnidiaeth yn y Comisiwn Ewropeaidd o ran sut y mae'n ystyried ei heriau enfawr ym maes trafniadaeth. Bellach, nid ydym yn edrych ar drafniadaeth ar y ffyrdd fel y prif ddull o gysylltu ein cymunedau a chael ein nwyddau i'r farchnad. O ran polisi, rydym yn symud yn bendant iawn i ffwrdd oddi wrth adeiladu ffyrdd fel blaenoriaeth, a fwyfwy tuag at symud pobl a nwyddau ar y rheilffyrdd a'r môr-ffurfiau ar drafniadaeth sy'n fwy cynaliadwy yn amgylcheddol. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cefnogi'r bwriad polisi hwn gydag arian sydd ar gael os ydych yn digwydd bod ar rwydwaith craidd y rhaglen rwydweithiau trafniadaeth Draws-ewropeaidd. Rwy'n siŵr y bydd Plaid Cymru, wrth gynnig ei gwelliannau, yn trafod hyn yn fanwl. Fodd bynnag, rhaid i mi fynegi fy siom fod Cymru wedi syrthio oddi ar y map hwnnw, a hefyd nad oedd y Llywodraethau, ar y naill ben a'r llall i'r M4 i'w gweld yn gallu dweud wrthym pa bryd, sut y pham y digwyddodd hynny. Efallai y gallai'r Gweinidog daflu goleuni ar hynny i ni. Fodd bynnag, gadewch i mi fynegi fy nghefnogaeth i welliannau Plaid Cymru heddiw.

Yn anffodus, mae'n ymddangos nid yn unig fod Llywodraeth Cymru wedi methu ag ymladd achos Caergybi dros gael cyllid TEN-T, ond mae hefyd yn paratoi i fynd yn erbyn y tueddiadau polisi sy'n dod o Ewrop o ran cyflwyno prosiect ffordd a fydd yn mynd ati i niweidio un arall o'n porthladdoedd strategol bwysig. Canfu adroddiad diweddar gan yr ymgynghoriaeth longau fyd-eang, Safety at Sea Ltd, na fyddai 58% o'r llongau a ddefnyddiai ddociau gogledd Casnewydd rhwng 2004 a 2008 wedi gallu gwneud hynny pe bai'r bont arfaethedig ar uchder tybiedig o 25m wedi cael ei chodi. Os codwch uchder y bont, bydd y gost hefyd yn codi, ac ni allaf weld Llywodraeth Cymru yn gwthio am ateb mwy costus yn hytrach nag ateb llai costus yn ei hadran gynllunio ffyrdd. Mae hynny mewn perthynas â llongau cyfredol; rydym yn gwybod hefyd mai tueddu i fynd yn fwy fyth y mae llongau. Felly, hyd yn oed pe baem yn codi uchder y bont i ddarparu ar gyfer mwy o draffig heddiw, byddwn yn dal i niweidio'r porthladd dan sylw ar gyfer y dyfodol. Dim ond yr wythnos hon, cyflawnwyd record newydd yn y Tafwys wrth i long 400m o hyd a 50m o led ddocio am y tro cyntaf erioed. Credwch fi: drwy gyfuno globaleiddio a'r pwysau amgylcheddol sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd, nid oes neb arall yn cyfyngu ar faint eu porthladdoedd.

Our ports have huge untapped potential, and I believe that they are a source of real competitive advantage. All of our major centres of population and industry are close to the sea. We do not have to move our goods vast distances by road to enable them to reach a global market through our ports. We need to use that, because currently our ports are operating well under capacity. I also believe that there is huge potential for tourism in our ports, tapping into the cruise market, which the Member alluded to in opening this debate. Our current lack of focus on ports is symptomatic of a wider economic malaise, because while our ports are importing goods from around the world, they once were even more successful at taking our produce to the world. We are just a couple of hundred yards away from the building where the world's first ever £1 million deal was struck. That was a £1 million export deal for Wales—the biggest deal of its kind in the entire world—and that left the waters just outside this building.

We seem to have fallen out of love with exporting; we seem to have forgotten how to do it. We need to make sure that we are using our ports, using that infrastructure, using that advantage to rebuild Wales's economy on an export basis, so that, in the future, we can be proud again of what we have here.

Mae gan ein porthladdoedd potensial enfawr nad yw wedi'i wireddu eto ac rwy'n credu eu bod yn cynnig mantais gystadleuol go iawn. Mae ein holl brif ganolfannau poblogaeth a diwydiant yn agos at y môr. Nid oes raid i ni symud ein nwyddau ar hyd y ffyrdd am bellteroedd helaeth er mwyn eu galluogi i gyrraedd marchnad fyd-eang drwy ein porthladdoedd. Mae angen i ni ddefnyddio hynny oherwydd ar hyn o bryd mae ein porthladdoedd yn gweithredu gryn dipyn o dan eu capasiti llawn. Credaf hefyd fod ein porthladdoedd yn cynnig potensial enfawr i dwristiaeth drwy fanteisio ar y farchnad fordeithio y cyfeiriodd yr Aelod ati wrth agor y ddafl hon. Mae ein diffyg ffocws presennol ar borthladdoedd yn arwydd o wendid economaidd ehangach oherwydd, er bod ein porthladdoedd yn mewnfario nwyddau o bob cwr o'r byd, arferent fod yn fwy llwyddiannus byth wrth fynd â'n cynnyrch at weddill y byd. Rydym ychydig gannoedd o lathenni'n unig o'r adeilad lle tarwyd y fargen £1 miliwn gyntaf y byd erioed. Cytundeb allforio gwerth £1 miliwn i Gymru oedd hwnnw—y fargen fwyaf o'i bath yn y byd—a gadawodd y dyfroedd yn union y tu allan i'r adeilad hwn.

Mae'n ymddangos bod ein perthynas ag allforio wedi suro; mae'n ymddangos ein bod wedi anghofio sut i'w wneud. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn defnyddio ein porthladdoedd, defnyddio'r seilwaith hwnnw, defnyddio'r fantais honno i ailadeiladu economi Cymru ar sail allforio, fel y gallwn fod yn falch unwaith eto yn y dyfodol o'r hyn sydd gennym yma.

17:50

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Rhun ap Iorwerth to move amendments 2 and 3, tabled in the name of Elin Jones.

*Gwelliant 2—Elin Jones*

*Cynnwys pwynt 3 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:*

*Yn croesawu argymhelliad y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru bod y cyfrifoldeb dros borthladdoedd yn cael ei ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol.*

*Gwelliant 3—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn nodi statws Caergybi yn rhaglen TEN-T yr Undeb Ewropeaidd fel porthladd cynhwysfawr yn hytrach na phorthladd Ewropeaidd craidd, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried pob opsiwn er mwyn sicrhau nad yw'r statws eilradd hwn yn ei rwystro rhag tyfu.*

Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i gynnig gwelliannau 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Amendment 2—Elin Jones*

*Add new point 3 and renumber accordingly:*

*Welcomes the recommendation of the Commission on Devolution in Wales that responsibility for ports be devolved to the National Assembly.*

*Amendment 3—Elin Jones*

*Add new point at end of motion:*

*Notes Holyhead's status in the European Union TEN-T Programme as a Comprehensive rather than Core European Port, and calls on the Welsh Government to pursue all options to ensure that this secondary status is not a barrier to growth.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:50

**Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cynigiad welliannau 2 a 3.

I move amendments 2 and 3.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Thank you for the opportunity to speak on this matter. I certainly welcome the emphasis in the motion on the importance of ports, not only for my constituency and other maritime parts of Wales, but for the Welsh economy as a whole. I support the inclusion of short sea shipping in the motion too; it certainly represents a more sustainable way of moving freight. It would be good to know where the Government thinks we can develop this in Wales. Plaid Cymru also agrees that the Welsh Government should update us on its work with WEFO on the role of ports in the renewable energy supply chain. We know that the Port of Mostyn, for example, has played a significant role in the development of offshore wind, but it would be interesting to know the Government's assessment of the prospects for future growth in Mostyn, and also in Holyhead and elsewhere.

So, let me turn to the amendments. Amendment 2, welcomes the recommendation of the Silk commission, calling for port policy to be devolved. In the evidence presented to the Silk commission, and in previous work done by the Welsh ports group, there was emphasis on the independence of ports—from Government regulation and from subsidy—but, that said, when the UK Government has made small sums available for ports investment in the past, whether Wales has received money has depended on whether port aid, in each particular case, is classified as general economic development funding or specifically for ports. Even when we are talking about relatively small sums of money, for example, £60 million made available for the UK ports fund back in 2011, there can be more than a little confusion, and devolution would end that confusion.

Of course, it would be up to Welsh Governments, in future, to set Welsh port policy, but devolution of ports policy in Scotland—if we look at the experience there—has resulted in Scottish ports retaining their commercial independence but having a really productive relationship with Scottish Governments. We would certainly be looking for a hands-off policy with regard to ports, but there is clearly growing agreement that having the overall policy responsibility in Wales is common sense. I am sensing some excitement from union officials I speak to regularly, for example, seeing the prospects of developing a public stake in Welsh ports through investment in new freight facilities and so on. I know that the current Welsh Government shares our support for devolution. One area that I would be interested to know a little more about is what plans it might have for the cruise market, in particular. I know that officials have been asked to look into how to attract more cruise ships to Welsh ports in the past.

Diolch i chi am y cyfle i siarad ar y mater hwn. Rwy'n sicr yn croesawu'r pwyslais yn y cynnig ar bwysigrwydd porthladdoedd, nid yn unig i fy etholaeth a rhannau morol eraill o Gymru, ond i economi Cymru yn ei chyfanrwydd. Rwy'n cefnogi cynnwys morgludiant byr yn y cynnig hefyd; mae'n sicr yn ffordd fwy cynaliadwy o symud nwyddau. Byddai'n dda cael gwybod lle mae'r Llywodraeth yn credu y gallwn ddatblygu hyn yng Nghymru. Mae Plaid Cymru hefyd yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei gwaith gyda WEFO ar rôl porthladdoedd yng nghadwyn gyflenwi ynni adnewyddadwy. Gwyddom fod Porthladd Mostyn, er enghraifft, wedi chwarae rhan sylweddol yn y gwaith o ddatblygu gwynt ar y môr, ond byddai'n ddiddorol gwybod asesiad y Llywodraeth o'r rhagolygon ar gyfer twf yn y dyfodol ym Mostyn, a hefyd yng Nghaergybi ac mewn mannau eraill.

Felly, gadewch i mi droi at y gwelliannau. Mae gwelliant 2 yn croesawu argymhelliad comisiwn Silk yn galw am ddatganoli polisi porthladdoedd. Yn y dystiolaeth a gyflwynwyd i gomisiwn Silk ac mewn gwaith blaenorol a wnaed gan grŵp porthladdoedd Cymru, roedd pwyslais ar annibyniaeth porthladdoedd—o reoliadau'r Llywodraeth ac o gymorthdaliadau—ond wedi dweud hynny, pan aeth Llywodraeth y DU ati i neilltuo symiau bach o arian ar gyfer buddsoddi mewn porthladdoedd yn y gorffennol, mae pa un a yw Cymru wedi derbyn arian ai peidio wedi dibynnu ar a ddosbarthwyd cymorth i borthladdoedd, ym mhob achos penodol, fel arian datblygu economaidd cyffredinol neu'n benodol ar gyfer porthladdoedd. Hyd yn oed wrth sôn am symiau cymharol fach o arian, er enghraifft y £60 miliwn a roddwyd i gronfa borthladdoedd y DU yn ôl yn 2011, gall fod cryn ddryswch, a byddai datganoli yn rhoi diwedd ar ddryswch o'r fath.

Wrth gwrs, mater i Lywodraethau Cymru yn y dyfodol fyddai pennu polisi porthladdoedd Cymru, ond mae datganoli polisi porthladdoedd yn yr Alban—os edrychwn ar y profiad yno—wedi golygu bod porthladdoedd yr Alban wedi cadw eu hannibyniaeth fasnachol ond bod perthynas wirioneddol gynhyrchiol rhyngddynt a Llywodraethau'r Alban. Byddem yn sicr yn chwilio am bolisi dim ymyrraeth mewn perthynas â phorthladdoedd, ond mae'n amlwg fod mwyfwy o gytundeb mai mater o synnwyr cyffredin yw ysgwyddo'r cyfrifoldeb polisi yn gyffredinol yng Nghymru. Rwy'n synhwyro rhywfaint o gyffro ymhlith y swyddogion undeb rwy'n siarad â hwy'n rheolaidd, er enghraifft wrth weld rhagolygon datblygu cyfran i'r cyhoedd ym mhorthladdoedd Cymru drwy fuddsoddi mewn cyfleusterau cludo nwyddau newydd ac yn y blaen. Gwn fod y Llywodraeth bresennol yn rhannu ein cefnogaeth i ddatganoli. Un maes y byddai gennyf ddiddordeb mewn gwybod ychydig mwy amdano yw pa gynlluniau sydd ganddi ar gyfer y farchnad longau mordeithio yn arbennig. Gwn fod swyddogion wedi cael ceisiadau yn y gorffennol i edrych ar sut i ddenu mwy o longau mordeithio i borthladdoedd Cymru.

Turning to amendment 3, it notes Holyhead's status in the European Union TEN-T programme as a comprehensive, rather than a core, European port, and calls on the Welsh Government to pursue all options to ensure that this secondary status is not a barrier to growth. The Minister will not be surprised to hear me bringing this up as a topic; I have mentioned this issue in the Chamber many times before. We cannot do anything about Holyhead's TEN-T status, as such, but it does mean that the Government will now have to work harder, work in a cleverer way, investigate all European financial instruments available to us, and work more collaboratively, too, with the port of Dublin, for example—which is a core port—to ensure that we can lever in funds, and can make investments that can help the port of Holyhead grow. It is a big port: 655 people, according to a report in 2012, are employed directly at Holyhead, and there are 1,000 more jobs that are indirectly supported. There has been serious growth there: 30% increase in passenger numbers between Holyhead and Ireland over the last decade or so, and an 11% increase in freight handled at Holyhead in the year to April. Workers at the port and on the ships are very proud of their record. Of course, much of that record is down to the expertise of those workers, which is why Government must do all that it can to ensure that port and ship operators are encouraged to keep and develop their locally based staff.

I just have a quick word to say on the other amendment from the Lib Dems. We support that and we certainly share concerns about what effect the M4 black route would have on the port of Newport. It is an issue that has been raised with colleagues of mine in the Plaid Cymru group who represent the region.

So, Welsh ports; 10% of the UK's total throughput goes through Welsh ports. There is spare capacity there, too, which is why I think we should all be excited about the prospect for developing Welsh ports in future.

17:55

## Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased to take part in this debate this afternoon. Like the Member for Ynys Môn, I also acknowledge the positive impact of the Welsh ports industry on the Welsh economy. Indeed, it is worth rehearsing that, each year, the industry handles around 10% of total UK throughput, equivalent to 18 tonnes of cargo per person.

Members will be aware that I am fortunate enough to represent a constituency that includes two Welsh ports. Indeed, Admiral Nelson once said that Milford Haven was the finest port in Christendom. [Laughter.] The Milford Haven port includes berths and facilities along both the northern and southern shores of the Haven waterway. For those of you who do not know, the other port, Fishguard port, is owned by Stena Line and is used as a terminal for sailings to Rosslare. Milford Haven is run by its own port authority and is the third largest port in the UK.

Gan droi at welliant 3, mae'n nodi statws Caergybi yn rhaglen TEN-T yr Undeb Ewropeaidd fel porthladd Ewropeaidd cynhwysfawr yn hytrach na chraidd ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar bob opsiwn er mwyn sicrhau nad yw statws eilaidd o'r fath yn rhwystr i dwf. Ni fydd yn syndod i'r Gweinidog fy nghlywed yn codi'r mater hwn; rwyf wedi crybwyll y mater yn y Siambr sawl gwaith o'r blaen. Ni allwn wneud dim ynglŷn â statws TEN-T Caergybi fel y cyfryw ond mae'n golygu y bydd yn rhaid i'r Llywodraeth weithio'n galetach yn awr ac mewn ffordd fwy clyfar, ymchwilio i bob offeryn ariannol Ewropeaidd sydd ar gael i ni, a gweithio'n fwy cydweithredol hefyd gyda phorthladd Dulyn, er enghraifft—sy'n borthladd craidd—i sicrhau y gallwn ddenu arian a buddsoddi er mwyn helpu porthladd Caergybi i dyfu. Mae'n borthladd mawr: caiff 655 o bobl eu cyflogi'n uniongyrchol yng Nghaergybi yn ôl adroddiad yn 2012, ac mae 1,000 o swyddi pellach yn cael eu cefnogi'n anuniongyrchol. Gwelwyd twf go iawn yno: cynnydd o 30% yn nifer y teithwyr rhwng Caergybi ac Iwerddon dros y degawd diwethaf a chynnydd o 11% yn y nwyddau a aeth drwy Gaergybi yn y flwyddyn hyd at fis Ebrill. Mae gweithwyr y porthladd ac ar y llongau yn falch iawn o'u record. Wrth gwrs, arbenigedd y gweithwyr hynny sy'n gyfrifol am y record honno a dyna pam y mae'n rhaid i'r Llywodraeth wneud popeth a all i sicrhau bod gweithredwyr porthladdoedd a llongau yn cael eu hannog i gadw a datblygu eu staff lleol.

Rwyf am ddweud gair sydyn am y gwelliant arall gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Rydym yn cefnogi'r gwelliant ac yn sicr yn rhannu pryderon ynglŷn â pha effaith fyddai llwybr du yr M4 yn ei chael ar borthladd Casnewydd. Mae'n fater a godwyd gyda chydweithwyr i mi yng ngrŵp Plaid Cymru sy'n cynrychioli'r rhanbarth.

Felly, porthladdoedd Cymru; mae 10% o gyfanswm llif cargo'r DU yn mynd drwy borthladdoedd Cymru. Mae lle i ragor hefyd a dyna pam rwy'n credu y dylem i gyd fod yn llawn cyffro ynghylch datblygu porthladdoedd Cymru yn y dyfodol.

Rwy'n falch o gymryd rhan yn y ddadl hon y prynhawn yma. Fel yr Aelod dros Ynys Môn, rwyf innau hefyd yn cydnabod effaith gadarnhaol diwydiant porthladdoedd Cymru ar economi Cymru. Yn wir, mae'n werth adlesio'r ffaith bod y diwydiant yn ymdrin ag oddeutu 10% o gyfanswm llif cargo'r DU bob blwyddyn, sy'n cyfateb i 18 tonn o gargo y pen.

Bydd yr Aelodau'n gwybod fy mod yn ddigon ffodus i gynrychioli etholaeth sy'n cynnwys dau o borthladdoedd Cymru. Yn wir, dywedodd y Llyngesydd Nelson unwaith mai Aberdaugleddau oedd y porthladd gorau yng Ngwledydd Cred. [Chwerthin.] Mae porthladd Aberdaugleddau yn cynnwys angorfeydd a chyfleusterau ar hyd glannau gogleddol a deheuol Dyffordd y Ddau Gledau. I'r rhai ohonoch nad ydych yn gwybod, mae'r porthladd arall, porthladd Abergwaun, yn eiddo i Stena Line ac yn cael ei ddefnyddio fel terfynell ar gyfer hwylio i Rosslare. Mae porthladd Aberdaugleddau yn cael ei redeg gan ei awdurdod porthladd ei hun ac mae'n drydydd porthladd mwyaf y DU.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I have no doubt that one of the biggest challenges facing both of these ports is transport connectivity. While local government has some responsibility for local transport infrastructure, it is the Welsh Government that has the authority to deliver direct improvements to the trunk road system and influence national public transport. Therefore, I would like to reiterate my call once again to dual the A40 in Pembrokeshire, which would have a hugely beneficial impact on both of the ports in my constituency. Indeed, Milford Haven Port Authority stressed this point in its written and oral evidence to the Assembly's Enterprise and Business Committee during its inquiry into ports and airports in 2012. During this inquiry, in written evidence, the port authority said that eventual investment in the dualling of road links would improve commutability and have a substantial impact on the tourism economy.

It was not the only witness during that inquiry to call for investment in the dualling of the A40. Stena Line has also called for upgrades to the A40, saying that an improvement to the A40 could be a catalyst to the Fishguard port development plan, which was submitted for outline planning last year, along with a proposed marina development adjacent to the port.

I know that both the First Minister and the Minister for Economy, Science and Transport have recently indicated their will to seriously consider these proposals and that, in principle, they are in favour of dualling the A40. Perhaps in response to this debate, the Minister will take the opportunity to tell us where the Welsh Government is with this particular agenda.

Pembrokeshire's ports are also important employers, which contribute both directly and indirectly to the local economy. In Fishguard, the Stena Line operation is responsible for the direct employment of over 200 people and is one of the largest private sector employers in north Pembrokeshire. Milford Haven also directly employs over 200 people and has a turnover of some £30 million per year. In addition, both ports are responsible for supporting the local economy indirectly through hotels, tourist attractions and food suppliers. It is, therefore, crucial that steps are taken to encourage and promote these ports and to invest in the safeguarding of existing jobs and the creation of new employment opportunities.

Members will be aware that, over the last few years, I have highlighted the need for Milford Haven and Fishguard to become strategic regeneration areas and I have encouraged the Welsh Government to look at further investment opportunities in these particular areas. Of course, the Haven Waterway enterprise zone has now been established, which has certainly gone some way to recognising the strategic importance of the area. However, in response to this debate, the Minister might highlight this afternoon what work the Welsh Government is doing to support the Fishguard port and its surrounding area.

Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth mai un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r ddau borthladd hwn yw cysylltedd trafniadaeth. Er bod gan lywodraeth leol rywfaent o gyfrifoldeb am seilwaith trafniadaeth lleol, Llywodraeth Cymru sydd â'r awdurdod i ddarparu gwelliannau uniongyrchol i'r system gefnffyrdd a dylanwadu ar gludiant cyhoeddus cenedlaethol. Felly, hoffwn ailadrodd fy ngalwad unwaith eto i ddeuoli'r A40 yn Sir Benfro, a fyddai'n cael effaith hynod fuddiol ar y ddau borthladd yn fy etholaeth. Yn wir, pwysleisiodd Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau y pwynt hwn yn ei dystiolaeth ysgrifenedig a llafar i Bwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad yn ystod ei ymchwiliad i borthladdoedd a meysydd awyr yn 2012. Yn ystod yr ymchwiliad, mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd yr awdurdod porthladd y byddai buddsoddi yn y gwaith o ddeuoli cysylltiadau ffordd yn y pen draw yn gwella'r gallu i gymudo ac yn cael effaith sylweddol ar economi twristiaeth.

Nid dyma'r unig dyst yn ystod yr ymchwiliad i alw am fuddsoddi yn y gwaith o ddeuoli'r A40. Mae Stena Line hefyd wedi galw am waith uwchraddio ar yr A40, gan ddweud y gallai gwella'r A40 fod yn gatalydd i gynllun datblygu porthladd Abergwaun, a gyflwynwyd ar gyfer cynllunio amlinellol y llynedd, ynghyd â datblygiad marina arfaethedig ger y porthladd.

Gwn fod y Prif Weinidog a Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi nodi eu hewyllys yn ddiweddar i ystyried y cynigion hyn o ddirif, a'u bod o blaid deuoli'r A40 mewn egwyddor. Efallai y gall y Gweinidog fanteisio ar y cyfle wrth ymateb i'r ddatl hon i ddweud wrthym ble y mae Llywodraeth Cymru arni ar yr agenda benodol hon.

Mae porthladdoedd Sir Benfro yn gyflogwyr pwysig sy'n cyfrannu yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol at yr economi leol. Yn Abergwaun, mae cwmni Stena Line yn gyfrifol am gyflogi dros 200 o bobl yn uniongyrchol ac mae'n un o gyflogwyr mwyaf y sector preifat yng ngogledd Sir Benfro. Mae Aberdaugleddau hefyd yn cyflogi dros 200 o bobl yn uniongyrchol ac mae ganddo drosiant o tua £30 miliwn y flwyddyn. Hefyd, mae'r ddau borthladd yn gyfrifol am gefnogi'r economi leol yn anuniongyrchol drwy westai, atyniadau twristiaeth a chyflenwyr bwyd. Mae'n hanfodol felly fod camau'n cael eu rhoi ar waith i annog a hyrwyddo'r porthladdoedd hyn ac i fuddsoddi yn y gwaith o ddiogelu swyddi presennol a chreu cyfleoedd gwaith newydd.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, bydd yr Aelodau'n ymwybodol fy mod wedi tynnu sylw at yr angen i Aberdaugleddau ac Abergwaun ddod yn ardaloedd adfywio strategol ac rwyf wedi annog Llywodraeth Cymru i edrych ar gyfleoedd buddsoddi pellach yn yr ardaloedd penodol hyn. Wrth gwrs, mae Ardal Fenter Dyfrffordd y Daugleddau bellach wedi'i sefydlu, ac mae hynny'n sicr o fod wedi gwneud cryn dipyn i gydnabod pwysigrwydd strategol yr ardal. Fodd bynnag, mewn ymateb i'r ddatl hon, efallai y gwnaiff y Gweinidog dynnu sylw y prynhawn yma at ba waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi porthladd Abergwaun a'r ardal o'i amgylch.



In 2011, Milford Haven Port Authority commissioned a report with Cardiff University into its economic impact, and one of the industry concerns raised was that confidence among the largest operators in the Haven to invest is being affected by regulation and planning issues. Indeed, the report stated that this is a real area of concern, with some respondents questioning to what extent Wales is still an attractive place to invest. It is therefore crucial that these issues are addressed; indeed, there may be an opportunity in the upcoming planning legislation to work a bit more closely with the ports to ensure that their views are taken on board.

Therefore, in closing, acting Deputy Presiding Officer, I am sure that Members across all parties recognise the importance of ports to the Welsh economy, and I am sure that we all want to see them flourish. For our ports to become more successful, the Welsh Government must tackle issues such as transport infrastructure, supporting businesses, attracting inward investment and dealing with the planning system, and I hope that the Minister addresses these issues in her response. I urge Members to support this motion.

18:01 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Surprisingly, I am very pleased to welcome this Welsh Conservative debate. There have been a number of things said by all parties here that I totally agree with, although amendment 1 is not one of them.

Members may or may not know that I have a private port, the Port of Mostyn, within my constituency, which is quite different to most people. You, Minister, will know that I raised issues about Mostyn when we discussed this recently in the enterprise committee. I think that the points have been made about Holyhead. Holyhead is vital to north Wales generally, and I certainly support most of the things that Rhun ap Iorwerth said about that. I want to concentrate on Mostyn, because I want to ensure that while we, for the first time in my recollection anyway, are talking about the ports as an integrated part of our transport system and the way that we move goods into and about the country, that Mostyn, if possible, and if that is what is wanted and required by the person who owns it, should not be left out of this equation.

Mostyn is important to the economy of north-east Wales for all sorts of reasons. Some people will know that, and some people may have seen, the wings from Airbus sailing on from there. It fits into the Welsh Government's wider strategic approach to economic development and, of course, it plays an important part in the renewable energy supply chain. It has become a key regional centre for the assembly, installation and maintenance of offshore turbines. Four major windfarms have been constructed from the port over the last few years, and I think that that illustrates its importance. In a constituency like mine, it also has an impact on the local economy. So, I do hope, Minister, that the Welsh Government will continue to work with operators to maximise the benefits that renewable energy can give to ports like Mostyn.

Yn 2011, comisiynodd Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau adroddiad gyda Phrifysgol Caerdydd ar ei effaith economaidd ac un o bryderon y diwydiant oedd bod hyder buddsoddi ymhlith busnesau mwyaf y Ddau Gleddau yn cael ei effeithio gan faterion rheoleiddio a chynllunio. Yn wir, nododd yr adroddiad fod hwn yn faes sy'n peri pryder gwirioneddol, gyda rhai ymatebwyr yn holi i ba raddau y mae Cymru yn dal i fod yn lle deniadol ar gyfer buddsoddi. Felly, mae'n hanfodol fod y materion hyn yn cael sylw; yn wir, efallai y bydd cyfle yn y ddeddfwriaeth gynllunio sydd ar y gweill i weithio ychydig yn agosach gyda'r porthladdoedd er mwyn sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried.

Felly, wrth gloi, Ddirprwy Lywydd dros dro, rwy'n siŵr bod Aelodau pob plaid yn cydnabod pwysigrwydd porthladdoedd i economi Cymru ac rwy'n siŵr ein bod i gyd am eu gweld yn ffynnu. Er mwyn i'n porthladdoedd lwyddo'n well, rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â materion megis seilwaith trafnidiaeth, cefnogi busnesau, denu buddsoddiad o'r tu allan a delio â'r system gynllunio, ac rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn ei hymateb. Anogaf yr Aelodau i gefnogi'r cynnig.

Er syndod, rwy'n falch iawn o groesawu'r ddadl hon gan y Ceidwadwyr Cymreig. Dywedwyd nifer o bethau gan bob plaid yma y cytunaf yn llwyr â hwy, er nad yw gwelliant 1 yn un ohonynt.

Efallai y bydd yr Aelodau'n gwybod bod gen i borthladd preifat, sef Porthladd Mostyn, yn fy etholaeth, sy'n eithaf gwahanol i'r rhan fwyaf o bobl. Byddwch chi, Weinidog, yn gwybod fy mod wedi codi materion yn ymwneud â Mostyn pan fuom yn trafod hyn yn ddiweddar yn y pwyllgor menter. Credaf fod y pwyntiau wedi cael eu gwneud am Gaergybi. Mae Caergybi yn hanfodol i ogledd Cymru yn gyffredinol ac rwy'n sicr yn cefnogi'r rhan fwyaf o'r pethau a ddywedodd Rhun ap Iorwerth am hynny. Rwyf am ganolbwyntio ar Mostyn, oherwydd wrth siarad am y tro cyntaf i mi gofio beth bynnag am y porthladdoedd fel rhan integredig o'n system drafnidiaeth a'r ffordd rydym yn symud nwyddau i mewn i'r wlad ac o'i hamgylch, rwyf am sicrhau na chaiff Mostyn ei adael allan o'r ystyriaeth os yn bosibl, ac os mai dyna beth y mae'r person sy'n berchen ar y porthladd ei eisiau a'i angen.

Mae Mostyn yn bwysig i economi gogledd-ddwyrain Cymru am bob math o resymau. Bydd rhai pobl yn gwybod fod adenydd Airbus wedi hwylio o'r fan, a bydd rhai wedi gweld hynny'n digwydd. Mae'n cydweddu ag agwedd strategol ehangach Llywodraeth Cymru tuag at ddatblygu economaidd ac wrth gwrs, mae'n chwarae rhan bwysig yn y gadwyn gyflenwi ynni adnewyddadwy. Mae wedi dod yn ganolfan ranbarthol allweddol ar gyfer cydosod, gosod a chynnal a chadw tyrbinau alltraeth. Cafodd pedair fferm wynt bwysig eu hadeiladu o'r porthladd yn ystod y blynyddoedd diwethaf a chredaf fod hynny yn dangos ei bwysigrwydd. Mewn etholaeth fel fy un i, mae hefyd yn cael effaith ar yr economi leol. Felly, Weinidog, rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda chwmnïau i uchafu'r manteision y gall ynni adnewyddadwy ei roi i borthladdoedd fel Mostyn.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I was also very interested in the short sea shipping movement—I call it ‘port to port’, which I think is, while alliterative, easier to say. I think that we ought to be looking at the wider benefits of that. I have the A55 in my constituency, as do you. We all know about the traffic, heavy lorries and so on along many of the roads in Wales—I do not want to be parochial about that; there are great problems in many places—and integrated transport movement, to me, means looking in future at how we can improve that. I think that port-to-port movement can help in that way. I have very little else to say, because I think that most of it has been said. I think that there have been some very important points made here today, and I certainly will be happy to support the last two amendments and, indeed, the motion.

Roedd gennyf innau hefyd ddiddordeb mawr mewn morgludiant byr—rwy'n ei alw'n 'o borthladd i borthladd' sy'n haws i'w ddweud na 'short sea shipping' yn fy marn i, er yn cyflythrennu. Credaf y dylem fod yn edrych ar fanteision ehangach y syniad. Mae'r A55 yn mynd drwy fy etholaeth i, fel eich un chithau. Rydym i gyd yn gwybod am y traffig, lorïau trwm ac yn y blaen ar hyd llawer o'r ffyrdd yng Nghymru—nid wyf am fod yn blwyfol ynghylch hynny; mae problemau mawr mewn llawer man-ac i mi, mae symudiad trafnidiaeth integredig yn golygu edrych yn y dyfodol ar sut y gallwn wella hynny. Rwy'n meddwl y gall symud nwyddau o borthladd i borthladd helpu yn hynny o beth. Nid oes gennyf fawr ddim arall i'w ddweud, oherwydd credaf fod y rhan fwyaf ohono wedi cael ei ddweud. Rwy'n meddwl bod rhai pwyntiau pwysig iawn wedi'u gwneud yma heddiw, a byddaf yn sicr yn hapus i gefnogi'r ddau welliant diwethaf, a'r cynnig yn wir.

18:04

## **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful for the opportunity to speak this afternoon on the importance of Welsh ports to the economy. This sector supports 3,300 people who are directly involved and, indirectly, many more. The Department for Transport recently released figures for UK port freight in 2013. These figures revealed that Welsh ports handled 12% of the total tonnage through UK ports—a figure of nearly 59 million tonnes. Around 1.5 million tonnes are handled annually by Newport docks.

Before the industrial revolution, Newport was a small fishing port and market town. The Monmouthshire canal, opened at the beginning of the nineteenth century, was used to bring coal and iron down the south Wales Valleys for shipment abroad and around the United Kingdom. As a result, at that time, Newport docks were doing more business than almost any other port in the United Kingdom. Today, Newport deals mainly with dry bulk, and other general cargo and traffic through the port consists mainly of imports.

The Association of British Ports has invested significantly in Newport over the past few years. A refurbishment of the port's Atlantic shed, costing £2.5 million pounds, has brought ABP's investment in Newport in the last two years to £10 million. This is very good news for the Newport economy. The Atlantic shed supports Newport's steel and bulk businesses, which remain on the site.

Newport occupies a prime location to service the United Kingdom's main industrial and commercial regions, with its excellent links to direct rail linkage, connections and communications and the nearby M4 motorway. I am greatly concerned therefore that the Association of British Ports has said that the proposed M4 relief road through Newport's docklands would put jobs and future investment at the site at risk. Matthew Kennerley of ABP is reported as saying that his firm would lose land, and that one dock would have up to 60% of vessels unable to use it due to height restrictions. He went on to say that he did not think that it was a good idea to put the new route through the centre of one of Wales's most important general cargo ports, bisecting such important quayside areas.

Diolch am y cyfle i siarad y prynhawn yma am bwysigrwydd porthladdoedd Cymru i'r economi. Mae'r sector yn cynnal 3,300 o bobl sy'n rhan uniongyrchol ohono a llawer mwy na hynny yn anuniongyrchol. Yn ddiweddar, rhyddhaodd yr Adran Drafnidiaeth ffigurau cludo nwyddau porthladdoedd y DU yn 2013. Maent yn dangos bod porthladdoedd Cymru wedi ymdrin â 12% o gyfanswm tunelledd nwyddau sy'n mynd drwy borthladdoedd y DU—bron i 59 miliwn o dunelli. Ymdrinnir â thua 1.5 miliwn o dunelli bob blwyddyn yn nocio Casnewydd.

Cyn y chwyldro diwydiannol, porthladd pysgota a thref farchnad fach oedd Casnewydd. Agorodd camlas Sir Fynwy ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a châl ei defnyddio i ddod â glo a haearn i lawr drwy gymoedd y de i'w cludo dramor ac o gwmpas y Deyrnas Unedig. O ganlyniad, ar y pryd roedd dociau Casnewydd yn gwneud mwy o fusnes nag unrhyw borthladd arall bron yn y Deyrnas Unedig. Heddiw, mae Casnewydd yn ymdrin yn bennaf â swmp sych, a chargo cyffredinol arall, a mewnforyon yw'r rhan fwyaf o'r nwyddau sy'n mynd drwy'r porthladd.

Mae Cymdeithas Porthladdoedd Prydain wedi buddsoddi'n sylweddol yng Nghasnewydd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae adnewyddu sied Atlantic yn y porthladd, a gostiodd £2.5 miliwn, wedi dod â buddsoddiad ABP yng Nghasnewydd yn y ddwy flynedd ddiwethaf i £10 miliwn. Mae hyn yn newyddion da iawn i economi Casnewydd. Mae sied Atlantic yn cefnogi busnesau dur a swmp Casnewydd, sy'n parhau ar y safle.

Mae lleoliad Casnewydd yn wych ar gyfer gwasanaethu prif ranbarthau diwydiannol a masnachol y Deyrnas Unedig, gyda chysylltiadau rhagorol y ddinas â chysylltedd rheilffordd, cysylltiadau a chyfathrebu, a thraffordd yr M4 gerllaw. Rwy'n pryderu yn fawr felly fod Cymdeithas Porthladdoedd Prydain wedi dweud y byddai ffordd liniaru arfaethedig yr M4 drwy dociau Casnewydd yn peryglu swyddi ar y safle a buddsoddiadau yn y dyfodol. Dywedwyd bod Matthew Kennerley o ABP wedi sôn y byddai ei gwmni'n colli tir ac na allai hyd at 60% o longau ddefnyddio un o'r dociau oherwydd cyfyngiadau ar uchder. Aeth ymlaen i ddweud nad oedd yn credu y byddai'n syniad da i osod y llwybr newydd drwy ganol un o borthladdoedd cargo cyffredinol pwysig Cymru, gan dorri drwy rannau mor bwysig o'r cei.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Let me make my position clear: the delay in building the M4 relief road is a blow to the entire economy of south Wales. Every day that the M4 continues to creak under the strain of congestion without a relief road means rising costs, more missed opportunities for companies to invest, and more lost trade for businesses in the area. I regret that this project faces yet another lengthy delay. Ministers must use the time wisely to examine route options, properly address environmental concerns and the concerns of the Association of British Ports. I look forward to hearing the Minister's response on this issue.

Sea ports are one of the lifelines in many countries of the world, and we are very fortunate, blessed by Almighty God, to have high tides every day, so that ships can come, of any size and shape, and enter through our ports and improve our economies. We have naturally built sea port areas from St David's through to Chepstow. Why can we not improve our sea ports to bring foreign investment through water, which would be very good for the environment, and also good for the economy of our country? Another area that I also need to understand is the economy on this scale in these ports, and whether we are there to collect—. Is the taxation system and the port charges still in the hands of London, or are you doing it? Is there any difference? That is why the ships go to Liverpool rather than come this way. Is there any?

Gadewch i mi wneud fy safbwynt yn glir: mae'r oedi wrth adeiladu ffordd liniaru'r M4 yn ergyd i economi gyfan de Cymru. Mae pob dydd y bydd yr M4 yn parhau i wegian dan strae'n tagfeydd heb ffordd liniaru yn golygu costau cynyddol, colli mwy o gyfleoedd i gwmnïau fuddsoddi, a cholli mwy o fasnach ar gyfer busnesau yn yr ardal. Rwy'n gresynu bod y prosiect hwn yn wynebu oedi hir eto fyth. Rhaid i Weinidogion ddefnyddio'r amser yn ddoeth i archwilio opsiynau llwybrau a mynd i'r afael yn briodol â phryderon amgylcheddol a phryderon Cymdeithas Porthladdoedd Prydain. Edrychaf ymlaen at glywed ymateb y Gweinidog ar y mater hwn.

Mae porthladdoedd yn un o'r dolenni cyswllt hollbwysig yn llawer o wledydd y byd ac rydym yn ffodus iawn fod Duw wedi ein bendithio â llanw uchel bob dydd, fel y gall llongau o unrhyw faint a siâp fynd a dod drwy ein porthladdoedd a gwella ein heconomiâu. Mae gennym borthladdoedd naturiol o Dŷ Ddewi i Gas-gwent. Pam na allwn ni wella ein porthladdoedd i ddod â buddsoddiadau tramor i mewn ar y dŵr a gwneud lles i'r amgylchedd ac i economi ein gwlad? Maes arall sydd angen i mi ei ddeall hefyd yw'r economi ar y raddfa hon yn y porthladdoedd, ac a ydym yno i gasglu—. A yw'r system drethi a'r taliadau porthladd yn dal yn nwylo Llundain, neu ai chi sy'n ei wneud? A oes unrhyw wahaniaeth? Dyna pam y mae'r llongau yn mynd i Lerpwl yn hytrach na dod y ffordd hon. A oes gwahaniaeth?

18:08 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Would you agree with me, therefore, that with the main sea lock being 100 feet wide, but the opening to the north dock only 60 feet, the impact on shipping would be minor? However, just as you say, the impact on the M4 would be greater.

Gan fod y prif loc môr yn 100 troedfedd o led, a'r agoriad i ddoc y gogledd yn ddim ond 60 troedfedd, a fydddech yn cytuno â mi felly mai bychan fyddai'r effaith ar forgludiant? Fodd bynnag, fel y dywedwch, byddai'r effaith ar yr M4 yn fwy.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

18:09 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I agree with you, William. The fact is that I am trying to ask the Minister that we should improve our sea ports and port docks to make sure that—[Interruption.] As a matter of fact, our journey from Newport to Bristol is more than half an hour, but if we had any small boats or shipping facilities, it would be only 8 miles by sea. So, why can we not have some kind of hovercraft from here to the west of England and make our economy grow? We must have some free ports. Thank you, Minister.

Ydw, Rwy'n cytuno â chi, William. Y ffaith yw fy mod yn ceisio gofyn i'r Gweinidog a ddylem wella ein porthladdoedd a dociau ein porthladdoedd i wneud yn siŵr fod— [Torri ar draws.] Fel mater o ffaith, mae ein taith o Gasnewydd i Fryste yn cymryd mwy na hanner awr, ond pe bai gennym gychod bach neu gyfleusterau morgludiant, dim ond 8 milltir yw'r pellter ar y môr. Felly pam na allwn gael rhyw fath o hofrenfad oddi yma i orllewin Lloegr a gwneud i'n heconomi dyfu? Rhaid i ni gael rhywfaint o borthladdoedd rhydd. Diolch i chi, Weinidog.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

18:09 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I always love it when a fellow Member gets ambushed. I am very pleased to contribute to today's debate, and I am particularly delighted to hear Sandy Mewies's contribution. It is not often that I agree with her contributions, but I am aware of the great work that Jim O'Toole did in ensuring the survival of Mostyn docks, with, he did say, very little Government assistance. I remember taking Chris Grayling there, actually, to visit the dock right on the cusp of the change. He was extremely enterprising in maximising the opportunities for Mostyn docks from windfarms, particularly from the Burbo Bank extension and Gwynt-y-Môr. I am delighted that that success is a good success story for Flintshire and north-east Wales.

Rwyf bob amser wrth fy modd pan fo cyd-Aelod yn cael ei lorio. Rwy'n falch iawn o gael cyfrannu at y ddatl heddiw, ac yn arbennig o falch o glywed cyfraniad Sandy Mewies. Nid yn aml y byddaf i'n cytuno â'i chyfraniadau, ond rwy'n ymwybodol o'r gwaith gwych a wnaeth Jim O'Toole yn sicrhau dyfodol o'r dociau Mostyn, gydag ond ychydig o gymorth gan y Llywodraeth yn ôl yr hyn a ddywedodd. Â dweud y gwir, rwy'n cofio mynd â Chris Grayling i ymweld â'r doc ar adeg y newid. Roedd yn hynod o arloesol yn uchafu cyfleoedd i dociau Mostyn o ffermydd gwynt, yn unwedig o estyniad Burbo Bank a Gwynt-y-Môr. Rwy'n falch iawn mai llwyddiant i Sir y Fflint a gogledd-ddwyrain Cymry yw'r llwyddiant hwnnw.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

However, I also agree with Rhun about the importance of Holyhead. It has been a port of transport to Ireland for over 4,000 years and it plays a huge part in the trans-European network routes. I know that the Minister is aware that, when I arrived at the Assembly in 2011, one of the first things I did was write to her to ask her to make sure and to put pressure on the UK Government, as I did, to try to ensure that Holyhead was one of the TEN-T routes. It is disappointing that it has not had the core grading, but the secondary grading. I do think that that is disappointing and it will affect our development in north Wales.

I would therefore like to echo Byron Davies's concerns that we need to have integrated transport into our Welsh ports, and particularly echo, Minister, the importance, therefore, of linking transport—not only freight transport by rail, but by road. That is a key argument for the electrification of the north Wales line. Particularly when looking ahead to the possibility of HS2, we need to be looking at the big transport infrastructure projects that may be happening elsewhere in the UK, to ensure that we have that connectivity across the north Wales coast. As Sandy Mewies pointed out in her contribution, the A55 is a nightmare for moving freight, and all of us who live up there and represent north Wales know the difficulties that there are on the A55. You know, Minister, that I have written to you about those issues. For that reason, interconnectivity, particularly of rail with the port, will be key.

Byron Davies also mentioned the importance of deep-dock facilities for the cruise ship market. That is a market in which Holyhead has been far more successful. It is an increasingly profitable market for Wales and it is essential that Welsh ports do all that they can to attract cruise liners so that they add locations in Wales to their schedules. I would be interested to know what assistance the tourism team in your department is giving, Minister, to support Holyhead in achieving this and to build on its strength as a stop-off for cruise ships. It is hugely important in benefiting the local economy and it encourages more international visitors to our shores and, hopefully, it will encourage them to do return visits.

I also very much support what Eluned Parrott said in terms of making sure that we use our ports, not only to import people and goods into the UK, but to make sure that we export our excellent produce, including our food produce and other produce, out of Wales to the rest of the world. We have some exceptionally good manufacturers, particularly in north Wales, and it is vital for our manufacturing industry that they can access our ports, as well as other important key transport, to ensure that our goods and services, which we are so good at producing in north Wales, get out into the European market and to the rest of the world. Ports are a key part of that strategy.

Fodd bynnag, rwyf hefyd yn cytuno â Rhun ynglŷn â phwysigrwydd Caergybi. Mae wedi bod yn borthladd ar gyfer cludo nwyddau i Iwerddon ers dros 4,000 o flynyddoedd ac mae'n chwarae rhan enfawr yn y llwybrau rhwydwaith Traws-ewropeaidd. Gwn fod y Gweinidog yn ymwybodol mai un o'r pethau cyntaf a wneuthum ar ôl cyrraedd y Cynulliad yn 2011 oedd ysgrifennu ati i ofyn iddi wneud yn siŵr ei bod yn pwysu ar Lywodraeth y DU, fel y gwnawn i, i geisio sicrhau bod Caergybi yn un o'r llwybrau TEN-T. Mae'n siomedig mai'r radd eilaidd a gafodd, yn hytrach na chael ei raddio'n borthladd craidd. Rwy'n credu bod hynny'n siomedig a bydd yn effeithio ar ein datblygiad yn y gogledd.

Felly hoffwn adleisio pryderon Byron Davies fod angen i ni sicrhau trafnidiaeth integredig i borthladdoedd Cymru, Weinidog, ac rwy'n adleisio'n benodol pa mor bwysig yn cysylltu cludo nwyddau—nid yn unig ar y rheilffyrdd ond ar y ffordd hefyd. Mae honno'n ddadl allweddol dros drydaneiddio rheilffordd gogledd Cymru. Yn enwedig wrth edrych ymlaen at y posibilrwydd o gael HS2, mae angen i ni edrych ar y prosiectau seilwaith trafnidiaeth mawr a allai fod yn digwydd mewn manau eraill yn y DU, er mwyn sicrhau bod gennym gysylltedd o'r fath ar draws arfordir gogledd Cymru. Fel y dywedodd Sandy Mewies yn ei chyfraniad, mae'r A55 yn hunllef ar gyfer symud nwyddau, ac mae pob un ohonom sy'n byw i fyny yno ac yn cynrychioli gogledd Cymru yn gwybod am yr anawsterau sydd i'w cael ar yr A55. Weinidog, gwyddoch fy mod wedi ysgrifennu atoch ynglŷn â'r materion hynny. Gan hynny, bydd cydgysylltedd, yn enwedig cysylltu rheilffyrdd â'r porthladd, yn allweddol.

Hefyd, soniodd Byron Davies am bwysigrwydd cyfleusterau dociau dwfn ar gyfer y farchnad llongau mordeithio. Dyna farchnad y mae Caergybi wedi bod yn llawer mwy llwyddiannus ynddi. Mae'n farchnad fwyfwy proffidiol i Gymru ac mae'n hanfodol fod porthladdoedd Cymru yn gwneud popeth o fewn eu gallu i ddenu llongau mordeithio fel eu bod yn ychwanegu lleoliadau yng Nghymru at eu hamserlenni. Byddai gennyf ddi-ddordeb i wybod pa gymorth y mae'r tîm twristiaeth yn eich adran yn ei roi, Weinidog, i gynorthwyo Caergybi i gyflawni hyn ac i adeiladu ar ei gryfder fel man aros i llongau mordeithio. Mae'n hynod bwysig er lles yr economi leol ac mae'n annog mwy o ymwelwyr rhyngwladol i ymweld â'n gwlad ac yn eu hannog i ddod yn eu holau hefyd, gobeithio.

Rwyf hefyd yn gefnogol iawn i'r hyn a ddywedodd Eluned Parrott o ran sicrhau ein bod yn defnyddio ein porthladdoedd, nid yn unig i fewnforio pobl a nwyddau i'r DU, ond i wneud yn siŵr ein bod yn allforio ein cynnyrch rhagorol, yn cynnwys ein cynnyrch bwyd a chynhyrchion eraill, allan o Gymru i weddill y byd. Mae gennym rai gweithgynhyrchwyr eithriadol o dda, yn enwedig yn y gogledd, ac mae'n hanfodol i'n diwydiant gweithgynhyrchu eu bod yn gallu sicrhau mynediad i'n porthladdoedd, yn ogystal â dulliau cludio allweddol eraill pwysig, er mwyn sicrhau bod y nwyddau a'r gwasanaethau rydym mor dda am eu cynhyrchu yng ngogledd Cymru, yn cyrraedd y farchnad Ewropeaidd a gweddill y byd. Mae porthladdoedd yn rhan allweddol o'r strategaeth honno.

18:14

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. I call the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart.

Diolch. Galwaf ar Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Thank you very much indeed, acting Presiding Officer. I am pleased to respond to this debate today. As a Government, we recognise that ports are vital to Wales's economic growth. Ports in Wales represent every possible port type and activity. Each year, the industry handles around 10% of the total UK throughput, an equivalent to 18 tonnes of cargo per person, which is a considerable amount when we look at the details of what is going on across the UK. According to statistics, there are approximately 575 enterprises in the core marine sector that employ almost 5,000 people in Wales. The value to the economy is estimated to be worth £726 million.

Ports policy is non-devolved and ports are run on a commercial basis, regardless of whether they are privately owned, are trust ports or are local-authority owned. We made the case for the devolution of ports policy and related issues in our evidence to the Silk commission. We were pleased that the commission agreed with the case and reflected that in its recommendations. I am obviously delighted to support the lines taken in the Chamber today, with strong support from Plaid Cymru and the Liberal Democrats on the devolution agenda. While ports policy may not yet be devolved, there are many opportunities for the Welsh Government to capitalise on the potential of Welsh ports as economic drivers, which, I think, has been the focus of the discussion today. We are investigating ways in which we can play a role in supporting the infrastructure that will enable Welsh ports to flourish.

A prime example is, and I refer to Paul Davies's contribution in particular, the Milford Haven waterway. It has one of the deepest natural harbours in the world and is recognised as a major energy hub with excellent port infrastructure and good access to the national gas and electricity infrastructure networks. We are working closely with Milford Haven Port Authority on developments within the port. The deep sea port of Milford is a key selling point, I think, to potential investors in the Haven waterway. I know that it has been marketed in that way by the enterprise zone board.

You also have the delights of Fishguard as a port within your constituency boundary, and Fishguard is very key to us. It has proved to be a very attractive destination for cruise ships, and we are doing a considerable amount of work with the owners in Fishguard on improving it. However, you are right, in terms of access to our ports, the national transport plan and the Wales infrastructure investment plan will set out our planned investments in transport infrastructure, including the A55 and the A40. I do recognise the representations that have been made on the A40, particularly, about its linkage to the ports.

Diolch yn fawr iawn yn wir, Lywydd dros dro. Mae'n bleser gennyf ymateb i'r ddadl hon heddiw. Fel Llywodraeth, rydym yn cydnabod bod porthladdoedd yn hanfodol i dwf economaidd Cymru. Mae porthladdoedd yng Nghymru yn cynnwys pob math o borthladd a gweithgarwch posibl. Bob blwyddyn, mae'r diwydiant yn ymdrin ag oddeutu 10% o gyfanswm llif cargo'r DU, sy'n cyfateb i 18 tunnell o gargo y pen, ac sy'n swm sylweddol pan edrychwn ar fanylion yr hyn sy'n digwydd ar draws y DU. Yn ôl yr ystadegau, mae tua 575 o fentrau yn y sector morol craidd sy'n cyflogi bron i 5,000 o bobl yng Nghymru. Amcangyfrifir eu bod yn werth £726 miliwn i'r economi.

Mae polisi porthladdoedd yn fater heb ei ddatganoli a chaiff porthladdoedd eu rhedeg ar sail fasnachol, heb ystyried a ydynt yn eiddo preifat, yn borthladdoedd ymddiriedolaeth neu'n eiddo i awdurdod lleol. Gwnaethom achos dros ddatganoli polisi porthladdoedd a materion cysylltiedig yn ein tystiolaeth i gomisiwn Silk. Roeddem yn falch fod y comisiwn wedi cytuno â'r achos ac wedi adlewyrchu hynny yn ei argymhellion. Yn amlwg, rwy'n falch iawn i ategu'r llwybr a amlinellwyd yn y Siambr heddiw, gyda chefnogaeth gref gan Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol i'r agenda ddatganoli. Er nad yw polisi porthladdoedd wedi'i ddatganoli eto, mae llawer o gyfleoedd i Lywodraeth Cymru fanteisio ar botensial porthladdoedd Cymru fel ysgogwyr economaidd, sef ffocws y drafodaeth heddiw yn fy marn i. Rydym yn ymchwilio i ffyrdd y gallwn chwarae rhan yn cefnogi'r seilwaith er mwyn galluogi porthladdoedd Cymru i ffynnu.

Gan gyfeirio at gyfraniad Paul Davies yn benodol, mae dyfrffordd y Ddau Gleddau yn enghraifft dda. Mae ganddi un o'r porthladdoedd naturiol dyfnaf yn y byd a chaiff ei chydabod fel canolfan ynni fawr gyda seilwaith porthladd rhagorol a mynediad da at y rhwydweithiau seilwaith trydan a nwy cenedlaethol. Rydym yn gweithio'n agos gydag Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau ar ddatblygiadau o fewn y porthladd. Mae porthladd dwfn Aberdaugleddau yn bwynt gwerthu allweddol yn fy marn i i fuddsoddwyr posibl yn nyfrffordd y Ddau Gleddau. Gwn ei fod wedi cael ei farchnata yn y ffordd honno gan fwrdd yr ardal fenter.

Hefyd, mae gennych hyfrydwch Abergwaun fel porthladd o fewn ffiniau eich etholaeth, ac mae Abergwaun yn allweddol iawn i ni. Mae wedi profi'n gyrchfan deniadol iawn i longau mordeithio ac rydym yn gwneud cryn dipyn o waith ar ei wella gyda'r perchnogion yn Abergwaun. Fodd bynnag, rydych yn iawn: o ran mynediad i'n porthladdoedd, bydd y cynllun trafniadaeth cenedlaethol a'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru yn nodi'r buddsoddiadau a gynlluniwyd gennym yn y seilwaith trafniadaeth, yn cynnwys yr A55 a'r A40. Rwy'n cydnabod y sylwadau a wnaed ar yr A40, yn benodol, ynglŷn â'i chysylltiad â'r porthladdoedd.



We are also aware of the importance of short sea shipping—I will adopt the phrase 'port to port', as Sandy Mewies did, because it is much easier to say. With vessels becoming larger and port calls lower in number, port-to-port routes or distribution routes will potentially have an increased role, I think, in the overall context of shipping. This is an issue that has already been considered in some detail. To date, the general view has been that there would be limited opportunities. However, I am keen to test the current appetite in the market for such services and to identify what action might be necessary to enable progress. I have therefore written to the Welsh Ports Group, which brings together all the port interests in Wales, to ask it to consider the issue and report back to me with the sector's view on the potential for increasing port-to-port shipping in Wales, and I will then, of course, report back to the Assembly. I thank Rhun and others for making the point on that particular issue.

To turn to some of the points made by Byron Davies and Antoinette Sandbach, the cruise market is an important area for us. We will be looking at it in terms of the tourism strategy for Wales as one of the ways of growing the tourism industry by 10% by 2020. We have been working with key stakeholders on a range of initiatives to increase the number and size of ships calling into Wales and to improve the welcome cruise guests receive when they get here. I think that is particularly important. For example, last year, in partnership with Tourism Partnership North Wales and Llandrillo College in north Wales, we launched a three-day training course to attract fluent German speakers to act as ambassadors for cruise passengers. That was exceptionally successful. In May, one of the largest cruise ships to visit Wales was a German vessel, with over 2,200 passengers plus crew. Having the German ambassadors meant that we were able to provide a better welcome and experience to the passengers, with offshore based itineraries being led by a German-speaking tour guide. I think we have to do more of this. The initiative puts Wales in pole position, I think, to attract future cruise business from German cruise liners, and we are looking further at the linguistic guide provision for other key languages. An indication of our success here is that I recently received the Cruise Wales end-of-season final report for 2014, which reported a 19% increase in passenger numbers in cruise ship visits to Holyhead since the 2013 season.

I also think that it is important for us to recognise that, in terms of the work that we are doing on Holyhead, we have regular discussions, obviously, with Stena Line and Anglesey Aluminium Metals Limited regarding the jetty in Holyhead. We also have regular meetings about developments with Stena Line in Fishguard as well as Holyhead. I think that it is also important to recognise that we are looking at what we can do in terms of familiarisation trips in Wales to attract the cruise market, and participating in shows abroad, which are also very important in terms of how we market Wales in this area. So, I think that, in terms of cruises, we are doing a good job in attracting tourists to Wales.

Rydym hefyd yn ymwybodol o bwysigrwydd morgludiant byr—rwyf am fabwysiadu'r ymadrodd 'o borthladd i borthladd', fel y gwnaeth Sandy Mewies, oherwydd ei fod yn llawer haws i'w ddweud. Gyda llongau'n mynd yn fwy o faint a llai ohonynt yn galw mewn porthladdoedd, credaf y gallai fod rôl gynyddol i lwybrau o borthladd i borthladd neu lwybrau dosbarthu yng nghyd-destun morgludiant yn gyffredinol. Mae hwn yn fater sydd eisoes wedi cael ei ystyried yn eithaf manwl. Hyd yn hyn, y farn gyffredinol oedd y byddai'r cyfleoedd yn gyfyngedig. Fodd bynnag, rwy'n awyddus i brofi'r awydd cyfredol yn y farchnad am wasanaethau o'r fath ac i ganfod pa gamau y gallai fod eu hangen i hwyluso cynnydd. Felly, rwyf wedi ysgrifennu at Grŵp Porthladdoedd Cymru, sy'n dwyn holl fuddiannau porthladdoedd Cymru ynghyd, i ofyn iddo ystyried y mater ac i roi barn y sector ar y potensial ar gyfer cynyddu morgludiant o borthladd i borthladd yng Nghymru cyn adrodd yn ôl i'r Cynulliad wrth gwrs. Hoffwn ddiolch i Rhun ac i eraill am wneud y pwynt ynghylch y mater penodol hwnnw.

I droi at rai o'r pwyntiau a wnaed gan Byron Davies ac Antoinette Sandbach, mae'r farchnad fordeithio yn faes pwysig i ni. Byddwn yn edrych arno o ran strategaeth twristiaeth Cymru fel un o'r ffyrdd o dyfu'r diwydiant twristiaeth 10% erbyn 2020. Rydym wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol ar ystod o fentrau i gynyddu nifer a maint y llongau sy'n galw yng Nghymru ac i wella'r croeso y mae ymwelwyr mordeithiau yn ei chael pan fyddant yn cyrraedd yma. Credaf fod hynny'n arbennig o bwysig. Er enghraifft, y llynedd, mewn partneriaeth â Phartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru a Choleg Llandrillo yn y gogledd, lanswyd cwrs hyfforddi tri diwrnod o hyd i ddenu siaradwyr Almaeneg rhugl i weithredu fel llysgenhadon ar gyfer teithwyr llongau mordeithio. Roedd hynny'n eithriadol o lwyddiannus. Ym mis Mai, llong o'r Almaen oedd un o'r llongau mordeithio mwyaf i ymweld â Chymru, gyda thros 2,200 o deithwyr yn ogystal â chriw. Roedd cael llysgenhadon sy'n siarad Almaeneg yn golygu ein bod wedi gallu darparu gwell croeso a phrofiad i'r teithwyr, gyda theithlenni oddi ar y llong yn cael eu harwain gan dywysydd a siaradai Almaeneg. Rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni wneud mwy o hyn. Credaf fod y fenter yn rhoi Cymru yn y safle gorau i ddenu busnes mordeithio yn y dyfodol gan longau mordeithio o'r Almaen, ac rydym yn edrych ymhellach ar ddarparu tywysyddion sy'n siarad ieithoedd eraill allweddol. Arwydd o'n llwyddiant yma yw fy mod wedi derbyn adroddiad terfynol diwedd tymor 2014 Cruise Cymru yn ddiweddar, a oedd yn nodi cynnydd o 19% yn nifer y teithwyr ar longau mordeithio a ymwelodd â Chaergybi ers tymor 2013.

O ran y gwaith rydym yn ei wneud ar Gaergybi, rwyf hefyd o'r farn ei bod yn bwysig i ni gydnabod ein bod wrth gwrs yn cael trafodaethau rheolaidd gyda Stena Line ac Anglesey Aluminium Metals Limited ynghylch y lanfa yng Nghaergybi. Rydym hefyd yn cael cyfarfodydd rheolaidd ynglŷn â datblygiadau gyda Stena Line yn Abergwaun yn ogystal â Chaergybi. Credaf ei bod hefyd yn bwysig cydnabod ein bod yn edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud o ran teithiau cynefino yng Nghymru er mwyn denu'r farchnad longau mordeithio a chymryd rhan mewn sioeau tramor, sydd hefyd yn bwysig iawn o ran sut yr awn ati i farchnata Cymru yn y maes hwn. Felly, o safbwynt mordeithiau, credaf ein bod yn gwneud gwaith da o ran denu twristiaid i Gymru.



Turning to the final point of the motion, we recognise the strategic importance of ports in terms of the energy supply chain, and this is already reflected, I think, in our strategies. There are, certainly, potential opportunities for Welsh ports for future investment in offshore wind, marine demonstration zones, and, of course, the Swansea bay tidal lagoon, which I know that Members across the Chamber are interested in seeing proceed. My officials are working with port operators and investors to maximise the benefits that renewable energy opportunities present through the supply chain. The port of Holyhead is, of course, a key port for us in terms of the economy, with links to the rest of Europe, and that port will continue to have a key role in the Wylfa development. I think that we have to recognise what additional resources we might have to put into developments there to ensure that we are able to fulfil our obligations with regard to the project and to see it successfully undertaken. We also recognise that some Welsh ports offer 24-hour deep-water access, and this is absolutely magnificent when you look at ports across the globe in terms of what is happening.

On the port of Mostyn, which has been mentioned by Sandy Mewies, it is a key regional centre for the assembly of wind turbines and maintenance, and I would pay tribute to the owner of that port, whom I have met on a number of occasions, who had the foresight to look at what he could do in his port in terms of the renewable energy market. Ports are vital to our growth; it is vital that we integrate them into our strategy.

In terms of the amendments, we will be opposing amendment 1. In arriving at a preferred route for the M4 corridor around Newport, the Welsh Government considered port usage and designated a horizontal and vertical alignment that avoids the south dock and will allow the majority of port operations to continue unimpeded. We recognise that Associated British Ports is a key stakeholder, but we are also aware that ABP is a company that has an interest in these particular proposals. We would, naturally, support amendment 2, because we think that this is the way forward, and we will support amendment 3, because I think that it is very important that we look at the opportunities that are there in terms of the links between the UK and Ireland. I have pleasure in supporting the motion and those two amendments.

Gan droi at bwynt olaf y cynnig, rydym yn cydnabod pwysigrwydd strategol y porthladdoedd o ran y gadwyn gyflenwi ynni, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu eisoes, rwy'n meddwl, yn ein strategaethau. Yn sicr, mae yna gyfleoedd posibl i borthladdoedd Cymru o ran buddsoddi yn y dyfodol mewn gwynt ar y môr, parthau arddangos morol, ac wrth gwrs, y morlyn llanw ym mae Abertawe, y gwn fod gan yr Aelodau ar draws y Siambr ddiddordeb yn ei weld yn datblygu. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda gweithredwyr porthladdoedd a buddsoddwyr i uchafu'r manteision y mae cyfleoedd ynni adnewyddadwy yn eu cynnig drwy'r gadwyn gyflenwi. Wrth gwrs, mae porthladd Caergybi yn borthladd allweddol i ni o ran yr economi, gyda chysylltiadau â gweddill Ewrop, a bydd y porthladd yn parhau i fod â rôl allweddol yn natblygiad Wylfa. Rwy'n meddwl fod yn rhaid i ni gydnabod pa adnoddau ychwanegol y gallai fod yn rhaid i ni eu cyfrannu at ddatblygiadau yno er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein rhwymedigaethau o ran y prosiect ac i sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus. Rydym hefyd yn cydnabod bod rhai o borthladdoedd Cymru yn cynnig mynediad dŵr dwfn 24 awr, ac mae hyn yn gwbl wych pan fyddwch yn edrych ar borthladdoedd ar draws y byd o ran yr hyn sy'n digwydd.

Ar fater porthladd Mostyn, sydd wedi cael ei grybwyll gan Sandy Mewies, mae'n ganolfan ranbarthol allweddol ar gyfer gosod tyrbinau gwynt a gwaith cynnal a chadw arnynt, a phob clod i berchennog y porthladd hwnnw, y cyfarfwm ag ef ar sawl achlysur, am fod yn ddigon craff i edrych ar yr hyn y gallai ei wneud yn ei borthladd o ran y farchnad ynni adnewyddadwy. Mae porthladdoedd yn hanfodol i'n twf; mae'n hanfodol ein bod yn eu hymgorffori'n rhan o'n strategaeth.

O ran y gwelliannau, byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 1. Wrth benderfynu ar lwybr a ffafir ar gyfer coridor yr M4 o amgylch Casnewydd, ystyriodd Llywodraeth Cymru y defnydd o borthladdoedd a dynododd aliniad llorweddol a fertigol sy'n osgoi doc y de ac a fydd yn caniatáu i'r rhan fwyaf o weithrediadau'r porthladd i barhau heb rwystr. Rydym yn cydnabod bod Cymdeithas Porthladdoedd Prydain yn rhanddeiliad allweddol ond rydym hefyd yn ymwybodol bod y Gymdeithas yn gwmni sydd â diddordeb yn y cynigion penodol hyn. Yn naturiol, byddwn yn cefnogi gwelliant 2, gan ein bod yn credu mai dyma'r ffordd ymlaen, a byddwn yn cefnogi gwelliant 3, gan fy mod yn credu ei bod yn bwysig iawn i ni edrych ar y cyfleoedd sydd ar gael o ran y cysylltiadau rhwng y DU ac Iwerddon. Mae'n bleser gennyf gefnogi'r cynnig a'r ddau welliant hwnnw.

18:23 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I call on Nick Ramsay to reply to the debate.

Diolch i chi, Weinidog. Galwaf ar Nick Ramsay i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

18:23 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank all Members who have contributed to this important debate this afternoon. Listening to some of the Minister's comments, I think that it was, in many ways, a consensual debate between parties, although maybe not quite as consensual within some parties here today. [Laughter.] However, a lot of interesting issues were raised.

Diolch i'r holl Aelodau sydd wedi cyfrannu at y ddatl bwysig hon y prynhawn yma. Wrth wrando ar rai o sylwadau'r Gweinidog, rwy'n meddwl ei bod hi, mewn llawer ffordd, yn ddatl gydsyniol rhwng pleidiau, er efallai na chafwyd cymaint o gydsynio o fewn rhai o'r pleidiau yma heddiw. [Chwerthin.] Fodd bynnag, codwyd llawer o faterion diddorol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

May I also congratulate the Minister and other Members on their superb pronunciation of 'short sea shipping' this afternoon? It brought back memories of times on the Enterprise and Business Committee—there were many times when we tried to pronounce that one. However, it is a very important element of port policy, both in the UK in general and in Wales, in making the most of the potential of our ports.

I will just go through some of the comments that Members have made. Byron kicked off the debate by talking about the rail-freight strategy that the Enterprise and Business Committee called for in our inquiry. He also spoke about renewable energy and the way that we can tie that into port policy; a lot of Members picked up on that. We certainly do now need a strategy that will identify what ports are best suited to doing, in terms of renewable development, and to see that strategy coming forward from the Government.

*Daeth y Dirprwy Lywydd I'r Gadair am 18:24.*

## **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Eluned Parrott spoke about the change in focus. You spoke about grand planning, Eluned, and said that we are moving away from road building as a solution to congestion; as we know, short sea shipping can play its part in reducing congestion and pollution around Wales. It is a bit ironic—obviously, the M4 black route has come into the debate this afternoon—that you made those comments in the same afternoon as we had the debate on what was, in many ways, a damning report from the Environment and Sustainability Committee about the big problems that are seen with that potential road scheme. You are still going on about getting a delay of that scheme as part of your budget agreement, but I am sure that it was going to be delayed until 2016 anyway. So, we will leave that for another day.

There clearly will be an impact, and the commissioners of Newport harbour are concerned. I know that people have had different views on this this afternoon, but I have been contacted by the commissioners, and I know that other Members have as well, about their concerns about the potential reduction in the number of ships that will be able to access the port of Newport. I think that Mohammad Asghar mentioned the figure of 60%. So, we not talking about a small number of ships; we are, potentially, talking about a very large number, and it is important that any solution, which we all need to see, to the M4 bottleneck problem, does not itself cause a bottleneck problem for the Newport harbour authority, and I hope that the Minister will take that into consideration.

Rhun ap Iorwerth clearly believes that ports should be devolved. That did not really surprise us in the Welsh Conservatives. We do not think that the case has been made, and, let us face it, we are looking at an increasing connectivity, not separation, between ports. However, that does not mean, as the Enterprise and Business Committee found, that the Welsh Government should not have a bigger and an increasing role to play in the running of Welsh ports. That was one of the committee's recommendations.

A gaf fi hefyd longyfarch y Gweinidog ac Aelodau eraill ar eu hynganiad gwych o 'short sea shipping' y prynhawn yma? Mae'n dwyn atgofion am y Pwyllgor Menter a Busnes—cawsom drafferth ynganu'r ymadrodd hwnnw lawer gwaith. Fodd bynnag, mae'n elfen bwysig iawn o'r polisi porthladdoedd, yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol ac yng Nghymru, o ran gwneud y mwyaf o botensial ein porthladdoedd.

Rwyf am fynd drwy rai o'r sylwadau a wnaed gan yr Aelodau. Dechreuodd Byron y drafodaeth drwy sôn am y strategaeth cludo nwyddau ar y rheilffyrdd y galwodd y Pwyllgor Menter a Busnes amdani yn ein hymchwiliad. Siaradodd hefyd am ynni adnewyddadwy a'r ffordd y gallwn gysylltu hynny â pholisi porthladdoedd; cyfeiriodd llawer o'r Aelodau at hynny. Yn bendant, mae angen strategaeth annom yn awr a fydd yn nodi pa borthladdoedd yw'r rhai mwyaf addas ar gyfer gweithredu, o ran datblygiadau ynni adnewyddadwy, ac i weld y strategaeth honno yn cael ei chyflwyno gan y Llywodraeth.

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 18:24.*

Siaradodd Eluned Parrott am y newid ffocws. Siaradodd am gynlluniau enfawr, Eluned, a dweud ein bod yn symud i ffordd oddi wrth adeiladu ffyrdd fel ateb i dagfeydd; fel y gwyddom, gall morgludiant byr chwarae ei ran yn y broses o leihau tagfeydd a llygredd o amgylch Cymru. Mae braidd yn eironig—yn amlwg, mae llwybr du yr M4 wedi dod i mewn i'r ddadl y prynhawn yma—eich bod wedi gwneud y sylwadau hynny ar yr un prynhawn ag y cawsom y ddadl ar yr hyn a oedd, mewn sawl ffordd, yn adroddiad damniol gan Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd am y problemau mawr a welir gyda'r cynllun ffordd posibl. Rydych yn dal i fynd ymlaen ynglŷn â sicrhau bod y cynllun hwnnw'n cael ei ohirio fel rhan o'ch cytundeb cyllidebol, ond rwy'n siŵr y byddai wedi cael ei ohirio tan 2016 beth bynnag. Felly, gadawn hynny tan rywdro eto.

Mae'n amlwg y bydd yna effaith, ac mae comisiynwyr harbwr Casnewydd yn bryderus. Gwn fod gan bobl safbwyntiau gwahanol ynglŷn â hyn y prynhawn yma, ond cysylltodd y comisiynwyr â mi, a gwn eu bod wedi cysylltu ag Aelodau eraill hefyd, ynglŷn â'u pryderon ynghylch y gostyngiad posibl yn nifer y llongau a fydd yn gallu mynd i mewn i borthladd Casnewydd. Credaf fod Mohammad Asghar wedi crybwyll y ffigur 60%. Felly, nid sôn am nifer fach o longau rydym ni; rydym, o bosibl, yn siarad am nifer fawr iawn o longau ac mae'n bwysig nad yw unrhyw ateb rydym i gyd eisiau ei weld i broblem dagfa'r M4 ynddo'i hun yn achosi problem dagfa i awdurdod porthladd Casnewydd. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn ystyried hynny.

Mae Rhun ap Iorwerth yn amlwg o'r farn y dylai mater porthladdoedd gael ei ddatganoli. Nid oedd hynny'n syndod i ni'r Ceidwadwyr Cymreig. Nid ydym yn credu bod achos wedi'i wneud, a gadewch i ni wynebu'r peth, rydym yn edrych ar gysylltedd cynyddol, nid gwahanu, rhwng porthladdoedd. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu, fel y canfu'r Pwyllgor Menter a Busnes, na ddylai Llywodraeth Cymru fod â mwy o rôl, a rhan gynyddol i'w chwarae yn y gwaith o redeg porthladdoedd Cymru. Dyna oedd un o argymhellion y pwyllgor.

It was not very long, Rhun, before you got back onto your old hobby-horse, the lack of a north Wales TEN-T corridor. You made a very good point: Holyhead, as a good port and a potentially good port for the future for the cruise industry, will rely very much on better connectivity. We know full well that there has been an issue with the north Wales corridor not having gone beyond Liverpool to Holyhead, for what were, actually, quite mystical reasons, when we looked into that on the enterprise committee. However, hopefully, the Minister will be dealing with that.

Paul Davies spoke about the dualling of the A40 in Pembrokeshire, which is a big concern down there, and you also spoke about potential funding for that scheme. Yes, it can be a catalyst for growth in Pembrokeshire and in the west of Wales, and we would all want to see it, but, of course, finance is tight. Then we go back to the issue of borrowing powers and how much of the initial phase of borrowing could be absorbed by the M4 black route solution, and the need for us to make sure that other areas of Wales are not left out on this, that the A40 in Pembrokeshire and the A55 in north Wales, which Antoinette Sandbach mentioned, and all of these roads, receive their share of funding and that we have a fair distribution of that funding across Wales.

Sandy Mewies, you also banged the drum for north Wales. When you were talking about your own personal port, I thought at first that you were talking about your own private little port, but I think that you then got around to what you meant. [Laughter.] Again, we all have our own examples in our own areas of successful ports, but moving into the future and with a changing economy—. The Minister liked that earlier remark, I can see. We can make far more of our port infrastructure than we have in the past.

Time has elapsed, Minister, since that important inquiry of the Enterprise and Business Committee, and, too often, when committee reports are commissioned or undertaken, a lot of good words are said at the time, but they do not necessarily carry through into the future.

Ni fu'n hir iawn, Rhun, cyn i chi ddechrau canu'r un hen diwn, sef diffyg coridor TEN-T yn y gogledd. Gwnaethoch bwynt da iawn: bydd Caergybi, fel porthladd da a phorthladd a allai fod yn dda i'r diwydiant mordeithio yn y dyfodol, yn dibynnu'n fawr iawn ar well cysylltedd. Rydym yn gwybod yn iawn ei bod hi'n broblem nad yw coridor y gogledd wedi mynd y tu hwnt i Lerpwl i Gaergybi, am resymau a oedd mewn gwirionedd yn eithaf dirgel pan aethom ati i edrych ar y mater yn y pwyllgor menter. Ond gobeithio y bydd y Gweinidog yn ymdrin â hynny.

Soniodd Paul Davies am ddeuoli'r A40 yn Sir Benfro, sydd yn bryder mawr i lawr yno, a siaradoch hefyd am y cyllid posibl ar gyfer y cynllun hwnnw. Mae'n wir, gall fod yn gatalydd ar gyfer twf yn Sir Benfro ac yng ngorllewin Cymru, a byddem i gyd am ei weld, ond wrth gwrs, mae cyllid yn dynn. Yna, dychwelwn at fater pwerau benthyca a faint o'r cyfnod cychwynnol o fenthyca y gellid ei amsugno drwy ateb y llwybr du i broblem yr M4, a'r angen i wneud yn siŵr nad oes ardaloedd eraill yng Nghymru sy'n cael eu gadael allan, a bod yr A40 yn Sir Benfro a'r A55 yn y gogledd, a grybwyllwyd gan Antoinette Sandbach, a phob un o'r ffyrdd hyn, yn derbyn eu cyfran o gyllid a bod gennym ddosbarthiad teg o'r cyllid hwnnw ar draws Cymru.

Sandy Mewies, codwyd llais gennych chithau hefyd dros ogledd Cymru. Pan oeddech yn sôn am eich porthladd personol eich hun, credais i gychwyn eich bod yn siarad am eich porthladd bach preifat eich hun, ond credaf eich bod wedi dod at yr hyn roeddech chi'n ei olygu wedyn. [Chwerthin.] Unwaith eto, mae gennym oll ein henghreffitiau ein hunain yn ein hardaloedd ein hunain o borthladdoedd llwyddiannus, ond gan symud i'r dyfodol, a chydag economi sy'n newid—. Hoffodd y Gweinidog y sylw cynharach hwnnw, gallaf weld. Gallwn wneud llawer mwy o'n seilwaith porthladdoedd nag a wnaed gennym yn y gorffennol.

Mae amser wedi mynd heibio, Weinidog, ers ymchwiliad pwysig y Pwyllgor Menter a Busnes, ac yn rhy aml, pan fydd adroddiadau pwyllgor yn cael eu comisiynu neu eu cyflawni, caiff llawer o eiriau da eu dweud ar y pryd, ond nid dynt o reidrydd yn cario i'r dyfodol.

18:28 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would be more than happy, in light of the comments that you are making in your reply, to do an update on the committee's report that I can circulate then to Members for them to see what further work has been undertaken.

Byddwn yn fwy na pharod, yng ngoleuni'r sylwadau a roesoch yn eich ateb, i wneud diweddariad ar adroddiad y pwyllgor i'w ddosbarthu i'r Aelodau er mwyn iddynt weld pa waith pellach a gyflawnwyd.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

18:29 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You heard the murmur of approval for that, Minister. That would be excellent.

Clywsoch y gymeradwyaeth i hynny, Weinidog. Byddai hynny'n ardderchog.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

To close, Deputy Presiding Officer, I think this has been a very worthwhile debate, and I am pleased to see that we now have a commitment from the Minister as well to provide us with an update on those recommendations. It is extremely important that Wales make the most of its port facilities. They are a vital part of our infrastructure, and, if you look at the renewable energy sector, short sea shipping and the ability to take traffic off our roads—if you look at both of those—and you look at the cruise industry as well and tourism, across all those things, ports can play an increasingly important role in bringing together our communities in Wales.

Liverpool has been a major part of the cruise industry for north Wales up until now. There is no reason why, in the future, Holyhead cannot play that part. We will be hoping that everyone supports this motion. Let us continue to have this debate and let us get the ports playing the vital part in the Welsh economy that they can and will in the future.

I gloi, Ddirprwy Lywydd, rwy'n credu bod hon wedi bod yn ddadl werthfawr iawn ac rwy'n falch o weld ein bod yn cael ymrwymiad gan y Gweinidog hefyd yn awr i roi'r newyddion diweddaraf i ni ynglŷn â'r argymhellion hynny. Mae'n eithriadol o bwysig fod Cymru'n manteisio i'r eithaf ar ei chyfleusterau porthladd. Maent yn rhan hanfodol o'n seilwaith ac os edrychwch ar y sector ynni adnewyddadwy, morgludiant byr a'r gallu i symud traffig oddi ar ein ffyrdd—os edrychwch ar y ddau beth hwnnw—ac edrych ar y diwydiant mordeithio hefyd, a thwristiaeth, ar draws yr holl bethau hynny, gall porthladdoedd chwarae rhan gynyddol bwysig yn y broses o ddod â'n cymunedau at ei gilydd yng Nghymru.

Mae Lerpwl wedi bod yn rhan bwysig o'r diwydiant mordeithio ar gyfer gogledd Cymru hyd yn hyn. Nid oes unrhyw reswm pam na all Caerdybi chwarae'r rhan honno yn y dyfodol. Byddwn yn gobeithio bod pawb yn cefnogi'r cynnig hwn. Gadewch i ni barhau i gael y ddaul hon a gadewch i ni weld y porthladdoedd yn chwarae'r rhan hanfodol yn economi Cymru y gallant ei wneud ac y byddant yn ei wneud yn y dyfodol.

18:30

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection, so I defer voting on this item until voting time, which now follows.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly rwy'n gohirio pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio, sy'n dilyn yn awr.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Votes deferred until voting time.*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

18:30

## Cyfnod Pleidleisio **Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

## Voting Time

Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5604](#)

[Result of the vote on motion NDM5604](#)

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 11, Yn erbyn 38, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 11, Against 38, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5604](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5604](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 30, Yn erbyn 19, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 30, Against 19, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5604](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5604](#)

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 11, Yn erbyn 38, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 11, Against 38, Abstain 0.*

Cynnig NDM5604 fel y'i diwygiwyd

Motion NDM5604 as amended

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn croesawu cyhoeddiad cyllidebol Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Llywodraeth Cymru o £10 miliwn ychwanegol i ddarparu tua 5,000 o brentisiaethau newydd dros y ddwy flynedd nesaf.

1. Welcomes the Welsh Liberal Democrat and Welsh Government budget announcement of an additional £10m to deliver around 5,000 new apprenticeships over the coming two years.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi nifer y prentisiaethau a grëwyd ers 2011.

2. Calls on the Welsh Government to clarify the number of apprenticeships created since 2011.

3. Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i sicrhau y bydd yr astudiaeth derfynol o gylich gorchwyl Twf Swyddi Cymru yn cynnwys gwerthusiad o'r sgiliau a ddatblygodd cyfranogwyr.

3. Further calls on the Welsh Government to ensure the final study of Jobs Growth Wales' terms of reference will include an evaluation of the skills acquired by participants.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5604 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM5604 as amended](#)

*Derbyniwyd NDM5604 fel y'i diwygiwyd: O blaid 30, Yn erbyn 19, Ymatal 0.*

*Motion NDM5604 as amended agreed: For 30, Against 19, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5606](#)

[Result of the vote on motion NDM5606](#)

*Gwrthodwyd y cynnis: O blaid 8, Yn erbyn 41, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 8, Against 41, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5606](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5606](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 49, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 49, Against 0, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5606](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5606](#)

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 16, Yn erbyn 33, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 16, Against 33, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnis NDM5606](#)

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5606](#)

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 19, Yn erbyn 25, Ymatal 5.*

*Amendment not agreed: For 19, Against 25, Abstain 5.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnis NDM5606](#)

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5606](#)

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 24, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 24, Against 25, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnis NDM5606](#)

[Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5606](#)

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 23, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 23, Against 25, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnis NDM5606](#)

[Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5606](#)

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 24, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 24, Against 25, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i gynnis NDM5606](#)

[Result of the vote on amendment 7 to motion NDM5606](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 49, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 49, Against 0, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 8 i gynnis NDM5606](#)

[Result of the vote on amendment 8 to motion NDM5606](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 49, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 49, Against 0, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 9 i gynnis NDM5606](#)

[Result of the vote on amendment 9 to motion NDM5606](#)

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 24, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 24, Against 25, Abstain 0.*

Cynnig NDM5606 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5606 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi proffil oedran uchel ffermwyr Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i wella prosesau cynllunio ar gyfer olyniaeth a ffermio ar y cyd.

1. Notes the high-age profile of Welsh farmers and calls on the Welsh Government to take steps to improve succession planning & shared farming.

2. Yn nodi'r amodau economaidd sy'n gynyddol anodd i ffermwyr;

2. Notes the increasingly difficult economic conditions for farmers;

3. Yn gresynu at benderfyniad Llywodraeth Cymru i drosglwyddo'r uchafswm o 15% o golofn 1 i golofn 2 o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

3. Regrets the Welsh Government's decision to transfer the maximum 15% from pillar 1 to pillar 2 of the Common Agriculture Policy.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

4. Calls on the Welsh Government to:

a) cynyddu ei hymdrechion i leihau biwrocratiaeth yn y diwydiant;

a) accelerate its efforts to reduce red tape within the industry;

b) cymryd camau ymarferol a chyflym i gefnogi'r sectorau cig coch a llaeth yng Nghymru; ac

b) take practical and swift action to support the red meat and dairy sectors in Wales; and

c) cyflwyno cynllun Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol i helpu'r rhai sy'n ffermio o dan yr amgylchiadau mwyaf heriol.

c) introduce a dedicated Area of Natural Constraint scheme to help those farming in the most challenging conditions.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddiwygio'r ardoll hybu cig er mwyn sicrhau bod yr ardoll yn daladwy i'r wlad lle cafodd yr anifail ei eni.

5. Calls on the Welsh Government to work with the UK Government to reform the meat promotional levy to ensure that the levy is payable to the country in which the animal is born.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod canran uwch o'r cynnyrch a brynir drwy brosesau caffael cyhoeddus yn dod o Gymru.

6. Calls on the Welsh Government to increase the percentage of public procurement of Welsh produce.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5606 fel y'i diwygiwyd.](#)

[Result of the vote on motion NDM5606 as amended.](#)

*Gwrthodwyd y cynnig NDM5606 fel y'i diwygiwyd: O blaid 24, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Motion NDM5606 as amended not agreed: For 24, Against 25, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5603.](#)

[Result of the vote on motion NDM5603.](#)

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 36, Yn erbyn 13, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 36, Against 13, Abstain 0.*

18:35

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Will those Members who are leaving the Chamber please do so quickly and quietly?

A wnaiff yr Aelodau hynny sy'n gadael y Siambwr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel os gwelwch yn dda?



18:36

## Dadl Fer: Ffrindiau Dementia— Gweithio tuag at Gymunedau sy'n Ystyriol o Dementia ledled Cymru Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

I call Lynne Neagle to speak on the topic she has chosen.

18:36

### Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer.

I am delighted to have this opportunity not just to raise awareness of the Alzheimer's Society's dementia friends initiative, but to highlight, and hopefully help to promote, this incredibly important long-term push towards establishing dementia-friendly communities here in Wales. If time allows, I've agreed to give Keith Davies, Kirsty Williams, Ann Jones, and Elin Jones a minute each of my time this evening, and I am grateful that they are contributing to this conversation on mitigating one of the great health concerns of our time. While I do not want to pre-empt anyone's contributions, it is good to see that there is some cross-party consensus on the kind of cultural and societal change I believe we need if we are to collectively rise to the challenge of dementia in the twenty-first century. Indeed, it did not escape my notice that on the very day I tabled this debate last week, David Cameron announced that the entire Cabinet at UK level had committed to becoming dementia friends.

Obviously, I cannot take any credit for that. [Laughter.] I am pretty sure that my influence as a backbench Labour Assembly Member is limited when it comes to the coalition front bench, more is the pity. However, I know that the Minister for Health and Social Services, and the First Minister, too, are themselves personally very committed to taking this important agenda forward. Yet the starting point today must surely be to once again set out the sheer scale of the problem we are facing in relation to dementia, and I make no apologies if some of this is familiar, especially when, much like cancer 20 or 30 years ago or mental health a decade ago, for too long, dementia was something people felt very uncomfortable discussing openly.

Hopefully, that is gradually changing, but there is definitely a lingering taboo, despite the fact that dementia is something that will touch the lives of all of us in some way and when the latest research from the Alzheimer's Society shows there are around 835,000 people with dementia across Britain in 2014, including more than 45,000 here in Wales, numbers that are increasing very rapidly. In fact, according to the Welsh Government's own national dementia vision for Wales, by 2021, the number of people living with dementia in Wales is projected to increase by 31%, and by as much as 44% in some rural areas. Clearly, that is pretty frightening when one thinks of the wide-ranging impact of dementia in Wales today, and even more so when you factor in the very considerable financial pressures facing local authorities and the Welsh NHS in this age of austerity, pressures that have been the subject of so much debate over recent months.

## Short Debate: Dementia Friends— Working towards Dementia- friendly Communities across Wales

[Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Lynne Neagle i siarad ar y pwnc y mae wedi ei dde wis.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd.

Rwyf wrth fy modd yn cael y cyfle hwn nid yn unig i godi ymwybyddiaeth ynghylch menter ffrindiau dementia Cymdeithas Alzheimer's, ond i amlygu, a helpu i hyrwyddo, gobeithio, yr ymgyrch hirdymor hynod bwysig hon tuag at sefydlu cymunedau dementia-gyfeillgar yma yng Nghymru. Os oes amser, rwyf wedi cytuno i roi munud yr un i Keith Davies, Kirsty Williams, Ann Jones ac Elin Jones o fy amser heno, ac rwy'n ddiolchgar eu bod yn cyfrannu at y sgwrs hon ar liniaru un o bryderon iechyd mawr ein cyfnod ni. Er nad wyf am achub y blaen ar gyfraniadau unrhyw un, mae'n dda gweld bod rhywfaint o gonsensws trawsbleidiol ar y math o newid diwylliannol a chymdeithasol y credaf y bydd ei angen os ydym am wynebu her dementia yn y unfed ganrif ar hugain gyda'n gilydd. Yn wir, ar yr union ddiwrnod y cyflwynais y ddadl yr wythnos diwethaf, daeth i fy sylw fod David Cameron wedi cyhoeddi bod holl aelodau Cabinet y DU wedi ymrwymo i ddod yn ffrindiau dementia.

Yn amlwg, ni allaf gymryd unrhyw glod am hynny. [Chwerthin.] Rwy'n eithaf siŵr fod fy nylanwad fel Aelod Llafur ar feinciau cefn y Cynulliad yn gyfyngedig pan ddaw i fainc flaen y glymblaid, gwaetha'r modd. Fodd bynnag, gwn fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r Prif Weinidog hefyd, yn ymrwymedig iawn i symud yr agenda bwysig hon yn ei blaen. Eto i gyd, rhaid mai'r man cychwyn heddiw yw nodi unwaith eto pa mor enfawr yw'r broblem a wynebwn mewn perthynas â dementia, ac nid wyf yn ymddiheuro os yw peth o hyn yn gyfarwydd, yn enwedig pan ystyriwn fod dementia ers yn rhy hir, yn debyg iawn i ganser 20 neu 30 mlynedd yn ôl neu iechyd meddwl ddegawd yn ôl, wedi bod yn rhywbeth y mae pobl yn teimlo'n anghyffyrddus yn ei drafod yn agored.

Gobeithio bod hynny'n newid yn raddol, ond mae yna dabw sy'n parhau, er gwaethaf y ffaith bod dementia yn rhywbeth a fydd yn cyffwrdd â bywydau pob un ohonom mewn rhyw ffordd a phan fo'r gwaith ymchwil diweddaraf gan Gymdeithas Alzheimer's yn dangos bod tua 835,000 o bobl â dementia ledled Prydain yn 2014, gan gynnwys mwy na 45,000 yma yng Nghymru, niferoedd sydd yn cynyddu'n gyflym iawn. Yn wir, yn ôl gweledigaeth dementia cenedlaethol Llywodraeth Cymru ei hun ar gyfer Cymru, erbyn 2021, rhagwelir y bydd nifer y bobl sy'n byw gyda dementia yng Nghymru yn cynyddu 31%, a chymaint â 44% mewn rhai ardaloedd gwledig. Yn amlwg, mae hynny'n frawychus o ystyried effaith eang dementia yng Nghymru heddiw, a hyd yn oed yn fwy felly o gyfrif y pwysau ariannol sylweddol iawn sy'n wynebu awdurdodau lleol a'r GIG yng Nghymru yn yr oes hon o galedi, pwysau sydd wedi bod yn destun cymaint o drafod dros y misoedd diwethaf.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Of course, an initiative like this can never be seen as a substitute for top-drawer health and social care, and a huge part of the response to dementia must be about continuing investment, doing more to improve those low diagnosis rates we know are an issue here in Wales, as well as, vitally, ensuring that services are in place to support people with dementia and their families. Indeed, I recognise that a vigorous and very important conversation is currently taking place in relation to many of those questions, a debate that I could not hope to do justice to this evening, although I am very mindful of the points raised by Age Cymru in advance of this debate, as I know the Minister will be, too.

It is also quite clear that, as well as strengthening and adapting services to make them fit for purpose and able to cope with that increase in demand, we also need a major cultural shift in our collective approach and attitude towards dementia. That is apparent when you look at the results of the 2012 Alzheimer's Society survey, which found, for example, that 44% of those with dementia felt that they had lost friends after being diagnosed, and that nearly half felt that they had become a burden to their family. Furthermore, two-thirds of respondents said that they did not feel a part of the community in which they lived, with three-quarters saying they did not think that society in the UK was geared up towards dealing with people with dementia. It is really that sense of isolation and detachment, this general lack of awareness and understanding that the dementia friends initiative is trying to tackle. It is about the often very small things that people can do in their everyday lives that can make a huge difference to the wellbeing of those affected by dementia.

No-one is reinventing the wheel here. Indeed, this is a philosophy and approach that has its roots in a similar and hugely successful programme in Japan, where more than 4.5 million people are living with dementia, and where nearly 4 million people have been trained to become the Japanese equivalent of dementia friends in just a few short years. The Alzheimer's Society has described it as no less than a social action movement, which is a fitting description in many ways.

Wrth gwrs, ni ellir byth ystyried menter fel hon yn rhywbeth sy'n cymryd lle gofal iechyd a gofal cymdeithasol o'r radd flaenaf, ac mae'n rhaid i ran enfawr o'r ymateb i ddementia ymwneud â pharhau buddsoddiad, gwneud mwy i wella rhai cyfraddau diagnosis isel y gwyddom eu bod yn broblem yma yng Nghymru, yn ogystal â'r gwaith hollbwysig o sicrhau bod gwasanaethau ar waith i gefnogi pobl â dementia a'u teuluoedd. Yn wir, rwy'n cydnabod bod trafodaeth fywiog a phwysig iawn ar y gweill ar hyn o bryd mewn perthynas â llawer o'r cwestiynau hynny, dadl na allwn obeithio gwneud cyfiawnder â hi heno, er fy mod yn ymwybodol iawn o'r pwyntiau a godwyd gan Age Cymru cyn y dadl hon, a gwn y bydd y Gweinidog yn ymwybodol iawn ohonynt hefyd.

Yn ogystal â chryfhau ac addasu gwasanaethau i'w gwneud yn addas at y diben ac i allu ymdopi â'r cynnydd yn y galw, mae'n gwbl amlwg hefyd ein bod angen newid diwylliannol mawr yn ein dull o weithredu a'n hagwedd gyfunol tuag at ddementia. Mae hynny'n amlwg pan edrychwch ar ganlyniadau arolwg 2012 Cymdeithas Alzheimer's a ganfu, er enghraifft, fod 44% o'r bobl sydd â dementia yn teimlo eu bod wedi colli ffrindiau ar ôl cael diagnosis, a bod bron i'w hanner yn teimlo eu bod wedi mynd yn faich ar eu teuluoedd. Ar ben hynny, dywedodd dwy ran o dair o'r ymatebwyr nad oeddent yn teimlo'n rhan o'r gymuned y maent yn byw ynddi, gyda thri chwarter ohonynt yn dweud nad oeddent yn credu bod y gymdeithas yn y DU yn barod ar gyfer delio â phobl â dementia. Mewn gwirionedd yr ymdeimlad hwn o unigedd a diffyg cysylltiad, diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyffredinol o'r fath, yw'r hyn y mae menter ffrindiau dementia yn ceisio mynd i'r afael ag ef. Mae'n ymwneud â'r pethau bach iawn yn aml y gall pobl eu gwneud yn eu bywydau bob dydd sy'n gallu gwneud gwahaniaeth enfawr i les y rhai sy'n dioddef o ddementia.

Nid oes neb yn ailddyfeisio'r olwyn yn hyn o beth. Yn wir, mae hon yn athroniaeth ac yn ymagwedd sydd â'i gwreiddiau mewn rhaglen debyg a fu'n llwyddiant mawr yn Japan, lle mae mwy na 4.5 miliwn o bobl yn byw gyda dementia, a lle mae bron i 4 miliwn o bobl wedi cael eu hyfforddi i fod yr hyn sy'n cyfateb yn Japan i ffrindiau dementia mewn ychydig iawn o flynyddoedd. Mae Cymdeithas Alzheimer's wedi ei ddisgrifio fel rhywbeth sy'n ddim llai na mudiad gweithredu cymdeithasol, sy'n ddisgrifiad addas mewn sawl ffordd.

Like a number of you here tonight, I attended the launch of Dementia Friends Cymru at the Wales Millennium Centre back in March, which was also attended by Ruth Jones and where we were entertained by the fantastic Younger People with Dementia choir. It was a great event and I was genuinely inspired to help organise and attend a dementia friends session in my own constituency so that I could experience it for myself—in part because, as some of you know, this is an issue that has become particularly close to my heart over the past couple of years. While I do not want to dwell too much on my own experiences, to be honest, I was not sure what to expect from the session, whether it would feel relevant, or whether it would even teach me anything I did not know already. However, whether it is the easy-going and informal tone, or the fact that you are encouraged to think laterally about dementia and the impact it can have on those living with the condition, I honestly learned a huge amount during the session, which was kindly facilitated by Amy Kitcher of the Alzheimer's Society. I attended along with all the members of my Pontypool and Cardiff based team, a number of Torfaen Labour councillors, as well as some local party members who wanted to learn more.

For me, at least, it really helped to underline that hugely important message that there is no action too big or too small, whether that means being that little bit more patient in the supermarket, helping someone with dementia to complete everyday tasks they now find difficult, or simply sharing information on dementia via social media or word of mouth. They also serve to debunk some of the classic myths and misconceptions around dementia—that somehow it is a natural part of the ageing process, for example, that it is about memory loss on its own, or perhaps, most crucially of all, that it is not possible to live well following a diagnosis of dementia, much as I know that, for many people, it can be an incredibly difficult condition to cope with.

I do not mean this to sound like a sermon. Indeed, I suspect that some of you will have already attended a dementia friends session or are planning to in the future, but, as representatives, we are uniquely placed in many ways when it comes to our network of local contacts, so there is a good deal that we could potentially all do to promote this among our constituents. This is especially given that the initiative seems to have hit the ground running in Wales, and that in less than eight months, 4,026 individuals have already become dementia friends—a really encouraging start. Also in the same period, the Alzheimer's Society has recruited 235 dementia friends champions in Wales, who undergo additional training to help them to answer questions about dementia with more confidence and in more detail, who are able to signpost people with concerns towards further information and support, and, crucially, who can facilitate future sessions themselves, so allowing the programme to develop organically.

Fel nifer ohonoch chi yma heno, mynychais lansiad Ffrindiau Dementia Cymru yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yn ôl ym mis Mawrth, ac roedd Ruth Jones yn bresennol hefyd. Cawsom ein diddanu gan y côr ffantastig ar gyfer pobl iau â dementia. Roedd yn ddigwyddiad gwybodaeth a chefais fy ysbrydoli go iawn i helpu i drefnu a mynychu sesiwn ffrindiau dementia yn fy etholaeth fy hun er mwyn i mi brofi'r peth drosof fy hun-yn rhannol, fel y mae rhai ohonoch yn gwybod, oherwydd bod hwn yn fater sydd wedi dod yn arbennig o agos at fy nghalon dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf. Er nad wyf am dreulio gormod o amser yn sôn am fy mhrofiadau fy hun, i fod yn onest, doeddwn i ddim yn siŵr beth i'w ddisgwyl o'r sesiwn, pa un a fyddai'n teimlo'n berthnasol, neu a fyddai'n dysgu unrhyw beth nad oeddwn yn ei wybod yn barod, hyd yn oed. Fodd bynnag, oherwydd y cywair hamddenol ac anffurfiol neu'r ffaith eich bod yn cael eich annog i feddlw yn ochrol am ddementia a'r effaith y gall ei chael ar y rhai sy'n byw gyda'r cyflwr, gallaf ddweud yn onest i mi ddysgu llawer iawn yn ystod y sesiwn a drefnwyd drwy garedigrwydd Amy Kitcher o Gymdeithas Alzheimer's. Roedd pob aelod o fy nhîm sy'n gweithio ym Mhont-y-pŵl a Chaerdydd yn bresennol gyda mi, ynghyd â nifer o gynghorwyr Llafur Torfaen, a rhai o aelodau'r blaid yn lleol a oedd am ddysgu mwya.

I mi, o leiaf, bu'n gymorth gwirioneddol i helpu i danlinellu'r neges hynod bwysig nad oes unrhyw gamau yn rhy fawr neu'n rhy fach, pa un a yw hynny'n golygu bod ychydig bach yn fwy amyneddgar yn yr archfarchnad, helpu rhywun sydd â dementia i gwblhau tasgau bob dydd y maent bellach yn eu cael yn anodd, neu ddim ond rhannu gwybodaeth am ddementia drwy gyfryngau cymdeithasol neu ar lafar. Maent hefyd yn fodd o chwalu rhai o'r mythau a'r camsyniadau dasurol sy'n ymwneud â dementia—ei fod rywsut yn rhan naturiol o broses heneiddio, er enghraifft, mai mater sy'n ymwneud â cholli cof yn unig ydyw, neu efallai'n bwysicaf oll, nad yw'n bosibl byw'n dda ar ôl cael diagnosis o ddementia, er fy mod yn gwbl ymwybodol y gall fod yn gyflwr eithriadol o anodd i ymdopi ag ef i lawer o bobl.

Nid wyf am i hyn swnio fel pregeth. Yn wir, rwy'n amau fod rhai ohonoch chi eisoes wedi mynychu sesiwn ffrindiau dementia neu'n bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol, ond fel cynrychiolwyr, rydym mewn sefyllfa unigryw mewn sawl ffordd o ran ein rhwydwaith o gysylltiadau lleol, felly mae llawer iawn y gallem i gyd ei wneud o bosibl i hyrwyddo hyn ymysg ein hetholwyr, yn enwedig o ystyried bod y fenter i'w gweld wedi dechrau mor llwyddiannus yng Nghymru, a bod 4,026 o bobl eisoes, mewn llai na wyth mis, wedi dod yn ffrindiau dementia—sy'n ddechrau calonogol iawn. Hefyd yn yr un cyfnod, mae Cymdeithas Alzheimer's wedi recriwtio 235 o hyrwyddwyr ffrindiau dementia yng Nghymru, sy'n cael hyfforddiant ychwanegol i'w helpu i ateb cwestiynau am ddementia gyda mwya o hyder ac yn fwy manwl, ac sy'n gallu cyfeirio pobl sydd â phryderon i gael mwya o wybodaeth a chefnogaeth, ac yn hollbwysig, i allu trefnu sesiynau eu hunain yn y dyfodol, gan alluogi'r rhaglen i ddatblygu'n organig.

The dementia friends initiative is, of course, a key step towards fostering the dementia-friendly communities I think we all want to see in the future. Indeed, in many ways, this is such a new concept—in Wales, at least—that we do not really have a particularly clear idea of what a dementia-friendly community would look like. So, it is therefore understandable that the Alzheimer's Society has held back from developing any kind of kitemark or accreditation process at this relatively early stage. Instead, recognition is given to communities that are working towards becoming dementia-friendly, and can show that they have taken action on a series of fronts: developing a local dementia alliance, for example, identifying key individuals and organisations that would benefit from dementia-awareness training and providing practical information on dementia and available services at a range of locations within the local area. This is something that is already happening in Swansea, for example, and in Brecon—in Kirsty's constituency—and, hopefully, one day soon, in Torfaen, where I am working with people like the mayor, Councillor Mandy Owen, who is personally very supportive, as well as with organisations like Cwmbran community council and others who have expressed an interest in promoting the initiative.

Alongside this process, the Alzheimer's Society is working with the British Standards Institute, no less, on a formal code of practice for communities aiming to become dementia-friendly. It is frankly really refreshing that this is being approached so rigorously. After all, the last thing anyone needs is another box-ticking exercise that sounds good and makes everyone feel better about themselves but then, in reality, does little to change the lives of those living with dementia. If this effort is really going to help deliver that sea change in attitude and culture we need, then we should set that bar really high, so that dementia-friendly communities are exactly what they say on the tin: places where, whenever it is possible, people can truly live well with dementia. Thank you.

Mae'r fenter ffrindiau dementia, wrth gwrs, yn gam allweddol tuag at feithrin y cymunedau dementia-gyfeillgar rydym i gyd am eu gweld yn y dyfodol. Yn wir, mewn sawl ffordd, mae hwn yn gysyniad mor newydd—yng Nghymru o leiaf—fel nad oes gennym syniad arbennig o glir o sut beth fyddai cymdeithas dementia-gyfeillgar mewn gwirionedd. Felly, mae'n ddealladwy fod Cymdeithas Alzheimer's wedi ymatal rhag datblygu unrhyw fath o nod barcud neu broses achredu ar y cam cymharol gynnar hwn. Yn lle hynny, rhoddir cydnabyddiaeth i gymunedau sy'n gweithio tuag at ddod yn rhai dementia-gyfeillgar, ac yn gallu dangos eu bod wedi gweithredu mewn nifer o ffyrdd: datblygu cynghrair ddementia leol, er enghraifft, i nodi pa unigolion a sefydliadau allweddol a fyddai'n elwa o hyfforddiant ymwybyddiaeth dementia ac i ddarparu gwybodaeth ymarferol am ddementia a gwasanaethau sydd ar gael mewn amryw o leoliadau yn yr ardal leol. Dyma rywbeth sydd eisoes yn digwydd yn Abertawe, er enghraifft, ac yn Aberhonddu—yn etholaeth Kirsty—ac yn Nhorfaen cyn bo hir lle rwy'n gweithio gyda phobl fel y maer, y Cynghorydd Mandy Owen, sy'n gefnogol iawn, yn ogystal â sefydliadau fel cyngor cymuned Cwmbran ac eraill sydd wedi mynegi diddordeb mewn hyrwyddo'r fenter.

Ochr yn ochr â'r broses hon, mae Cymdeithas Alzheimer's yn gweithio gyda neb llai na'r Sefydliad Safonau Prydeinig ar god ymarfer ffurfiol ar gyfer cymunedau sy'n anelu i fod yn ddementia-gyfeillgar. A bod yn onest, mae'n braf iawn fod hyn yn cael ei drin mor drylwyr. Wedi'r cyfan, y peth olaf sydd ei angen yw ymarfer ticio blychau arall sy'n swnio'n dda ac yn gwneud i bawb deimlo'n well amdanynt eu hunain ond sy'n gwneud fawr ddim mewn gwirionedd i newid bywydau'r rhai sy'n byw gyda dementia. Os yw'r ymdrech hon yn mynd i helpu i sicrhau'r newid agwedd a diwylliant mawr sydd ei angen arnom, yna dylem osod y bar yn uchel iawn, fel bod cymunedau dementia-gyfeillgar yn union fel y cânt eu disgrifio, sef manau lle y gall pobl yn wir fyw'n dda gyda dementia lle bynnag y bo modd. Diolch.

18:47 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would urge the Members who want to speak to keep to just a minute, otherwise I will not be able to call you all.  
Keith Davies.

Byddwn yn annog yr Aelodau sydd am siarad i gadw at funud yn unig, neu fel arall, ni fyddaf yn gallu galw ar bawb i siarad. Keith Davies.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

18:47 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd, a diolch i Lynne am adael imi gael gair. Yr hyn sy'n bwysig yw sicrhau nad ydym yn dilyn y rhaglen yn Lloegr, sy'n gweld meddygfeydd yn cael eu talu am unrhyw dyfiant o ran diagnosis o ddementia. Mae hyn, imi, yn beth ofnadwy, ac rwy'n falch o weld bod cyn-gadeirydd Coleg Brenhinol y Llawfeddygon yn cytuno â mi.

Thank you, Deputy Presiding Officer, and thank you to Lynne for allowing me to speak in this short debate. What is important is that we do not follow the programme in England, where GP surgeries will be paid for any increase in the diagnoses of dementia. To me, this is a terrible development, and I am pleased to see that the former chair of the Royal College of Surgeons agrees with me on this point.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Roedd Cwm Gwendraeth yn y penawdau yr wythnos diwethaf oherwydd dathlu 40 mlynedd o 'Pobol y Cwm'. Yn y cwm, mae pentref Pontyberem, sy'n gartref i gymuned ddementia gyfeillgar, sef y cyntaf yn sir Gâr. Mae Lynne wedi amlinellu'n gymwys yr hyn y mae'n ei feddwl. Ym Mhontyberem, maen nhw wedi creu proffil cymunedol a cheisio cynnwys yr holl gymuned wrth addysgu. Wna i ddim ailadrodd adroddiadau o'r gost, ac yn y blaen, i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, ond dywedaf y byddai creu cymunedau cyfeillgar o'r fath, fel Pontyberem, yn ffordd o ymwreiddio cefnogaeth gymunedol ar lawr gwlad. Gwrandewais ar gyfweiliadau diweddar â phobl—rhai ohonynt yn ifanc iawn—sydd yn dioddef o ddementia. Un o'r pwyntiau a wnaed oedd yr angen i gryfhau yn sylweddol ddealltwriaeth gymunedol, a'i gwneud yn adnodd ynddi'i hun.

Cwm Gwendraeth was in the headlines last week because it was celebrating 40 years of 'Pobol y Cwm'. In this area lies the village of Pontyberem, which is home to a dementia-friendly community and which is the first of its kind in the county. Lynne has outlined exactly what this means. In Pontyberem, they have created a community profile and tried to involve the whole community in an education programme. I will not reiterate reports of the costs, and so on, to the health service in Wales, but I will say that the creation of friendly communities such as the one in Pontyberem would be a grass-roots approach to securing community support. I listened to recent interviews with people—some of whom are very young—who are dementia sufferers. One of the points that they made was the need to strengthen significantly the community understanding of the problem, which can then become a resource in and of itself.

Gair bach i ddiweddu am y cyllid sydd wedi dod i Brifysgol Caerdydd er prosiectau ymchwil—

Just a brief word to conclude on the funding that has been made available to Cardiff University for research projects—

18:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Your are now well over a minute. I call Kirsty Williams.

Rydych wedi cael ymhell dros funud yn awr. Galwaf ar Kirsty Williams.

18:48 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you, Deputy Presiding Officer. May I thank Lynne Neagle for her most excellent debate today, and for mentioning the work of the community initiative in Brecon, which has been going from strength to strength since it was initially launched in June? One of the things that would greatly help that initiative is additional support for carers who are looking after relatives with dementia at home, which is where they want them to be for as long as possible. Having a dementia-friendly community allows them to feel confident in doing that—in keeping their relatives at home with them. I would be grateful to hear from the Minister what can be done to ensure that those people who want to care for their relatives at home have the support they need to do that, both from informal initiatives like dementia friends, but also from statutory services. By working together, it will ensure that people do indeed live well with dementia in their communities, with their relatives.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddiolch i Lynne Neagle am ei dadl ardderchog heddiw, ac am grybwyll gwaith y fenter gymunedol yn Aberhonddu sydd wedi bod yn mynd o nerth i nerth ers iddi gael ei lansio gyntaf ym mis Mehefin. Un o'r pethau a fyddai'n helpu'r fenter honno yn fawr yw cymorth ychwanegol i ofalwyr sy'n gofalu am berthnasau â dementia yn y cartref, sef lle y maent am iddynt fod am gyn hired â phosibl. Mae cael cymuned dementia-gyfeillgar yn eu galluogi i deimlo'n hyderus i wneud hynny—i gadw eu perthnasau gartref gyda hwy. Byddwn yn falch o glywed gan y Gweinidog beth y gellir ei wneud i sicrhau bod y bobl sydd am ofalu am eu perthnasau yn y cartref yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i wneud hynny, gan fentrau anffurfiol fel ffrindiau dementia, ond hefyd gan y gwasanaethau statudol. Drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn sicrhau bod pobl yn wir yn byw'n dda gyda dementia yn eu cymunedau, gyda'u perthnasau.

18:49 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

May I also thank Lynne for raising this very important issue? I just wanted the minute to mention the younger element, or younger people, suffering with dementia. One of my constituents, Chris Roberts, and his wife, set up a small help group just for younger people to be able to go out to do the things that those of us who do have a social life want to try to do. It is very telling, and that is why I got involved with the scheme. We have tried to get his home town of Rhuddlan to be included as a dementia-friendly community. So, I think, as Lynne said, we should offer every support we can in our roles in our lives to make sure that this does spread and that we do have those very good communities that people need, so that they suit them all. We should never forget that we do not know what is around the corner.

Hoffwn hefyd ddiolch i Lynne am godi'r mater pwysig iawn hwn. Roeddwn i eisiau'r funud er mwyn sôn am yr elfen iau, neu bobl iau, sy'n dioddef o ddementia. Mae un o fy etholwyr, Chris Roberts, a'i wraig, wedi sefydlu grŵp cymorth bychan i bobl iau allu mynd allan i wneud y pethau y mae rhai ohonom sydd â bywyd cymdeithasol yn awyddus i'w gwneud. Mae'n arwyddocaol, a dyna pam yr euthum ati i gymryd rhan yn y cynllun. Rydym wedi ceisio cael ei dref enedigol, Rhuddlan, wedi'i chynnwys fel cymuned dementia-gyfeillgar. Felly, rwy'n meddwl, fel y dywedodd Lynne, y dylem gynnig pob cefnogaeth y gallwn ei rhoi yn ein swyddogaethau ac yn ein bywydau i wneud yn siŵr bod hyn yn lledaenu a bod gennym y cymunedau da iawn hynny sydd eu hangen ar bobl, fel eu bod yn addas i bawb. Ni ddylem byth anghofio nad ydym yn gwybod beth sydd rownd y gornel.

18:50

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolchaf i Lynne Neagle am y ddadl amserol hon. A gaf i, fel eraill, ganmol y gwaith arloesol sy'n digwydd mewn nifer o fannau yng Nghymru i greu cymunedau dementia gyfeillgar ac i normaleiddio dementia, erbyn hyn, yn ein cymunedau. Tref Aberaeron sy'n arwain ar y gwaith hwn yng Ngheredigion ac mae i'w chanmol yn fawr am wneud hynny.

I thank Lynne Neagle for this timely debate. May I, like others, praise the innovative work that is happening in a number of places in Wales to create dementia-friendly communities and to normalise dementia, by now, within our communities. The town of Aberaeron is leading on this work in Ceredigion and it is to be praised for doing so.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Felly, mae cymunedau yn dechrau derbyn eu cyfrifoldeb i gwrdd â her dementia, ond mae cyfrifoldeb hefyd, wrth gwrs, ar Lywodraeth i sicrhau integreiddiad gwasanaethau iechyd a gofal yn llawn, er mwyn sicrhau bod dioddefwyr dementia yn cael gofal priodol a phrydlon ar gyfer eu cyflwr. O bosibl, ar gyfer y cyflwr penodol hwn—dementia—mae'r angen i integreiddio gwasanaethau yn fwy nag ar gyfer unrhyw gyflwr arall, i dorri i lawr y rhwystrau hynny sy'n gallu bodoli rhwng y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

So, communities are beginning to accept their responsibility to meet the challenge of dementia, but there is also a responsibility, of course, on the Government to secure the integration of care and health services in full, in order to ensure that dementia sufferers receive appropriate and timely care for their condition. It is possible that, for this specific condition—dementia—the need to integrate services is greater than for any other condition, to break down those barriers that can exist between health and social services.

18:51

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford, to reply.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford, i ymateb.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

18:51

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thanks again to Lynne Neagle and all those who have taken part in this evening's discussion.

Diolch unwaith eto i Lynne Neagle ac i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y drafodaeth heno.

Dementia really is one of those things that is everybody's business. It touches almost all of our lives, directly or indirectly, and it touches almost all aspects of our communal lives, too. Some of what I will say this afternoon will focus on our health and social services, but dementia is a matter that goes far wider than that. It affects businesses, as people who have lived long and successful lives begin to struggle with the routines of paying bills, answering letters or keeping appointments. It affects our social lives, as long-established activities—playing cards, completing the crossword, being part of a quiz team—become harder to sustain, and it affects the most basic practical details of everyday living. There are problems such as leaving a saucepan on the cooker, being unable to remember the names of friends and relatives or not being able to find your way home when out and about. All of those things are real issues and, most profoundly of all, they reflect upon the nature of the society in which we would wish to live.

Mae dementia yn un o'r pethau hynny sydd mewn gwirionedd yn fusnes i bawb. Mae'n cyffwrdd â bywydau bron bawb ohonom yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ac mae'n cyffwrdd â bron bob agwedd ar ein bywyd cymunedol hefyd. Bydd peth o'r hyn y byddaf yn ei ddweud y prynhawn yma'n canolbwyntio ar ein gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, ond mae dementia yn fater sy'n mynd yn llawer ehangach na hynny. Mae'n effeithio ar fusnesau, wrth i bobl sydd wedi byw bywydau hir a llwyddiannus ddechrau cael trafferth gyda threfn talu biliau, ateb llythyrau neu fynychu apwyntiadau. Mae'n effeithio ar ein bywydau cymdeithasol, wrth i weithgareddau hirsefydlog—chwarae cardiau, cwblhau'r croesair, bod yn rhan o dim cwis—fynd yn anos i'w cynnal, ac mae'n effeithio ar fanylion ymarferol mwyaf sylfaenol bywyd bob dydd. Mae problemau fel gadael sosban ar y tân, methu â chofio enwau ffrindiau a pherthnasau, neu fethu â dod o hyd i'ch ffordd adref pan fyddwch chi allan am dro. Mae pob un o'r pethau hynny yn broblemau go iawn ac yn fwy na dim, maent yn adlewyrchu natur y gymdeithas y byddem yn dymuno byw ynddi.

It is in that context that I would like to take a moment to thank the Alzheimer's Society in Wales, whose dementia supportive initiatives we are recognising today. Its commitment, professionalism and enthusiasm is a continued source of support and expertise to us all and we value it as a partner.

Yn y cyd-destun hwn, hoffwn roi eiliad i ddiolch i Gymdeithas Alzheimer's yng Nghymru sy'n gyfrifol am y mentrau cymorth dementia rydym yn eu cydnabod heddiw. Mae ymroddiad y Gymdeithas, ei phroffesiynoldeb a'i brwdfrydedd yn ffynhonnell barhaus o gymorth ac arbenigedd i ni i gyd ac rydym yn ei gwerthfawrogi fel partner.



As others have said, the fact that people are living longer and in better physical health is a triumph of modern medicine and public health services. However, along with those achievements, we have to accept that we have rising rates of dementia. The reality, as Lynne has set out, is sobering. One in five people over the age of 80 has dementia, and the number of people with dementia across Wales is projected to increase by 31% by 2021.

With others earlier this year, I was there at the launch of the Alzheimer's Society Ffrindiau Dementia initiative, and, with £50,000 of funding from the Welsh Government, the society has been able to roll out the initiative across Wales. Dementia friends is designed to increase the wider understanding of dementia, augment advocacy services and roll out the training for those delivering care. The aim is to bring the issue of dementia to the forefront of people's minds in communities across Wales. Its success since March has been very striking. It has recruited more than 235 dementia champions and, as we have heard, more than 4,000 dementia friends across our nation, and I am very glad to be one of that number. I endorse everything that Lynne Neagle said about the quality of the training and information that goes alongside the initiative. It is why we are committed to the further development of dementia-supportive communities in Wales, to help us increase understanding, compassion and tolerance of dementia at a community level. You can see the ground swell of interest in dementia-supportive communities in the fact that, 12 months ago, there were two pilot communities active in Wales; now, there are 10 communities at different stages of development, and plans are under way for more. As Kirsty and Lynne have said, the two original communities, in Brecon and Swansea, have now been through the Alzheimer's Society's recognition process and both have recently gained the official working-to-become dementia-friendly status. They are the first communities in Wales to gain this status. As Kirsty Williams has said, there are people who, every single day, are looking after others in their families with dementia. Those people will have new rights as carers under the social services Act that this Assembly passed earlier this year. However, even with those rights, they also need that wider sense of support from those who live in the same street and in the same neighbourhood.

It has been excellent to see the interest and engagement from agencies such as the fire and rescue service, the police, NHS bodies, the national parks and mountain rescue services as they seek out dementia-friends training and encourage staff to attend. Some 80% of Brecon mountain rescue volunteers are now dementia friends. Brecon Beacons National Park has pledged to become the first dementia-friendly national park in the United Kingdom. In my own department here at Welsh Government, a growing number of officials have undertaken the training as well, as part of our commitment to this agenda.

Fel y mae eraill wedi dweud, mae pobl yn byw'n hwy ac mewn gwell iechyd corfforol, diolch i feddygaeth fodern a gwasanaethau iechyd cyhoeddus. Fodd bynnag, ochr yn ochr â'r cyflawniadau hynny, rhaid i ni dderbyn bod gennym gyfraddau cynyddol o ddementia. Fel y nododd Lynne, mae'r gwirionedd yn sboreiddiol. Mae un o bob pump o bobl dros 80 oed yn dioddef o ddementia a rhagwelir y bydd nifer y bobl â dementia ledled Cymru yn cynyddu 31% erbyn 2021.

Gydag eraill yn gynharach eleni, roeddwn yn bresennol yn lansiad menter Ffrindiau Dementia Cymdeithas Alzheimer's, a gyda £50,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru, mae'r Gymdeithas wedi gallu ymestyn y cynllun ar draws Cymru. Ffurfiwyd Ffrindiau Dementia er mwyn hybu dealltwriaeth ehangach o ddementia, gwella gwasanaethau eiriolaeth a chyflwyno hyfforddiant i'r rhai sy'n darparu gofal. Y nod yw dod â mater dementia i sylw pobl mewn cymunedau ledled Cymru. Mae ei lwyddiant ers mis Mawrth wedi bod yn drawiadol iawn. Mae wedi recriwtio mwy na 235 o hyrwyddwyr dementia ac fel y clywsom, dros 4,000 o ffrindiau dementia ar draws y wlad ac rwy'n falch iawn o fod yn un ohonynt. Cefnogaf bopeth a ddywedodd Lynne Neagle am ansawdd yr hyfforddiant a'r wybodaeth sy'n cydreddeg â'r fenter. Dyma pam rydym wedi ymrwymo i ddatblygu cymunedau dementia-gyfeillgar ymhellach yng Nghymru, er mwyn ein helpu i gynyddu dealltwriaeth, tosturi a goddefgarwch tuag at ddiodefwyr dementia ar lefel gymunedol. Gallwch weld yr ymchwydd yn y diddordeb mewn cymunedau dementia-gyfeillgar yn y ffaith fod dwy gymuned beilot weithgar ar waith yng Nghymru 12 mis yn ôl; erbyn hyn, mae 10 o gymunedau ar wahanol gamau yn eu datblygiad ac mae cynlluniau ar y gweill i gael mwy. Fel y dywedodd Kirsty a Lynne, mae'r ddwy gymuned wreiddiol, yn Aberhonddu ac Abertawe, bellach wedi bod drwy broses gydnabod Cymdeithas Alzheimer's ac yn ddiweddar, enillodd y ddwy statws swyddogol gweithio tuag at fod yn gymunedau dementia-gyfeillgar. Dyma'r cymunedau cyntaf yng Nghymru i ennill y statws hwn. Fel y dywedodd Kirsty Williams, mae yna bobl sy'n gofalu bob dydd o'r flwyddyn am bobl â dementia yn eu teuluoedd. Bydd y bobl hynny yn cael hawliau newydd fel gofaluwr o dan y ddeddf gwasanaethau cymdeithasol a basiwyd gan y Cynulliad yn gynharach eleni. Ond hyd yn oed gyda'r hawliau hynny, maent hefyd angen ymdeimlad ehangach o gymorth gan y rhai sy'n byw yn yr un stryd ac yn yr un gymdogaeth â hwy.

Mae wedi bod yn wych gweld diddordeb ac ymrwymiad asiantaethau fel y gwasanaeth tân ac achub, yr heddlu, cyrff y GIG, y parciau cenedlaethol a gwasanaethau achub mynydd wrth iddynt ofyn am hyfforddiant ffrindiau dementia ac annog staff i fynychu. Mae tua 80% o wirfoddolwyr achub mynydd y Bannau yn ffrindiau dementia erbyn hyn. Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi addo dod yn barc cenedlaethol dementia-gyfeillgar cyntaf y Deyrnas Unedig. Yn fy adran i yma yn Llywodraeth Cymru, mae nifer cynyddol o swyddogion wedi cael yr hyfforddiant hefyd, fel rhan o'n hymrwymiad i'r agenda hon.

The Welsh Government is committed to the broader agenda of increasing support, advice and information for those who receive a dementia diagnosis. It is an objective confirmed in 'Together for Mental Health'. We back that up with a 24-hour, seven-day-a-week Wales dementia helpline. I met the people who run the helpline earlier in the summer in Wrexham. It was very interesting to hear directly from them of the calls they get from people who experience looking after someone with dementia, during very dark moments in their lives. It is just a chance to phone somebody else to talk through what is going on in their lives, often at times of the day and night when others are not available to them. We are determined to keep that service going, as well as the ground-breaking book prescription scheme in Wales, which has publications on dementia available in all our libraries.

It is good to recognise the Alzheimer's Society in Wales for producing and disseminating another UK first—the living well with dementia after diagnosis information packs, which are now provided to all those diagnosed with dementia and their relatives or carers.

Dementia does not discriminate. It does not distinguish between rich or poor, race and gender, and, in rare cases, as Ann Jones has set out this afternoon, it can strike in earlier adulthood too. With that in mind, our health boards are now well advanced in the development of young onset dementia services across Wales, supported by new and additional funding from the Welsh Government.

Wrth siarad am bethau fel hynny, hoffwn ddweud ychydig eiriau am bwysigrwydd iaith mewn cymunedau cyfeillgar i ddementia. Gwyddom fod gan ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg arwyddocâd arbennig ym maes iechyd meddwl. Yn ddiweddar, ymwelais â gwasanaeth newydd da iawn ym Mhen-y-groes yn sir Gaerfyrddin, ger y pentrefi roedd Keith Davies yn cyfeirio atynt, o dan arweiniad meddygon teulu ac aelodau'r tîm gofal sylfaenol ehangach, sy'n tynnu pobl mewn i wasanaethau cymdeithasol a hefyd yn eu hintegreiddio, fel roedd Elin Jones yn dweud. Maent yn darparu clinig dementia, nid yn y feddygfa, ond yng nghanol y pentref. Y ffynhonnell unigol orau o atgyfeiriadau, maen nhw'n dweud wrthyf i, yw'r person sy'n torri gwallt yn y pentref sydd wedi adnabod y cwsmeriaid dros nifer o flynyddoedd ac yn gallu gweld yn gyflym iawn pan na fo unigolyn yn ymdopi gystal â'r arfer. Gan fod hon yn ymdrech sydd â'i gwreiddiau yn y gymuned, mae'n cyfathrebu'n union mor rhwydd a di-drafferth yn y ddwy iaith a ddefnyddir mewn bywyd bob dydd. O ganlyniad, mae'r ddwy yn fwy dementia-gyfeillgar ac yn agored i ddefnyddwyr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r agenda ehangach o gynyddu cymorth, cyngor a gwybodaeth i'r rhai sy'n cael diagnosis o ddementia. Mae'n amcan a gadarnhawyd yn 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl'. Rydym yn cefnogi hynny gyda llinell gymorth dementia 24 awr, saith diwrnod yr wythnos, ar gyfer Cymru. Yn gynharach yn yr haf, cyfarfûm â'r bobl sy'n rhedeg y llinell gymorth yn Wrecsam. Roedd yn ddiddorol iawn clywed yn uniongyrchol ganddynt am y galwadau a gânt gan bobl sy'n gofalu am rywun â dementia ar adegau trwyll iawn yn eu bywydau. Mae'n gyfle i ffonio rhywun arall i drafod beth sy'n digwydd yn eu bywydau, yn aml ar adegau o'r dydd a'r nos pan nad yw pobl eraill ar gael idynt. Rydym yn benderfynol o gadw'r gwasanaeth hwn i fynd, yn ogystal â'r cynllun presgripsiwn llyfrau arloesol yng Nghymru, sydd â chyhoeddiadau ar ddementia ar gael ym mhob un o'n llyfrgelloedd.

Mae'n dda cydnabod cyfraniad Cymdeithas Alzheimer's Cymru yn cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth arall am y tro cyntaf yn y DU—y pecynnau gwybodaeth byw yn dda gyda dementia ar ôl cael diagnosis, sydd bellach yn cael eu darparu i bawb sy'n dioddef o ddementia a'u perthnasau neu eu gofalwyr.

Nid yw Dementia yn gwahaniaethu. Nid yw'n gweld gwahaniaeth rhwng y cyfoethog a'r tlawd, rhwng hil a rhyw, ac mewn achosion prin, fel y nododd Ann Jones y prynhawn yma, gall daro oedolion iau hefyd. Gyda hynny mewn golwg, mae ein byrddau iechyd bellach wedi datblygu eu gwasanaethau dementia sy'n dechrau mewn oedolion iau ledled Cymru, wedi'u cefnogi gan gyllid newydd ac ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Talking about things like that, I would like to say a few words about the importance of language in dementia-friendly communities. We know that providing services through the medium of Welsh has special significance in the field of mental health. Recently, I visited a very good new service at Pen-y-groes in Carmarthenshire, near the villages that Keith Davies was referring to, under the leadership of general practitioners and members of the wider primary care team, drawing people in to social services and also integrating them, as Elin Jones said. They provide a dementia clinic, not in the surgery, but in the middle of the village. They tell me that the best single source of referrals is the person who cuts hair in the village who has known the customers over a number of years and can swiftly see when an individual is not coping as well as usual. As this is rooted within the community, it communicates easily and effortlessly in both of the languages used in everyday life. As a result, both are more dementia-friendly and open to service users.

While I mention 'sir Gâr', I would also like to mention Dr Mark Boulter, the Llandovery GP who leads the Welsh mental health in primary care network and has produced a new dementia training module to help us to drive up the rate of diagnosis in primary care. It is a training model for the whole of a primary care team. Twenty-five per cent of practices in Wales have already completed that training in the first year that it has been available. Ninety-seven per cent of those practices have agreed a practice dementia plan and appointed someone to lead on it. It is a resource funded through the Welsh Government, which won the overall prize in 'The Independent' newspaper's peer awards for excellence this year, overcoming competition from corporate giants such as British Gas.

There is more that we need to see done. Every time that a ward is refurbished in our hospitals, we are determined to make it more dementia-friendly and older-person-friendly, with better signage, clear bright colours for toilet doors, and other simple improvements that we know make a difference. Even so, however much we manage to do in our public services, we know that we cannot limit ourselves to improving the understanding of healthcare professionals alone. That is why the work of the dementia friends initiative is so important in helping us to build a more empathetic and compassionate Wales. The sort of community that I envisage is one where those who find themselves momentarily confused, distressed or in need of help will get that help, whether it is on a bus, in the local cafe, or in the library. That is when we will know that we have truly achieved a dementia-supportive nation.

Much has already been accomplished, and very quickly too. That is especially impressive, given the difficult financial circumstances in which all of us—in Government and in third-sector organisations—are now required to operate. However, we are at the start and have made a good start on the journey that lies ahead. I feel confident that, with the drive and determination of our third sector partners, with the shared interest that exists across this Chamber in doing better in this area, with the financial support that the Government wants to see continue for this agenda, we will make the ambition of living well with dementia a reality in communities across Wales.

Gan fy mod yn sôn am 'sir Gâr', hoffwn hefyd gyfeirio at Dr Mark Boulter, y meddyg teulu o Lanymddyfri sy'n arwain y rhwydwaith iechyd meddwl mewn gofal sylfaenol yng Nghymru ac sydd wedi cynhyrchu modiwl hyfforddiant dementia newydd i'n helpu i godi'r gyfradd o bobl sy'n cael diagnosis mewn gofal sylfaenol. Mae'n fodel hyfforddiant ar gyfer y tîm gofal sylfaenol cyfan. Mae dau ddeg pump y cant o bractisau yng Nghymru eisoes wedi cwblhau'r hyfforddiant yn y flwyddyn gyntaf ers iddo ddod ar gael. Mae naw deg saith y cant o'r practisau hynny wedi cytuno ar gynllun dementia ar gyfer y practis ac wedi penodi rhywun i'w arwain. Mae'n adnodd a ariennir drwy Lywodraeth Cymru, a enillodd y wobwr gyffredinol yng ngwobrau cymheiriaid er rhagoriaeth papur newydd 'The Independent' eleni, gan drechu cystadleuaeth o gyfeiriad cewri corfforaethol fel Nwy Prydain.

Mae angen i ni sicrhau bod rhagor yn cael ei wneud. Bob tro y caiff ward ei hadnewyddu yn ein hysbytai, rydym yn benderfynol o'i gwneud yn fwy dementia-gyfeillgar a haws i bobl hŷn ei defnyddio, gyda gwell arwyddion, lliwiau llachar clir ar ddrysau toiledau, a gwelliannau syml eraill y gwyddom eu bod yn gwneud gwahaniaeth. Er hynny, er cymaint y llwyddwn i'w wneud yn ein gwasanaethau cyhoeddus, gwyddom na allwn gyfyngu ein hunain i wella dealltwriaeth gweithwyr iechyd proffesiynol yn unig. Dyna pam y mae gwaith y fenter ffrindiau dementia mor bwysig i'n helpu i adeiladu Cymru fwy empathetig a thosturiol. Y math o gymuned rwy'n ei rhagweld yw un lle y bydd y sawl sy'n dioddef ennyd ddryslud neu ofidus neu sydd angen cymorth yn cael yr help hwnnw, boed ar fws, yn y caffi lleol neu yn y llyfrgell. Dyna pryd y byddwn yn gwybod ein bod wedi creu cenedl dementia-gyfeillgar mewn gwirionedd.

Mae llawer eisoes wedi ei gyflawni, ac yn gyflym iawn hefyd. Mae hynny'n arbennig o drawiadol, o ystyried yr amgylchiadau ariannol anodd y mae gofyn i bob un ohonom—yn y Llywodraeth ac mewn sefydliadau trydydd sector—weithredu ynddynt. Fodd bynnag, dyma gychwyn y daith sydd o'n blaenau ac rydym wedi dechrau'n dda. Gydag ysgogiad a phenderfyniad ein partneriaid yn y trydydd sector, gyda'r diddordeb cyffredin ar draws y Siambr hon mewn gwneud yn well yn y maes hwn, gyda chefnogaeth ariannol y mae'r Llywodraeth am ei weld yn parhau ar gyfer yr agenda hon, rwy'n hyderus y gallwn wireddu'r uchelgais o fyw'n dda dementia mewn cymunedau ledled Cymru.

19:03

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. That concludes today's proceedings. Thank you, team.

*Daeth y cyfarfod i ben am 19:03.*

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

*Tynnwyd cwestiwn 14, OAQ(4)0239(CTP), yn ôl.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Diolch i chi, Weinidog. Dyna ddiwedd y trafodion am heddiw. Diolch i'r tîm.

*The meeting ended at 19:03.*

## Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty

*Question 14, OAQ(4)0239(CTP), was withdrawn.*